


CWM EITHIN

Hugh Evans











Hugh Evans

CWM EITHIN

GAN

HUGH EVANS

LERPWL

GWASG Y BRYTHON

HUGH EVANS A'I FEIBION, CYF.

1950



AT Y DARLLENYDD

CYNNWYS y llyfr hwn ddetholiad o gyfres o Straeon Atgof a ysgrifennwyd i'r *Brython* yn y blynyddoedd 1923-26. Bu'n rhaid eu cwtdogi i'r hanner, eu crynhoi ac ad-drefnu peth arnynt i'w cael i mewn i lyfr a ellid ei werthu am bris isel. Yr oedd yn yr ysgrifau fel yr ymddangosasant yn *Y Brython* lawer o ddyfyniadau o hen gylchgronau a hen lyfrau. Bu'n rhaid eu gadael allan bron i gyd, ond rhoddir cyfeiriadau at rai ohonynt fel y gall y darllenydd droi iddynt os dewisa.

Nid oedd gennyf yr un bwriad o'u cyhoeddi'n llyfr wrth eu hysgrifennu; y rheswm i mi ofyn i'r golygydd eu cyhoeddi oedd mai hel hen hanesion fu fy hobi ar hyd fy oes, ac yr oedd gennyf doreth o nodiadau wrth law pan ddechreuais eu cyhoeddi. Rhoddais y gwaith i fyny oherwydd rhyw ddifaterwch, er bod gennyf ddigon o ddefnyddiau wrth law i ysgrifennu cyfres arall debyg. Hoffwn eto gyhoeddi cofiant i'r Tylwyth Teg oedd yn byw o gylch fy hen gartref, a rhai o'r ysbrydion a adwaenwn yn dda pan oeddwn yn hogyn, er na fûm erioed mor hoff ohonynt hwy ag o'r Tylwyth Teg; arferai rhai ohonynt wneud hen droeon digon sâl â mi ac eraill. Yr oedd i'r Tylwyth Teg ac i'r ysbrydion ran fawr ym mywyd Cymru yn yr hen amser, yn enwedig yn yr ystraeon a adroddid wed'-bo-nos, ond sydd erbyn hyn wedi diflannu a bron myned yn angof.

Diau y gofyn aml un, pa ddiben cyhoeddi ysgrifau fel hyn? Yn ôl fy syniad i y mae dau amcan, sef yn gyntaf magu gewynnau yn y to sydd yn codi, ac yn ail, gwneud cyfiawnder â'r tadau. Credaf mai ychydig iawn o'r to sydd yn codi a wŷr y nesaf peth i ddim am un o'r cyfnodau caletaf a fu erioed yn hanes Cymru, sef tua hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf. Dywaid Syr O. M. Edwards mai dyna'r cyfnod y bu fwyaf o ddioddef eisiau bwyd yn hanes ein cenedl. Yr ydym ninnau yn byw mewn cyfnod caled, ac efallai y bydd yn galetach yn y dyfodol, er yn wahanol iawn i amser y tadau. Ond pwy a wŷr na all darllen am y modd y brwydrodd llawer tad a mam am fwyd i'w plant bach ganrif yn ôl fod yn symbyliad i ryw dad a mam eto yn y dyfodol?

Y mae cymeriad y tadau a'n dyled iddynt yn gofyn am i rywun eu hamddiffyn.

Diau y gofynnir pa gymhwyster a feddaf i ysgrifennu hanes y cyfnod. Dyma'r ateb, sef bod fy nghof yn myned yn ôl ganrif a chwarter yn bur glir. Nid am fy mod yn gant a hanner mlwydd oed a mwy, ond oherwydd y flaith i mi gael fy magu gyda'm taid a'm nain oedd wedi eu geni yn y ddeunawfed ganrif, a'u hoff bleser hwy oedd atgoffa treialon y cyfnod gyda'i gilydd a chyda'u hen gyfoedion. Yr oedd fy nhaid wedi cael addysg dda, wedi bod yn Ellesmere yn yr ysgol am flynydd-oedd, a'i ddwyn i fyny yn dir-fesurydd. Yr oedd yn well Sais nag oedd o Gymro. Efo a arferai wneud ewyllysiau trigolion y cwm, gwneud llyfr y dreth, a gofalu am Restr y Plwyf. Felly yr oedd llawer o gyrchu i'm hen gartre, ac yr oeddwn innau yn clywed yn dda iawn y pryd hynny. Arferai fy mam a'm nain adrodd hanes treialon yr amserau beunydd beunos. Gallai fy mam fyned â mi unrhyw addeg ar ei braich yn ôl i 1820, a gallai fy nain fy nghymryd i 1795 yn ddidrafferth, a thrwy'r hyn a glywsai gan ei mam, i 1750. Enynnodd yr ymddiddanion ynof ddiddordeb yn yr hanes, ac y mae wedi parhau hyd heddiw. Y mae gennyf nifer o ewyllysiau'r trigolion, hen lyfrau Festri Cwm Eithin, llawer o bapurau ynglŷn â'r degwm a'r trethi, *Receipts* y rhenti, llawer o filiau masnachwyr Caer pan oedd fy nhaid yn cadw siop ddechrau'r ganrif ddiwethaf, hen gytundebau, papurau oddi wrth y Llywodraeth am drethi'r golau, etc., a ddaeth i'm meddiant ar ôl fy nhaid.

Pan ymddangosodd yr ysgrifau yn *Y Brython*, derbyniais nifer dda o lythyrau yn fy nghymell i'w cyhoeddi'n llyfr, ambell un ohonynt gan frodyr yr arferwn roddi gwerth ar eu barn, er y gwn y bydd pob hogyn yn rhoddi gwerth ar farn y rhai a fydd yn ei ganmol. Mentraf ollwng y llyfr ar ei daith fer neu hir.

Dymunaf gydnabod fy niolch i'm nai, Mr. John Edwards, M.A., Llandeilo, am gywiro'r orgraff, ac i'm mab ynghyfraith, Mr. Wm. Williams, F.L.A., a Mr. J. J. Jones, M.A., y ddau olaf o Aberystwyth, am lawer o awgrymiadau, am y mynegai, ac am ddarllen y profleuni. Yr wyf yn ddyledus i Dr. Cyril Fox, F.S.A., Cyfarwyddwr yr Amgueddfa Genedlaethol, am ei garedigrwydd yn rhoddi benthg nifer o ddarluniau hen gelfi sydd yn yr Amgueddfa, a chaniatâd i wneud *blocks* ohonynt.

Gadawyd orgraff y dyfyniadau mor agos ag y gellid i'r gwreiddiol.

RHAGAIR I'R AIL ARGRAFFIAD

DIAU mai'r peth cyntaf a ddylwn ei wneuthur yw diolch yn gynnes am y derbyniad a roddwyd i'm Cyfrol, ac am yr adolygiadau ffafriol a roddwyd iddi, peth a barodd fawr syndod i mi, yn enwedig eiddo yr Athro W. J. Gruffydd, M.A., yn *Y Llenor*. Gwerthwyd argraffiad pur helaeth mewn pymtheng mis. Bûm yn pryderu am flynyddoedd agyhoeddwn y gyfrol ai peidio, ond daliwn i gredu y byddai hanes hen draddodiadau ac arferion dechrau'r ganrif ddiwethaf yn ddiddorol i'r to sy'n codi, ac y gallai darllen am ddewrder y tadau yn wyneb gorthrwm a thlodi fod yn gymorth iddynt ymladd ag amgylchiadau gwasgedig eu tymor hwythau.

O'r diwedd, wedi hir berswâd amryw o gyfeillion, cymerais y cam, er mai ychydig ffydd oedd gennyf y gallwn wneuthur cyfiawnder â'r tadau, na chyfleu yr hanes mewn dull diddorol.

Drwg gennyf erbyn hyn na fuaswn wedi cyhoeddi'r gwaith yn gynt, a rhoddi rhagor ynddo cyn i'm cof ddechrau chware mig â mi.

Un peth arall a'm cymhellai i gyhoeddi'r llyfr oedd fy nghred mai trychineb i'r iaith Gymraeg fyddai i lenorion gwerin ddarfod o'r tir; fe gadwant ddolen gysylltiol rhwng ein dysgedigion a'r darllenwr cyffredin. Credaf i'n dysgedigion ddechrau'r ganrif hon, wrth wneuthur y gwaith ardderchog o buro'r iaith, fod yn rhy lawdrwm ar y gwerinwr ac eraill na allent ysgrifennu Cymraeg cywir, er y gallent ysgrifennu Cymraeg dealladwy a diddorol, ac aethant, lawer ohonynt, i ysgrifennu hyd yn oed eu llythyrau yn Saesneg. Caent ysgrifennu rhyw fath o Saesneg heb i neb eu beirniadu. Ond mae pethau'n dod yr well. Ceir llythyrau Cymraeg o ardaloedd digon Seisnigaidd i'r *Brython* heddiw gyda'r deisyfiad ar y Golygydd, "Os y gwelwch yn dda bolisio tipyn ar fy Nghymraeg." Credaf pa bryd bynnag y peidia'r gwerinwr ag ysgrifennu iaith ei fam nad hir y bydd cyn ei cholli oddi ar ei wefus. Rhaid i'r gwerinwr gael llonydd i ysgrifennu Cymraeg orau y medro, fel y caffai o dan deyrnasiad Syr O. M. Edwards.

Caraf y Gymraeg â'm holl galon, er na fedraf ei hysgrifennu agos yn gywir, a gwneuthum fy ngorau i'w chadw yn fyw yn Lerpwl. Dechreuais werthu llyfrau Cymraeg ar ôl fy niwrnod gwaith ddechrau 1885, a dechreuais argraffu yn 1896, ac o hynny ymlaen, gyda'm meibion, Evan Meirion a Howell Evans, argraffwyd a chyhoeddwyd dros 300 o lyfrau mawr a mân gennym. Y mae'r *Brython* wedi dathlu ei seithfed flwydd ar hugain, ac yn gwneuthur ei orau i gadw'r hen iaith yn fyw.

Yn awr, wele ail argraffiad o GWM EITHIN. Gwneuthum rai cywiriadau yma ac acw. Diolchaf i Bodfan, Mr. J. J. Jones, M.A., a'm mab yng nghyfraith, Mr. William Williams, y ddau ddiwethaf o'r Llyfrgell Genedlaethol, am ei ddarllen drwyddo yn fanwl i chwilio am wallau, a'u cywiro, ac i amryw eraill am eu hawgrymiadau; i'm nai, Mr. John Edwards, M.A., Llandeilo, am ymweled â rhai o hen drigolion Cwm Eithin yn ystod ei wyliau, a chael eu barn ar rai pethau yn y gyfrol. Ychwanegais hefyd ychydig dudalennau¹ i egluro rhai pethau yn y llyfr.

HUGH EVANS.

Mawrth 1933.

NODIAD I'R TRYDYDD ARGRAFFIAD

DYMUNA'r Cyhoeddwyr ddiolch yn arbennig i Mr. E. G. Bowen, M.A., Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, am dynnu allan y map o "Gwm Eithin." Gwêl y darlennydd fod y map a'r Rhestr o Enwau Lleoedd a Phobl yn ychwanegiad gwerthfawr i'r gyfrol a'r argraffiad hwn.

HUGH EVANS A'I FEIBION, CYF.

Medi, 1943.

¹Gweler yr Atodiad ar y diwedd.

RHESTR O ENWAU LLEOEDD A PHOBL Y CRYBWYLLIR AMDANYNT YN CWM EITHIN

Wrth ysgrifennu'r llyfr bwriadodd Hugh Evans iddo fod yn ddisgrifiad o ardal wledig nodweddiadol Gymreig. Oherwydd hynny, dychmygol hollol yw llawer o enwau'r lleoedd a'r personau a ddisgrifir yn y llyfr. Ni chytunai'r awdur â datgelu cyfrinach yr enwau hyn adeg yr ail-argraffiad yn 1933. Serch hynny, ymhen amser, fe gasglwyd ganddo restr o enwau, a chytunodd roddi rhestr gyflawn ynghyd â map o'r ardal mewn argraffiadau diweddarach.

Hugh Evans ei hun a roes imi, ar dafod leferydd, y rhestr ganlynol. Dynoda'r enwau lleoedd yr ardal arbennig honno a gyfenwyd gan yr awdur yn *Cwm Eithin*. Gwelir nad yw llawer o enwau'r bobl ond enwau ffug hollol, tra'r lleill yn dangos ychydig newid, addasu ac ystumio ar yr enwau priodol.

Cynnwys *Cwm Eithin* rannau o Sir Ddinbych a Sir Feirionnydd. Ymestyn, mewn un rhan, o Bentrefoelas i'r Bala, gan gynnwys Cwmpenanner, Cwmtirmynach a Chwm Main; yna mewn hanner cylch o'r Bala i Llandderfel, Llandrillo, Cynwyd a Chorwen, gyda chyfeiriadau at Lyndyfrdwy a Llangollen; yna'n ôl trwy Fryneglwys, Gwyddelwern, Melin y Wig, Hafod Elwy a Cherrig-y-Drudion i Bentrefoelas.

Y prif ardaloedd o fewn *Cwm Eithin*, a chefnidir y cyfan o'r gwaith, yw Llangwm (*Llanfryniau*), Cerrig-y-Drudion (*Llanaled*), Llanfihangel Glyn Myfyr (*Llanllonydd*), a Chwm Main (*Cwm Annibynia* a *Chwm Dwydorth*).

Nid rhyfedd i Hugh Evans ddewis 'Cwm Eithin' yn enw i'w lyfr,—nodwedd amlycaf yr holl ardal yw'r tyfiant aruthrol o eithin aur a welir ymhobman.

W.W.

<i>Enw</i>	<i>Tudalen</i>	<i>Nodiadau</i>
Aer y Pyllau -	- 105	Enw ar Y Clawdd Newydd, rhwng Cerrig-y-Drudion a Rhuthyn, yw Y Pyllau.
Bardd y Drysau -	- 194	R. H. Jones, Wallasey.
Betsen y Garwyd -	- 171	Gwraig i Ellis y Garwyd, nai John Ellis y cerddor. Tyddyn bychan yn ardal Dinmael, oedd Y Garwyd.

<i>Enw</i>	<i>Tudalen</i>	<i>Nodiadau</i>
Bowen, Mr., <i>Twrnai</i>	- 59	Enw dychmygol i gynrychioli twrnai o Gorwen.
Bryn Bras - - -	69	Tu ôl i ffermdy Pen-y-bryn, Ty'n Rhyd, Cerrig-y-Drudion.
Bwlchrhisgog - - -	1	Gallt rhwng gorsaf Berwyn (Llan-gollen) a Glyn Dyfrdwy.
Clough, Mr. - - -	124	Enw iawn porthmon yn byw yn Llandrillo.
Carreg Fawr Syrior (<i>ffridd</i>)	104	Yn ymyl Llandderfel.
Cors Pant Dedwydd - - -	105	Rhwng Cerrig-y-Drudion a Glas-fryn.
Cwm Annibynia - - -	180	Cwm Main (rhwng Pont-y-Glyn a Dinmael, ac yn gorffen yn y Big-faen, y Sarnau).
Cwm Dwydorth - - -	180	Ffug-enw ar yr uchod.
Cwm Main - - -	180	Yr enw arferol ar yr uchod.
Edwards, John - - -	96	Crydd, Cerrig-y-Drudion.
Edwards, William - - -	110	Yn byw yn y Colomendy, Cynwyd.
Elian, <i>ffynnon</i> - - -	53	Yn agos i Fae Colwyn.
Ellis, Jenny } William }	55	Gŵr a gwraig Llys Dinmael Uchaf, lle bu'r awdur fyw am ddwy flynedd.
Ellis, John - - -	55	Y cerddor. Ewythr yr awdur. Am hanes John Ellis <i>gweler</i> adroddiadau capel M.C. Llanrwst.
Ellis, Robert - - -	115	Yn byw yng Nghefn Brith, yn ymyl Cerrig-y-Drudion. Yn arfer dyrnu yn Hendre ar Ddwyfan, y fferm agosaf i gartre'r awdur.
Ellis, William - - -	55	Nai John Ellis, y cerddor. <i>Gweler hefyd</i> Ellis, Jenny, uchod.
Elusendai - - -	36	Yng Ngherrig-y-Drudion.
Ffowc, Peter - - -	59	Aer Tŷ Gwyn, Llangwm.
Gruffydd yr Odyn - - -	47	Enw ar y Maerdy, Corwen, yw yr Odyn.
Hafod Elwy - - -	140	O'r tu uchaf i Gerrig-y-Drudion. Yn awr o dan lyn dwr Penbedw.
Henblas, Yr - - -	3	Fferm yn ymyl Capel Gellioedd.
Huw Dafydd, <i>Cwm Eithin</i>	209	John Parry, Moelfre Fawr, Cerrig-y-Drudion, ond yn byw yn Bryn Bras pan gymerth vr ymddiddau yma le.

<i>Enw</i>	<i>Tudalen</i>	<i>Nodiadau</i>
Huws, Evan - -	208	Pen-y-gaer, y tu uchaf i Tynra'lt.
Huws, John, <i>Cwm Eithin</i> - -	209	Y Castell, bwthyn ar y llechwedd tu ôl i Disgarth Ucha, Llangwm.
Jac Lanfor - - -	52	Dyma'r unig enw y gwyddys amdano.
Jac y Pandy - - -	52	Mab Pandy'r Glyn, y tu isaf i Bont y Glyn. Yr oedd yn perthyn i deulu John Ellis y cerddor.
Jones, Beti, <i>Ceunant</i> - -	48	Cymeriad. allan o hen goel ar lafar gwlad.
Jones, Edward, <i>Aeddren</i> - -	143	Enw fferm yn ymyl Capel Gellioedd, oedd Aeddren.
Jones, Evan, <i>Aeddren</i> - -	143	Tad yr Edward Jones uchod.
Jones, John, <i>Pen-y-Geulan</i>	100	Pen-y-Geulan, Cynwyd.
Jones, Richard, <i>Cwm Eithin</i>	209	Ffermwr, Tŷ Cerrig, Llangwm.
Jones, Robert - - -	38	Brawd 'Jac Glan y Gors.' Bu farw ym Mwlich-y-Beudy, Cerrig-y-Drudion.
Jones, Robert, <i>Tŷ Newydd</i>	28	Mab Tŷ Tafarn, Llangwm. Yr unig dafarn yn y llan.
Jones, Siân - - -	48	Gwraig Evan Jones, sadler. Yn pob i ac yn gwerthu bara mewn tŷ bychan, ym mhen uchaf llan Cerrig-y-Drudion.
Jones, Thomas - - -	194	Bardd, Cerrigellgwm.
Jones, Thomas, <i>Llidiart y Gwartheg</i>	102	} Yr un dyn. Yn byw mewn tŷ mewn rhes o dai yn ymyl Cerrig-y-Drudion.
Jones, Thomas, <i>toŵr</i> - -	101	
Jones, William, <i>Lerpwl</i> - -	193	Mab y Lion, Cerrig-y-Drudion, a ddaeth yn <i>contractor</i> mawr yn Lerpwl, ac a adwaenid fel William Jones, Duke Street.
Lias y siop - - -	185	Elias Williams, fferyllydd yng Ngherrig-y-Drudion. Tad Isaac, John a Gruffydd Williams, doctoriaid yn Llundain, a thaid Cecil Williams, Ysgrifennydd presennol Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion.
Llanaled - - -	36	Enw ar bentref Cerrig-y-Drudion.
Llanfryniau - - -	186	Enw ar Langwm.
Llanllonydd - - -	190	Llanfihangel Glyn Myfyr.
Lloyd, John - - -	99	Tŷ'n y Berth. Fferm yn ymyl Cynwyd.

<i>Enw</i>		<i>Tudalen</i>	<i>Nodiadau</i>
Llwyd, Morris	-	- 44	Hwsmon yn Hendre ar Ddwyfan, Llangwm. Yn byw mewn bwthyn ar ochr y Gwernannau.
Llwyd, William	-	- 176	Cychwynnydd yr achos Methodist-aidd yn Lerpwl. Prynwr a gwerthwr 'sanau.
Mari Wiliam	-	- 172	Pen-y-Criglyn, bwthyn ar y boncyn o'r tu uchaf i Ysgol y Cyngor, Cynwyd.
'Mony'n'	-	- 4	Adwaenid fel Rhobert [?], Pig-y-bont, Llangwm.
Morgan Dafydd, <i>Llanllonydd</i>		207	Cadwaladr Lloyd, Rhiw Goch, penblaenor yng Nghapel Llanfihangel Glyn Myfyr.
Morgan, Huw	-	- 3	Huw Hughes, Tŷ Nant, ffermdy tu-ôl i Glyn Nannau, Llangwm.
Morgan, John	-	- 143	Enw dychmygol.
Morus y Craswr	-	- 118	Morris Williams. Yn byw mewn bwthyn yn y King, Cerrig-yn Drudion.
Morus y Crydd	-	- 96	Cefnder i fam yr awdur. Crydd yn cadw gweithdy yn Nhy'n Rhyd, Cerrig-y-Drudion.
Mwrog	-	- 187	Bailiff o dan yr <i>Ecclesiastic Commissioners</i> (helynt y degwm) ac yn byw yn Ninbych.
Mynydd Main	-	- 102	Rhwng Cerrig-y-Drudion a Phentre Llyn Cymer.
Owen, Tomos, <i>Tai Mawr</i>	-	30	Cwm Main. Tad Edward Owen (Owens & Peck, timber merchants, Bootle).
Pentre Gwernrwst	-	- 154	Yng Nghwmtirmynach.
Phillip, Gwen	-	- 201	Gwen Phillip Morris, o Gerrig-y-Drudion.
Plas yn Ddôl	-	- 134	Y Ddwyryd, Corwen.
Richards, Ellen	-	- 68	Yn byw mewn caban unos, yn ymyl Tynygwern, Nannau, Llangwm. Gwraig Dafydd Richard [Tŷ Dafydd Richard, tud. 69].
Robert Nelar	-	- 97	Nelar yn gweithio i Elias Williams (<i>Lias y Siop</i>), tad y doctoriaid.
Roberts [?]	-	- 105	Botegir, Llanfihangel Glyn Myfyr.
Roberts, Dafydd	-	- 37	Ty'n Rhyd, Cerrig-y-Drudion.


<i>Enw</i>	<i>Tudalen</i>	<i>Nodiadau</i>
Roberts, Edward - -	112	Y Rhyl, gynt o Gynwyd. Yn fyw yn 1931, adeg cyhoeddi <i>Cwm Eithin</i> .
Roberts, Robert - -	107	Gwernannau, Llangwm.
Roberts, Thomas - -	100	Cwper, Cynwyd.
Rhyd, Olwen - -	172	Yn agos i Gellioedd Ucha, Cwmtir-mynach.
Sali, <i>Tŷ Tan y Berllan</i> - -	210	Tŷ Nant, Llangwm.
Siôn Ifan - -	61	John Evans, Pennant, yn ymyl Tyn-ygwern, Nannau, Llangwm.
Sion y Fawnog - -	21	Evan (?) y Gaerwen, rhwng Cynwyd a Glan'rafon. Brawd iddo wedi priodi chwaer mam yr awdur.
Soar, <i>Capel</i> - -	30	Yng Nghwm Main.
Stephenson, William - -	100	Hafod Bleddyn, Cynwyd.
Syth, William - -	61	Edward Thomas. Yn byw yn llan Llangwm. Ewythr 'Uncle Ned' (Edward Thomas, y Groudd) porthmon yn byw yng Ngherrigy-Drudion.
Tŷ Dafydd Richard - -	69	Yn ymyl Tyn-ygwern, Nannau, Llangwm.
Tŷ John y Cwmon - -	69	Y tu uchaf i Bont Tai'n rhos, gwaelod Cwmpenanner. Priododd Dafydd Richard a John y Cwmon ddwy chwaer.
Tŷ Twyrch - -	69	Ar ochr Mynydd Main rhwng Cerrig-y-Drudion a Phentre Llyn Cymer.
Watson, James - -	96	Ty'n Rhyd, Cerrig-y-Drudion.
'Wil Bryn Hir' - -	187	O Lanfihangel Glyn Myfyr.
Wil y Cwmon- - -	155	Enw hollol ddychmygol.
Williams, <i>Meistr</i> - -	205	William Williams, Gwerclas, Cynwyd.
Williams, Evan, <i>ffeltior</i> - -	99	Byw yn agos i gapel Salem, Cynwyd.
Williams, William - -	99	Brawd Evan Williams, Yn byyw yn agos i gapel Salem, Cynwyd.

CYNNWYS

	<i>Tud.</i>
AT Y DARLLENYDD - - - - -	v
RHAGAIR I'R AIL ARGRAFFIAD - - - - -	vii
NODIAD I'R TRYDYDD ARGRAFFIAD - - - - -	viii
RHESTR O ENWAU LLEOEDD A PHOBL - - - - -	ix
Y DARLUNIAU - - - - -	xv
RHAGARWEINIAD - - - - -	1
I. Y CYFNOD. CALEDI'R AMSEROEDD. CYNI'R WERIN - - - - -	6
II. Y TRIGOLION: Y FFERMWYR - - - - -	21
III. Y TRIGOLION: Y GWAS A'R GWEITHIWR - - - - -	34
IV. Y TRIGOLION: Y FORWYN A'R YMBORTH - - - - -	43
V. "BYDDIGIONS." HELYNT YR ARIAN MAWR - - - - -	52
VI. YR HEN FYTHYNNOD - - - - -	63
VII. RHANNU'R MYNYDD - - - - -	71
VIII. HEN DDIWYDIANNAU, I. - - - - -	82
IX. HEN DDIWYDIANNAU, II. - - - - -	96
X. HEN DDIWYDIANNAU, III. - - - - -	109
XI. GWAITH A CHELFI FFARM - - - - -	128
XII. HEN DDEFODAU AC ARFERION, I. - - - - -	145
XIII. HEN DDEFODAU AC ARFERION, II. - - - - -	157
XIV. HEN ARFERION BENDITHIOL I'R TLAWD - - - - -	170
XV. CWM ANNIBYNIA. MUDO A DYDDIAU YSGOL - - - - -	180
XVI. ENWADAU CWM EITHIN - - - - -	196
XVII. EIN CAPEL NI - - - - -	203
ATODIAD - - - - -	213
MYNEGAI - - - - -	223

Y DARLUNIAU

YR AWDUR	-	-	-	-	-	-	-	Wyneb ddalen
TOCYN <i>Tŷ Issa Gate</i>	-	-	-	-	-	-	-	2
ENGHRAIFFT O <i>Grocer's Bill</i> , 1816	-	-	-	-	-	-	-	9
TOCYN GLO, 1853	-	-	-	-	-	-	-	10
TWM POOLE	-	-	-	-	-	-	-	57
TRAP I DDAL DYNION	-	-	-	-	-	-	-	80
MAINC GARDIO	-	-	-	-	-	-	-	86
Y GWYDD	-	-	-	-	-	-	-	90
Y PRIS A DELID AM WTHIO, 1815	-	-	-	-	-	-	-	104
HAEARN GWTHIO. Y FFUST. HAEARN TORRI MAWN. BACH GWAIR								106
Y CRYMAN MEDI. Y SICL	-	-	-	-	-	-	-	111
Y PRIS A DELID AM DDYRNU, 1831	-	-	-	-	-	-	-	116
Y PILYN PWN. YR ARADR BREN. YR IAU	-	-	-	-	-	-	-	129
Y WINDAS GAWS	-	-	-	-	-	-	-	132
Y FUDDAI SIGLO	-	-	-	-	-	-	-	133
CANHWYLLBREN CANNWYLL FRWYN	-	-	-	-	-	-	-	158
Y BWTHYN	-	-	-	-	-	-	-	184
EIN CAPEL NI	-	-	-	-	-	-	-	204
MERTHYRON Y DEGWM	-	-	-	-	-	-	<i>Wynebu</i>	218
<i>Injan MALU EITHIN</i>	-	-	-	-	-	-	"	219
BUDDAI GŴN	-	-	-	-	-	-	"	219



RHAGARWEINIAD

SAIF Cwm Eithin yng nghanol mynyddoedd Cymru, o ddeg i bymtheng milltir a mwy o bob man. Rhed afon fechan, risialaidd, ar hyd ei waelod, a ffordd dyrpeg ar hyd ei lannau. Un o'r manau iachaf yn y wlad ydyw. O ben un o'i fryniau gwelir copâu y Berwyn, Cadair Idris, Arennig, yr Aran, Carneddi Dafydd a Llewelyn, a Hiraethog, a'r Wyddfa, fel rhes o gadfridogion o'i amgylch. Oherwydd arfer craffu i'r pellter, ni flinid y trigolion gan olwg byr.

Ni ellir galw Cwm Eithin yn gwm yn ystyr fanylaf y gair ; nid yw, fel cymoedd cyffredin Cymru, yn ymagor o un o'i ddyffrynnoedd ac yn darfod yn bigfain mewn mynydd. Rhan o wlad ydyw, wedi ei gau o bobtu gan fynyddoedd, a'i ddau ben yn ymagor i ddyffrynnoedd eang a bras. Mae crwb yn ei ganol, a rhed y dwfr allan o'i ddau ben. Ond gellir ei alw yn gwm yn yr un ystyr ag y gelwir y rhimyn môr sy rhwng Môn ac Arfon yn afon. Ac fel y rhed nifer o aberoedd Môn ac Arfon i Fenai, felly y rhed nifer o fân gymoedd i Gwm Eithin. Y mae o ugain i ddeng milltir ar hugain o hyd, yn goediog a ffrwythlon iawn yn ei ddau ben. Ond â rhan fechan yn ei ganol y mae a fynnwyf yn fwyaf neilltuol, y rhan gulaf, noethlymaf, lle y tyf llawer mwy o eithin nag o goed ; felly gwelir priodoldeb yr enw.

Nid oedd mwg y trêen wedi ei ddifwyno pan welais i ef gyntaf, ac y mae uwchlaw ugain milltir ohono eto heb yr un trêen. Yr adeg honno yr oedd deng milltir ar hugain o'r pen a alwem ni yn ben uchaf i fyned i nôl llwyth o lo ; ac er y llosgid cryn lawer o fawn yno, nid oedd awr o'r nos na'r dydd na byddai gwedd-oedd yn myned ôl a blaen i gyrchu glo a chalch. Cychwynnai y rhai pellaf o wyth i ddeg o'r gloch y nos, fel y cyrhaeddent y giât gyntaf pan fyddai'n troi hanner nos, ac ymdrechent ei chyrr-aedd yn ôl drachefn cyn hanner nos drannoeth, fel na byddai'n rhaid talu'r un giât fwy nag unwaith, yr hyn a gostiai, fel y gwelir, am geffyl a throl rôl, a dwy geiniog am bob ceffyl yn rhagor, os da y cofiaf. Felly cymerai'r daith i'r glo oddeutu pedair awr ar hugain o'r pen uchaf.

Yr oedd eisiau llanc gwrol a phenderfynol i fentro trwy goed-wigoedd Bwlchrhisgog ar noswaith dywyll wrtho'i hun, oher-

CWM EITHIN

TY ISSA GATE,
Frees Corwen Gate

No.	s.	d.
Carriage		
Gig		
1 Cart Horses.....	-	4
Cattle		
Shcep. or Pigs.....		

1841
September 25

wydd yr oedd yno ysbryd, a llawer un wedi ei weled. Yr oedd yno ladron hefyd, ac aml un wedi colli ei *watch* a chymaint ag a feddai o bres. Felly trefnai'r bechgyn i fyned yn finteioedd gyda'i gilydd. Meddyliai'r bechgyn lawer o'r siwrnai i'r glo. Diwrnod i'w gofio ym mywyd hogyn oedd y diwrnod cyntaf yr aeth i'r glo. Mawr fyddai'r paratoi y diwrnod cynt, golchi ac iro'r drol, glanhau gêr y ceffylau a phlethu eu cynffonnau. A chymerai'r ceffylau hwythau ddiddordeb mawr yn y peth. O mor heini a gwisgi y cychwynent! Nid oes gwestiwn yn fy meddwl nad yw ceffyl yn greadur balch, a gŵyr yn iawn pan fo'r hogyn gyrru'r wedd wedi plethu ei gynffon, a rhoddi seren bres ar ei dalcen a rhubannau yn ei fwng. A pha le y gwelir golygfa harddach a mwy arddunol na gwedd o dri neu bedwar ceffyl yn cychwyn i siwrnai ac yn cystadlu â'i gilydd am y mwyaf urddasol i ddal eu pennau, ac am y mwyaf heini i godi eu traed? Pa hogyn gyrru'r wedd na theimlodd iasau o hyfrydwch pan fyddai'n rhoi clec ar ei chwip i gychwyn, a'r ceffylau yn prancio ac yn dawnsio mewn llawenydd wrth glywed ei glec, fel pe'n dywedyd ynddynt eu hunain, "Mi gymerwn ni arnom ddychrynnu rhag dy ofn di a'th chwip i'th blesio di, ond mi wyddom ni yn dda nad oes llawer o berygl yn dy glec di?"

Er hynny siwrnai ddigon digalon oedd siwrnai i'r glo ar dywydd garw rhew ac eira. Ni feddyliai'r hogiau ddim o golli cysgu am noswaith neu ddwy, ac ni feddyliodd yr un ohonynt erioed am *overtime* am wneuthur hynny. Ond byddai'r oerni a'r gwlybanaeth yn dywedyd arnynt. Clywais am hen wraig o

Lanuwhllyn, a arferai aros ar ei thraed trwy'r nos i gadw tanllwyth o dân yn y grât rhag ofn i'r mab gael annwyd wrth fyned i'r glo, ond am lanciau Cwm Eithin, gadewid iddynt hwy, druain, ymdaro orau y medrent yn yr oerni.

Y mae'r hen giataiu wedi eu tynnu ers llawer dydd, ond y mae llawer o dai'r giataiu yn aros eto, a diau fod llawer teithiwr mewn modur yn methu deall beth ydynt. Tai bach oeddynt, isel, unllawr, a ffenestr y gellid gweled i ddau gyfeiriad ohoni. Cofiaf yn dda un o'r hen drigolion, Huw Morgan, a gymerth ran flaenllaw yn helynt Y 'Becca, pan dorwyd yr hen giataiu, ac y taflwyd hwy i'r afonydd. Cafodd ei anfon am dymor i'r carchar i Ruthyn. Clywais ef yn adrodd lawer tro lle mor druenus oedd y carchar yr adeg honno.

Rhedai y "goits fawr" ar hyd y tyrpeg yn yr haf; ond nid ar gyfer pobl Cwm Eithin yr oedd hi, "byddigions" a fyddai hi yn eu cludo. Pe gwelsid un o'r trigolion ar ei phen, buasai yn ddigon o waith siarad am fis. Ar gefnau eu ceffylau, yn eu cerbydau, yn eu troliau, neu ar eu traed yr aent hwy i bob man. Ni feddylient ddim o bicio i'r dref ryw ddeng milltir o ffordd a chludo baich yn ôl a blaen. Yr oeddynt yn gerddwyr ardderchog. Ar hyd y ffordd dyrpeg yr âi gyroedd o geffylau, gwartheg, moch, defaid a gwyddau o Gymru i lawr i Loegr. Byddai'r caeau o gylch pentref Llanaled ar adegau neilltuol o'r flwyddyn yn llawn o anifeiliaid yn aros dros y nos. Yno pedolidd y gwartheg rhag i'w traed friwio. Gydag un o'r gyroedd hyn yr aeth Dic Siôn Dafydd i lawr i Loegr, "a'i drwyn o fewn llathen i gynffon llo." Gofynnid amynedd mawr i yrru gwyddau, gan mai cerddwyr gwael iawn ydynt.

Deallaf yr arferid pedoli gwyddau yn yr hen amser, trwy rodidi eu traed mewn pyg, ond nid yn fy amser i. Nid wyf yn cofio erioed i mi weled gyr o ieir yn pasio, na, fe fynnent hwy gael eu cario. Clywais i Joe yr Henblas geisio myned â gyr i Ruthyn unwaith, ond i'r ymdrech fyned yn fethiant. Yr oedd Joe dipyn yn ddiniweitiach na'r cyffredin. Un noswaith dywedodd ei feistres wrtho, "Joe, mae'n rhaid inni gael yr ieir yn barod i fyned i Ruthyn; ni fydd dim amser yn y bore." Aeth Joe allan ar y gair a chododd yr holl ieir o'u clwydi, gan feddwl eu hel at ei gilydd; a dyna lle bu'n rhedeg ar eu holau o'r naill fan i'r llall nes llwyr ddiffygio. Aeth i'r tŷ yn ôl yn chwys diferol. "Meistres," meddai, "fedra'i gael trefn yn y byd ar yr hen

ieir yna. Ma' nhw'n rhedeg un gog gog ffordd yma a'r llall gog gog ffordd arall."

Gwelir felly, er mai mewn cwm y trigiannai pobl Cwm Eithin, nad oeddynt anhysbys am y byd oddi allan. Gwyddent fod un pen i'r cwm yn agor i wlad fawr gyfoethog a bras a elwid Lloegr. Yr oedd ganddynt dri o brofion diymwad o'i bodolaeth.

1. Gwelsent filoedd ar filoedd o geffylau, gwartheg, defaid, moch, a gwyddau ar eu ffordd yno, ac ni byddai'r un ohonynt byth yn dyfod yn ôl. Dychwelai'r gyrwyr gan ddywedyd bod yno ddigon o le i ragor; rhaid ei bod yn wlad fawr.

2. Yr oedd gan y porthmyn a ddeuai oddiyno ddigonedd o arian i dalu am yr anifeiliaid; rhaid ei bod yn wlad gyfoethog iawn.

3. Arferai nifer o'r dynion fyned i Sir Amwythig bob blwyddyn i'r cynhaeaf i fedi gwenith, a dychwelent gan ddywedyd eu bod yn cael eu gwala a'u gweddill o fara gwyn. Rhaid ei bod yn wlad fras. Parai hynny i drigolion Cwm Eithin a fywai ar fara haidd, awyddu am wynnach bwyd, ond nid "gloywach nen."

Gwyddent hefyd am fodolaeth Sir Fôn yn rhywle o'r tu ôl i fynyddoedd Eryri, a welent yn cusanu'r cymylau gwynion bob diwrnod braf, ac yr oedd ganddynt dri o brofion diymwad o'i bodolaeth: 1. Deuai John Elias o Fôn i sasiwn y Bala bob blwyddyn; 2. Yr oedd hyn a hyn o filltiroedd i "Holyhead" yn gerfiedig ar bob carreg filltir ar hyd y Cwm, ac arferai'r tadau ddywedyd wrth y plant mai ym mhen draw Sir Fôn yr oedd Holyhead, ac mai'r ffordd honno y deuai'r trampars o Iwerddon i Gwm Eithin; 3. Yr oedd yno wŷr o Fôn wedi ymsefydlu yng Nghwm Eithin. Adweinid ef wrth yr enw "Monyn." Cwmon oedd wrth ei alwedigaeth, dyn afrosgo, a'i draed fel bysedd cloc ar chwarter wedi naw. Buasech yn synnu, wrth ei weled, pa fodd yr oedd wedi cerdded yr holl ffordd o Fôn i Gwm Eithin. Ond yno yr oedd, ac ni ddylid synnu am ddim a wna pobl Sir Fôn; meddant ryw ynni a phenderfyniad i fyned drwy anawsterau nad ydym ni, drigolion y berfeddwlad, yn feddiannol arnynt. Y maent i'w cael ym mhob rhan o'r byd, ac, ond odid, ymhellach o lawer na hynny. Yn debyg fel y clywais "Dyfed" yn dywedyd am y Cardis. Un tro yr oedd pwyllgor cryf o Saeson wedi ei ffurfio i gael gafael ar ben draw'r byd. Dewiswyd cwmni o wŷr dewrion a gwydn at y gwaith. Cychwynasant ar eu taith beryglus ac anturiaethus. Ar ôl chwilio, dioddef caledi anhygoel, a bod mewn enbydrwydd am

eu heinioes, cyraeddasant at wal fawr, uchel, gwal pen draw'r byd. Nid oedd lle yn y byd yr ochr draw i'r wal. Ar ôl chwilio tipyn arni, gosod yr Union Jack i gyhwfan oddi arni, llongyfarch ei gilydd ar eu llwyddiant mawr, gloddesta ar y clod a ddeuai iddynt pan ddychwelent, hwyliasant i gychwyn adref. Meddai un ohonynt, oedd ychydig mwy henffel na'r gweddill, "Fase ddim gwell i ni ddringo i ben y wal, rhag ofn fod yno rywbeth yr ochr draw iddi?" Cytunwyd i wneuthur hynny, a phan gyraeddasant ei phen, beth a welent, er eu syndod, ond Cardi yn eistedd ar ei sodlau yn smocio'n braf yr ochr draw i wal pen draw'r byd. Ac ni synnwn i ddim, pe buasant wedi myned ychydig ymhellach, na ddaethent ar draws gŵr o Fôn yn chwilio am glai i wneuthur brics, neu yn ceisio symud ychydig ar y tywod â'i droed i wneuthur sylfaen i godi tŷ.

Deuai trigolion Cwm Eithin i gysylltiad â phob math o bobl, o'r pregethwr teithiol i lawr at y prynwyr gwartheg a'r "byddigions" a ddeuai yno i saethu.

PENNOD I

Y CYFNOD. CALEDI'R AMSEROEDD. CYNIR WERIN

AWN yn ôl yn awr i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gan i mi dreulio bore f'oes yng nghwmni fy nhaid a'm nain, oedd wedi eu geni ddiwedd y ddeunawfed ganrif, mae sŵn caledi'r amseroedd ddechrau'r ganrif ddiweddfaf yn aros yn fy nghlustiau. Llauer ochenaid drom a glywais yn esgyn o galon fy nain a'm mam wrth sôn ohonynt am galedi'r amseroedd; a chyn ceisio dechrau â'm hatgofion o wahanol agweddau bywyd Cwm Eithin, credaf nad anniddorol fydd disgrifiad o galedi'r amseroedd, yr amser caletaf, mae'n debyg, a wclodd Cymru yn ei hanes; hynny yw, nid wyf yn meddwl y bu cyfnod yn hanes Cymru a mwy o'i thrigolion yn dioddef prinder bwyd.

Yr oedd cyfleusterau teithio ac arferion y wlad yn wahanol iawn i'r hyn ydynt heddiw.

“Roedd hon mewn bri cyn bod un trê
Yn cario nain trwy'i hoes,”

meddir am hen ffon fy nain, cyn dyfod y troliau a'r cerbydau a'r wagen fawr i'r wlad. Ychydig iawn o droliau oedd yng Nghymru ddechrau'r ganrif ddiweddfaf. Fe ddywedir mai Lawrence Jones, tad “Jac Glan y Gors,” a ddaeth â'r gyntaf i Gerrigy-drudion. Dywaid Charles Ashton¹ hanes y drol gyntafynochrau y Berwyn. Mynnai meibion hen ffarmwr brynu trol, y newydd beth anhydrin. Un diwrnod, pan aeth y tad i ffair y dref, aeth y bechgyn ati i deilo. Ar ôl dychwelyd, gofynnodd yr hen ŵr iddynt sut yr oeddynt wedi teilo cymaint. Addefasant hwythau iddynt ddefnyddio'r drol. Gwylltiodd yntau yn gaclwm; ni allai gredu y tyfai'r maes ar ôl cario tail iddo â throl, a mynnai i'r bechgyn ei gario'n ôl. Yr hen arfer oedd cario popeth bron ar gefn ceffyl, y pilyn pwn a chawell o boptu a wasanaethai i gludo. Defnyddid y ferfa freichiau i deilo yn aml.

Gan nad oedd troliau, nid oedd ffyrdd o ddim trefn. Gwnaed ffyrdd newyddion, a lledwyd yr hen rai bron ym mhob rhan o Gymru, a Lloegr o ran hynny. Heddiw, os sylwir, lle mae ffordd wedi ei thorri trwy ochr gallt, fe welir olion yr hen ffordd yn myned dros ben yr allt.

Yn 1780 y dechreuodd y goits fawr redeg o Lundain i Gaer-gybi; ond yr oedd y ffordd yn hynod o ddrwg. Yn 1810 penodwyd Comisiwn gan y Llywodraeth i ddwyn adroddiad am ansawdd y ffordd o Lundain i Gaer-gybi, ac fel hyn y dywedir am y rhan sydd yn rhedeg trwy Gwm Eithin:—

“Many parts are extremely dangerous for a coach to travel upon. . . . The road is very narrow, long, and steep; has no side fence, except about a foot and a half of mould or dirt, thrown up to prevent carriages falling down three or four hundred feet into the river. Stage-coaches have been frequently overturned and broken down from the badness of the road, and the mails have been overturned. . . . There are a number of dangerous precipices, steep hills, and difficult narrow turnings. . . .”

Nid oedd pethau nemor gwell yn Lloegr. Yn ei ysgrifau doniol o atgofion am Lerpwl a Chymry Lerpwl; yn *Y Tyst*, Hydref 16, 1868, a Mai 7, 1869, dywaid “Corfanydd,” a anwyd yn Old Hall Street yn 1806, am Lerpwl:—

“Yn 1730 un cerbyd yn unig oedd o fewn y dref i gyd. Nid oedd yr un Goach Fawr (*stage coach*) yn dod yn nêst iddi na thref Warrington, yr hon sydd ddeunaw milltir o ffordd, a hynny am fod y ffordd mor ddrwg fel nad ellid ei thrafaelio. . . .”

“Cyn 1817 goleuid y dref ag olew, lampau nad oeddynt fawr well na chanwyll frwyn. Ar noswaith dywyll arferai boneddigion gael *Linkman* i fyned o’u blaen, a rhaff at braffter braich dyn, wedi ei thrwytho mewn pŷg, fel y llogai yn fflagl fawr. Ac yr oedd llawn gymaint o fŵg yn eu canlyn: ac nid hawdd oedd eu diffodd. . . . Felly dyfeisiwyd y fflagl ddiffoddydd, nid yn unig i ddiffodd y fflaglen, ond hefyd i addurno y gwaith haearn, y ddau bôst a gynhaliai y bwa lle y safai y llusern a fyddai o flaen drws tai boneddigion.”

Yn ystod Rhyfel Napoleon yr oedd y wlad hon, fel holl wledydd Ewrop, wedi ei dwyn i dlodi ac angen mawr. Yr oedd prinder bwyd trwy'r byd. Yn ystod y cyfnod hwn yr anfonwyd Mr. John Gladstone, tad yr Anrhydeddus William Ewart Gladstone, i'r America i chwilio am yd; ac anfonwyd pedair ar hugain o longau ar ei ôl. Ond methodd â chael dim, a dyna'r pryd y dangosodd ei fedr trwy brynu nwyddau gwerthadwy eraill yn lle dyfod â'r llongau adre'n wag. Yn ychwanegol at ddinistr y Rhyfel caed nifer o gynhaeafau mall, hynny yw, tymhorau mor wlyb fel y methwyd â chael yr yd yn sych. Ni ellid ei bobî gan ei fod fel toes neu glai; ni ellid gwneud dim ohono ond cacen gri ar y radell.

Cyrhaeddodd y prinder ei eithafnod, yn enwedig yng Nghymru, yn 1816, pryd y dywedir na chaed ond tri neu bedwar o ddyddiau sych o ddechrau Mai hyd ddiwedd Hydref. Bu cannoedd a miloedd farw o newyn a nyctod trwy ddiffyg cynhaliath briodol. Dyma bennill o gywydd a ganodd "Gwallter Mechain" i'r ffyddyn honno:—

CYWYDD Y CYNAUAF GWLYB, 1816.¹

'Leni ni bu hardd-gu hin,
 Mai hafaidd na Mehefin;
 Ni ffynodd ein Gorphenaf,
 Pob dyffryn a glyn yn glaf;
 Yn Awst, gwlyb wair mewn ystod,
 Medi heb fedî i fod.

Er yr angen a'r tldi, bu'r Seneddwyr, sef y tîrfeddianwyr, yn ddigon calon galed i basio Deddf 1815 nad oedd ddim gwenith i'w ollwng i'r wlad nes y byddai yn £4 y chwarter; ac yr oedd yr haidd yn brin ac uchel ei bris. Mewn gwirionedd yr oedd popeth at wasanaeth teulu yn ddrud iawn. Yr oedd fy nhaid a'm nain yn cadw siop yn un o bentrefi'r cylch y blynyddoedd hyn, ac yn ffodus, ymysg toreth o hen bapurau a adawodd fy nhaid ar ei ôl ac a ddaeth i'm meddiant i, mae lliaws o *invoices* y *merchants* o Gaer y deliai â hwy, yn nodi'r prisiau. Gweler enghraifft ar y tudalen nesaf.

¹ *Gwaith Walter Davies, Gwallter Mechain, 3 cyf., Caerfyrddin, 1868.*



B. of Robt. Williams & Co.

GROCCERS & IRONMONGERS

1 lb. Pepper Ground	2.4
14 lb. Logwood	3.6
14 Capphas	1.6
6 Supra China Long Tea	2.1.0
72 lb. Sugar	1.18.0
1 lb. Sugar	3.0
Wm. High Thomas	4.15.1

ST

By Cash & Exchange of
 Printed by the Sea

Yr unig nwydd rhad at angen teulu y mae'n debyg oedd y glo. Y mae'n fy meddiant ddau docyn yn dangos ei bris, un am tua 1840 a'r llall am 1853. Fel y gwelir, yr oedd y glo yn rhad iawn y pryd hynny; diau ei fod yn rhatach yn 1815.



No Credit given for Fire Coal.

BLACK PARK COAL WHARF,

Mr. *Roberts* *March 29* 1853.

Bought of T. E. WARD,

	Tons.	Cwt.	Qrs.	
Weight of Carriage and Coals	1	3	-	At $9\frac{1}{2}$
Weight of the Carriage		9		per Ton
Neat Weight of the Coals		14		6.5
<i>Received at the same time by me Loading</i>				$\frac{1}{2}$
<i>A. Moses.</i>				$6.6\frac{1}{2}$

Ni wn beth a feddylid yn ein dyddiau ni pe gellid cael glo arn y pris uchod. Ond nid oedd pris y glo nac yma nac acw i drigolion Cwm Eithin. Mawn a losgai y mwyafrif y dyddiau hynny, a chael bwyd oedd y pwnc mawr. Clywais aml stori pan oeddwn yn blentyn a rwygai fy nghalon wrth ei gwrando, a grëai ynof ofn a braw, ac a wnai imi deimlo'n wasaidd iawn ar un llaw, ac o'r ochr arall a greodd ryw atgasedd ynof at ryw ddsbarth o bobl, yn enwedig y tîrfeddianwyr a'r ystiwartiaid. Rhoddaf un hanesyn sydd yn aros yn fyw iawn yn fy nghof.

Yn yr hen amser gynt, yr oedd gweu yn un o brif ddiwydiannau Cymru, os nad y prif un, yn enwedig ymhlith y merched. Medrai pob merch weu, a chadwyd llawer teulu rhag newynu trwy fedrusrwydd y fam a'r merched i weu. Medrai y tad a'r meibion hefyd ar y grefft, ac nid peth anghyffredin oedd eu gweled hwythau yn treulio "wedi-bo-nos" y gaeaf bob un gyd â'i hosan, yn cynorthwyo'r merched i gael ychydig o ddwsinau o barau yn barod i fynd i ffair neu farchnad i gyfarfod y saneu-

wr, er cael arian i brynu lluniaeth i'r teulu a thalu'r rhent. Pan oeddwn yn fachgen ieuanc clywais Richard Jones, Tŷ Cerrig, yn adrodd hanes fel y cadwodd ei fam ef ei theulu rhag y newyn du pan oedd ef yn fachgen bach. Yr oedd Richard Jones yn gefnder i "Jac Glan y Gors," yn ŵr o gof clir a chrebwyll pur gryf. Yr oedd wedi croesi'r deg a thrigain oed pan oedd yn mynd dros droeon ei yrfa gyda'm taid a'm nain, ac y mae dros drigain mlynedd er hynny. Bu Richard Jones farw Awst 21, 1875, yn chwech a phedwar ugain mlwydd oed. Felly y mae dros gant ac ugain o flynyddoedd er yr amser y cyfeiriai ef ato, blynyddoedd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn gyfoed â'm taid, a ganwyd ef 1789 neu 1790.

Ffarm fechan oedd Tŷ Cerrig ar fin y ffordd dyrpeg, yn godro pedair neu bump o wartheg, yn cadw un ceffyl, yn magu pedwar neu bump o loeau, yn pesgi dau neu dri o foch, ac yn lladd un at eu hiws, a lle i tua hanner cant o ddefaid ar y mynydd. Fel hyn yr adroddai Richard Jones, ac er i amryw bethau fyned dros fy mhen er pan glywais ef, credaf y gallaf adrodd ei stori air am air. Cofiaf y wedd oedd ar ei wyneb wrth adrodd fel y cadwodd ei fam ef a'r teulu yn fyw, ac fel y nodiai fy nain *Amen* i'r hyn a ddywedai, a thafiai fy nhaid a hithau ambell gwestiwn a gair i mewn i'r ymddiddan:—

"Pan oeddwn yn hogyn bach cofiaf yn dda fel y cadwodd mam nhad, a hithau, a chriw ohonom ninnau blant, rhag llwgu un flwyddyn. Yr oedd yr ŷd wedi ei ddifetha bron i gyd ar y maes oherwydd cynhaeaf diweddar, a diffyg tywydd i'w gael i mewn. Yr oedd hynny oedd yn weddill yn fall, ac yn dda i ddim ond yn fwyd moch. Yr ŷd yn ddrud iawn, a ninnau heb ddim arian i'w brynu. Yr oedd cannoedd o deuluoedd yng Nghymru yr un fath â ninnau; y gaeaf wedi dyfod, a newyn yn hylldremu yn ein hwyneb. Fy nhad bron a gwallgofi wrth feddwl am y gaeaf du oedd o'n blaen. Un noson torrodd fy mam ar y distawrwydd llethol drwy ddywedyd wrth fy nhad, 'Mi wna i fargen â thi; mi ofala i am fwyd i ni a'r plant trwy y gaeaf os gwnei di, heblaw gofalu am y gaseg, y gwartheg a'r moch, gorddi, golchi'r llestri, gwneud y gwllâu ac ysgubo'r tŷ. Mi wna i y menyng yn hunan.' 'Sut yr wyt ti yn mynd i wneud?' meddai fy nhad, a'i ddagrau yn treiglo i lawr ei ruddiau. 'Mi â i ati i weu,' ebe hithau. 'Mae yma

wlân. Rhaid i ti ei gardio bob yn dipyn ac i minnau ei nyddu.' Gwnaed y fargen, fy nhad yn gwneud gwaith y tŷ heblaw gwaith y ffarm, a'm mam yn gweu. Codai yn fore ac arhosai ar ei thraed yn hwyr. Nid oedd yn cael ond pum neu chwech awr o gysgu allan o'r pedair awr ar hugain. Ei thasg oedd gweu tair hosan bob dydd."

"Unwaith bob pythefnos fe âi fy mam ar gefn y gaseg i Ruthyn, dros Fynydd Hiraethog, pellter o tua phymtheng milltir, a'i phebyn sane gyd â hi i'w gwerthu i'r saneuwyr, ac am yr arian prynai beced o haidd a deuai ag ef adre gyd â hi, i'w falu i wneud bwyd i ni. Felly cadwodd ni yn fyw hyd nes y caed cynhaeaf drachefn."

Cofier nad rhyw socs byrion a wisgid yr oes honno, 'sanau yn cyrraedd dros y pen glin, yn mesur o flaen y troed i'r top yn agos i dair troedfedd.

Onid oes rhyw reddf ryfedd mewn mam i ofalu am ei theulu? Yr oedd mam Richard Jones, Tŷ Cerrig, yn arwres o'r dosbarth blaenaf. Dylai ei henw hi a llawer un debyg iddi gael ei gerfio yn y graig â phlwm; ond methaf yn lân yn awr â bod yn sicr o'i henw; Phebi Jones, Tŷ Cerrig, yr wyf yn meddwl, os nad wyf yn cymysgu ac mai dyna oedd enw gwraig Richard Jones. Tybed a oes merch yng Nghymru heddiw a allai wneud gwrhydri tebyg? Diau fod, pe deuai'r angen.

Un o flynyddoedd y prinder mawr y soniai yr hen bobl yn fynych amdani oedd yr un y cyfeiriai Richard Jones ati; blwyddyn â'r cynhaeaf wedi methu, a'r hyn a allwyd ei gael i'r gadlas yn fall ac yn anfwytadwy; deddfau'r ŷd yn eu llawn rym; y môr yn gaeedig; y bwyd yn brin; y prisiau yn uchel ac allan o gyrraedd y werin dlawd pan geid ychydig ar werth; a'r bobl yn ceisio ymgynnal ar fresych, a gwreiddiau, a thatws a halen. Gresyn na chawsid rhywun medrus i ddisgrifio bywyd gwledig yn un o gymoedd neilltuedig Cymru yn ystod un o'r blynydd oedd hyn, dyweder y flwyddyn yr aeth y tatws yn ddrwg y tro cyntaf. Blwyddyn ddychrynlyd oedd honno yn hanes Cymru Arferai'r hen bobl gyfrif amser o'r adeg yr aeth y tatws yn ddrwg, gan mor ddwfn yr oedd tloedi ac angen y flwyddyn wedi eu hargraffu ar eu meddwl.

Dioddefodd ein cyndadau yng Nghymru oddi wrth dywydd anffafriol, cynhaeaf diweddar, a bara mall. Fe wŷr pawb sydd yn gwybod rhywbeth am amaethyddiaeth y byddai cynhaeaf

ŷd o fis i chwech wythnos yn ddiweddarach yng nghymoedd Cymru hyd o fewn, dyweder, hanner can mlynedd yn ôl nac ydyw yn awr. O hynny ymlaen mae cyfnewidiad graddol wedi digwydd yn amser medi. Fe gofias fi yn dda ddynion Cwm Eithin yn myned bob blwyddyn am fis neu ragor o gynhaeaf i Ddyffryn Clwyd a Sir Amwythig, ac yn dyfod yn ôl mewn pryd i'r cynhaeaf i Gwm Eithin. Beth sydd yn cyfrif am y gwahaniaeth nis gwn. Nid wyf yn meddwl mai y rheswm yw bod y tyddynwyr yn hau yn gynharach nag yr arferent, oherwydd byddai yr hen bobl yn ofalus iawn i hau ceirch yng nghyfnod y "Tridiau deryn du a dau lygad Ebrill," sef y tri diwrnod olaf o Fawrth a'r ddau gyntaf o Ebrill os ceid tywydd ffafriol, ac nid ydynt yn hau lawer cynt yn awr. Mae'n debyg fod a wnelo'r dull o drin a gwrteithio'r tir rywbeth â'r cyfnewidiad. Felly gan y byddai y cynhaeaf yn ddiweddar yr oedd yn llawer mwy agored i gael ei ddifa ar y maes ar flwyddyn wlyb nag yn awr.

Rhoddaf rai enghreifftiau i ddangos mor ofnadwy o galon galed oedd rhai o gyfoethogion Cymru yr adeg honno, fel y dialent ar y werin dlawd am eu gwaith yn mynnu crefyddu yn ôl eu cydwybod a'u syniadau eu hunain, yn lle gwneud fel y gorchmynnid iddynt gan eu huchafiaid. Ni welodd Cymru gyfnod caletach, sef â mwy o brinder bwyd ynddo, na'r rhan olaf o'r ddeunawfed ganrif, a hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd yr un fath yn Iwerddon. Bu miloedd farw yno o newyn; a byddaf yn gwrido wrth feddwl mai Cymro oedd un a fu dros Lywodraeth Prydain Fawr yn difa llawer eraill ohonynt, ac a ddywedodd ar ôl dychwelyd o'r lladdfa, y "dylid anfon byddin i'r Werddon bob saith mlynedd i'w chwynnu a'u cadw i lawr."

Yn Eisteddfod Caernarfon, 1894, cynigiwyd gwobr o £25 am y nofel orau yn disgrifio bywyd gwledig yng Nghymru. Enillwyd y wobwr gan fy hen gyfaill "Elis o'r Nant." Dewisodd y cyfnod yn dilyn Rhyfel Napoleon, cyfnod yr "ŷd cwta diben." *Robert Sion o'r Gilfach*,¹ y galwodd y nofel, a dywaid ei bod wedi ei sylfaenu ar ffeithiau.

Dyma a ddywaid "Elis o'r Nant":—

"Byd blin a dryccin na fu erioed y fath beth, fu y tymhor gauf a'r haf dilynol, ar ol yr "yd cwta," a'r "haf heb

¹ *Robert Sion o'r Gilfach*, gan "Elis o'r Nant," Caernarfon, 1894.

wair nac yd,"—heb alw am bladur, na chryman, na 'sigl' chwaith. Ceid pobl dlodion yn ngwahanol ranau o'r wlad mewn sefyllfa o newyn. Ymborth i bobl, a phorthiant yr anifeiliaid, oedd mor brin, fel y bu y naill a'r llall ar fin newyn ar hyd y gauaf. Ac wedi gwawrio o'r haf, tra y dygodd y tyfiant ffrwythlawn ymwared llwyr i'r anifeiliaid, ni fu hynny ond ychwanegu at y trybini yr oedd y trigolion ynddo yn flaenorol. Ni feddid arian i brynu ymborth, a phe buasid yn meddu cyflawnder o arian, ceid fod y fath brinder yn y wlad, fel y gallasai un gerdded aml dro i'r farchnad a gorfod dychwelyd heb gymaint a phiolaid o un math o flawd, tra yr oedd y teulu gartref ar fin newyn. Hyn oedd y rheol gyda'r oll braidd o deuluoedd tlodion drwy holl Gymru. Nid yn unig gofynid, ond *mynid* pedwar swllt am phiolaid o flawd ceirch yn y melinau a'r marchnadoedd, ac yn llawn mor fynych ag y byddai ganddynt, ni fyddai gan y melinyddion yn y melinau, na'r *maelwyr* yn y marchnadoedd, flawd ceirch nac un math arall i'w gynyg ar werth. Yn y cilsfachau gwledig,—tu allan megis i'r byd,—anaml y defnyddid blawd gwenith ond i wneyd uwd peilliaid i fwydo plant sugno; ac yn ddigon aml byddai raid i'r rhai hyny foddloni ar "rual manion blawd ceirch" neu flawd haidd, fel y byddai yn digwydd.

"Gwelwyd aml hen wr—yr un modd hefyd aml hen wraig dlawd—yn hwylio yn foreu oddicartref, gyda chylla digon digon gwag, heb flawd yn y gist, na thamaid o fara yn y cwpbwrdd, gan adael rhawd o blant ar newynu yn y ty, i fyned gryn bellder, ambell dro ddeg neu ychwaneg o filltiroedd i ryw felin neu borthladd i chwilio am flawd i ddiwallu mewn rhan angenion y teulu, ac efe neu hyhi ei hunan yn eu plith; ond yn gorfod dychwelyd gan amlaf yn benisel gyda'r cwdyn yn wag, i weled y teulu gartref "bron gwefrio eisieu bwyd," tra yntau neu hithau heb ddim, na golwg y ceid un math o foddion o unlle "i gadw newyn marwol draw." Ni fyddai dim i'w wneyd ond casglu gwraidd pob math o lysiau, deiliau, a gwneyd defnydd o'r cyfryw i gadw enaid a chorff ynghyd, fel y dywedid.

"Angen yw tad dyfais, onide? Llwyddwyd i wneyd bara o gloron—yr adeg hono y daeth y ddyfais allan, yn gymysgedig ag ychydig o flawd gwenith. Y mae yr arferiad o wneyd "bara tatws" mewn bri hyd heddyw fel tamaid

blasus ac amheuthyn i'r teulu, yn gystal ag i rywun dieithr pan alwo.

“Preswyliai Mari Sion yn Ty Mywion. Gwraig ganol oed ydoedd—hynod dlawd, ond nid yn llawer mwy felly nag ereill. Meddai dorllwyth o blant, ei phriod wedi syrthio ar faes Waterloo, fel y tybid—beth bynag yno yr aeth gyda byddin dan arweiniad Thomas Picton, ac ni chafwyd gair byth o'i hanes ar ol ei fynediad allan i'r fro estronol hono, a chredid tu hwnt i amheuaeth mai yno y cwmpodd i beidio codi byth mwy. Bu am lawer o fisoedd yn dioddef dygn eisieu, heb damaid o ymborth yn y ty, ac yn byw yn wastad o'r llaw i'r genau, ac anfynych y byddai hi na'r plant yn gallu bwyta hyd eu digoni, am y byddai eisieu cadw peth yn weddill i ddal bâr a newyn. Aml y byddai hi a'r plant yn myned i'w gwelyau heb hwyrbryd, ac eid felly heb wybod pa le y ceid boreufwyd ar ol codi y dydd dilynol! Aml y bu raid iddi arfer y fath drefnidedd a chynildeb i gynnal i fyny fodolaeth y teulu—peidio cymeryd ond un pryd yn y dydd, a hwnw heb fod yn bryd llawn. Gorfodid hi i wneyd hyny am y buasai bwyta yn helaethach yn ei dwyn hi a'r plant i'r fath sefyllfa na buasai yn eu haros ond marw o newyn. Casglai ddail poethion, a dail ereill ddechreu haf—y rhai ni fwytai anifeiliaid y maes—a choginiaid hwynt iddi hi a'r teulu, y rhai a fwyteid fel y danteithfwyd mwyaf dymunol i'r chwaeth a maethlawn i'r cylla.

“Tua'r adeg yma daeth gair i'r wlad :—newydd da ragorol,—fod llwyth llong o flawd ceirch o'r fath oreu wedi glanio yn mhorthladd Aber Pwll. Nid allai neb fynegi i sicrwydd llong o ba le oedd, na chwaith blawd o ba le oedd y blawd, ac ni chynhyrfid chwilfrydedd neb chwaith i wneyd ymholiad o'r fath, na pha un a oedd yn flawd rhagorol *mewn gwirionedd*. Ni wna pobl ymholiad o'r fath, pan ar newynu ; ac i'r newynog pob peth chwerw sydd felus, onide? Pan glybu Jacob gynt fod yd yn yr Aipht, er fod y fangre hono lawn mwy na thriugain milldir o'r fan lle y preswyliai ef, ni wnaeth ymholiad pa fath yd oedd, na pha fath fara ellid wneyd ohono, ond anfonodd ei feibion i waered yno i brynu cyflawnder ohono, fel y byddont fyw, ac yn ddiogel rhag newyn.

“Nid oedd porthladd Aber Pwll lawn deuddeng milldir o Lanfynydd, ac er mai yn hollol ddisylw ydoedd—un heb

wneyd un math neu lludol o ddarpariaeth gelfyddydol at ddadlwytho llongau o un math, ni fu un erioed ag y deuai i mewn iddo, ac yr elai allan ohono, fwy o fan longau. Er mor anwybodus oedd pobl yr adeg hono, fe wyddent yn eithaf da am ddeddf yr yd; ond yr oedd pris yr yd wedi myned i fyny i'r fath raddau, fel yr oedd rhyddid i gludo yd a blawd o'r gwledydd tramor, i'w werthu yn unrhyw fan yn y deyrnas hon; a than aden y rhyddid hwnw yr hwyliasai y llong hon o'r Ysbaen yn llwythog.

"Lledaenwyd y newydd am laniad y llong fel tân gwyllt, ac heb oedi dim gwelid pobl yn hwylio tuag yno—rhai gyda chydau ar eu cefnau, ac eraill yn marchog, gan ddwyn gyda hwy sach, ac ystrodyr pwn, fel y gellid cludo sachaid yn ol. Yn mhlith y llu gwelid Mari gyda chwdyn bychan, glân, dan ei chesail, yn cyflymu yn mlaen yn llawn chwys, yn gwneyd a allai i frysio, er mwyn dychwelyd gyda blawd i'w bobi i ddiwallu angenion y plant. Bu raid iddi hwylio ei cherddediad y boreu heb ddigon o ymborth, a hyny gafodd o'r fath waelaf, ac yn gwbl ddifaeth—dim ond deiliau wedi eu coginio, fel y sylwyd yn flaenorol. Ni feddai ond rhyw ychydig sylltau at brynu blawd, a phe buasai ganddi chwaneg o arian, y mae yn amheus a allasai gludo mwy na gwerth hyny o arian a feddai, gan mor ddinerth oedd, ar ol treulio agos flwyddyn gyfan ar lawer llai na digon o ymborth. Gorfodid hi i orphwys yn fynych ar y ffordd, a gwisgai olwg luddedig, wedi "ymlâdd yn lân," fel y dywedid. Pe mai hi yn unig a fuasai yn y fath sefyllfa newynog a dihoenllyd, y mae yn ddiau y buasai yr olwg arni yn enill tosturi, ond, fel yr ydys wedi dweyd yn barod, yr oedd nid [yn] unig y tlodion, ond y ffermwyr a phob dosbarth agos yn yr un sefyllfa—pawb ar fin newyn, ac agos wedi dyfod i gredu mai newynu a wnaent.

"Ni chwanegodd cyrhaedd pen y daith ddim at na chysur na llawenydd y rhai ddaethant o bellder ffordd i chwilio am flawd i ymlid ymaith newyn o'u preswylfeydd, yr hwn oedd eisoes wedi dyfod i mewn; rhai o'r teuluoedd yn barod wedi eu claddu, ac eraill mewn gwaeledd, yr oll wedi eu ddwyn oddiamgylch gan, ac yn codi o, ddiffyg lluniaeth. Pan wnaethant eu hymddangosiad yn y porthladd, mynegodd y perchenog ei fod wedi gwerthu y blawd oll i foneddwr tra hysbys yn y wlad, Syr Wmffra Garanhir, un yn meddu

etifeddiaeth yn y cyffiniau, ac yn terfynu ar un Nana Wyn. Meddai rai cannoedd o gwn hela, bytheuaid, milgwn, a phob math arall, a chlybu yntau fel craill am laniad y llong, a daeth yno o Hafod-y-re, ei balasdy, i brynu yr holl flawd i fwydo ei gwn. Felly, bu raid i'r ymwelwyr anffodus ddychwelyd yn ol, yn bendrist gyda'u cydau a'u sachau, oll yn weigion, i wynebu yr un gelyn eilwaith, heb arfau o fath yn y byd, i ymladd ag ef.

“Sobr iawn wir ydi mund adra i weled y plant bach ar newynu, yn disgwyl budd gin i flawd i nyud bara a fina heb ddim. Ond pam raid i mi bechu yn erbyn yr Arglwydd trwu i anghredu, ac ynta yn dyud yn blaun, ‘Ei fara roddir iddo, ei ddwfr fudd sicr,’ a dyma ran o'r addewid wedi i chaul yn barod, ac mi ddaw'r llall ond gadal i amynadd gaul i fferffaith waith’.

“Siaradai a hyhi ei hun fel hyn, a mawr ofidiai, ac i raddau gollyngai ddagrau, am ei bod yn gorfod troi adref heb ddim i'r plant; a hithau wedi dyweyd pan yn cychwyn am i'r eneth hynaf ferwi dwfr yn barod erbyn y deuai yn ol, fel y gellid taro ati i bobi heb golli dim amser. Mor drallodus ei meddwl y teimlai, yn nghanol ei ffydd gref yn ei addewidion diamodol Ef,—wrth feddwl myned adref i'w siomi, ac i'w gweled yn dihoeni ac yn marw o newyn. Pan yn dal ati i synfyfyrion a siarad bob yn ail, clywai swn o'r tu ol tebyg i swn ceffyl yn carlamu. Er troi yn ol i edrych, ni allai weled am fod y llanerch yn orchuddiedig a choed', a bryn o amgylch yr hwn y troellai y ffordd yn cyfyngu rhyngddi a'r gwrthdrys. Er ei syndod pwy ganfyddai ond Rhobert y Gilfach, yn carlamu o'r coed, ac yn gwaeddi arni sefyll.

“Nis gallai lai na llawenhau pan y canfu ef. Cofiai iddi gael llawer o help oddiyno, ac arferai gael yn wastad hyd nes y daeth y car i guro ei sodlau yntau, fel pob un. Byddai bob amser yn hoff o'i weled, a mawr ofidiai na fuasai yn rhoi i fyny yr arferiad o yfed i ormodedd, a dyfod a byw yn nes at yr Arglwydd. Dyn da ragorol yr ystyriai hi ef, yn nghanol ei ffaelecteddau

“ ‘Mi mau llong fawr yn llawn o flawd wedi glanio'n Mrauch y Pwll. Nana Wyn pia fo, ag mau o am roi peth i bawb. Cer yno, Mari Sion, fyddi di ddim gwerth yn mund. Mau yno damad o fwud i bob un gaul hefud. Mau o wedi rhostio dau yidion yn gyfa. Mi gwelis i nhw wrthi. Cousa hi, Mari, tros y Foul Bouth. Fedar Syr Wmffra Garanhir ddim y'n llwgu ni eto, marcia di, Mari. Dyma i ti wicsan fechan ges i; buta hi. Mau yno lond sacha lawar o honun nhw. Mi rwi ti wedi son llawar na nyiff yr Arglwydd ddim anghofio i addewidion. Mi ddyliwn i nad ydi o ddim am nyud chwaith. Cousa hi. Mau arnai isio mund i wadd pobol yno.’ ”

Ffarmwr cyfrifol oedd Robert Sion o'r Gilfach; gŵr yn meddu calon dyner a da, caredig iawn wrth y tlawd. Ond erbyn yr adeg y sonnir amdani, yr oedd cistiau blawd y Gilfach yn wag, a Robert Sion a'r teulu yn dioddef gwasgfa y newyn tost.

Dylai pawb a fyn wybod hanes cyni Cymru ddechrau y ganrif ddiweddar ddarllen y llyfr hwn.¹

Goddefer un hanesyn arall am yr un cyfnod y gallaf roddi fy ngair dros ei gywirdeb llythrennol. Bu farw yn Bootle, yn 1918, hen foneddwr wedi croesi ei bedwar ugain oed amryw flynydd-oedd, gŵr craff a chofiadur da, sef y diweddar Mr. Robert

¹ Am ragor o hanes caledi'r amseroedd gweler *Seren Tan Gwmmwl*, "Jac Glan y Gors," 1795 (argraffiad newydd, 1923); *Gweithiau "S.R."*, 1856; *Oes a Gwaith y Parch. Michael D. Jones*, gan Dr. E. Pan Jones, 1903; Atgofion "Ap Fychan" yn ei *Gofiant*, gan Michael D. Jones a D. V. Thomas, [1882]; *Cwyn yr Hen Wr Meibiant*, gan "Dafydd Ddu Eryri," yn *Corph y gaingc*, 1810; *Hynafiaethau Llandegai*, gan Hugh Derfel Hughes, 1866; *Caledwch yr Hin*, gan "Peter Llwyd o Wnodl" (*Y Gwyllydydd*, Chwefror, 1823); *Diosg Farm: a sketch of its history during the tenancy of John Roberts and his widow*, by a Llanbrynmair Farmer (*b.y.* Samuel Roberts), 1854; *Cofiant Hiraethog*, gan "Scorpion" a "Dewi Ogwen," 1893, ac Anerchiad Henry Richard ar *Ormes y tir feddianwyr ac eraill*, a draddodwyd yn Concert Hall, Liverpool, Chwefror 4, 1853, wrth sefydlu Cymdeithas Ddiwylliadol Gymreig. Cyhoeddwyd yr olaf yn bamffledyn. *Cofiant Thomas Gee*, gan yr Athro Thomas Gwynn Jones, 1913. *The Land Question and a Land Bill, with special reference to Wales*, by R. A. Jones, B.A., 1887. Mae llyfr R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y ddeunawfed ganrif*, 1928, a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwasg y Brifysgol, yn rhoddi darlun clir o fywyd Cymru yn y ganrif honno.

Roberts, a adawodd £10,000 i Gyfarfod Misol Dyffryn Clwyd at dalu cyflog i ŵr am *ofalu* am eglwysi bychain bro ei enedigaeth. Arferai ef a minnau gael aml ymgom am yr amser gynt. Magwyd Mr. Roberts yn Nantglyn, lle'r oedd ei dad yn ffarmwr cyfrifol.

"Clywais fy nhad," meddai, "yn adrodd hanes y newyn ddechreu y ganrif ddiweddaf; yr oedd llawer yn dioddef eisieu bwyd oddeutu Nantglyn a'r cylch. Cafodd fy nhad wybod fod llong wedi dyfod i Ruddlan a llwyth o haidd. Aeth ar ei union i Ruddlan a phrynodd y cyfan, rhag ofn i rywun dd'od a'i brynu a chodi crogbris am dano wrth ei ail werthu i'r tlodion. Gwerthodd ef i'r ffermwyr a'r gweithwyr am yr un bris yn union ag yr oedd wedi ei dalu am dano. Rhoes reol bendant i'r ffermwyr a fyddai yn prynu, os oedd ganddynt wedd i'w gario adre, fod yn rhaid iddynt gario cyfran y mân dyddynwyr a'r gweithwyr tlodion yn rhad."

Felly cafodd tlodion cylch Nantglyn ddeunydd bara am bris rhesymol a'i gario o Ruddlan adre am ddim.

Arferai y Parch. Simon Llwyd, B.A., Bala, fyned i'r lleoedd bach o gylch y Bala i bregethu. Fel y gwyddys yr oedd ef yn ŵr cyfoethog yn byw ym Mhlas y Dre. Un Saboth yr oedd wedi bod yn pregethu yn un o gymoedd y cylch, Llidiardau neu Dal-ybont. Hen wraig dlawd a ofalai i raddau am yr achos; a chyda hi yr oedd Simon Llwyd yn ciniawa. Pan ddaeth adre yr oedd ei ferched yn chwilfrydig iawn i wybod pa beth a gafodd i'w ginio, ond nid oedd ef yn barod i ddywedyd. Dalai y merched i'w blagio. "Beth a gawsoch chwi i'ch cinio, nhad?" "Wel," ebe yntau o'r diwedd, "os rhaid i chwi gael gwybod, mi gefais feipen wedi ei berwi a halen, ac mi 'roedd hi'n dda."

Na feddylier chwaith mai byr ei barhad fu cyfnod y caledi. Tybiodd "Jac Glan y Gors," fel llawer proffwyd o'i flaen, fod y wawr ar dorri yn ei ddyddiau ef, ond nid felly y bu. Canodd "Meurig Ebrill" am galedi'r amserau yn 1847.¹ Yn 1859 y cyhoeddodd "Eos Iâl" (gŵr a fu yn byw yn Llety'r Siswrn yng ngwaelod Cwm Eithin) *Ddrych y Cribddeiliwr*,² lle y ceir *Pryddest y Weddw Jesebel a Nabal*. Disgrifia'r bryddest y weddw

¹ *Diliau Meirion*, ail rhan, gan "Meurig Ebrill" (Morris Davies, Llyn-lleifiad, 1854).

² *Drych y Cribddeiliwr*, gan "Eos Iâl" (Dafydd Hughes), Llansantffraid, 1859.

yn myned at ddrws Jesebel a Nabal i geisio prynu peciaid o flawd, rhag iddi hi a'i phlant newynu. Yr oedd ganddi bum swllt i dalu, ond yr oedd y blawd wedi codi i bum swllt a cheiniog. Wedi i Jesebel a Nabal ymgynghori, gwrthodwyd hi am ei bod geiniog yn fyr.

Parhaodd cymylau duon i hofran wrth ben y werin yn hir. Cyrhaeddodd dialedd y tiffeddianwyr ei eithafnod yn 1868, ac ni ddisgynnodd cawod eu melltith yn drymach yn un man nag yng nghylchoedd Cwm Eithin.

PENNOD II

Y TRIGOLION: Y FFERMWYR

YR oedd y ffermwyr yn ddosbarth digon bethma at ei gilydd, mewn llawer o bethau yn debyg iawn i relyw eu dosbarth; digon canolig a thlawd o ran eu hamgylchiadau; rhai ohonynt yn ddigon balch, a dangosent hynny trwy gael rhywbeth newydd yn bur aml i'w wisgo ar y Sul, a thrwy wenu'n awgrymiadol ar ei gilydd yn y capel. Pobl sbeitlyd y byddem ni yn galw y rhai hynny; a phan fyddai raid i rai ohonom, yn blant, fyned i'r capel â chlytiau ar ein pennau gliniau, teimlem i'r byw eu gwawd. Ceisiai rhai o'r dosbarth, a feddai werth ychydig o gannoedd o stoc, ymddangos fel pe baent yn werth miloedd, a'r rhai oedd â gwerth ychydig o ugeiniau eu bod yn werth cannoedd. Yr oedd yno hefyd, fel y ceir bron ym mhob ardal, ambell un yn ceisio dynwared tlosti, tra y credai ei gydnabod ei fod yn dda allan. Credai rhai yr hen ddywediad oedd wedi dyfod i lawr o dad i fab, sef "fod yn rhaid cael côt grand i fenthycar rhent, ond y gwnâi un glytiog yn iawn i dalu'r rhent." Diau fod y dywediad wedi tarddu o sylwi y byddai'r meistriaid tir yn codi y rhent os gwelent rai o'u tenantiaid â golwg ry raenus arnynt.

Yr oedd un o'r dosbarth yma, Sion y Fawnog, yn byw ym mhen isaf y Cwm. Cwynai bob amser fod ei dyddyn yn ddrud, a'i fod yn methu â thalu ei ffordd. Arferai fyned at y stiwart i gwyno, a chafodd gau darn yn rhagor o'r mynydd fwy nag unwaith. Âi at y stiwart ychydig cyn amser y rhent i ofyn am fenthyc rhyw £10, oherwydd na fynnai er dim i'w feistr wybod ei fod yn methu â thalu'r rhent, gan ddywedyd fod ganddo foch neu ddeunawiaid i'w gwerthu ymhen tair wythnos neu fis, ac y deuai â hwy yn ôl. Cafodd fenthyc droeon, oherwydd Cymro a ffarmwr caredig oedd y stiwart; a gofalai Siôn fyned â hwy yn ôl yn brydlon bob tro. Ymhen amser dechreuodd y stiwart ddrwgdybio Siôn, oherwydd yr oedd y Fawnog yn dyddyn gweddol helaeth, er mai lle wedi ei gau o'r mynydd oedd, ac yr oedd y rhent yn isel iawn. Methai'r stiwart â chredu bod Siôn mor dlawd ag yr honnai. Dechreuodd gynllunio pa fodd i gael at y gwir. Y tro nesaf y daeth Siôn am fenthyc, marciodd ddeg sofren a rhoddodd hwy iddo. Pan ddaeth diwrnod y rhent, sefe dalodd Siôn ymysg eraill, ond nid oedd y deg sofren marc-

iedig ymysg ei arian. Ymhen tua mis gwerthodd Siôn y deunawiaid, a daeth â'r benthg yn ôl, ac yn hynod o ddiolchgar ei fod wedi gwerthu y deunawiaid braidd yn gynnar, ac ofnai o dan bris, er mwyn cadw'i air â'r stiwart. Edrychodd yr hen stiwart y deg sofrren yn fanwl, a heb os nac onibai, wele y rhai y cawsai Siôn eu benthg ychydig cyn diwrnod y rhent. Beth bynnag a fu'r ymddiddan rhwng y ddau, ni ellir ond dyfalu, ond y mae'n flaith na welwyd Siôn byth ar ôl hynny yn myned at y stiwart i nôl benthg arian at y rhent. Dywedir i Siôn wneuthur ail gynnig ymhen amser mewn ffordd arall. Acth at y stiwart i gwyno fod ei ddegwm yn uwch na'r rhent ac i edrych a ellid cael rhyw ostyngiad y ffordd honno. "Ho, dyna sydd yn dy flino di, Siôn? Mi ofala i na chaiff hynny mo dy flino di eto. Mi goda i dipyn ar dy rent di fel na chaiff dy ddegwm di ddim bod yn uwch na'th rent."

Pan oeddwn yn hogyn, yr oedd rhaib y ffermwyr mawr am ragor o dir yn ddihareb. Rhuthrent am ddarnau o'r mynydd. Yr oedd yn adeg rhannu'r mynydd yng Nghwm Eithin, ond rhoddaf hanes rhannu'r mynydd ymhellach ymlaen. Gwyliai rhai am y tyddynnod bychain yn myned yn wag, ac aent at y meistr tir a chynigient fwy o rent, ac fel rheol llwyddent i gydio maes wrth faes, yn enwedig os byddai'r adeiladau yn wael, rhag i'r meistr fynd i gost i adgyweirio. Cysylltwyd cannoedd o fân dyddynnod yng Nghwm Eithin a'r mân gymoedd sydd yn rhedeg allan o hono, yn ystod y cyfnod y soniaf amdano, a theneuwyd y boblogaeth.

Ond os cymerir popeth at ei gilydd, credaf y cymharai amaethwyr Cwm Eithin yn dda ag amaethwyr unrhyw ran o'r wlad. Wele ddisgrifiad Sais, teithydd enwog, ddiwedd y ddeunawfed ganrif, o drigolion Cwm Eithin :

"On reaching this place, we were agreeably surprised to find it thronged with people, true Welsh characters, who were assembled here to celebrate a fair. The sharp features and quick eyes of the men, enlivened by the bargains they were driving, and the round good-humoured faces of the women, animated with the accustomed hilarity and fun of the day, threw a cheerfulness over the scene, that would have stript spleen herself of the vapours could she have witnessed it. Add to this, my dear sir, the aukward gambols and merry-andrew, and the strange gabble of a Welsh quack-doctor

the grimace of a puppet-shew man, and the bawling of three or four ballad-singers, who chaunted ancient British compositions to different tunes; and, perhaps, your fancy cannot form a scene more ludicrous. . . ."¹

Rhaid bod trigolion Cwm Eithin yn bobl pur ddeallus cyn y caent gymeriad fel yr uchod gan Sais, a rhaid oedd iddo addef eu bod hwy wedi cael mwy o hwyl am ei ben ef a'i gyfaill nag a gafodd ef am eu pennau hwy, er ei fod ef yn Sais hollwybodol a hwythau yn ddim ond Cymry diniwed.

Credaf fod ffermwyr y cyfnod wedi cael, ac yn cael, cam mawr, a'u galw yn grintachlyd a chaled gan rai a ysgrifenna ac a sieryd am y cyflogau bychain a dalent i'w gweithwyr, yn enwedig gan wleidyddwyr ieuainc na wyddant ddim am fyd caled y ffarmwr. Clywais weinidog ieuanc dysgedig yn ddiweddar yn dywedyd, "Yr oedd gennyf feddwl mawr o John Elias a'i bregethau; ond ar ôl eu darllen a gweled mor ychydig o'u hól a adawsant ar eu cyfnod, nid ydwyf yn meddwl dim ohonynt." "Beth yw eich rheswm dros ddywedyd na adawodd John Elias a'i bregethu ddim dylanwad er daioni ar ei gyfnod?" ebe un oedd yn gwranddo. "Yr oedd y ffermwyr," ebe yntau, "yn para i drin eu gweision fel cŵn gan eu hanner llwgu a'u gorfodi i gysgu yn llofft yr ystabl."

Ceisias ddangos nad oedd bosibl iddynt dalu rhagor o gyflog, ac nad oedd le i'r gweision gysgu yn y tai, ac mai llofft yr ystabl oedd yr orau mewn llawer amaethdy. Beth a allasai pregethwr fel John Elias ei wneud i wella'r pethau hynny? Ni ddeuai y tirfeddianwyr i wrando arno; onid hwy oedd wrth wraidd y cyhuddiad a ddygwyd yn ei erbyn o geisio codi gwrthryfel yn Iwerddon?

Nid rhai crintachlyd oedd ffermwyr Cwm Eithin. Na, yr oedd yn eu mysg lawer o wŷr a gwragedd caredig iawn. Ond caled iawn oedd eu byd hwythau. Gwesgid hwy i'r eithaf gan y meistr tir a'r caledi a ffynnai ar y pryd. Ni allent fforddio talu rhagor o gyflog. Adwaenwn lawer ffarmwr a weithiodd yn galed, ef a'i wraig, ac yn aml ddwy neu dair o ferched a dau neu dri o feibion yn gweithio heb erioed gael dimai o gyflog, dim ond ychydig o ddillad, ac feallai swllt neu ddau yn eu poced i fyned i'r ffair. A phan briodent yn ddeuddeg neu bymtheg ar hugain oed, ni feddai'r tad yn aml fwy na digon i brynu dwy

¹ *A walk through Wales, 1797*, gan Richard Warner, Bath.

fuwch neu dair i'w rhoddi iddynt i ddechrau byw. Wedi gweithio'n galed am ugain mlynedd, ni fyddai'r swm a gaent yn aml yn fwy na 30/- neu 40/- ar gyfer pob blwyddyn o waith. Clywais lawer gwaith rai yn dywedyd fel hyn, "Mae'r ffarmwrs yn bobl garedig iawn; fe gewch bryd o fwyd ganddynt pan fynnoch, a thipyn o datws neu foron, a chanied o laeth, a selen o 'fenyn i fyned hefo chwi adre; ond gofynnwch am 1/- at ryw achos da, mae bron yn amhosibl ei gael ganddynt," heb ystyried mor ychydig o arian oedd yn myned trwy ddwylo'r ffermwyr mewn blwyddyn, pan werthent ddeunawiaid am £3/10/0; bustych dwyflwydd am £6; buwch am £7; ceffyl am £12; mochyn tew am 3½c. y pwys; ymenyn am 5c. y pwys; yr wyau yn ½c. yr un neu ddeunaw am 6ch. Ac yr oedd raid talu'r rhent, y trethi, a'r cyflogau allan o hynny.

Bûm yn holi ffermwyr cyfrifol, rhai y gellid dibynnu ar eu tystiolaeth, beth a allai swm yr arian fod a dderbynai ffarmwr mewn blwyddyn. Yr atebion a gefais oedd, os gallai ffarmwr droi ei rent drosodd dair gwaith mewn blwyddyn y byddai yn gwneud yn dda iawn. Felly cymerer ffarm drigain i ddeg a thrigain o aceri, a dyweder fod ei rhent yn £50, yn ôl rhenti y dyddiau hynny am ffermydd yn y cymoedd. Felly fe dderbynai'r ffarmwr £150 mewn blwyddyn. Cymerai'r meist'r tir £50 oddi arno. Ai yr ail £50 i dalu'r trethi a'r degwm, cyflog gwas a morwyn y byddai'n rhaid eu cael i amaethu lle o'r maint hwnnw. Byddai raid i'r £50 olaf dalu bil y sadler, y gof, y saer, y crydd, y teiliwr, y ffatrwr, a'r gwehydd, a phrynu ychydig o ddillad, na allai eu cynhyrchu o wllân ei ddefaid, iddo ef a'i briod, ac feallai nifer o blant ieuainc; ychydig o de a siwgr at iws y tŷ, ambell bwys o siwgr *loaf* ar gyfer dieithriaid, a chyfrannu ychydig sylltau at achos crefydd.

Dyma ddyfyniad o waith "S.R." ar y cwestiwn uchod, oherwydd nid oes dim fel adnod i brofi pwnc. Yr oedd "S.R." ymhlith y gweinidogion cyntaf ar ôl y diwygiad Methodistiaidd i ddarganfod y gwirionedd mawr fod gan y saint gyrff yn ogystal ag eneidiau. Llafuriodd ef ac "Ieuan Gwynedd," a Michael Jones, a Thomas Gee, a "Hiraethog," ac eraill yn galed dros ryddid y corff, a'i hawl i'w ran o gynnyrch y ddaear at ei gynhaliaeth. Gŵr amlochrog oedd "S.R.," yn meddu crebwyll cryf a gwroldeb diwygiwr. Cyhoeddwyd ei weithiau yn 1856, cyfrol sydd yn amrywiol iawn ei chynnwys, ac yn ddrych o gyflwr Cymru yr hanner cyntaf o'r ganrif ddiweddar. Diau fod llawer

o'i chynnwys wedi ymddangos yn *Y Cronicl* a phapurau eraill flynyddoedd cyn hynny. Yr oedd yn un a ymdaffodd â'i holl ynni i ryddhau Cymru o dan iau ei chaethiwed, ac y mae'r gyfrol yn gofgolofn i'w allu, ei fedr, a'i wroldeb diŵyro.

Yn ei bennod addysgiadol a diddorol ar Amaethyddiaeth, disgrifia "S.R." gyflwr gresynus amaethwyr Cymru oherwydd rhenti uchel, traha'r tîrfeddianwyr, ac yn enwedig y stiwardiaid. Yr oedd y stiward wedi codi rhent Mr. Careful, Cil Haul Uchaf, ddwywaith neu dair, ac wele hanes y driniaeth a gafodd am ofyn am ostyngiad, a'r ymddiddan rhyngddo ef a'i fab hynaf ar ôl derbyn rhybudd i ymadael.

Cwynodd yr amaethwr wrth y stiward fod rhent ei dyddyn yn uchel, a'i fod yn methu'n lân â thalu ei ffordd. Adroddodd ei gŵyn un diwrnod wrth ei gymdogion yn yr efail. Yn gwranddo yr oedd gŵr ieuanc newydd briodi, ef a'i wraig wedi cael swm pur dda o arian ar ôl perthynasau, ac yr oedd yn awyddus iawn am ffarm gan y stiward, ac wedi dechrau cynffonna trwy anfon ambell bresant a thalu am botel o *champagne* iddo. Cariodd y stori i'r stiward. Anfonodd hwnnw am y ffarmwr, pryd y bu'r ymddiddan a ganlyn rhyngddynt:—

Ar ol dysgwyl yn bur hir oddeutu y drws, cafodd ei alw i mewn. Edrychodd y steward yn llym wguŵs arno, a dywedodd wrtho, mewn llais cryf garw, na wnai ef ddim goddef iddo *gwyno* ar y codiad diweddar, fel ag yr oedd wedi gwneud y dydd o'r blaen wrth yr Efail; fod ei rent ef yn bur rhesymol yn wir,—ei bod yn llawer îs na rhenti ffermydd cymydogoethol arglwyddi eraill. Nid oedd Ffarmwr Careful wrth gychwyn mor fore tua'r Queen's Head; ac wrth chwysu yn ei frys i gyrhaedd yno mewn pryd, ac wrth ddysgwyl yno ar ol hyny nes oeri braidd gormod—nid oedd ddim wedi dychmygu mai myned yno i gael ei drin a'i athrodi felly yr oedd wedi y cyfan: a darfu i drinfa front fawaid felly, pan yr oedd yn agor ei glustiau a'i lygaid am ryw newydd cysurus, gynhyrfu mymryn ar ei ysbryd; ac atebodd mewn geiriau braidd cryfach nag a fyddai yn arfer ddefnyddio ar adegau felly,—Ei fod ef a'i deulu wedi gwneud eu goreu ym mhob ffordd i drin yn dda; ei fod ef a'i wraig a'i blant yn cydymroi i weithio eu goreu yn fore ac yn hwyr—nad oedd byth na smocio, nac yfed, na gloddesta, na dim o'r fath beth yn eu tŷ; eu bod wedi gwario i drefnu a gwella y ffarm y cyfan

oll o'r chwe chan punt a dderbyniodd ei wraig yn gynnysg-aeth ar ol ei thad; ei fod yn gwbl foddlon er's blynyddau i log yr arian hyny gael myned i wneud i fyny'r talion yn y blynyddau drwg presenol; ei fod wedi hoff-obeithio gallu cadw y £600 yn gyfain i'w rhanu yn gyfartal rhwng ei ferched ufudd a diwyd ar ddydd eu priodi; ond yn awr, fod y £600 i gyd oll wedi myned, ac na byddai y *stock* ddim yn hollol rydd ganddo ar ol y talion nêsaf; ac yn *wir nad oedd dim modd iddo ef dalu am y ffarm heb gael cryn ostyngiad*. Wrth glywed hyn, dywedodd y steward yn bur sychlyd wrtho,—‘Gwell i chwi ynte roddi y ffarm i fyny.’ ‘Yn wir, Syr,’ atebai y tenant, ‘*rhaid* i mi ei rhoddi i fyny os na cheir rhyw gyfnewidiad yn fuan.’ ‘Hwdiwch ynte,’ ebe y steward, ‘dyma fi yn rhoddi i chwi *notice* i ymadael Gwyllfair.’ Ar hyn, gostyngodd y tenant ei ben, ac atebodd mewn llais isel toredig, y byddai yn galed iawn i'w deimladau orfod ymadael o hen gartref ei dadau; ei fod ef a'i wraig a'i blant yn eu hamser goreu i drin y ffarm, ac y byddent yn foddlon i lafurio ac ymdrechu etto am flwyddyn neu ddwy mewn gobaith am amserau gwell. Ond bry-atebodd y steward yn bur sarug,—‘Yr wyf yn deall eich bod wedi gwario yn barod yr arian *cefn* oedd genych: gwell i chwi chwilio ar unwaith am ffarm *lai*: hwdiwch, dyma'r *notice* i chwi ymadael: rhaid i mi yn awr fyned at oruchwylion eraill—bore da i chwi.’

Rhoddodd Mr. Careful y *notice* yn ei logell, a dychwelodd adref gyda chalon drom iawn; a phan oedd yn gorphen adrodd wrth Jane ei wraig yr hyn oedd y steward wedi ddweyd ac wedi wneud, daeth y tri mab yn annysgwylidwy i'r tŷ. Daethant haner awr yn gynt nag arferol, am eu bod wedi gorphen cau y gwter fawr yn ngwaelod y braenar, a galwasant heibio i'r tŷ am fara a chaws cyn cychwyn at eu gorchwylion yr ochr arall i'r ffarm. Deallasant ar unwaith fod rhyw newydd drwg, neu ryw amgylchiad cyfyng yn gofidio eu tad a'u mam. Bu tafodau pawb am enyd yn fud, ond yr oedd *llygaid* y plant yn dadleu fod hawl ganddynt i wybod achos blinder eu rhieni. Penderfynodd y tad i beidio celu oddiwrth ei blant y *notice* i ymadael ydoedd newydd dderbyn, ac adroddodd wrthynt yr oll a gymerasai le. Gwrandawsant hwythau arno yn fud-synedig; ac ar ol iddo dewi, edrychasant ar

eu gilydd yn bur effeithiol, ond heb yngan gair. O'r diwedd, tōrodd y tad ar y dystawrwydd trwy ddweyd, megys wrtho ei hun, mewn llais trist isel, yn cael ei hanner fygu gan gymysg deimladau,—‘Yr oeddwn i wedi hoff-obeithio y cawswn orphen fy nyddiau yn Cilhaul-uchaf, ac wedi breuddwydio lawer gwaith ganol dydd a chanol nos y cawsai fy llwch huno gyda llwch fy nhadau yn eu hen feddrod rhwng yr Ywen fawr a drws cefn y clochdy, lle y gorphwys y rhai lluddedig, ac y peidia yr annuwiol â'i gyffro.’ * * *

“Ie, ie,” ebe y fam, “lle y mae John bach, fy nghyntaf-anedig anwyl, yn huno yn felus ar fynwes ei dad cu tirion, a lle y mae fy anwyl, anwyl anw”—(ar hyn collodd y fam ei lliw—dechreuodd ei gwefusau grynu—ymrwygodd ochenaid ddofn o gronfa ei chalon ; ond nis gallodd orphen ei dywediad). Wrth weled hyny, cododd y mab hynaf ei wyneb mawr llydan iach gwridog ; a chyda llais dwfn, cryf, caredig, effeithiol, llawn o deimlad, naill ai teimlad o serch cynhes at ei riēni, neu ynte teimlad o ddigllonedd brwd tuag at y gormeswyr, neu dichon y ddau deimlad yn ferw cymysgedig, dywedodd,—“O fy anwyl fam, na adewch iddynt ladd eich calon fel yna. Y maent wedi gwneyd eu *gwaethaf* i ni. Na hidiwch mo honynt byth mwy. Na ofnwch hwy ddim yn chwaneg. Os gwnawn ni ein dyledswydd yn y byd yma, nid yw o ddim cymaint pwys pa le bydd ein llwch yn gorphwys. Bydd yn sicr o fod allan o’u cyrhaedd hwy ; a byddwn yn sicr o ddiuno yn iach ar alwad gyntaf bore mawr y codi, a deawn o hyd i’n hen gyfeillion ar darawiad llygad, a deuant hwythau hefyd o hyd i’w “*lle*” eu hun, a chesglir hwy at eu “pobl,” i dderbyn yn ol yr hyn a wnaethant yma. Gwyddoch eu bod wedi creulawn lyncu i fyny yn barod eich £600 chwi. Gwyddoch ein bod ni oll wedi gweithio yn galed iawn, haf a gauaf, drwy wynt a gwlaw, ac oerni a gwres, fore a nawn a hwyr, er *eu helw hwy*, a’n bod heb ennill rhyngom oll yr un swllt i ni ein hunain. Yr ydym wedi cyson dalu iddynt bob parch ac ufudd-dod yn ein gallu, ond tlawd iawn yw yr ad-dâl ydym yn gael am ein holl lafur a’n gofal. Y mae gan Tom Thrift, aradwr y Plas hen, £88 o’i ennill yn awr yn y Savings Bank ; ond nid oes genyf fi, er fy mod dair blynedd yn hŷn na Tom, yr un geiniog wrth gefn yn ei chadw erbyn yr amser a ddaw.¹

¹ *Gweithiau Samuel Roberts, Dolgellau, 1856.*

Aeth y mab ymlaen i chwaneu enghraifft ar ôl enghraifft, i ddangos gorthrwm y tîrfeddianwyr. A dechreuodd feirniadu'r Aelodau Seneddol am y cyfreithiau annheg oedd mewn grym, pryd y gwaeddodd y tad a'r fam yn unllais, "Paid â deud dim am bobl fawr y Senedd, John bach; gâd lonydd iddyn nhw, beth bynnag." Y mae'r hanes yn rhyfaith i'w roddi i mewn i gyd. Er holl orthrwm y tîrfeddianwyr yr oedd ymlyniad y werin wrth yr hen bendeŷgaeth yn para yn barch gwasaidd iddynt.

Geilw y dywediad i'm cof enghraifft arall o'r un peth. Naill ai ddiwedd 1868 neu ddechrau 1869, yr oeddwn mewn cyfarfod yng nghapel bach Cwm Eithin, pryd yr oedd Robert Jones, Tŷ Newydd, yn gosod tysteb G. Osborne Morgan gerbron y gynulleidfa fechan, ac yn dywedyd bod yr awdurdodau wedi penderfynu gwneud tysteb a'r aelod Seneddol newydd, fod costau'r etholiad wedi bod yn uchel iawn, a byw yn Llundain yn hynod ddrud. Brysiais innau adre â'm gwynt yn fy nwrn i ddywedyd y newydd wrth fy nain, gan ddisgwyl y cawn dair ceiniog fel y gallwn roddi swm anrhydeddus at y dysteb, oherwydd yr oeddwn wedi bod yn rhai o gyfarfodydd Osborne Morgan, ac wedi clywed ei ganmol fel gŵr oedd yn siŵr o ddyfod â Chymru newydd inni. Ac onid oeddwn yn un o'r rhai oedd yn gwrando ar Huw Myfyr yn dywedyd fod Syr Watkin yn fwy cymwys i godi tatws nag i fod yn Aelod Seneddol; a hynny o waed oedd ynof wedi ei ferwi a chodi gwrid i'm hwyneb llwyd gan yr hyawdledd, ac wedi curo fy nwylo bach nes oeddynt yn brifo! Bu'n rhaid i Ddr. Edwards a'r Parch. Michael D. Jones amddiffyn Huw Myfyr ac eraill o hogiau'r Bala. Cafodd Huw Myfyr y fraint o osod y Salmau ar gân yn y pentre y bu'r Dr. Morgan yn cyfieithu'r Beibl i Gymraeg, ond bu agos iawn iddo gael y fraint o wneud y gwaith yng Ngharchar Rhuthyn, fel John Bunyan gyda *Thaith y Pererin*. Peth peryglus iawn oedd dywedyd y gwir am y bobl fawr yr adeg honno. Er fy syndod, pan adroddais y newydd wrth fy nain, cododd ei dwylo uwch ei phen a chydag ochenaid drom gwaeddodd allan, "Wel! wel! a ydyw hi wedi dwad i hyn yna arnon ni? Anfon dyn i'r Senedd a chyno fo ddim digon o arian i'w gadw'i hun yn Llundon? Dyna i mi Aelod Seneddol braf! Rhad ar y bobl a'i gyrrodd o yno, ddeuda i."

Teimlai'r Dr. Owen Thomas i'r byw oddi wrth drahauster y tîrfeddianwyr, fel y gwelir yn ei lythyr i gynhadledd fawr Aberystwyth, 1869, a gafodd ei bod trwy wytnwch Cymry y

wasgarfa, i wrthdystio yn erbyn gwaith tîrfeddianwyr yn troi eu tenantiaid o'u ffermydd am bleidleisio yn ôl eu cydwybod yn Etholiad 1868¹. Ychydig o ran a gymerodd y Doctor erioed mewn cwestiynau gwleidyddol. Pregethu'r Efengyl oedd gwaith mawr ei fywyd. Ond amlwg y teimlai i'r byw oddi wrth y gamdriniaeth a dderbynai ei gydgenedl oddi ar law y tîrfeddianwyr. Wedi sôn am y tyddynwyr yn cael eu troi o'u hen gartrefi, dywaid :

“ Yn wir, fy anwyl syr, y mae o'r bron yn ddigon i beri i waed un ferwi i feddwl fod yn Mhrydain Fawr, yn yr hanner diweddaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg—o dan deyrnasiad y Frenhines Victoria—William Ewart Gladstone yn Brif Weinidog—Robert Lowe yn Ganghellydd y Drysorlys—ie, a John Bright yn Llywydd Bwrdd Masnach—y fath ormes yn cael ei ymarfer. Y mae y deyrnas wedi ei deffro i deimlo dros yr anghyfiawnderau y dioddefa yr Iwerddon oddi wrthynt. Ond nid oes dim yn yr Iwerddon yn waeth na hyn. Ac am fod y Gwyddel yn troi yn Ffeniad, yn ddiotal am gysegredigrwydd bywyd dynol, ac yn deall y gallu rhyfeddol sydd mewn cyffroad gwladwriaethol, y mae yn cynryfu cydymdeimlad cyffredinol o'r bron: tra y mae y Cymro, druan, yn deyrngarol, yn llonydd, yn ufuddhau i gyfreithiau y wlad, yn bur yn ei galon i bendefigion ei wlad; ac heb law hyny, am

‘ Na lecha byth tu ol i'r gwrych,
I dalu ei rent â phlwm,’

—y mae yr anghyfiawnder a dderbynia efe yn cael myned heibio yn ddiystyr, neu ei wadu; neu, hwyrach, yn cael ei amddiffyn gan rai. Nid wyf fi yn gyfreithiwr; ond byddaf yn meddwl weithiau y gallai ein grasusaf Frenhines, trwy wneud defnydd llai gorthrymus o'i hawliau nag a ymarferir gan y tir-feistri hyn ag yr ydym yn cwyno o'u herwydd, benderfynu eu hachos mewn byr amser, a dwyn rhyddhad i'w deiliaid flyddlawn a erlidir ganddynt. Os nad wyf yn camgymeryd, y mae yn egwyddor ddiamheuol yn nghyfraith Lloegr, fod yr holl dir yn Lloegr yn cael ei ddal trwy gyfryngwriaeth, neu yn ddigyfrwng gan y goron; gan hyny, y mae yr holl fan ormeswyr hyn eu hunain yn denantiaid i'r penadur; ac nid ydynt, ac nis gallant feddianu un

¹Gweler *T Fyst*, Rhag. 3, 1869.

gyfran o'u hetifeddiaethau, ond fel peth deilliedig oddi wrth y penadur. Hiwyrach nad ydyw hyn ond math o ffyg mewn cyfraith Seisnig; ond y mae llawer o'n tirfeistri yn y dyddiau hyn yn gosod temtasiwn gref o flaen y bobl, gan fod y fath allu yn eu dwylaw, i droi ffug yn sylwedd, mewn trefn i weled a ddichon i ryddhad ddyfod iddynt oddi yno. Bu amser pan yr ymunai y bobl ar barwniaid yn erbyn y brenin: edryched ein barwniaid yn awr na byddo iddynt demtio y bobl i ymuno a'r penadur, o dan ryw deyrnasiad dyfodol, yn eu herbyn hwy eu hunain. Y mae y bobl mewn rhai manau, yn enwedig mewn parthau gwledig, yn dioddef braidd yr oll o anghyfleusderau yr hen gyfundrefn wr-iogaethol, ond heb fwynhau dim un o'u manteision; ac y mae yn wallgofrwydd ar ran y rhai sydd yn gormesu arnynt i dybied y bydd i'r fath sefyllfa ar bethau barhau byth. Yr wyf yn siarad yn gryf. Ond yr wyf yn teimlo fod rhai o denantiaid amaethyddol Cymru yn dioddef gorthrymderau lluosog a mawr, a'u bod wedi dioddef yn rhy hir ac yn rhy amyneddgar o danynt; ac y mae yn llawn bryd i'r rhai sydd y tu hwynt i gyrhaedd *ysgrifw* pob meistr tir, 'agor eu genau dros y mud, yn achos holl blant dinystr.'"

Geiriau cryfion iawn, onid e, gan ŵr oedd wedi ei ddwyn i fyny yn y traddodiadau na ddylai pregethwr yr Efengyl gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth; ac er y dywaid ymhellach ymlaen nad yw y math yma o feistriaid tir ond eithriadau yng Nghymru, gŵyr pawb mai eithriadau lluosog iawn oeddynt. Rhaid bod dialedd y tîrfeddianwyr ar ôl Etholiad '68 yn ofnadwy o gryf cyn y buasai Dr. Owen Thomas yn ysgrifennu'r uchod.

Rhoddaf eto ddarn o waith fy hen weinidog, y Prifathro Michael D. Jones y Bala, dyfynedig gan Dr. E. Pan Jones, a ddengys sut yr oedd pethau yng Nghymru ac yng nghylch Cwm Eithin ddeng mlynedd cyn yr amser yr ysgrifennai Dr. Owen Thomas, sef yng nghanol diwygiad '59, y flwyddyn y ganwyd Tom Ellis. Y mae yn yr hanes ddiddordeb neilltuol i mi, gan yr adwaenwn nifer o'r personau y sonnir amdanynt. Ac onid yng nghapel Soar, a werthodd Syr Watcyn dros ben yr aelodau, pan oedd mawl a gweddi'r saint yn esgyn i fyny yng ngwres y Diwygiad, y bûm yn dysgu yr A B C, ac yn adrodd fy adnod i Michael Jones? Ac nid anghofiais byth mo'r emyn a roddodd Tomos Owen, Tai Mawr, i'w ganu pan brynodd un o'r

ffermwyr yr hen gapel, ac y daeth yn ôl yn eiddo'r addolwyr, er nad oeddwn ond prin ddechrau cerdded ar y pryd :

Mae'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
Gwrandewir llais y gwan;
Wel, cyfod bellach, f'enaid prudd,
Anadla tua'r lan.

“ Buais yn brwydro deirgwaith â Syr Watcyn, a'i oruchwyliwr. Tua 25 mlynedd yn ol, mwy neu lai, areithiais yn y Bala yn erbyn i Syr Watcyn gadw'r afonydd, gan yr arferant fod yn rhyddion i'w pysgota er cyn cof. Galwyd fi i gyfrif yn bersonol gan y goruchwyliwr, a danfonodd y goruchwyliwr gychwr (*boatman*) Syr Watcyn at fy nhad i gymeryd fferm Weirgloddwen, yr hon a ddaliai o dan Syr Watcyn. Synodd fy nhad yn fawr, gan nad oedd wedi meddwl rhoi y fferm i fyny, nac wedi derbyn yr un warlin (notice to quit). Pan yr oedd fy nhad yn talu ei rent, dangosodd y goruchwyliwr ysgrif ddiennw yn y 'Carnarvon Herald,' a dywedodd, 'Dyma ysgrif o eiddo eich mab chwi.' Gwelodd fy nhad mai bygythiad oedd anfoniad y cychwr i'w anfon o'i dir, os gwrthwynebid Syr Watcyn gan ei fab.

“ Fy ail drosedd oedd yn mhen deng mlynedd wed'yn (mwy neu lai), areithio yn erbyn y dreth eglwys, a gwrthwynebu'r goruchwyliwr yn egniol ar y pwnc uchod. Ymddangosodd llawer o ohebiaethau yn y papyrau Cymraeg ar y pwnc. Galwodd y goruchwyliwr ar fy mam, yr hon oedd yn weddw ar y pryd, a dywedodd fod Syr Watcyn am gael y Weirgloddwen, sef fferm fy mam, i'r offeiriad. Y fferm oedd ar ol brwydr y pysgota yn gymhwys i'r cychwr, ar ol brwydr y dreth eglwys oedd yn gymhwys i'r offeiriad. Gwnaeth bob egni i gael gan fy mam i roi'r fferm i fynu o'i bodd. Gwrthododd roi telerau mewn un modd. Ychwanegodd y goruchwyliwr. 'Your son annoys Sir Watkin.' Codwyd yn rhent tenant arall, yr hwn oedd wedi gwrthod talu'r dreth, a'r unig un yn y plwyf oedd wedi gwrthod heb roi yr un rheswm.”¹

¹ Gweler hefyd *Landlordiaeth yn Ngbymrŷ* gan T. J. Hughes, *Adfyfr* (a chlargoaffwyd yn bamffled), o'r *Trastbodydd* am Gorffennaf a Medi, 1887, ar yr un pwnc.

Yn y gyfrol *Letters and Essays on Wales*, 1884, gan Henry Richard, ceir llawer o eglurhad ar berthynas y tyddynwyr a'r tîrffeddiannwr yng Nghymru yn dangos, 1. Paham y glynent mor flyddlon i'r hen deuluoedd, disgynyddion yr hen bendefigaeth, ac na ddechreuasant dalu eu rhent â phlwm; 2. Paham y daeth y gagendor rhyngddynt, ac y daeth y boneddigion i edrych i lawr ar y Cymry uniaith, ac i'w trin mor annynol; 3. Condemniad llym Apostol Heddwch—y tyneraf o bawb—ar orthrwm y tîrffeddiannwr.

Peth arall oedd yn gorthrymu'r ffermwyr a'r gweithwyr oedd y cyfreithiau annheg ac unochrog a wnaethpwyd ac a weinyddid gan y tîrffeddiannwr. Nid oedd yn bosibl i'r tlawd gael cyfiawnder a chware teg. Fe ganodd Lewis Morris "Ddeg gorchymyn y traws-gyfoethog," a "Deg gorchymyn y dyn tlawd, y rhai nid ydynt yn yr xx. Bennod o Exodus." Rhoddwn yma rai o orchmynion y dyn tlawd fel y'u ceir yn y *Diddanwch Teuluaid*, casgliad "Huw Llangwm" (1763):—

Dy Feistr-tir a fydd dy Dduw,
Nid ydwyt wrtho fwy nâ Dryw;
Ond ar ei Dir yr wyt yn byw?

Addola'r Stiwart tra bych byw,
Delw gerfiedig dy Feistr yw;
Mae Stiwart mawr yn ddarn o Dduw,

Dos tros hwn trwy Dân a Mŵg,
Gwylia ei ddigio rhag ofn drwg;
Gwae di byth os deil o ŵg.

Diwedda gyda'r deisyfiad :

Arglwydd wrthyf trugarha,
Os Llonydd genyt ti a ga',
Mi dala'r Rhent pan werthwy 'Nâ.

Rhaid addef i'r gweithwyr ddyfod i gredu nad oeddynt yn cael eu rhan tua hanner olaf y ganrif ddiweddaf. Clywais yr hen bobl, pan oeddwn yn hogyn, yn cwyno nad oedd yr un teimladau da rhwng y ddau ddosbarth ag a fodolai yn yr hen amser gynt, pan alwai y gwas a'r forwyn hwy F'ewyrth a Modryb.

Pan ddechreuwyd eu galw yn Feistr a Meistres, fe gollwyd rhyw ofal am y gwas a'r forwyn. Tirfeddiannaeth, deddfau'r tir, gorthrwm y meist, colli'r mynyddoedd, dyma'r pethau sydd wedi bod yn felltith yng Nghwm Eithin.

Ond dyweder a fynner am Gwm Eithin a'i drigolion, magwyd glewion yno ; a pha faint bynnag oedd eu horiau hamdden, yr oeddynt yn bobl ddarllengar iawn, yn ddiwinyddion goleuedig, yn ddynion parod i ymladd dros eu hegwyddorion. Yno y magwyd arwyr y degwm, a hwy, o bawb, a ddangosodd i'r awdurdodau fod oes dioddef gorthrwm wedi dyfod i ben. Ni wreiddiodd ysbrydiaeth benderfynol Thomas Gee yn well yn un rhan o'r wlad nag yng Nghwm Eithin. Goddefodd hen gyfoedion i mi gael eu hanfon i garchar Rhuthyn yn hytrach na pharhau i ymostwng i gyfraith orthrymus oedd wedi dyfod i lawr o'r Oesoedd Tywyll.

Credaf fy mod wedi ysgrifennu digon bellach i ddangos mor galed oedd byd y ffarmwr, fel na wnaf gam ag ef wrth geisio disgrifio byd caled y gwas a'r forwyn i genhedlaeth newydd na wŷr lawer am y cyfnod y cyfeiriaf ato, fel y'i cofir gan un o blant y gorthrwm.

PENNOD III
Y TRIGOLION:
Y GWAS A'R GWEITHIWR

“**M**AE y gŵr yn ymguraw,
A'i dylwyth yn wyth neu naw :
Dan oer hin yn dwyn y rhaw,—mewn
Bu ganwaith heb giniaw. [trymwaith ;

Aml y mae yn teimlo min
Yr awel ar ei ewin :
A llwm yw ei gotwm, gwel ;
Durfing i'w waed yw oerfel.
Noswyllo yn iselaidd,
A'i fynwes yn bres oer, braidd !
Ba helynt cael ei blant cu,
Oll, agos a llewygu !!
Dwyn ei geiniog dan gwynaw ;
Rho'i angen un rhwng y naw !
Edrych yn y drych hwn dro,
Gyr galon graig i wylo :
Pob cell a llogell egyr,
A chloiau dorau a dŷr.”—“ Dewi Wyn o Eifion.”¹

Yr oedd gweision y ffarm fel rheol yn ddynton dichlyn ; gweithwyr caled am oriau hirion ; yn byw yn galed, ac yn magu teuluoedd lluosog, lawer ohonynt. Dynion geirwir, ond ambell hen gynffonnwr, gonest i'r eithaf yn eu tlodi, ac, feallai oherwydd eu tlodi, ni chaent nemor ddim ar goel gan neb ; ni chymerasant lawer am gymryd dim nad oedd yn eiddo iddynt, ond ambell wningen oddi ar y mynydd yr oedd y tîrfeddianwyr wedi ei ddwyn oddi arnynt. Os daliai'r hen gipar hwy caent eu dwyn o flaen yr ustusiaid, sef y tîrfeddianwyr, ac anfonai y rhai hynny hwy i garchar bron yn ddieithriad. Cofiaf yn dda un o fechgyn gorau'r ardal, fy athro yn yr Ysgol Sul, yn cael ei anfon am fis i garchar Rhuthyn am saethu petrisen. Fel y clywais Dr. Pan

¹ *Blodau Arfon, gan "Dewi Wyn o Eifion" (David Owen), Caerlleon, 1842.*

Jones yn dywedyd pan areithiai ar gwestiwn y tir, "Torrodd dau neu dri o fechgyn Llangollen i berllan afalau yn agos i'r dref; daliwyd hwy, ac fe'u hanfonwyd i garchar gan y 'stisied. Yng nghof rhai o'r trigolion, comin oedd y darn tir lle y tyfai'r coed afalau, y tirfeddiannwr wedi ei drawsfeddiannu a'i gau i mewn. Wrth adael y llys tynnai'r ustusiaid eu hetiau i'r meist'r tir, y lleidr mawr, newydd anfon y bechgyn i'r carchar am gymryd eu heiddo'u hunain."

Dechreuai'r gwas a'r forwyn eu diwrnod am chwech yn y bore, ac yng nghynt yn aml, a gweithient yn galed hyd wyth o'r gloch y nos o fore Llun hyd nos Sadwrn.

Os heb fod yn byw yn bell, âi y gweithiwr adre bob nos, gan gyrraedd tua naw, a threulio agos i awr gyda'i wraig a'i blant; myned i'w wely yn brydlon am ddeg, a chodi tua phump i fyned trwy'r un oruchwyliaeth.

Yn y gaeaf, yn ystod y dyddiau byrion, yr oedd diwrnod y gweithiwr dipyn yn fyrrach; ond byddai'r hogyn gyrru'r wedd wrthi hyd wyth yn torri gwellt a thrin y ceffylau. Treuliai'r gweithiwr y Sul gyda'i deulu fel rheol; ond arferai fyned i'r ffarm i nôl ei ginio. Arbedai hynny dolli ar fwyd y wraig a'r plant; a byddai tamaid o gig i'w gael yno, tra na welid dim yn y bwthyn am wythnosau yn aml.

Fe allai y dylwn egluro, er mwyn ambell un, y gwahaniaeth rhwng gweithiwr a gwas. Dyn wedi priodi, neu wedi sadio, ac yn cyflogi wrth yr wythnos, oedd y gweithiwr, tra yr oedd y llanciau yn cyflogi dros y flwyddyn; ac nid oedd dyn yn weithiwr os byddai'n canlyn y wedd. Câi ambell hogyn newydd briodi gryn anhawster i gael lle i weithio gan nad oedd wedi arfer dim ond gyrru'r wedd. Yr oedd diwrnod hogyn gyrru'r wedd yn hwy na diwrnod y gweithiwr ac yntau ar hast eisiau myned adre at y wraig. Yr oedd braidd yn ddiraddiad i lanc newydd briodi yrru'r wedd. Ond gwelwyd aml un yn troi at y wedd yn ôl, ar ôl blwyddyn neu ddwy o fywyd priodasol—digon o amser i ddeall nad angyles a briodasai, namyn merch ddigon tebyg i'w fam a'i chwaer, ac fe allai yn fwy o hen strempen na'i chwaer.

Ar ôl swper ymneilltuai'r gweision a'r hogyn i'r briws am ychydig i blagio'r forwyn, ac yna i'r llofft allan wrth ben y briws neu'r ystabl i lolian am ychydig neu i ddysgu adnod erbyn y Sul; ambell un i ddarllen wrth olau kannwyll, pryd y gosododd seiliau bywyd o wasanaeth a defnyddioldeb, pob un i ofalu am gannwyll yn ei dro. Edrychai'r meist'r yn wgus bore drannoeth onid

aent i'w gwelyau erbyn deg. "Ewch i'ch gwllâu gael i chwi godi yn y bore." Er hynny ni feddyliai neb fod y bywyd yn un caled, a difyr oedd yr oriau. Pennod ddifyr iawn a fuasai hanes y llofft allan. Treuliais dair blynedd ynddi, ond chware teg i'r ffermwyr, nid arnynt hwy 'roedd y bai i gyd fod y llanciau yn y llofft allan. Nid oedd lle yn y tai, lawer ohonynt, a'r llofft allan oedd yr orau mewn aml amaethdy, ac yr oedd yn well gan y llanciau gysgu allan o'r hanner nag yn y tŷ. Nid gwaith bawdd iawn i ffarmwr gael gwas i gysgu yn y tŷ oni fyddai ysbryd hen lanc wedi ei feddiannu i wraidd ei enaid. Sut yn y byd mawr y gallai llanc gael cariad os byddai o dan fawd meistr a meistres ddydd a nos? A thrychineb ofnadwy yw i lanc fod heb gariad. Lle y buasai ei anrhydedd llancyddol? Mae pob llanc yn meddwl priodi rywbyrd, ni waeth pa mor hen y bo. Credaf y gallaf brofi hyn trwy hanesyn syml. Yng Nghwm Eithin, yn amser fy maboed, yr oedd hen wŷr ar fin ei bedwar ugain yn ffarmio, ac wedi colli ei briod ers llawer o flynyddoedd. Bu ganddo *housekeeper* yn hir, ond collodd honno. Yr oedd ganddo un mab adre heb briodi yn llawn deugain oed, ond yn ddiniweitiach na'r cyffredin ac yn swil iawn, hynod o ffeind wrth bawb. Galwn ef Jos. Ni waeth imi heb rododi ei enw priodol. Yr oedd gen i barch mawr iddo, a thipyn o dosturi tuag ato.

"Jos," ebe'r tad, "rhaid i ti chwilio am wraig, 'neith hi mo'r tro i ni fod fel hyn. 'Does dim posib cael morwyn yrŵan a dim llun arni hi. Chwilia di am wraig, ac mi fydd gen'ti gartre ar ôl i mi fynd." Rhoddodd Jos ei ben i lawr a rhyw hanner gwên ar ei wyneb, a dywedodd, "'Dydw i ddim yn licio gofyn i'r un o'r genethod briodi."

"Ddim yn licio wir! Lol i gyd! Sut yr wyt ti'n meddwl y darfu i mi briodi?"

Yr oedd Jos â'i ben i lawr ac wedi mynd yn swbach bach i'w gilydd. Atebodd ei dad yn ôl yn derfynol, 'gasai ef. "Wel, ie, ond priodi mam ddaru chwi, ynte?" Ni chafodd Jos wraig. Collodd ei dad ymhen amser, a buan yr aeth stoc ei ffarm a hynny oedd ganddo rhwng y cŵn a'r brain. Bu'n rhaid iddo droi ei gefn ar ei hen gartre, a bywyd tlawd iawn a gafodd yn gweithio ychydig yma ac acw. Pawb yn ddigon ffeind wrtho, ond y rhai a aeth â'i arian.

Yn Llanaled yr oedd chwech o elusendai a rhent ffarm wedi eu gadael i hen wŷr gweddwon neu ddi-briod fel y gellid rhoddi 3/6 yn yr wythnos i bob un at fyw. Gofynnais i un o'm hen

gyfoedion y rheswm na fuasai Jos wedi cael myned i un ohonynt yn ei hen ddyddiau. Atebodd hwnnw, "Fe ddarfum i gynnig iddo gael mynd i un ohonynt pan oedd tua deg a thrigain mlwydd oed, a'i ateb oedd 'Dydw i ddim yn meddwl y cymeraf ef; rhyw dai digon anfelys ydynt, onid e? Pe bai gan un wraig ni chai ef fyned â hi yno.'" Bu fyw i fyned dros ei bedwar ugain oed ar gymorth plwyf a chyfeillion.

Swm cyflog gweithiwr da yng Nghwm Eithin pan gyrhaeddais i yno oedd swllt yn y dydd yn y gaeaf; rhai yn cael dim ond pumswllt yn yr wythnos. Codai'r cyflog yn y gwanwyn i tua o naw i ddeuddeg swllt, ac ambell bladurwr da yn cael pedwar swllt ar ddeg yn y cynhaeaf, a bwyd. Pan oeddwn yng Nghwm Eithin am seibiant tuag ugain mlynedd yn ôl, euthum o gwmpas rhai o'r brodorion hynaf i holi am hanes y bywyd gwledig yno yn eu cof cyntaf hwy, a beth oedd swm lleiaf y cyflog. Yr hynaf y cefais afael arno oedd Dafydd Roberts, Tŷ'n Rhyd, erbyn hynny yn byw yn y 'Sendy, ac yn gryn gwrs dros ei bedwar ugain pan oeddwn yn siarad ag ef. Meddai gof clir. Wedi cyfarch ein gilydd, aethom dros aml hanesyn y cofiwn i amdano pan oeddwn yn hogyn ac yntau yn ei anterth yn gweithio yn y cylch. Onid peth hyfryd yw cyfarfod ambell hen ŵr yr arferech fod yn dipyn o law gydag ef pan oeddych yn hogyn bach—un yr arferech edrych i fyny ato yn nyddiau plentyndod, dyn a fedr wneuthur ichwi feddwl ei fod ef yn meddwl llawer ohonoch, ac yn gallu rhoi argraff ar eich meddwl pan oeddych yn llabwst o hogyn, os yw'r gair "llabwst" yn gywir am un nad aeth o byth yn fawr, ei fod yn credu eich bod yn ddyn, ac yn ymddwyn atoch felly mewn gwirionedd? Ond dyna ffordd llawer ohonom i fesur dynion ar ôl tyfu i fyny. Y dyn iawn yw'r un a wna dipyn o helynt ohonom ni, a'r dyn sâl yw'r un na wél ein mawredd ni. "Cam neu gymwys," yr oedd Dafydd Roberts yn fy llyfrau i, ac y mae'n para i fod er wedi ein gadael ers tro. "Faint ydych chiwi yn cofio oedd y cyflog i rai yn gweithio efo ffarmwrs, Dafydd Roberts?" meddwn wrtho. "Yr ydwi yn cofio 'nhad yn gweithio yn Tai Ucha'r Cwm, pan oedden ni yn blant, ac yn byw yn Llidiart y Gwartheg, am rôl yn y dydd; dau swllt yn yr wythnos." "Wel, sut yr oeddych chiwi yn byw?" meddwn innau. "Mi ddeuda wrtha ti, a 'does gen i ddim cywilydd deud wrtha ti, Huw bach. Mi fyddwn i a fy chwiorydd yn gorfod troi allan i hel ein bwyd cyn cynted ag y gallem fyned o gwmpas. Amser caled ofnadwy oedd hi yr adeg honno; ond yn ara deg fe ddaeth

pethau yn well. Mae hi yn wahanol iawn yrŵan; ydi, ydi.' Cyfeiriai Dafydd Roberts felly at y blynyddoedd tua 1836-1840, pan oedd ei dad a'i fam a phump neu chwech o blant yn byw yn Llidiart y Gwartheg ar ddau swllt yn yr wythnos.

Yna gelwais gyda hen ewythr, Thomas Williams, oedd nifer o flynyddoedd yn iau, a'r perthynas agosaf yn fyw i "Jac Glan y Gors." Gofynnais yr un cwestiynau iddo yntau. "Yr ydych wedi gweithio yng Nghwm Eithin ar hyd eich oes," meddwn. "Do," ebe yntau, "hyd o fewn ychydig o fisoedd yn ôl. Bu raid i mi ei rhoi hi i fyny." "Beth oedd y cyflog y ffordd yma," meddwn, "pan ydych chwi yn cofio gyntaf, cyflog dynion, nid cyflog hogiau?" "Wyth geiniog yn y dydd a'u bwyd oedd dynion yn gael," meddai, "pan oeddwn i yn hogyn, a pharhaodd felly yn bur hir. Bûm i yn gweithio am wyth geiniog y dydd pan oeddwn wedi troi ugain oed, ac yr oedd yn anodd iawn cael gwaith. Ond yr oeddwn i yn gweithio yn y Bwlch gyda chefnider i 'nhad, Robert Jones, brawd "Jac Glan y Gors"; ac 'roeddwn yno pan fu farw. Ymhen amser daeth cyfnewidiad, a chododd y cyflog yn sydyn i swllt yn y dydd, ac yr oedd siarad cyffredinol am y cyflogau uchel, a beth a ddeuai o'r ffermwyr druain, lle yr oeddynt yn mynd i gael arian i dalu'r fath gyflog." "Beth a fu'r achos o'r codiad?" meddwn. "Wel," meddai yntau, "dechreuodd y dynion fyned i'r gweithydd glo tua'r Cefn, ac agorodd chwareli 'Stiniog, ac aeth nifer yno. Daeth gair fod rhai yn cael cryn bunt yn yr wythnos yn y ffwrnes fawr a gwaith haearn Brymbo. Ni choelïai neb y fath beth am amser, ond gan y mynych gyrchai y llanciau i stesion Tŷ Coch i nôl glo, bu raid credu cyn hir."

Cyflog llanc yn canlyn y pen gwedd yr adeg y sonïaf amdani oedd tua £9, eiddo ail wagner tua £5/10/-, a hogyn £1/10/-.

Yr unig wyliau a gâi gweision ffermwyr ar hyd y flwyddyn oedd dydd Nadolig a diwrnod ffair gyflogi.

Fe wn i yn dda y gellid prynu llawer yn ychwaneg am swllt nag a ellir yn awr, a hefyd fod gan y tlawd aml ffordd i gael tamaid na wŷr pobl yr oes olau hon ddim amdani. Ond caf ddisgrifio'r rhai hynny yn y bennod ar "Frenhines y Bwthyn." Yr oedd ganddi hi llawer i'w wneuthur i gael bwyd i'r plant. Fe wn hefyd yn dda fod gwell teimlad rhwng gwas a meist'r yn hanner cyntaf y ganrif ddiweddar, ac mai trychineb mawr i'r gweithiwr tlawd oedd i "F'ewythr a Modryb" gael eu disodli gan "Mistar a Meistres." Ond er cofio'r cyfan, byd caled oedd byd y gweith-

iwr. Onid oedd hi yn dywyll i edrych ymlaen at hen ddyddiau? Ofn myned i'r "House"! Bu'n well gan gannoedd farw o newyn na myned i'r "House." Yr oedd cymorth o'r plwy bron yn amhosibl ei gael, ac yn druenus o fychan pan geid ef. Ni wn pa bryd y pasiwyd deddf fod y meibion i ofalu am eu rhieni, ond cofiaf yn dda ddynion heb fod yn ennill ond o 9/- i 12/-, a gwraig a phump neu chwech o blant ganddynt, yn cael eu gwysio o flaen yr ustusiaid a'u gorfodi i dalu 1/- neu 2/- yn yr wythnos at gynnal tad a mam mewn henaint. A dioddefodd aml hen wr a hen wraig eisiau cyn myned i gwyno rhag tynnu eu meibion i helynt, a myned â rhan o fwyd eu hwyrion oedd eisoes yn ddigon prin.

Yr oedd yn rhaid i'r gwas a'r gweithiwr aros allan bron ar bob tywydd, glaw a hindda, a dyfod adre gyda'r nos yn wlyb at y croen. Câl'r gweithiwr sychu ei ddillad bob nos a'u cael yn sych i'w rhoddi amdano yn y bore os byddai mewn cyfle i fyned adre y nos. Ac mewn llawer ffarm, câl'r gwas eu sychu o flaen y tân yn y briws neu'r gegin, lle byddai gwraig a rhyw gymaint o ddynoliaeth ynddi. Ond mewn aml le, yr oedd yn rhaid eu hongian yn yr ystabl neu'r llofft allan i sychu. Yr oedd yr ystabl yn lle go lew i hynny, gan fod gwres y ceffylau yn twymno'r lle. Ond, er ceisio cadw dillad i newid, aml y byddai raid gwisgo yn y bore mewn rhai heb fod yn sych. Felly nid rhyfedd fod y dynion yn edrych yn hen cyn cyrraedd canol oed. Mae pethau wedi gwella'n fawr yn y cyfeiriad hwn.

Arferai paganiaid duon India fyned â hen bobl i lan afon Ganges i farw. Nid rhyw lawer iawn mwy anghristionogol oeddynt na'r tîrfeddianwyr oedd yn gwneuthur cyfreithiau Prydain Fawr. Pwy sydd yn cofio'r pethau hyn nad yw yn barod i ganmol y Cymro dewr o Gricieth am *Old Age Pensions*? Mae *Cân Hen Wr y Cwm*, gan "Gweryddon," yn adrodd profiad hen weithiwr tlawd i'r dim:

“ Wel dyma wr a'i dŷ ymhell,
 O mae hi'n oer,
 Yn wan a gwael mewn unig gell,
 O mae hi'n oer!
 Mewn bwthyn oer, pa beth a wnaaf,
 Hen wr trallodus clwyfus claf?
 Ar wely gwellt galaru gaf,
 O mae hi'n oer!

O dan fy nghlwy yn dwyn fy nghlais,
 Yn glaf a llesg, pwy glyw fy llais ;
 Prudd yw fy nghwyn ! Pwy rydd fy nghais ?
 O mae hi'n oer !

O sylw'r byd mewn salw barth,
 O mae hi'n oer !
 Mewn gwllith o hyd, mewn gwllaw a tharth,
 O mae hi'n oer !
 Ar fynydd oer mae f'anedd wael,
 Y' nghyrau llwm rhyw gwm i'w gael,
 Ac oeraf wynt yn curo f'ael ;
 O mae hi'n oer !
 Byw weithiau'n llaith mewn bwthyn llwm
 Yn wir y ceir Hen Wr y Cwm ;
 Mae heno'n troi yn rhew-wynt trwm,
 O mae hi'n oer !

Mae'r gwynt yn uwch ! mae lluwch ger llaw,
 O mae hi'n oer !
 Er gwaeled wyf, i'r gwely daw !
 O mae hi'n oer !
 Mae'n arw fod mewn oeraf fan
 Rhyw unig w'r mor hen a gwan,
 Yn welw ei rudd, yn wael ei ran,
 O mae hi'n oer !
 O na chai hen greadur gwan
 Cyn llechu'n llwyr yn llwch y llan
 I'w einioes f'er ryw gynnes fan ;
 O mae hi'n oer !

Mewn eira ceir Hen Wr y Cwm,
 O mae hi'n oer !
 Mewn gwynt a lluwch ac yntau'n llwm,
 O mae hi'n oer !
 Er gweled llawnder llawer llu,
 Rhag gofid oer y gauaf du
 Ni feddaf loches gynnes gu,
 O mae hi'n oer !

O boenau dwys ar ben y daith !
Mewn eisieu'n fud am noson faith
Ar wely llwm mor wael a llaith,
O mae hi'n oer,

Mewn iasiau tost—mewn eisieu tân,
O mae hi'n oer !
Heb wlanen glyd, heb lîn na gwlan,
O mae hi'n oer !
Yn waela'i ran o ddynolryw,
Ar fin y bedd 'rwyf fi yn byw,
Yn hen a gwael, yn wan a gwyw,
O mae hi'n oer !
Un mynyd awr i mi nid oes,
Ond chwerw lid a chur a loes ;
Ni charaf fyw yn chwerw f'oes,
O mae hi'n oer !

Ni fynwn fyw o fân i fân,
O mae hi'n oer !
Yn llusgo corff mor llesg a gwan,
O mae hi'n oer !
Ar hyd y nos mae'n rhaid yn awr
I'r awel lem fy nghuro i lawr
Dan boenau dwys bob enyd awr,
O mae hi'n oer !
Er chwennych bod mewn hynod hedd
Claf yw fy nghorff, cul yw fy ngwedd ;
Rwy'n wers i bawb yn nrws y bedd,
O mae hi'n oer !

Mewn blinaf wynt, heb lo neu fawn,
O mae hi'n oer !
Heb dân na gwrês, heb yd na grawn ;
O mae hi'n oer !
Pwy ddaw a'i rodd ? pwy ddyry ran
O'i ddoniau'n gu i ddynyn gwan
Na fynai fyn'd o fân i fân ?
O mae hi'n oer !

CWM EITHIN

Ni flina'i neb fel hyn yn hir,
 Mae'r *bedd* gerllaw mewn dystaw dir,
 Mae yno'n well nag yma'n wir,
 O mae hi'n oer !

Mae cannoedd yn eu lleoedd llawn
 Ar noson oer,
 Yn llon eu nwyf, yn llawen iawn
 Ar noson oer !
 Yn glaf a llwm, pwy glyw fy llef ?
 Ai'r bryniau'n awr ? Na, Brenin nef !
 Mawr ydyw grym ymwared gref
 Ar noson oer !
 Gwel Duw fy ngham, clyw Duw fy nghwyn—
 Rhyw un a ddaw ar hyn, i ddwyn
 Elusen fach, a'i lais yn fwyn.
 Ar noson oer !

“*Y Geiniogwerth*,” 1849

PENNOD IV

Y TRIGOLION:

Y FORWYN A'R YMBORTH

YN ffermydd mwyaf Cwm Eithin ceid pen forwyn, yr ail forwyn, a'r hogen. Disgwylid i'r pen forwyn allu gwneud menyn, pobi, golchi, smwddio, ceulo a gwneud caws, yr ail forwyn i'w chynorthwyo a dysgu pob gwaith i'w pharatoi ei hun i gymryd lle'r ben forwyn ei hunan. Oherwydd wedi i un gyrraedd safle pen forwyn, yr oedd wedi cyrraedd oedran priodi, oni byddai ysbryd hen ferch yn ei chorddi. Cryn anrhydedd i lanc oedd cael pen forwyn yn briod. Yr oedd yr ail forwyn i edrych ar ôl y moch a'r lloeau, a gofalu rhoi bwyd i'r naill a gwlyb i'r lleill yn ei bryd, er y gofalai pob un ohonynt alw ei sylw at y ffaith ei bod yn amser. Golygfa arddunol iawn yw gweled y forwyn â bwcedaid o fwyd moch ym mhob llaw, a gwialen o dan ei chesail, a deg neu ddwsin o foch newynog o'i chwmpas am yr uchaf yn ei ffordd ei hunan yn gofyn bendith ar y bwyd. Yna myned a gwlyb i'r lloeau, a phob un ohonynt yn gwylied amdani i rododi hergwd iddi hi a'i bwced, a cholli'r gwlyb am ben ei *blouse* neu ei *junper*,—O nage, ei ffedog fras. Gwaith yn gofyn medr neilltuol yw dysgu llo bach i ddechrau cymryd ei wlyb; rhaid i'r eneth roi ei llaw yn ei geg; ond y mae ganddi hyn o gysur, ni raid iddi wisgo menyg i lanhau y grât, oherwydd fe ofala y llo bach am gadw'i llaw yn wen a sidanaidd, trefn natur i gadw llaw yr eneth o forwyn yn dyner ac esmwyth.

Dywedid pethau doniol iawn am rai o'r merched *smart* yr oedd y Llywodraeth yn eu hanfon o gylch y wlad i ddysgu'r ffermwyr sut i wneud eu gwaith amser y rhyfel. A diau mai golygfa ddiddorol dros ben a fuasai gweld merch ieuanc o'r dref yn rhoddi gwlyb i lo bach heb ddysgu ei gymryd ei hunan.

Yr oedd yr hogen at alwad pawb, ac i gynorthwyo ac i'w gwneud ei hun yn ddefnyddiol, a gofalu ychydig am y plant os byddai rhai. Ond y mae yn syndod mor ychydig o ofal sydd yn angenrheidiol am blant yn y wlad; mae ynddynt ryw reddf i ofalu amdanynt eu hunain na fedd plant tref mohoni, yn enwedig y rhai moethus ohonynt. Yn ychwanegol at waith tŷ, arferai y morynion odro, taenu ystodiau, troi a chyweirio gwair, casglu

a chribinio, myned ar ben y das i helpu'r taswr, ac yn aml ddadlwytho, gafra, a chodi'r ŷd. Gwaith caled i'r cefn oedd gafra, a golwg ddigon digalonafyddai ar aml eneth â chroen go denau, pan fyddai'r ŷd yn llawn ysgall; ond rhaid oedd gafael ynddo, a gellid torri llewys hen *fetgown* go dew wedi ei droi heibio, neu hen gôt Bob, y gwas, i'w rhoddi am y breichiau. Cofiaf y gallai Morris Llwyd afra ŷd yn llawn o ysgall wedi torchi ei lewys a gwasgu'r afr â'i freichiau noeth. Hwsmon oedd ef ac ar y blaen yn torri byddai, ond dangosai i'r bechgyn a'r genethod yn awr ac eilwaith sut i wasgu gafr yn llawn ysgall i'w mynwes. Gofalai y wraig am wneud bwyd yn ystod y cynhaeaf, a chyfarwyddai'r genethod i'w wneud amser arall.

Bywyd caled oedd bywyd gwas ffarm, llawer caletach a chaethach oedd bywyd y forwyn. Rhaid oedd iddi hi godi hanner awr wedi pump i alw ar y llanciau, golau tân, cael y llestri godro'n barod erbyn y deuai'r gwartheg i'r fuches, ac yna byddai ar drot o'r bore gwyn tan nos. Prin y cai hamdden i fwyta; a phan ddeuai adeg noswyllo byddai'n rhaid iddi hi glirio a golchi llestri swper ar ôl i bawb arall orffen, ac ni feiddiai neb ddyfod i'w swper cyn wyth. Pe deuai un dri munud cyn wyth, edrychai y meistr ar y cloc ac yn wgus iawn ar y troseddwr, ac yn ddigon aml byddai hen gynffonnwr yn y fintai, hen gwmon feallai, yn hwyr yn dyfod i swper; ni fyddai ef wedi meddwl ei bod yn wyth o'r gloch, yr amser wedi mynd heb iddo ef *gysidro*. Ac ni fyddai cymaint o frys i fwyta swper. Byddai gan y meistr hamdden yr adeg honno i ofyn barn yr hwsmon am y tywydd; a beth a fyddai orau i fyned ato yn y bore, a chât y gwas bach gyfle i roi ei big i mewn os byddai yn un go ffraeth. A cheid hamdden i chwerthin. Felly âi yn naw cyn y byddai'r morynion wedi gorffen eu gwaith; ac os byddent yn ymolchi ac yn gwneud eu gwallt ar ddiwrnod gwaith, ni wn pa bryd y gorffennent. Hyn a wn i, a welais â'm llygaid ac a glywais â'm clustiau: dwy eneth o forwyn yn eistedd i lawr wedi gorffen eu gwaith am ugain munud wedi naw, yn goleu kannwyll frwyn i ddarllen, un *Drysorfa Plant*, a'r llall ryw lyfr arall nas cofiaf yn awr. Yr oedd yno doreth o lyfrau. Ugain munud i ddeg union ar y cloc clywn y meistr yn gweiddi, "I'ch gwlaû, enethod! Fe fydd digon o drafferth i'ch codi chi yn y bore, mi wn." Yr un peth drachefn ym mhen rhyw bum munud. Troesant hwythau y cŵn allan, ac i fyny y grisiau â hwy. Gallai fod yr uchod dipyn yn eithriadol; ond y ffaith oedd na welodd llawer meistr ddim ond

gwaith a gwely ei hunan, ac ni ddaeth i'w feddwl o gwbl fod ar na morwyn na gwas, na merch na mab, angen dim oriau hamdden. "I'ch gwllau gael ichwi godi yn y bore," oedd y peth pwysig. Ystyrrid £3/10/0 yn gyflog da i forwyn.

Ceid rhagor o hamdden yn y gaeaf. Pan fyddai'r dydd yn fyr byddai swper yn gynharach, a thipyn o orffwys cyn swper. Nid yw'n beth i synnu ato y byddai llawer o'r genethod yn bur anodd eu codi yn y bore; ac ni ddylasai Williams Pant y Celyn synnu llawer iddo fethu â deffro geneth o forwyn i nôl cannwyll iddo un tro. Dywedir y byddai'r hwyl, canu yn dyfod drosto yn y nos yn aml pan fyddai oddicartref; ac wedi canu pennill yn ei gwsg neu yn effro byddai yn awyddus i'w ysgrifennu cyn iddo fyned yn angof. Un tro arhosai mewn ffarm ddieithr; daeth yr hwyl ato, a cheisiodd ddeffro'r hogen i nôl golau iddo. Mae'n debyg nad oedd *matches* yr adeg honno; ond methiant glân fu ei ymgais, a chanodd y pennill doniol a ganlyn iddi:

Mi wela'n awr yn eglur,
 Ped elai clychau'r Llan,
 A rhod y felin bapur,
 A gyrdd y felin ban,
 A'r badell fawr a'r crochan
 Yn twmblo drwy y tŷ
 A'r gwely'n torri tani,
 Mai cysgu wnelai hi.

Yr oedd yn beth priodol i forwyn weu a gwnïo, a darllen y wers at yr Ysgol Sul, ac ehangu ei gwybodaeth gymaint ag a allai. Ni welais neb yn *croisio* yno. Credaf y gwyddai yr hen drigolion rywbeth amdano, ond na feddylent lawer o'r gwaith, oherwydd os ceid y genethod yn symera, clywid ambell hen fam yn gweiddi, "By be ydych chi'n neud yn y fan yna yn gweu lasie?" Nid wyf yn cofio bod yno yr un piano yn y Cwm i neb ei ganu; yr oedd yno ambell delyn. Yr organ gyntaf a welais oedd yr un yr âi William Thomas, Pentrefoelas, â hi o gwmpas y wlad mewn cerbyd i gadw cyngherddau.

Yng Nghylchwyl Lenyddol Caerdybi, Nadolig 1859, cynigiwyd gwobr am Nofel Gymraeg yn disgrifio'r Llafurwr Cymreig. Enillwyd y wobwr gan "Llew Llwyfo," a rhoddir gair uchel iawn i'r gwaith gan y beirniad, "I. D. Ffraid." Ond ymddengys i mi fod y "Llew" wedi bod yn fwy llwyddiannus i ddisgrifio

pethau salaf gwas ffarm na'i bethau gorau ; a phe buaswn wedi darllen *Huw Huws*¹ pan oeddwn was ffarm cyn i'r "Llew" ddyfod ar ei daith gyngherddol, ef, ac "Ap Madog," a "Iago Pencerdd," os cofiaf yn iawn, nid wyf yn meddwl yr aethwn i wrando arno yn canu. Ond â'i ddisgrifiad o fywyd yr eneth o forwyn y mae a fynnwylf yn awr. Os yw y disgrifiad a rydd y "Llew" o fywyd yr eneth o forwyn ym Môn, ac yn enwedig ei ddisgrifiad o'r fel yr ymddygid ati ddiwrnod ffair gyflogi, agos yn gywir, rhaid bod gwareiddiad rhai rhannau o Gymru yn anhraethol is na gwareiddiad Cwm Eithin. Yr oedd y forwyn yn barchus yng Nghwm Eithin yn yr hen amser gynt. Os oedd ei gwaith yn galed, ei diwrnod yn hir, a'r bwyd yn blaen, ni welid harddach merched yn unman na gennod Cwm Eithin, "Morynion glân Meirionnydd."

YMBORTH

Ni ellir cyhuddo trigolion Cwm Eithin o lythineb. Cofier hefyd nad oedd y bwyd a osodid ar y ford gron o flaen y tân ddim yn wahanol yn amser F'ewyrth a Modryb, ac nad oedd ond ychydig iawn yn well ar ddyfodiad cyntaf Meistr a Meistres i deyrnasu. Byddent hwy yn cael te a lliain ar y ford. Rhoddaf restr o'r prydau yma. Caent frecwast tua saith, cinio hanner dydd, tamaid bedwar o'r gloch, a swper ar ôl noswyllo. Yr oedd mainc o'r tu ôl i'r bwrdd mawr i'r dynion eistedd i gael eu bwyd. Yr hwsmon yn dyfod i mewn yn gyntaf, ac yn eistedd ym mhen draw'r fainc. Byddai'r hwsmon, fel rheol, yn ddyn iach, cryf, ac yn fwytawr cyflym os oedd yn deilwng o'r enw. Yr amser priodol i'w gymryd i fwyta pryd o fwyd oedd chwarter awr. Pan eisteddent wrth y bwrdd i frecwast, dyweder, y peth cyntaf a wnâi pob un oedd gosod ei benelin chwith ar y bwrdd a'i ben i orffwys ar ei law, a thynnu y tancar â'i lond o faidd neu frowes i'w hafflau o dan ei enau, a chyda llwy haearn neu bren codai'r maidd i'w enau yn gyflym a llynciai ef mewn dim amser ; yna torrai'r hwsmon glyffiau o'r dorth haidd, ac ychydig o'r cosyn, ac yr oedd y bara ceirch a selen o 'fenyn yn y cyrraedd, a thyn pig a'i lond o laeth enwyn i bawb yfed yn ei dro. Yn union deg, edrychai'r hwsmon ar hyd y rhes i weled a oedd pawb wedi gorffen ac yna gwthiai bawb

¹ *Huw Huws; neu, Llafurwr Cymreig*, gan "Llew Llwyfo," 1860

allan o'i flaen, ac aent oll at eu gorchwyl. Pan ganai'r corn cinio, eid trwy'r un drefn; llond tancar o botes, a hwnnw yn ddigon di-lygaid yn aml, yna darn o *beef* neu *mutton* hallt wedi ei ferwi. Yr oedd yn flasus a maethlon. Dro arall ceid lwmp o facwn melyn bras. Ceid pwddin reis neu dymplen eirin i ginio yn y cynhaeaf a diwrnod yr *injan*, a chaniatâd i orffwys am awr ar ôl cinio, ond bod yr amser a gymerid i fwyta yn cael ei dynnu o'r awr. Ni cheid gorffwys ddiwrnod cario. Tamaid y gelwid y pryd a alwn ni yn de; tua phedwar o'r gloch, byddai llond tancar mawr o siot oer neu gynnes, fel y byddai'r tywydd, neu fara llaeth. Byddai'r caws a'r ymenyn ar y bwrdd a llond y tyn pig o laeth enwyn. Ond byddai raid clirio'r tancar cyn estyn at y caws a'r ymenyn, neu ceid clywed gair o dafod drwg y feistres yn bur fuan. A *job* ofnadwy i lawer un fel myfi oedd hynny'n aml, gan mor llawn y llenwid hwy. Yr unig ffordd i gael allan o hynny oedd gwneuthur ffrind o'r forwyn, a cheid aml un dynergalon yn eu mysg. Pan welai un bron â thorri ei galon wrth ben ei dancar, ysgubai ag ef i'r briws a'i gynnwys i hocsied fwyd moch cyn y byddai'r feistres wedi cael hamdden i droi rownd. Diolch am hogen o forwyn ffeind, rhodd fawr i aml hogyn gwan ei stumog. Ond yr oedd ambell hen genawes yn eu mysg hwythau. Eu hyfryd waith oedd dangos y sbâr yn y tancar i'w meistres, a chael y llanciau i helynt. Ceid un cwpanaid o de mewn ambell le os byddai'r wraig yn un garedig, ac un frechtan wen neu ganthreg i de ddydd Sul; a byddai rhyw fath o bwddin i ginio ddydd Sul. Uwd, llymru, neu faidd bron bob amser i swper. Ni thyfid nemor ddim gwenith yn y rhan o Gwm Eithin lle y trigiannwn i, ac ni welid tamaid o fara gwyn ond ar y Sul o un pen i'r flwyddyn i'r llall, dim ond bara ceirch a bara haidd.

Yr oeddwn yn casáu bara ceirch pan oeddwn yn hogyn, gallwn fwyta fy ngwala o fara amydd, a dywedir mai dyma'r rheswm fod fy ngwep mor llwyd. Cofiaf un gaeaf yn dda iawn ar ôl cynhaeaf drwg a'r haidd yn fall. Anfonodd fy hen ewythr yr lhaidd i Gruffydd yr Odyn ei grasu cyn ei falu, i dreio gwneuthur bara ohono; ond wedi ei falu a'i bobî, yr oedd fel toes neu yn ôl dywediad y trigolion, yr oedd fel plwm; gwythiennau gleision yn rhedeg drwyddo. Yr oedd y bara ceirch yn well ond ni allwn ei gyffwrdd. Gaeaf i'w gofio oedd hwnnw, ond rhyfedd fel y deuthum trwyddo. Yr oedd y tatws yn dda, a'r llaeth a'r maidd; a byddwn yn cael gafael ar ambell wy a'i ferwi

wrth ferwi col haidd i'r ceffylau, a byddai Mary y forwyn yn celcio ambell ddarn o gaws i mi. Rhyfedd ac ofnadwy oedd troeon yr yrfa.

Wedi i mi fod yn sôn am fwyd plaen, bwyd Cwm Eithin, diau y daw rhai i'r casgliad mai ychydig iawn oedd yr amrywiaeth. Ac felly yr oedd mewn llawer lle. Yn aml byddai'r dynion wedi laru'n lân ar botes. Cofiaf streic mewn un ffarm, y gyntaf y clywais erioed sôn amdani, yn erbyn potes—tanceri mawr wedi eu llenwi y naill ddydd ar ôl y llall. Ond y mae'n syndod gymaint o amrywiaeth a ellir ei wneud mewn bwyd llwy ond cael gwraig yn gogyddes fedrus, a chanddi galon hawddgar a da, awyddus i wneud tamaid blasus. Ni wyddai trigolion Cwm Eithin ddim am *confectionery*. Yr oedd dwy ddefod ymysg y gwragedd, pan roddid prawf ar eu gallu i baratoi gwledd, megis gwneud torth frith, ychydig o *lightcakes* neu gacen ar y radell. Prin yr oedd *jam* wedi ei eni. Y ddefod gyntaf oedd pan fyddai pâr wedi priodi. Ymhen ychydig ddyddiau âi holl wragedd y cylch yn finteioedd o bump neu chwech i "edrych amdani hi" fel y dywedid, sef am y wraig ieuanc, ac âi pob un â rhyw bresant gyda hi, o chwarter o de i fyny, yn ôl eu hamgylchiadau. Âi'r gwragedd tlodion yn eu tro. Nid oedd yn beth gweddus i neb beidio â myned, a byddai y rhoddion yn ychydig gymorth i'r cwpwl ieuanc gychwyn eu byd. Yr ail ddefod oedd "mynd i wledda." Digwyddai honno pan enid geneth neu hogyn i'r byd; âi gwragedd yn yr un drefn a chyda rhoddion cyffelyb. Yr adegau hynny ceid ychydig foethau; ond yr arfer gyffredin oedd cael nifer o wics o siop Siân Jones, eu tostio a'u gosod i nofio mewn 'menyn, a dywedyd "C'raeddwch ato fo, ma'n drwg gen i nad oes yma ddim byd gwell i'w gynnig ichi"; a dywedyd ar ôl iddynt orffen "nad oeddynt wedi bwyta dim," er y byddai dwsinau o wics wedi diflannu. Paham y galwyd y ddefod gyntaf yn "edrych amdani hi," a'r ail yn "wledda," nis gwn. Pe buaswn i yn eu henwi, newidiaswn y drefn, ond y gwragedd a wŷr orau.

Ond sôn yr oeddwn am ymborth beunyddiol teulu'r ffarmwr, a'r amrywiol fathau o fwyd llwy, &c., a ellid eu gwneud. I ddangos hynny ni allaf wneud yn well na rhoi hanes swper Beti Jones Ceunant. Llawer tro y cawsom ni y plant ef ar draws ein dannedd: "Mae isio'ch gyrru chi at Beti Jones y Ceunant garw iawn, dyna ddoi â chi at eich cacen laeth." Digwyddai hynny bryd swper, pan ofynnai ein mam: "Beth sydd arnoch chi

isio i swper heno, blant, gael i chi fynd i'ch gwlaŷu ?” Gofynnem ninnau un am y peth yma a'r llall am y peth arall ; a phan na fyddai ein mam mewn hwyl i wneud rhagor nag un math o fwyd, dyna a glywem : “ Mae eisieu eich anfon at Beti'r Ceunant.”

Yr hanes oedd fod Beti Jones wedi hen flino yn coginio gwahanol fwydydd i'r plant. Yr oedd ganddi bump ar hugain ohonynt, ac ar bob un eisiau rhywbeth gwahanol i'w swper. Cymerodd yn ei phen y rhoddai ddiwedd ar yr helbul, trwy ffordd wreiddiol o'i heiddo ei hun. Dechreuodd ofyn i'r plant, o'r hynaf hyd yr ieuengaf, beth a gymerent i'w swper, ac aeth drwyddynt oll yn y drefn a ganlyn :

“ Robin, be gymi di i dy swper heno ? ” “ Uwd.”

“ Nel, be gymi di ? ” “ Siot.”

“ Mari, be gymi di ? ” “ Posel.”

“ Dic, be gymi di ? ” “ Bara llaeth cynnes.”

“ Sian, be gymi di ? ” “ Maidd.”

“ Twm, be gymi di ? ” “ Llymru.”

“ Sionyn, be gymi di ? ” “ Siot oer.”

“ Cit, be gymi di ? ” “ Bara llefrith.”

“ Dei, be gymi di ? ” “ Potes gwyn.”

“ Abraham Ephraim, be gymi di ? ” “ Bara mewn diod fain.”

“ Jacob Henry, be gymi di ? ” “ Tatws a llaeth.”

“ Hannah Deborah, be gymi di ? ” “ Griwel blawd ceirch.”

“ Ruth Salomi, be gymi di ? ” “ Picws Mali.”

“ Charles Edward, be gymi di ? ” “ Potes pig tegell.”

“ Humphrey Cadwaladr, be gymi di ? ” “ Maidd torr.”

“ Claudia Dorothy, be gymi di ? ” “ Brywes dŵr.”

“ Margaret Alice, be gymi di ? ” “ Posel dŵr.”

“ Goronwy, be gymi di ? ” “ Bara llaeth oer.”

“ Arthur, be gymi di ? ” “ Brwchan.”

“ Blodwen, be gymi di ? ” “ Potes.”

“ Gwladys, be gymi di ? ” “ Brywes.”

“ Rhys, be gymi di ? ” “ Siot bosel.”

“ Corwena, be gymi di ? ” “ Gruel peilliad.”

“ Caradoc, be gymi di ? ” “ Bara llaeth wedi ei grasu.”

“ Llewelyn, be gymi di, fy myr i ? ” “ Mi gyma i uwd yr un fath â Robin.”

“ Da machgen i. Mae Llewelyn am fynd yn ddyn.”
 “ Nage, mi gyma i faidd 'r un fath â Siân. Nage,
 llymru'r un fath â Twm.” “ Ceith o, ngwas i.”

Ar ôl derbyn yr holl gyfarwyddiadau, ymneilltuodd Beti i'r briws, yn hollol dawel, heb ddywedyd y drefn fel arfer, yr hyn a barodd gryn syndod i'r plant, nes peri iddynt edrych ar ei gilydd yn awgrymiadol, a cheisient ddyfalu beth a allai fod. Bu Beti yn y briws am gryn amser yn paratoi y gwahanol ddysgleidiau. Ymhen encyd daeth yn ei hól i'r gegin a'r badell dylino yn ei breichiau, a gosododd hi ar ganol y bwrdd mawr, yna dechreuodd gario'r tanceri a'u cynnwys i mewn, dau ym mhob llaw. Ar ôl dyfod â hwy i gyd ar y bwrdd tywalltodd gynnwys pob un i'r badell. Ar ôl gorffen, cymerodd yr uwffon a thrôdd gynnwys y badell fel yr arferai droi yr uwd â holl nerth ei braich, nes oedd wedi ei gymysgu'n dda. Yna cymerodd y tanceri, a chyda chwpan glust llanwodd hwy o un i un, rhai yn hanner llawn a rhai tua thri chwarter llawn, a rhai yn llawn hyd yr ymyl, yn ôl gwybodaeth fanwl Beti o allu'r plant i glirio eu bwyd. Dechreuodd eu gosod yn un pen i'r bwrdd lle yr eisteddai Robin, ac aeth ar hyd un ochr i'r bwrdd rownd un talcen ac ar hyd yr ochr arall lle'r oedd meinciau. Edrychai'r plant yn wirion arni gan feddwl ei bod wedi drysu. Yna gafaelodd Beti yn yr uwffon; cododd hi uwch ei phen, t'rawodd ei throed yn y llawr a'r bwrdd â'i dwrn, a gwaeddodd gydag awdurdod:

“ At eich swper bob un, a'r un gair o geg yr un ohonoch. Bwyteuoch eich swper bob tamaid; mi ddysga i chwi gymryd be gewch chi i'ch swper. Welsoch chi rotsiwn beth â'r plant, deudwch? Beth ydech chi'n feddwl ydw i?”

Ymlusgodd pob un yn araf i'w le, a gosododd pob un ei benelin chwith ar y bwrdd, a'i ben i orffwys ar ei law, gan hel ei dancer o dan ei enau. Golygfa i'w chofio oedd honno. I dorri ar yr unffurfiaeth, digwyddai nad oedd llaw ddehau pob un o'r plant yr un ochr, felly, yn lle bod pob un â'i wyneb at wegyl y nesaf ato, gwelid weithiau ddau â'u hwynebau at ei gilydd, a dau arall wedi troi eu cefnau at ei gilydd fel pe wedi syrthio allan. Golwg athrist oedd arnynt oll. Buont yn hir fwyta, gan edrych o dan eu cuwch dros ymyl y tancer a oedd ffordd o waredigaeth. Ond safai Beti yn ddisyfl wrth dalcen y bwrdd

â'r uwthffon i fyny gan wasgu ei dannedd. Disgwyliai Beti eu clywed yn crafu gwaelod y tancer â'r llwy bren. Cyrhaeddodd ambell un yn agos i'r gwaelod ; ond cyn hir gwelai Beti glustiau ambell un yn dechrau gwynnu. Gwaeddodd hithau, " I'ch gwllâu bob un," ac yn sicr ni fu gwell ganddynt erioed fyned i'w gwllâu na'r noson honno.

Pan fygythid swper Beti arnom, arferem swatio ar unwaith, a chymryd a gaem, er y gwyddem yn bur dda ynom ein hunain na fuasai ein mam yn cymryd llawer am roi swper Beti'r Ceunant i ni. Yr oedd y frân wen wedi ein hysbysu na chymerasai Beti lawer am wneud yr un peth eilwaith, oherwydd Robin, Siân a Thwm oedd yr unig rai a allodd godi i odro bore drannoeth. Bu llu ohonynt yn eu gwllâu am ddyddiau. Bu agos i nifer o'r plant canol golli'r fatel, oherwydd yr enwau a roddodd Beti arnynt a'r bwyd a roddodd iddynt. Ond er credu stori'r frân wen ni fu gennym erioed ddigon o wroldeb i sefyll dros ein hawliau i gael y peth a fynnem i'n swper. Ymostwng i'r trefniadau y byddem bob amser

PENNOD V

“BYDDIGIONS.”

HELYNT YR ARIAN MAWR

NID oedd yno yr un gŵr bonheddig iawn yng Nghwm Eithin—hynny ydyw, un o hen deuluoedd y wlad y gellir olrhain eu hachau yn ôl am genedlaethau; “eiddo y rhai yw y ddaear a’i chyflawnder,” trwy hawlfraint yn myned yn ôl i’r oesoedd tywyll. Yr oedd yr unig un oedd yno yn cael gofalu amdano mewn sefydliad yn agos i Lundain. Ond yr oedd yno fyddigions er hynny—rhai a ddeuai i aros yn yr hotels; byddigions yn dyfod yno i saethu. Adwaenem hwy wrth eu golwg—dynion yn gwisgo clôs pen glin a ’sanau tewion, rhesog, wedi troi eu topiau i lawr; dau neu dri o gŵn hyllion yn dilyn yn glos wrth eu sodlau; genwair neu wn o dan eu ceseiliau; yn sefyllian yn nrws y dafarn ar y Sul; byth yn mynd i gapel nac eglwys; wynebau cochion a golwg sarrug arnynt, a bron yr un ffurf ag wyneb ci pen tarw. Nid oedd gan y rhain lawer o edmygwyr—ddim ond ychydig a arferai hongian o gwmpas y tafarnau.

Daeth darllawydd o Lerpwl i fyw i’r plas. Yr oedd hwnnw’n ŵr bonheddig iawn cyn belled ag yr oedd haelfrydedd yn myned. Yr oedd y diotwyr wrth eu bodd gydag ef. Un diwrnod, ar ôl bod yn hela a nifer gydag ef a llu o gurwyr, cymerodd yn ei ben y buasai’n sychu’r dafarn. Aeth â hwy gydag ef a thalodd am bob llymaid o gwrw oedd yno, ac ni chlywyd am y fath wledd â’r diwrnod hwnnw, na’r fath drai ag a welwyd drannoeth. Bu’n rhaid i nifer gerdded i Lanaled, lle’r oedd tair tafarn, i dorri eu syched. Deuai llu o Lerpwl ar adegau at y boneddwr uchod i saethu brain a phetris ac ieir y mynydd, a gelwid hwy yn “fyddigions Lerpwl”; ond methid yn lân â deall eu bod yn fyddigions. Credid mai rhyw hen siopwyr a thafarnwyr oeddynt. Nid oeddynt yn fyddigions iawn. Ni feddent yr hawlfraint i’w galw’n fyddigions. Nid oeddynt erioed wedi bod yn ddigon cymwynasgar i drawsfeddiannu rhannau o’r mynydd, a chodi crocbris o rent ar ei hen berchenogion amdano.

Er hynny, yr oedd yno bedwar boneddwr—hynny yw, rhai yn gallu byw heb weithio—sef Jac y Pandy, Jac Lanfor, Wil Lonydd a Thwm Poole. Yr oedd un peth yn gyffredin i’r pedwar.

Nid oedd neb yn cofio gweled yr un ohonynt yn gweithio i ennill ceiniog. Er hynny, edrychent yn raenus, a bu'r pedwar fyw i fyned yn hen. Ond gwahaniaethent yn eu modd o fyw, ac yr oedd gwahaniaeth mawr ym maintioli eu hystadau. Cynhwysai ystad Jac y Pandy bedair sir, a chymerai flwyddyn neu ragor iddo deithio dros ei ystad i gyd. Felly ni flinai ei denantiaid yn aml iawn. Dyn wedi ei witsio oedd Jac y Pandy—neu felly y credid amdano. Nid wyf yn sicr y credai ef ei hun hynny, oherwydd yr oedd yn gyfrwys fel llwynog. Y traddodiad oedd iddo, ac ef yn llanc ieuanc smart, fod yn canlyn geneth ieuanc brydweddol, ond iddo droi ei gefn arni, a bu iddi hithau gael gan rywun ei witsio neu ei offrwm i Ffynnon Elian. Yr oedd yn llawn ymdumiau ac ystrywiau; yn hen greadur brwnt a chas iawn os deallai na fyddai neb ond merched yn y tai pan alwai. Nid wyf yn cofio i mi glywed iddo erioed ofyn am damaid. Ei ddull oedd, pan ddeuai trwy lidiart y buarth ac i olwg y tŷ, dyweder rhyw ganllath oddi wrth y drws, gychwyn yn araf a throi neu facio yn ei ôl ddwsinau o weithiau, a deuai dipyn yn nes i'r drws bob tro; ac yn y diwedd, pan gyrhaeddai y drws, safai gan fwmian rhywbeth na ddeallai neb, a chilio yn ei ôl ac yna dyfod i'r drws. Ni allai gydio yn y frechtan pan âi rhywun ag un iddo am amser hir iawn. Cychwynnai gymryd gafael ynddi a thynnai ei law yn ôl ugeiniau o weithiau. Yr arfer gyffredin oedd ei rhoddi ar y wal, a gadael iddo ei chymryd pan welai'n dda a gallai wneuthur hynny'n handi iawn pan gredai na fyddai neb yn edrych arno. Clywais am un wraig wedi gwylltio'n gaclwm wrtho oherwydd ei ymdumiau, a dywedodd wrtho, "Cydia yn y frechtan yma, Jac, ne mi dy hitiai di nes y byddi di'n rholio." "Rhowch hi ar lawr," ebe Jac, "mae hi'n rhy fechan i chwi a minne gydio ynddi hi." Cymerai amser hir i gerdded yn ôl at lidiart y buarth, a'r un fath ar hyd y ffyrdd; ond pan fyddai mewn lle unig, ac y meddyliai na fyddai neb yn ei weled, ar adegau felly gallai gerdded yn ddigon sionc. Tua deng mlynedd ar hugain yn ôl gwelais ychydig o'i hanes yn *Nhrysorfa'r Plant*. Dywedid iddo fod heb ymweled ag un rhan o'i ystad am amser go hir, pan gyfarfu rhyw frawd ffraeth ag ef gan ei gyfarch, "Helo, Jac, o b'le dost ti? Mi glywes i dy fod ti wedi marw ers talwm." "Mi glywes inne hefyd," ebe Jac, "ond mi ddalltes i'n union mai celwydd oedd y stori."

"Jac y ffwl" y gelwid ef yn *Nhrysorfa'r Plant*. Tebyg mai dyna oedd ei enw mewn rhai rhannau o'r wlad. Ond "Jac y

Pandy" y galwem ni ef, am y gwyddem mai mab Pandy'r Glyn ydoedd. Nid wyf yn meddwl i Jac y Pandy gael bwyd gan neb oherwydd eu bod yn hoff ohono, na chael llawer o dosturi; ond câi er mwyn cael 'madael ag ef. Yr oedd wedi dysgu ei grefft yn ardderchog.

Jac Lanfor yw'r nesaf. Hen greadur rhadlon a diniwed ddigon. Câi groeso a gair caredig ymhobman. Nid oedd ei ystad ef agos gymaint ag un Jac y Pandy—tua hanner dwy sir oedd ei maint. Felly byddai ei ymweliadau ef lawer mynychach. Cymerai ambell ffarmwr yn ei ben, pan ddeuai Jac ar ei daith adeg cynhaeaf, i wneuthur iddo weithio ychydig am ei fwyd, ond yr oedd hynny bron yn amhosibl. Os ceid ef i'r cae byddai yn waith mawr ei gadw yno am ddarn o ddiwrnod. Diflannai o'r golwg. Er wedi ei fagu yn Llanfor yn ymyl tref y ddau goleg, nid oedd fawr o ddiwinydd. Aeth y Parch. Michael Jones, prif athro un o'r ddau goleg, i dreio dysgu tipyn arno un tro, trwy yr hen ddull o holi ac ateb—cateceisio. "Beth ydi cyfflog pechod, Jac?" ebe'r Athro. "Wn i ddim wir, syr. Beth ddyliech chwi am ddeunaw yn y dydd a'i fwyd ei hun iddo fo?" ebe Jac. Diwrnodiau cinio *Club yr Oddfellows* oedd ei wleddoedd mawr, oherwydd yr oedd yn ddawnsiwr pur dda, a châi groeso a chyfle i dynnu'r crych o'r croen. Yr oedd Jac y Pandy ac yntau yn elynion anghymodlawn i'w gilydd—o'r hyn lleiaf, yr oedd Jac y Pandy yn elyniaethus iawn i'r llall. Nid âi i mewn i'r un tŷ tafarn ag ef, ac nid âi i ffwrdd oddi wrth y drws chwaith. Cofiaf un tro yn dda fod Jac Lanfor yn dawnsio yn y *Cymro Inn*, a phethau yn mynd yn hwyliog iawn, a *landiodd* Jac y Pandy wrth y drws, a deallodd fod y mab afradlon yn y wledd. A phan glywodd y cwmni fod y mab hynaf o'r tu allan, anfonwyd deiseb i geisio'i gael i mewn, oherwydd gallai yntau ddawnsio, a thybid, pe ceid y ddau i ddawnsio gyda'i gilydd, y buasai'r wledd yn un fythgofiadwy. Ond er i'r ddeiseb gael ei hanfon ddwywaith neu dair, gwrthododd yn bendant, a chwyrnai a bygythiai, ac yr oedd ei sŵn fel sŵn *injan* ddyrnu yn y pellter. Safodd yno'n stond hyd ddiwedd y sbleddach; a bu'n rhaid anfon *convoy* i fyned â Jac Lanfor i un o gywlasau'r gymdogaeth, ac wrth lwc yr oedd un yn teithio tua'r gogledd a'r llall tua'r dehau, felly ni ddaethant i wrthdarawiad.


Y trydydd oedd Wil Lonydd. Yr oedd cylch ei daith ef lawer cyfyngach na'r un o'r ddau uchod—rhyw ddau blwy a hanner; ac arferai aros yn hwy yn yr un plas, o wythnos i bythef-

nos—hen dŷ gwag neu feudy allan, rhyw led dau gae neu dri oddi wrth y ffermydd. Y mae'n debyg mai'r rheswm na chymerai feddiant o'r ysguboriau yn ymyl y tai oedd na chai lonydd gan yr hogiau drwg, ac ymwelai â'r un ffermydd ddwywaith neu dair yn ystod ei arhosiad. Fel rheol, gofynnai am dipyn o fara yn un ffarm i wneuthur bara llaeth, ac âi i'r ffarm nesaf i ofyn am laeth. Gofynnai i'r wraig neu'r forwyn ei ferwi iddo. Gallai fwyta llond crochan pur dda ar unwaith, a gwnai hynny y tro am y diwrnod. A da hynny, oherwydd cerddai mor araf fel mai prin ygwyrdded ei fod yn symud. Yr oedd myned i ddwy neu dair o ffermydd gymaint ag a allai ei wneuthur. Yr oedd yn hollol ddiniwed, er bod rhyw graffter ynddo hefyd. Gwyddai ymhle i aros pan fyddai perygl i rew ac eira ei ddal, fel na fyddai raid iddo gerdded ymhell. Arferai ddywedyd am un o'i blwyfi mai plwy da iawn ydoedd—y gallasai dau foneddwr fel efô fyw yno'n iawn. Gwisgai smocffroc wlanan wen—hynny yw, un wedi bod yn wen. Honno'n llaes at ei draed, wedi ei gwisgo trwy wthio ei freichiau i'r llewys a'i ben trwy'r twll yn ei thop, fel y gwna'r merched ieuainc gyda *jumpers* y dyddiau hyn. Byddai yn cael un newydd bob rhyw hyn a hyn o flynyddoedd. Ni wn ai'r plwy oedd yn talu amdani, ai rhyw garedigion. Ond pan gâi un ni thynnai yr hen un, neu'n hytrach yr hen rai—rhoddai yr un newydd ar gefn y lleill; a phan gofiai i ef edrychai'n debycach i gocyn crwn o wenith nag i ddyn. Cofiai ef yn dda un gaeaf. Daeth ar ei daith i hen dŷ gwag ar gwr tyddyn fy hen ewythr William Ellis, nai John Ellis y cerddor, pan oeddwn i yn canlyn y wedd yno. Daeth yn storm o eira a rhew, lluwchfeydd mawrion, a pharhaodd yn hir. Bu Wil yn yr hen dŷ am o chwech i wyth wythnos yn methu symud ei luest, ac yn gorfod byw ar ddwy neu dair o ffermydd am hir o amser pan na allai fyned i le'n y byd arall. Ac aeth i deimlo'n swil, ac i ofni ei fod yn myned dros ben rheswm; ond gofaldi na chafodd lwg. Clywais modryb, Jenny Ellis, yn dywedyd wrtho, "Paid ti â diodde eisie bwyd, Wil. Os na fedri di fynd i rywle arall, tyd di yma fory eto." (Bendith ar ei phen. Meddai galon hawddgar a da). Bûm yn ei wyllo'n dyfod trwy'r eira mawr. Tua chanol y dydd y deuai, ac wedi i'r eira dduo gan y rhew a'r tywydd yr oedd bron yn amhosibl dywedyd pa un ai Wil ai caseg eira yr edrychech arno; ac i fod yn sicr, byddai raid sefyll yn eich unman ac edrych ar ryw farc o'r tu draw iddo i weled ei fod yn symud, gan mor araf y cerddai. Galwodd mewn ffarm yn

Edeirnion un tro. Nid oedd neb i mewn ond gŵr y tŷ, a hwnnw yn dipyn o wâg. Meddylodd y mynnai allan faint o fara a llaeth a allai Wil ei fwyta ar unwaith. Chwiliodd am y crochan mwyaf oedd yno; llanwodd ef â bara a llaeth hyd yr ymylon—digon i tua dwsin o ddynion, a berwodd ef yn dda, ac aeth ag ef i'r briws, a gwahoddodd Wil i'w helpu'i hun. Bu yntau'n bwyta ac yn bwyta am amser maith, nes oedd wedi chwyddo i faint mwdwl eithin; ond methodd yn lân ei orffen. Yr oedd yno dipyn yn weddill, a galwodd ar ŵr y tŷ, a dywedodd:—"Mae'r bara llaeth yma'n dda ofnadwy, ond fedra i ddim i fwyta fo i gyd. Byta di'r gweddill. Mae'n *biti* iddo fo fyn'd yn ofer."

Diau i Wil fyw yn hir fel Elias gynt ar y pryd hwnnw, ond gallaf sicrhau nad aeth yn bell.

Y pedwerydd yw Twm Poole. Cyfeiria "Llyfrbryf" ato ef yng *Nghofiant Daniel Owen*, 1903, wrth sôn am hollusion y nofelydd: "Yn ei siop ef y gwelais i olaf y crwydryn rhyfedd Tom Poole." Wele ddarlun ohono wedi ei dynnu oddi ar ei gof gan Mr. William Hughes, Cefn Brith, a dywaid "Llyfrbryf": "Ystyrir y darlun yn bortread pur gywir o'r crwydryn syml diniwed." Gresyn na fuasai "Llyfrbryf" wedi rhoddi inni ragor o hanes Twm Poole. Ychydig o droeon y gwelais i ef. Diau fod rhesymau am hynny. Yn un peth nid oedd yn wreiddiol o Gwm Eithin. Credaf mai o ochr Dyffryn Clwyd i Hiraethog yr han-oedd. Rheswm arall iddo fod yn ddieithrach i mi na'r tri chyntaf yw, i mi dreulio darn o fore f'oes mewn rhan o Gwm Eithin lle nad oedd llawer o briciau, ac ni allai Twm fyw mewn lle felly. Dull Twm Poole o ennill ei damaid oedd hel coflaid o briciau a dyfod â hwy o dan ei gesail at ddrysau'r tai, a gofyn am damaid yn eu lle. Ni feddyliai am fyned at ddrws heb ei briciau i'r wraig at ddechrau tân. Cofiaf ef yn dda. Ffon yn un llaw a'r priciau o dan ei fraich; golwg ddiniwed arno, a gwraig y tŷ yn gofyn iddo, "Ddaru ti ddim tynnu'r gwrychoedd, decini, naddo Twm?" "Naddo," ebe yntau. Cymerodd hithau y priciau a rhoddodd glwt o fara a chaws iddo. Anhawster mawr Twm gyda'i dull o fyw oedd cadw'r ddesgil yn wastad rhag iddo, wrth geisio plesio'r gwragedd, dynnu'r gwŷr yn ei ben. Oherwydd un o'r pechodau mwyaf yn erbyn ffarmwr yw gadael lliidiart yn agored, a thynnu'r gwrychoedd. Clywais am un hen frawd yn dywedyd ei brofiad yn y seiat, ei fod yn credu na fyddai'n ddrwg iawn arno'r Ochr Draw, gan ei fod wedi gofalu cau pob lliidiart ar ei ôl, ac na fu'n euog o dynnu gwrych



Twm Poole.

neb. Ond yr oedd Twm Poole wedi dysgu'r grefft o hel priciau heb dynnu'r gwrychoedd, naill ai o egwyddor neu o ofn y canlyniadau. Ni fuasai raid iddo ofni llawer ar y gwagedd am hyany, oherwydd nid dieuog llawer ohonynt, os caent gyfle heb i'r gwŷr weled. Ond yr oedd clywed arthiad ambell ffarmwr pan welai rywun yn tynnu'r gwrych wedi suddo'n ddwfn i gydwybod Twm. Ni cheid ef yn euog o'r trosedd uchod. Drwg gennyf erbyn hyn na sylwais pa fodd y byddai Twm yn ymdaro ar y Sul. Oherwydd am hel priciau ar y Sul y cymerwyd yr hen ŵr i'r lleuad, ac yr oedd ef i'w weled yno yn amlwg iawn o Gwm Eithin, a mynych y bygythid plant a phobl ddiwed â'r un dynged os gwnaent rywbeth allan o le. Clywais gan gyfaill mai ffordd Twm i gael cynhaliaeth ar y Sul oedd myned i'r capel, aros am y blaenoriaid a'r pregethwr ar y diwedd, canmol y bregeth, ac adrodd emyn, ac oni thyciai hynny, canmol Iesu Crist fel rhoddwr haelionus.

Clywais fy nain yn sôn am foneddwr arall a arferai deithio y rhannau hyn o'r wlad cyn cof i mi, yn neilltuol gilfachau'r Arennig. "Hen ddyn y Cŵn," y galwai hi ef. Ei ffordd ef oedd cadw pump neu chwech o gŵn ffyrnig, a mynd o gylch y ffermydd a hawlio bwyd iddo ef a'i gŵn; ac onid e bygythiai y cŵn ar y trigolion, ac yr oedd ei arswyd gymaint fel yr oedd yn gallu cael ei gynhaliaeth yn y ffordd ddieithriol hon. Dywedai fy nain i'r hen ŵr a'i dylwyth ddyfod i'w chartref un tro pan nad oedd ond ei mam a hithau a chwaer neu ddwy wrth y tŷ, ei thad a'r dynion wedi myned i'r mynydd; gwyddai'r hen ddyn hynny'n dda, ac aeth yn frwnt, ac i hawlio gwledd o datws a chig, ac uwd i'r cŵn. Ond daeth y dynion i lawr o'r mynydd yn gynt nag yr oedd yn meddwl, a gwelsant y lluniaeth yn cael ei baratoi, a'r merched mewn braw, a throesant ar y boneddwr a'i gŵn ac aeth yn gryn gynnwrf; ond y dynion a orfu; ac i ffwrdd â'r cŵn a'u meistr, ac ni welwyd hwy am hir o amser drachefn yn y pentre. Diau y dywaid rhywun mai coel gwrach ar ôl bwyta uwd yw peth fel yna, na fuasai'r trigolion byth yn dioddef peth felly. Sicr na fuasai yn cael ei oddef yn ein hoes ni; ond mae'r hanesyn uchod yn llythrennol wir, nid yw ond un o lawer o enghreifftiau o bethau tebyg. Yr oedd pobl yn medru witsio, ac yn y blaen, yn bla ar y wlad yn nechrau'r ganrif o'r blaen. Ac oni oddefwyd Gwylliaid Cochion Mawddwy am hir amser?

HELYNT YR ARIAN MAWR

Er mai digon tlawd oedd trigolion Cwm Eithin, bu agos iddynt fyned yn gyfoethog iawn fwy nag unwaith yn fy nghof i.

Sail hanes Arian Mawr Cwm Eithin yw hen draddodiad fod gŵr o'r enw Peter Ffowc, Tŷ Gwyn, wedi syrthio mewn cariad â merch ieuanc o bentre cyfagos, ond iddo newid ei feddwl ar ôl hynny. Gwysiwyd ef o flaen yr awdurdodau eglwysig i roddi cyfrif am ei waith, a derbyn ei benyd; ond erbyn y dydd penoddedig yr oedd Peter Ffowc ar y môr yn hwylio tua'r America. A deuwyd o hyd i'w gariad wedi boddi wrth Bont Cilan. Llwyddodd Peter yn fawr fel marsiandwr yn y wlad newydd. Ymhen hir amser daeth yn ôl i Lundain, a bu farw yn ddiewylllys, ac yn Llundain y mae ei arian hyd y dydd hwn, er y gwnaed aml ymgais i'w cael oddi yno.

Pan oeddwn yn hogyn deg neu un ar ddeg oed, daeth stori allan fod arian mawr beth wmbredd yn dyfod i Gwm Eithin. Aeth y newydd fel tân gwyllt drwy y lle, pawb ar flaenau eu traed yn disgwyl amdanynt. Ni wn pa fodd y daw si am arian mawr i wahanol ardaloedd. Clywais mai yn debyg i'r dull a ganlyn, ond nis gallaf sicrhau. Er fy mod yn gwybod rhyw grap am amryw bethau, ni wn ddim ar wyneb y ddaear fawr yma am arian, ond fel hyn y clywais: Mae llawer o arian pobl wedi marw mewn lle a elwir y *Chancery* yn Llundain. Mae hynny yn ffaith, ac y mae yn ddigon gwir mai yno y maent. Fe fûm i yn *Chancery Lane*, ond ni welais yr arian mawr. Daw rhestr o'r arian hyn allan yn awr ac eilwaith, yn dangos fod hwn a hwn, o'r fan a'r fan, wedi marw yr amser a'r amser, ac wedi gadael hyn a hyn ar ei ôl; ac y maent wedi dyblu a threblu erbyn hyn. Pan fydd y twrneiod allan o waith, dim yn dyfod i mewn at gael tamaid, ânt i chwilio y rhestrau hyn, a gwelant fod rhyw un o le neilltuol wedi marw a gadael swm mawr iawn o arian, a neb wedi eu cael; llawer wedi methu, ond neb wedi treio yn ddiweddar. Pa niwed treio eto? Daw hynny ag ychydig i mewn. Yna chwilir am frawd o dwrnai o'r ardal, un wedi ei fagu ynddi os gellir ei gael, fel y gall ddywedyd ei fod yn un o ddisgynyddion yr hen ymadawedig. Yna chwilia yntau am frawd gweddol henffel o ganol y bobl, un nes atynt na thwrnai. Dechreua hwnnw ddywedyd megis dros ei ysgwydd:

“Glywsoch chwi fod Mr. Bowen, y twrne, yn treio am arian mawr yr hen Forus, mab Pant y Ffynnon, a fu farw

yn Llunden er stalwm? Mae ei arian o yn y Chancery. Mae'n nhw yn deud fod yno gryn hanner can miliwn ohonyn nhw."

"Ydych chi yn meddwl fod rhywbeth yn y peth?"

"O, mae yn siŵr i chi fod, neu fase Mr. Bowen, y twrne, ddim yn boddro ei ben yn i cylch nhw."

"Wel, yr ydw i yn siŵr mod i yn perthyn yn nes i hen deulu Pant y Ffynnon na fo."

"Wel, well i chi fynd i'w weld o ynte."

Fel yna fe ddywedir y rhoir ardal ar dân. Ni wn i ddim am hynny, ond gwn yn iawn hanes helynt Arian Mawr Cwm Eithin. Yr oedd hwnnw fel hyn. Yn un o'r trefi marchnad ar gyrion y Cwm yr oedd twrnai yn byw a gyfrifid yn un hir iawn ei ben, a chredaf ei fod felly. Yng nghanol Cwm Eithin yr oedd crefftwr yn byw, dyn golygus, parablus, crefftwr pur dda. Cawsai faint a fynnai o waith pe bai yn ei wneud, ond bywoliaeth lwydaidd oedd ar ei wraig a'i blant. A dywedyd y gwir yn blaen, nid oedd yn hoff o weithio. Nid oedd plygu yn ei gymalau. Un o'r bobl hynny sydd yn hoffi cerdded o gwmpas â cholera wen am ei wddf, menyg a ffon yn ei ddwylo; rhyw un rhan o dair o ŵr bonheddig. Ped elech gydag ef am dro ar hyd y caeau dringai dros ben gwal chwe throedfedd cyn y plygai i fyned dan y pren a groesai'r adwy. Pe buasai yn fyw y dyddiau diweddaf hyn buasai yn hel *siwrans*, hel plant i'r ysgol, wedi cael swydd bach gyda'r King Edward Memorial neu dan yr Insurance Commission. Un felly oedd y gŵr hwn. Er ei fod yn byw ymhell oddi wrth Bowen y twrnai, nid hir y bu hwn yn cael gafael arno. Dechreuodd yntau ofyn megis dros ei ysgwydd yn y ffair a'r farchnad:

"Glywsoch chi fod Mr. Bowen, y twrne, yn debyg o gael arian mawr yr hen Beter Ffowc, Tŷ Gwyn, ers talwm? Mae Mr. Morgan, Caeau Cochion, a Mr. Jenkins, y Parciau, yn mynd i gael swm mawr ohonyn nhw."

"Beth! yr ydw i yn perthyn yn nês i deulu'r hen Beter Ffowc na'r un ohonyn nhw, peth sy siŵr ydi o."

"Wel, gore bo'r cynta i chi fynd i weld y twrne ynteu, rhag ofn i chi fod yn ddiweddar. Mi ro eich enw chi i lawr fel un o'r rhai sydd i gael rhan."

Aeth yn dân gwyllt trwy y lle. Bu agos i rai gollu eu syn-hwyrâu. Caed cyfarfod gyda Mr. Bowen. Nid oedd neb a roddai ei enw fel ymgeisydd am yr arian cyn dyddiad nodedig

i dalu dim ond swm neilltuol. Ar ôl hynny byddai yn codi. Gallent eu talu ar ddwywaith neu dair. Ymddangosai i Mr. Bowen fod Mr. William Syth, y crefftwr, yn gwybod cryn lawer am achau y gymdogaeth, ac mai buddiol fyddai ei benodi i'w gynorthwyo ef i wneud ymchwil bellach, a gallai ef alw gyda'r rhai a ddymunai gael rhan o'r arian mawr pan ddeuent. Nid oedd eisiau pwyso ar neb, ond dylid cofio na chai neb gyfran pan ddeuent oni fyddai ei enw ar restr yr ymgeiswyr, ac wedi talu ei gyfran at y costau. Credai na fyddai y costau yn fwy na phunt ar gyfer pob ymgeisydd os ceid nifer go dda; a gallai Mr. Syth dderbyn yr arian bob yn bumswllt os byddai yn fwy cyfleus i rai eu talu felly. Dechreuodd yntau ar ei waith, yn gyntaf trwy fynd i'r ffeiriau a'r marchnadoedd â golwg foneddigaidd a phwysig arno, â'i ffon a'i fenyg. Ac edrychai mor ddidaro ag y medrai am gael enw neb, oherwydd yr oedd yr arian yn siŵr o ddyfod. Ac yr oedd y lliaws yn estyn y pumswllt cyntaf a'u henwau iddo. Ond yr oedd yno nifer o anffyddwyr yn y Cwm, hynny yw rhai â diffyg ffydd yn yr arian mawr, neu yn rhai oedd yn cofio ceisio amdanynt o'r blaen. Ac yr oedd eisiau eu cael hwythau i mewn. A gwelodd Mr. Syth cyn hir y byddai raid iddo fynd o gylch y tai i berswadio y rhai hyn; a bu wrthi yn ddygn iawn yn cerdded o gylch y Cwm, yn ofalus iawn i ddangos mai er mwyn y bobl eu hunain y galwai. Yr oedd yr "Arian Mawr" yn siŵr o ddyfod, a gresyn i neb fod heb ei ran. Yn ffodus yr oedd fy nain yn un o'r anffyddwyr. Yr oedd hi mewn gwth o oedran ar y pryd. Credid gan lawer ei bod hi yn un o'r perthynasau agosaf i'r hen Beter Ffowc, o'r hyn lleiaf, dywedai llawer hynny wrthi; clywais hwy â'm clustiau fy hun. Cofiaf Mr. Syth gyda hi yn dadlau ei hawliau hi i'w rhan fwy nag unwaith. Ond ni allai ei symud. Ar ôl iddo ef fethu daeth ei chefnider, yr hen Siôn Ifan y Pennant, i geisio ei pherswadio. Cyrhaeddodd tua chanol dydd, ar bwys ei ffon. Dangosai i'm nain ei gysylltiad ef a hithau â Pheter Ffowc, ac mai hi ac ef oedd i gael y siâr fwyaf. Bu yn y tŷ yn ymresymu'n hir, ond daliai fy nain yn gyndyn. Yr oedd yr hen Siôn wedi cynhyrfu drwyddo. Edrychai cyn wyllted â 'deryn, a'i lygaid yn melltennu. Aeth fy nain i'w ddanfôn at y cut lloeau. Ofnwn bob munud weled yr hen ŵr, er ei fod wrth ei ffon, yn neidio dros ben fy nain, gan mor wyllt yr edrychai. Nid wyf yn sicr iawn beth oedd y rheswm fod fy nain yn gwrthod ymuno—un yn ddiâu oedd nad oedd ganddi bunt i'w sbario. Ond y mae

argraff ar fy meddwl ei bod yn cofio rhywun yn ceisio am yr arian mawr pan oedd hi yn eneth fach. Heblaw hynny, hen frenhines o wraig oedd hi. Nid hawdd ei symud wedi iddi wneuthur ei meddwl i fyny, ac nid oedd deilen ar ei thafod. Dywedai ei meddwl heb lol.

Gwelodd Mr. Syth nad oedd yr ail bumswllt, ac yn enwedig y trydydd pumswllt, yn dylifo i mewn mor rhwydd a'r cyntaf. Yr oedd misoedd yn myned heibio, yr arian heb ddyfod, a'r bobl yn dechrau nogio a cholli eu sêl a'u brwdfrydedd cyntaf. Yr oedd bron yn amhosibl cael y pedwerydd pumswllt.

Dywedid i Mr. Syth fynd o gwmpas a dywedyd, "Mae yr arian mawr yn bownd o ddyfod. Maent wedi eu llwytho ar dryciau y relwe yn Llundain. Ond mae y *Great Western Railway Company* yn gwrthod dyfod â hwy heb i ni dalu'r cludiad cyn cychwyn, ac mae eisiau'r pumswllt yna i dalu i'r *Railway Company* am ddwad â hwy."

Ymddengys na chafodd ddigon o bumsylltau i dalu'r cludiad, dim ond digon i dalu am ddadlwytho'r tryciau yn ôl. O'r hyn lleiaf, nid yw yr arian mawr byth wedi cyrraedd Cwm Eithin.

Gwnaed cynnig arall am arian mawr Peter Ffowc ar ôl i mi adael Cwm Eithin. Nifer o flynyddoedd yn ôl, yr oeddwn yno am ychydig o awel iach y bryniau, yn aros gyda chyfaill; ac yr oedd y Cwm yn ferw drwyddo. Nid oedd dim i'w gael ond sôn am yr arian mawr. Yr oeddynt i ddyfod ar unwaith. Clywais fod rhai a geisiai amdanynt y tro hwnnw yn rhai gwreiddiol dros ben, ac wedi gwneud llun coeden fawr gadarn ganghennog. Peter Ffowc oedd y gwreiddyn a'r boncyff, a'r disgynyddion oedd y canghennau; ac am dalu'r swm o arian yr oedd pob un i gael ei enw ar un o'r canghennau i ddangos ei gysylltiad â'r boncyff. Ond yn lle ymladd am fod yn uchaf, fel arfer pobl uchelgeisiol, ymladdent am fod yn isaf a nesaf i'r boncyff; ac yr oedd enwau trigolion y cwm fel adar yn llechu yng nghanhennau'r goeden. Nid oes neb eto wedi gallu ei gysylltu ei hun â'r boncyff, hyd y gwn i, ac ni chlywais fod yr arian mawr wedi cyrraedd. Cefais fy nghymell gan fy nghyfaill yn gryf i roddi fy enw ar y goeden, ond cofiwn i'r *Great Western Railway Company* wrthod dyfod â'r arian i Gwm Eithin y tro o'r blaen ac nid oedd gennyf ffydd yn y goeden. Ond er nad yw fy enw yng nghangau'r goeden, gobeithiaf y cedwir hi, fel y caiff ei ddisgynyddion eto gyfle i brofi eu perthynas â Pheter Ffowc a chael yr arian mawr.

PENNOD VI

YR HEN FYTHYNNOD

CYN y gellir rhoddi disgrifiad gweddol gywir o fywyd gwledig Cwm Eithin, mae'n rhaid wrth bennod ar ei fythynnod a'i gabanau. Llauer o gwyno y sydd yn ein dyddiau ni ar y tai, a'u beio am afiechydon, *etc.* Diau nid heb achos. Ond mae yn rhyfedd iawn fel y dug ein cyndadau deuluoedd mawr i fyny yn iach, a glân eu moes, mewn cabanau unnos o un neu ddwy ystafell, a heb ond yr ychydig o olau a ddeuai i mewn drwy'r drws, y simnai, tyllau yn y to a'r muriau.

Un o'r ffurfiau cyntefig ar adeiladu tai oedd torri dau bren fforchog a'u troi â'u pennau i lawr, plethu gwaiail yn yr ochrau, a gadael mynedfa yn un o'r talcenni. Ar ei ôl daeth y cwpwl bongam. Dibynnai uchter gwal ochrau'r tŷ ar hyd y cameidd ym môn y cwpwl, tair neu bedair troedfedd o uchter. Nid oedd y rhai uchaf fawr uwchlaw wyth droedfedd. Toid y tai â gwellt, grug, neu lafrwyn, a rhoddid tywyrch trum ar y grib. Clai a gwellt fyddai'r mortar yn aml. Os toid ambell un â llechau tewion ni feddylid am roi plaster o dan y to fel yn awr; felly, er cadw'r gwynt, y glaw a'r eira allan, yr oedd yn rhaid ei fwsoglu, a byddai'n angenrheidiol gwneud hynny bob rhyw dair blynedd.

TAI ANNEDD DDECHRAU'R DDEUNAWFED GANRIF

Un ystafell oedd yn y rhan fwyaf o dai y gweithwyr, ond rhoddid dreser a chwpridd *pres* ar draws yn aml i wneud siamber. Weithiau rhoddid croglofft wrth ben y siamber, ac ysgol symudol i fynd iddi o'r gegin. Ond ni ellid rhoi gwely ond ar ei chanol, gan fod y to mor isel, a byddai'n rhaid rholio allan o'r gwely neu ddiodeff taro eich pen. Byddai'r simnai yn agored, y tân o fawn, carreg ar yr aelwyd, a'r llawr yn llawr pridd. Yr oedd tai y ffermydd ychydig yn well. Gwelir aml un ohonynt hyd heddiw, wedi ei droi yn hofel neu'n ysgubor. Byddai y drws yn ddau ddarn fel rheol, fel y gellid gadael y rhan uchaf yn agored, a chau y rhagddor i rwystro'r ieir a'r moch i'r tŷ. Mae hen dai y gweithwyr bron i gyd wedi mynd â'u pennau iddynt, ac y mae cannoedd ohonynt nad oes dim o'u hôl.

Gwaith diddorol a buddiol fyddai casglu hanes murddunod y gwahanol blwyfi.

Yn Eisteddfod Llansannan, nifer o flynyddoedd yn ôl, rhoddwyd gwobr gan Mr. John Morris, Y.H., am hanes hen furddunod y plwyf, ac ef a ddug y draul o gyhoeddi y traethawd buddugol.¹ Nodir ynddo ddau cant a phymtheg ar hugain o'r hen furddunod.

YR AMAETHDAI

Bychain a gwael iawn oedd llawer o amaethdai Cwm Eithin. Pan ddatblygodd amaethyddiaeth caed gan y meistri tir adeiladu ambell ystabal neu ysgubor, ac mewn ambell le gwelid y rhai hynny yn gymharol newydd, tra'r edrychai'r tai yn hynafol a bychain. Pan aeth yr amaethwr i drin rhagor ar ei dir ac i gadw rhagor o weision a morynion, nid oedd lle i'r llanciau gysgu yn y tai. Gan hynny, defnyddid y llofft stabal a llofft yr yd wrth ben yr hofel; ond nid oedd bosibl rhoddi mynedfa iddynt o'r tai. Grisiau cerrig o'r tu allan oedd iddynt, a gelwid hwy yn llofft allan, a dyna'r llofft orau yn y lle yn aml. Diau mai dyna fu achos yr arferiad i'r llanciau "gysgu allan," fel y gelwid ef, ac sydd wedi peri i rai na wyddant fawr am anhawster y cyfnod gredu mai creulondeb yr amaethwr tuag at ei weision oedd yr achos.

Un rheswm fod tir-ddaliadaeth mor ansicr, a'r adeiladau mor wael, yng Nghwm Eithin drigain a deg o flynyddoedd yn ôl, oedd fod yr ysgwier a berchenogai y rhan helaethaf ohono a'r mân gymoedd a redai allan ohono, wedi colli arno ei hun a'i roddi mewn sefydliad cyfaddas yn agos i Lundain er cyn cof i mi, a'r plas yn wag. Ni feddai blant; yr aer ar ei ôl ef oedd mab i'w chwaer; ei wraig yn Sacnes ac yn byw yn Llundain, yn byw yn wastraffus, neu'n celcio arian iddi ei hun; y cwbl a wnâi oedd gofalu fod ei stiwart yn hel y rhent. Ni wnâi ddim i'r adeiladau. Aeth yr ystâd i ddyled, a bu'n rhaid gwerthu rhannau helaeth ohoni ddwywaith yn fy nghof i.

TRETH Y GOLAU

Tywyll ac anghysurus iawn oedd y tai fel rheol. Byddai llawer o'r bythynnod heb yr un ffenestr. Yr oedd treth y golau

¹ *Hen Furddunod Llansannan, gan Hedd Molwynog (Robert Wynne Jones), Conwy, 1910.*

yn fwy nag y gallai'r tlodion ei thalu, a'r unig oleuni a geid mewn llawer tŷ oedd yr hyn a ddeuai i mewn trwy'r drws a'r hyn a allai basio'r mwg i lawr y simnai. Byddai honno'n llydan, a gallech weled yr awyr las pan aech at y tân a sefyll o dan y fantell fawr. Gwir y byddai twll yn y to weithiau, ond rhaid oedd bod yn fanwl gyda hwnnw, neu trethid ef fel *skylight*; cerrid y ddeddf allan yn drwyadl iawn.

Treth felltgedig oedd treth y golau. Beth bynnag oedd ei hamcan, ei heffaith oedd cadw'r tlodion i fyw mewn cytiau tywyll, myglyd, ac afiach.

Yr oedd treth y golau wedi ei diddymu cyn i mi ddechrau defnyddio golau. Ond yr oedd ei hôl yn hawdd iawn ei weled ar y bythynnod. Y mae yn fy meddiant *Assessor's Warrant* a ddaeth i'm taid yn 1815 pan oedd ef yn pennu'r dreth ar un o blwyfi Cwm Eithin.

No. 7 Assessed Taxes y gelwir y pamffled o chwech ar hugain tudalen. Rhoddaf ran o'i gynnwys i mewn fel y gweler y gwahanol bethau oedd yn dyfod i mewn am dreth y Llywodraeth yr adeg honno. Yna rhoddaf ychydig o'r manylion am dreth y golau gan mai hi sydd o dan sylw, ac mai hi oedd yn gwasgu ar y tlodion, ac yn foddion i hau hadau afiechyd yn nheulu'r bythynnwr.

Table of Contents. General observations—Duties on Windows—Inhabited Houses—Domestic Male Servants—Under Gardeners, &c., and Persons in Husbandry occasionally employed as Domestic Servants—Stewards, Bailiffs, &c.—Travellers or Riders—Clerks, Book Keepers, and Office Keepers—Shopmen—Warehousemen or Porters—Stable Keepers—Servants looking after Race Horses—Waiters—Occasional Servants—Servants let to hire—Stage Coachmen and Guards—Carriages with four Wheels—Carriages let to hire—Carriages with less than four Wheels—Taxed Carts—Coachmakers and Sellers of Carriages—Carriages made for sale, or sold by Auction or Commission—Horses for riding or drawing Carriages—Horses let to Hire—Race Horses and Mules—Dogs—Horse Dealers—Hair Powder—Armorial Bearings. Allowance for Children.

Yr oedd y cyfarwyddiadau sut i'r trethwr gario ei waith allan yn fanwl, a'r gosb yn drom iawn arno pe buasai yn teimlo ar ei galon adael i weddw dlawd weled goleuni'r haul o'i bwthyn heb

dalu amdano. Dywedir oni chariai ei waith allan yn fanwl am bob tŷ yn ei blwyf, "*you will forfeit a sum not exceeding Twenty pounds, nor less than Five pounds.*"

Wele un o'r nifer rheolau :—

Duties on Houses and Windows.

You are to charge all skylights and windows or lights, however constructed, in staircases, garrets, cellars, passages, and all other parts of dwelling houses, whether they are in the exterior or interior parts of the house.

Ymddengys fod rhywun yn rhywle (yn Sir Fôn, mae'n debyg) wedi cynllunio i wneud i un ffenestr oleuo i ddwy ystafell, ond fel y canlyn y dywaid y *warrant* :—

Every window which gives light into more rooms, landings, or stories, than one, is to be charged as so many windows as there are rooms, landings, or stories, enlightened thereby.

Ond ni waeth heb fanylu. Yna rhoddir tabl yn dangos swm dreth :—

1 to 6 windows 6/6. Houses having less than 7 windows, if charged to the Inhabited House Duty, are liable to the Duty of 8/- and if not charged to that Duty, only to 6/6. 7 windows 20/-. 10 windows £2/16/-. 20 windows £11/4/6. 30 windows £19/12/6. 50 windows £34/10/-. 100 windows, £58/17/-. 180 windows £93/2/6, and 3/6 per window above that number.

Gall rhywun ddywedyd nad oedd chwe swllt a chwe cheiniog neu wyth swllt yn y flwyddyn ddim ond swm bach iawn. Felly yr edrych yn ein dyddiau ni, ond yr oedd yn swm anferth yr adeg honno, ac allan o gyrraedd cannoedd o deuluoedd tlodion. Byddai llawer gwraig weddw yn byw ar swllt neu swllt a chwe cheiniog o'r plwy, a llawer teulu a phump neu chwech o blant a dim ond pedwar neu bum swllt o gyflog wythnosol yn dyfod i mewn. Ac nid oedd dim i'w wneud ond codi tai heb ffenestri, a chaewyd cannoedd o ffenestri i arbed y dreth. Gellir gweled ambell un ohonynt heddiw. Ac fe ddengys y rheol a ganlyn mai peth cyffredin iawn oedd cau ffenestri i fyny :—

No window or light in any dwelling house is exempt from the Duties, by reason of its being stopped up, unless it shall be

effectually done with stone or brick, or with the same kind of materials whereof that part of the outside walls of such dwelling-house does chiefly consist, or unless it was stopped up effectually with plaster upon lath, previous to the 10th May, 1798, nor any windows in the roof of such dwelling-house, unless stopped up effectually with materials similar to the outside of the roof thereof.

Mae llawer o gwyno ar y tai yn ein dyddiau ni, a diau fod rheswm dros wneud, ac y mae llawer wedi eu condemnio fel rhai anghymwys i fyw ynddynt; ond pe bai bosibl cael ambell hen ŵr neu wraig dlawd, a fu'n byw mewn caban unnos dwy ystafell, ac a fagodd dyaid o blant ynddo, i olwg aml dŷ sydd wedi ei gondemnio, a gofyn iddynt beth a feddylent ohono, eu hateb diamwys fyddai, " Mae y tŷ yma yn ffit i'r un gŵr bonheddig."

Rhoddaf eto y dyfyniad a ganlyn allan o *Encyclopaedia Britannica*, *eleventh edition*, cyf. 28, 1911, yn dangos hanes dechrau a diwedd Treth y Golau:—

Window Tax.—A tax first levied in England in the year 1697 for the purpose of defraying the expenses and making up the deficiency arising from clipped and defaced coin in the recoinage of silver during the reign of William III. It was an assessed tax on the rental value of the house, levied according to the number of windows and openings on houses having more than six windows and worth more than £5 per annum. Owing to the method of assessment the tax fell with peculiar hardship on the middle classes, and to this day traces of the endeavours to lighten its burden may be seen in numerous bricked-up windows. The revenue derived from the tax in the first year of its levy amounted to £1,200,000. The tax was increased no fewer than six times between 1747 and 1808, but was reduced in 1823. There was a strong agitation in favour of the abolition of the tax during the winter of 1850–1851, and it was accordingly repealed on the 24th of July, 1851, and a tax on inhabited houses substituted. The tax contributed £1,856,000 to the Imperial Revenue the year before its repeal. There were in England in that year about 6,000 houses having fifty windows and upwards; about 275,000 having ten windows and upwards, and about 725,000 having seven windows or less.

In France there is still a tax on doors and windows, and this forms an appreciable amount of the revenue.

Er eu tlodi a'u bychander, cu iawn oedd bythynnod Cymru.
Dyma bennill o eiddo Ieuan Gwynedd¹ a fagwyd yn un ohonynt :

O *dlyision* Fythod Cymru, sy'n mygu yn y glyn,
Ac ar y gwyrddion lethrau, a'u muriau oll yn wŷn !
Mae'r gwenyn wrth eu talcen neu gysgod clawdd yr ardd,
A'r rhosyn coch a'r lili o'u deutu yno dardd.

CABAN UNNOS

Yr oedd yn hen arferiad yng Nghymru godi cabanau unnos, neu y tai tywyrch fel y gelwid hwy. Codid hwy ar y cytir. Pan feddyliai hen lanc am briodi, chwiliai am nifer dda o gyfeillion, ac aent ati gyda'r gwyll i godi tŷ tywyrch. Byddai'n rhaid i'r tŷ fod wedi ei orffen cyn i'r haul godi, a mwg wedi dyfod allan trwy'r simnai ; ac os ceid amser a digon o gymorth, gwneid clawdd tywyrch o amgylch darn o dir i wneud gardd, a byddai'r tŷ a'r ardd yn eiddo bythol i'r adeiladydd. Ond gofidus yw dywedyd i dirfeddianwyr Cymru ddwyn canoedd ohonynt trwy eu traha a'u hystriwiau.

Yr oedd nifer o dai tywyrch o gylch fy hen gartre. Bùm mewn pedwar ohonynt pan oeddwn yn hogyn. Yr oedd teulu-oedd yn byw ynddynt, a bùm yn chware lawer tro mewn dau ohonynt. Magwyd chwech o blant yn un ohonynt. Yr oedd yno ryw fath o derfyn ar ei ganol i wneud dwy ystafell, ac yr oedd y tad wedi rhoi croglofft isel wrth ben y siamber i rai o'r plant gysgu ynddi. Tyfodd y plant i gyd i fyny yn grefyddol a moesol, a bu y rhan fwyaf ohonynt fyw i weled hen ddyddiau. Nid oes namyn dwy flynedd er pan fu'r mab hynaf a'r ail ferch farw—y ddau wedi croesi eu pedwar ugain mlwydd oed. Ni chyfarfùm erioed â neb â golwg mwy hapus arni nag Ellen Richards, eu mam ; bob amser yn chwerthin yng nghanol y plant a mwg y tân mawn. Tebyg mai'r caban unnos oedd ym meddwl y bardd pan ganodd :

Mi brynais gan y brenin
Frig y borfa a chreigiau Berwyn,
I fildio Castell ar le gwastad
Uwchlaw Corwen gyda'm cariad.²

¹ *Cofiant Ieuan Gwynedd* (Evan Jones), gan C. Tawelfryn Thomas, Dolgellau, 1909.

² *Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaetbol Blaenau Ffestiniog*, 1898.

Diau fod tai da yn rhai o'r ffermydd mwyaf, ond gellid yn briodol iawn gymhwyso'r pennill toddedig a ganlyn at lawer ohonynt :

Sion a Sian yn byw yn Tŷ Mawr,
Côr a'r ysgubor bron d'od i lawr ;
Tŷ heb ddim to, grât heb ddim tân—
Dyn a helpo Sion a Sian.

Enwau y pedwar caban unnos a gofiat fi yng Nghwm Eithin oedd Tŷ Dafydd Richard, Tŷ John y Cwmon, Tŷ Twyrch, a Bryn Bras. Fe welir fod enw'r olaf yn swnio'n fawreddog, ac y mae tipyn o ramant yn perthyn i'w hanes. Yr oedd y gŵr a'i hadeiladodd, ar ôl bod yn ffarmio mewn gwedd weddol eang, wedi dyfod i lawr yn y byd, wedi methu ac wedi bod yn nwylo gwŷr y cwils, fel y dywaid. Aeth i Birkenhead i dreio bydio, ond daeth yn ôl i Gwm Eithin, ac adeiladodd Fryn Bras. Cofiat ef yno gyda Mari ei wraig, ac enillai ei damaid a'i lymaid wrth fyned o gwmpas y wlad i brynu 'sanau, a myned â hwy i'r marchnadoedd i'w gwerthu. Yr oedd yn fardd neu rigymwr, a rhyw natur llenyddia ynddo. Yn ffodus cefais fenthyg pamffledyn a gyhoeddodd. Enw y pamffledyn yw: *Tecel, sef ychydig o ganiadau gan hen Wr Godrau'r Mynydd, sef Gabriel Parry, Llanrwst*. Argraffwyd gan J. Jones, 1854. Y mae iddo bedwar tudalen ar hugain, a'i bris yn chwecheiniog, y rhagymadrodd wedi ei arwyddo "Bryn Bras Tachwedd 14, 1854." Heblaw y caneuon, ceir hanes bywyd rhamantus yr awdur. Ond nid oes ofod i ddyfynnu ond y darn lle y sonnir am adeiladu'r caban unnos.

"Wedi dyfod adre o Birkenhead, ac eisieu anedd-dy i fyw, meddyliais godi tŷ ar y mynydd, ac felly y gwneis trwy gynorthwy cymdogion caredig, ac nid oedd yn fy mhoced ond 12s., ni feddwn na rhaw, na chaib, na throsol, ond y cyfan yn arfau benthyg. Dywedais fel y canlyn :—

Mi godaf dŷ newydd, mi godaf dŷ newydd,
Ar fynydd, ar fynydd i fyw,
I fod yn ddiddos uwch fy mhen
Rhag cawodau gwllith y Nen
Lle trigaf holl ddyddiau fy oes.

Enwau'r pedwar caban yn Nghwm Eithin

O dywyrch a cherig, o dywyrch a cherig,
A'u gweithio hwy'n llithrig i'w lle',
Brwyn a grug fydd ar ei ben,
Rhag cawodau gw lith y nen—
Lle trigaf holl ddyddiau fy oes.

Ac allor a godaf, ac Allor a godaf,
Addolaf, addolaf E' yn Dduw ;
Pen Creawdwr Nef i gyd,
Daliwr moroedd a'r holl fyd
Mi a'th folaf, tra byddaf fi byw.

PENNOD VII

RHANNU'R MYNYDD

MAE yn debyg na chynhyrfodd dim byd gymaint ar drigolion Cwm Eithin er yr adeg y gelwid hwy i amddiffyn y Cwm rhag y Saeson, â derbyn y rhybudd fod y mynydd i gael ei rannu. Mynyddoedd isel oedd rhai Cwm Eithin. Yr oedd llawer ohonynt wedi eu cau'n ffriddoedd cyn cof i mi, a pharhâi y tyddynwyr i'w cau. Nid drwg i gyd oedd rhannu'r mynydd. Pe bai wedi ei rannu yn deg, gwaith da fuasai, oherwydd mae'n debyg na fu dim yn fwy o asgwrn cynnen na'r mynydd, a hynny oherwydd y crafangau oedd amdano. Yr oedd hyd yn oed yng Nghwm Eithin amryw o ffermwyr digon sâl, dynion nad oeddynt yn gofalu dim am neb ond hwy eu hunain. Pan oedd y mynydd yn agored yr oedd gan yr holl drigolion hawl i fyned yno i hel pabwyr a llys, torri mawn a chlytiau, a hel grug yn danwydd, torri brwyn a llafrwyn a thywyrch trum i ddiddosi eu tai a'u cytiau, i droi ychydig o ddefaid neu ferliws, os byddai ganddynt rai, neu fuwch i bori yn yr haf. Ac adeiladodd aml wŷr tlawd gaban unnos ar y mynydd, a chau darn bach o dir, lle y magwyd aml wron. Ond atolwg, beth a ddaeth o ran y tlawd o'r mynydd? Cawn weled wrth fyned ymlaen fod cymaint o fai ar y tyddynwyr crafanglyd am i'r tlawd golli ei ran ag ar y tiffeddiannwr cyfoethog. Yr achos oedd fod y ffermwyr cyfoethoca yn anfon mwy o ddefaid a merliws nag a ddylasant, ac mewn amser yn meddiannu darnau mawr o'r mynydd, a dywedyd, "Ein buches ni sydd i fod yma," gan wasgu'r ffermwyr tlota o hyd. Rhaid cofio hefyd fod defaid a merliws y bobl hyn lawer mwy annuwiol a gormesol na defaid a merliws y bobl dlawd. Yr oedd anian eu meistradoedd yn cael ei throsglwyddo yn amlwg iawn iddynt. Os buoch erioed yn myned â defaid i'r mynydd agored, ni byddai raid i chwi aros yn hir iawn na welech mor ofnadwy o haerllug a thrahaus ydyw defaid ffarmwr haerllug a chrafanglyd tuag at ddefaid gonest ffarmwr tlawd, neu rai gwraig weddw dlawd druan, ac fel y gorfodant hwy i gilio o'u ffordd. Yr oedd cyfrifoldeb y dynion hynny yn fawr, nid yn unig am a wnaethant eu hunain, ond am drosglwyddo eu haniau haerllug a barus i'w hanifeiliaid. Os amheua rhywun yr athroniaeth uchod holed

hen fugeiliaid Cymru, a darlened y disgrifiad o anifeiliaid y ddwy ffarm a alwai yr "Hen Deiliwr" yn Nefoedd ac Uffern.

Llawer ymladdfa ffyrnig a fu rhwng ffermwyr Cymru am ran fach o'r mynydd. Bu teuluoedd yn elyniaethus i'w gilydd am genedlaethau o'r herwydd. Nid drwg i gyd oedd ei rannu, meddaf, pe bai wedi ei rannu i'w berchenogion yn lle rhwng nifer bach o dirfeddianwyr.

Erbyn fy amser i yr oedd y rhan fwyaf o fynyddoedd isel Cwm Eithin wedi eu cau yn ffriddoedd. Ni wn pa bryd y dechreuodd y wanc am y mynydd ac y dechreuwyd ei gau yn ffriddoedd. Yr oedd gwthio a thrin a throi y mynydd yn myned ymlaen gyda rhyw ynni a chrafangu ofnadwy pan gofiar gyntaf. Gelwid un o'r rheibwyr hyn "Sian yr hollfyd a'r Gwane i gyd." Anodd gwybod pa bryd y dechreuwyd "gwthio" y mynydd. Y cofnodiad cyntaf sydd yn hen lyfrau mesur tir fy nhaid yw am Ffridd Garreg Fawr Syrior, Llandrillo, yn cael ei gwthio tua 1815, a'r pris am y gwaith. Ni ellid ei droi heb ei wthio, er y dywedid mai darnau ar yr ucheldiroedd a arferai yr hen drigolion eu llafurio. Yr oedd croen mynyddoedd Cwm Eithin mor wydn a chroen tarw, ni ellid cael aradr a ddaliai i'w droi, na cheffylau ddigon cryfion i'w thynnu; gellid torri tywarchen drum a'i chario ar eich pen ar hyd yr ysgol i ben y tŷ na fyddai yr un rhwyg ynddi. Pan ddechreuwyd troi yr hen fynydd ceid ceirch yn tyfu dros eich pen ynddo. Gwelodd y tîrfeddianwyr ei werth a phasiwyd tua deugain o *Enclosures Acts* gan Dŷ'r Cyffredin tua'r cyfnod yma.

Ni wn a oedd y ffermwyr yn meddwl meddiannu'r mynydd eu hunain ai peidio. Os oeddynt, siomwyd hwy yn fawr. Ni chawsant led troed ohono. Yr oedd y tîrfeddianwyr erbyn hyn yn brysur iawn yn ceisio cael gan berchenogion y cabanod unnos, a'r rhai oedd wedi codi lleoedd bychain ar y mynydd, gydnabod eu hawliau hwy trwy fygythiad a gwên deg. Ni ofynnent fwy na phumswllt o rent gan dyddynnwr bach oedd wedi codi tyddyn ar y mynydd. Nid eisiau rhent oedd arnynt, dim ond cydnabod eu hawl. Am mai eu tir hwy oedd yn taro arno felly hwy oedd biau y lle, a bu llawer o dyddynwyr a deiliaid y cabanod unnos yn ddigon diniwed i dalu. A diau fod disgynyddion aml un a ddechreuodd dalu pum swllt erbyn hyn yn talu agos i hanner canpunt am yr un lle.

¹ *Helyntion Bywyd Hen Deiliwr*, gan William Rees (*Gwilym Hiraethog*), Liverpool, 1877.

Yr oedd yr hanes wedi dechrau cerdded ers peth amser fod y mynydd i gael ei rannu, ac yr oedd y Cwm wedi cynhyrfu trwyddo. Ond ym Mehefin, 1865, derbyniodd yr holl dyddynwyr bapur glas, a phe buasai daeargryn wedi digwydd, nid wyf yn meddwl y buasai golwg gwylltach a mwy cynhyrfus ar wyneb neb nag a welais ar wyneb aml un haf y flwyddyn honno.

Wele gopi a gefais ym mysg hen bapurau fy nhaid o gynnwys y papur glas :—

“Cwm Eithin” Inclosure.

I RICHARD WAKEFORD ATTREE of 8 Cannon Row in the City of Westminster in the County of Middlesex, the Valuer acting in the matter of the Inclosure of the Waste Lands of the Hills Sheepwalks or Commons situate in the Parish of “Cwm Eithin” in the County of Denbigh hereby give you Notice that the encroachment from the said land to be enclosed situate in the said Parish of “Cwm Eithin” now in your possession is with the residue of the said lands about to be divided allotted and inclosed and that you are at liberty within two calendar months from the service of this notice to take down and remove all buildings fences and other erections now standing on the said encroachment, and to convert the material thereof to your own use.

And I further give you Notice that unless peaceable possession of the said premises be given to me on or before the expiration of two calendar months from the service of this Notice I Richard Wakeford Attree shall on the 28th day of August next at 11 o'clock of the same day at the Magistrates Room in the Village and Parish of “Llanaled” in the said County of Denbigh apply to Her Majesty's Justices of the Peace, acting for the district of “Cwm Eithin” in the said County of Denbigh in Petty Sessions assembled to issue their Warrant directing the Constable of the said District to enter and take possession of the said premises, and to eject any person therefrom.

Dated this 24th day of June 1865.

R. W. ATTREE,
Valuer.

To Mr. William Barnett,
Swch Tyn 'r Allt.

— Meddylier mewn difrif y fath garedigrwydd a ddangosid yn y rhybudd at y tlodion oedd wedi adeiladu tŷ a chôr ac ychydig

o gytiau ar y mynydd. Caniateid iddynt eu tynnu i lawr a gwneuthur defnydd o'r coed a'r cerrig a'r tywyrch oedd ynddynt, a chaniateid y cyfnod maith o ddau fis i wneuthur hynny. Pwy a allai dynnu ei dŷ i lawr mewn dau fis a'i ail adeiladu mewn lle arall, pe buasai yn cael clwt o dir i wneuthur hynny? Ond gofalai y tirfeddianwyr nad oedd clwt i'w gael. Felly syrthiodd y cyfan i ddwylo'r tirfeddianwyr, neu gwerthwyd hwy. Yn fuan ar ôl y papur glas gwelwyd y mân swyddogion yn dechrau hel o gwmpas, rhai a *chain* fesur, eraill a phegiau a pholion, eraill a rhawiau bychain i dorri hiciau yng nghroen yr hen fynydd. Rhoddid rhyddid i'r tirfeddianwyr a'r ffermwyr i ddadlau eu hawliau gerbron yr awdurdodau. Crynai y tlodion a'r tyddynwyr bychain. Gwibiai y rhai haerllug a chefnog ôl a blaen. Buan y deallwyd y gellid cael ffafrau, megis cael y darn gorau at ein lle ni, a gadael y darn sala i'r gwan diamddiffyn. Yr oedd swch fy nhaid yn ddeng acer wedi ei throï a'i thrin; ni adawyd iddo ond y *tair* acer sala, darn wedi ei dorri yn glytiau a thywyrch i gau clawdd y mynydd.

Dywedid na fu y fath laddfa erioed ymysg ieir, hwyaid a gwyddau Cwm Eithin â'r Nadolig hwnnw a'r un dilynol—y rhanwyr yn byw yn fras a'r ffermwyr yn cynffonna. Bu y rhanwyr yn hir iawn wrth y gwaith. Yr oedd ganddynt hawl i werthu darnau o'r mynydd i dalu'r costau, a gwerthasant lawer ohono. Y darnau gorau a werthent yn aml. Prynodd aml ffarmwr ddarn, ambell un ddigon i wneuthur ffarm pur dda, ond erbyn *sincio* a chau ac adeiladu trodd allan yn ddigon drud. Yr oedd y ffermwyr mawr yn gwneuthur eu gorau i gael mwy na'u siâr a gadael y rhai bychain ar lai na'u siar. Ni faliai y tirfeddianwyr fawr am hawliau'r ffermwyr bychain—cael cymaint ag oedd bosibl o gyfanswm oedd eu cwestiwn hwy. Ar ôl y rhannu aeth y ffermwyr i drin y mynydd; cawsant gnydau da. Codwyd y rhenti, ond ymhen ychydig flynyddoedd cymerodd yr hen fynydd yn ei ben i gynhyrchu llai, lai; yr oedd ei nerth cynhyrchiol yn pallu wrth gael ei fynych droi, a llogodd aml un o'r rhai barus ei fysedd.

CYFRAN Y TLAWD O'R MYNYDD

Beth a ddaeth o ran y tlawd? Ni chafodd ef gymaint â lled troed, na dim llecyn o'r mynydd oedd yn ymyl y llannau i'r plant bach chware ynddo. Cafodd y tirfeddianwyr floedd o

aceri, er na feddent fwy o hawl iddo na'r tlotaf yn y tir. Pa ryfedd fod y gweithiwr tlawd yn deffro i'w hawliau? Ymhen rhai blynyddoedd penodwyd y *Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire*,¹ a bu hwnnw yn eistedd am yn hir. Holwyd llawer o dystion. Rhaid addef i gryn lawer o well-iannau mewn tirddaliadaeth ei ddilyn, ond ni chafodd y tlawd, y dygwyd y mynydd oddi arno, ddim ond cioncwy ar ôl yr holl eistedd. Cymerwyd y mynydd oddi arno. Ni feddai hawl bellach i dorri ychydig o fawn i'w gadw rhag rhynnu yn oerfel y gaeaf, nac i hel llafswyn i doi ei gaban, nac i ddal gwningen i geisio estyn oes ei wraig pan fo mewn darfodedigaeth, dim cymaint â myned yno i hel corniaid o babwyr i wneud ychydig o ganhwyllau brwyn i ddarllen ei Feibl. Collwyd yr afonydd; ac er i'r brithylliaid fod yn gweiddi ar ei gilydd, "Pa le mae'r gŵr tlawd sydd â'i blant bach yn dihoeni gan eisiau bywd? Hoffem ni aberthu ein bywyd er eu mwyn" (fel y disgrifiai "Hiraethog" y pysgod ar Fôr Galilea yn holi am rwyd Pedr), nid oes iddo hawl i godi'r un ohonynt. Y cwbl a adawyd yw rhyddid i fyned i fflwynon y pentre i nôl caniaid o ddŵr. Os palla honno â chyflenwi y pentrefi rhaid i'r tlodion dalu'n ddrud am eu dŵr eu hunain o'r mynydd, er i nentydd y mynydd fod yn ymryson â'i gilydd am gyflenwi eu hangen. Yr unig hawl arall a adawyd iddo oedd y gall gerdded y ffordd fawr ond gofalu myned i ffos y clawdd a thynnu ei gap pan glyw gerbyd y gŵr a aeth â'i fynydd yn chwyrenllu o'i ôl neu i'w gyfarfod, a pheidio â loetran, neu byddai y plismon yn gafael yu ei war.

Gofynnwyd aml gwestiwn plaen yn y Comisiwn, a chaed atebion, er gwaethaf y tiffeddianwyr, oedd yn profi eu rhaib a'u trahauster uwchlaw amheuaeth. Ond daliai aml un ohonynt i gredu mai eu heiddo hwy y "ddaebar a'i chyflawnder."

Mae adroddiad y Comisiwn yn ddiddorol dros ben, yn enwedig i hogyn sydd yn cofio rhannu'r mynydd Rhoddaf ychydig o ddyfyniadau o hanes yr eisteddiadau yn y Bala.

Yn eisteddiad y Bala, Medi 12, 1893, llywydd, Lord Carrington, ysgrifennydd, Mr. [yn awr Syr] D. Lleufer Thomas, bu'r ymddiddan a ganlyn rhwng Mr. Brynmor Jones ac un o dirfeddianwyr Cwm Eithin:—

¹ *Royal Commission on Land in Wales and Monmouthshire, Minutes of Evidence, etc.* 6 cyf. Llundain, 1894-6.

Was any part of this estate recently enclosed?—There was an enclosure in 1863. Advantage was taken of the Enclosure Act.

How many acres were enclosed then?—I am sorry to say I cannot tell you the acreage.

Roughly speaking, what was the proportion of the amount enclosed there to the amount of property which you had before the Enclosure Act?—I am sorry to say, without getting it up, I could not tell you. I have not gone into that sufficiently. We have the maps to show it, and all that was sold.

I mean when the enclosure took place, was only a small portion allotted to your estate, or was it considerable in area?—You may say a small proportion, comparatively speaking, I think.

Well, 500 acres?—Yes, it would be as much as that, my agent says.

And the whole estate is 2,000?—3,000 over here in Denbighshire.

The Enclosure Act applied to the Denbighshire property, did it not?—Yes, not to the Merionethshire.

Do you recollect whether any recreation grounds or allotments for the use of the labouring poor were apportioned at the same time under this Enclosure Act?—No.

None?—None; it is not a thing which would be appreciated there, I think, with us; I do not think it would be taken advantage of.

But by-and-bye in the future it might be useful, might it not?—I do not think so. They are essentially sheep farmers; they do not even garden.

Were there any squatters' cottages on the common and the waste?—Yes, there were a few.

How were they dealt with?—They were sent away, and the property was sold and apportioned by the Enclosure people, and some of the ground sold to pay to the Enclosure Commissioners for the costs, I believe.

Then the squatters were sent away, you mean?—Yes. I was looking through the old accounts last night at the time the squatters were there; they had not paid any of them previously, they were all in arrears.

And so they were evicted?—Yes, they were sent away, a few of them. There were only a few of them, I believe

Mae'n werth sylwi ar yr ateb awgrymiadol uchod, "Yr oeddwn yn edrych trwy yr hen gyfrifon neithiwr, pan oedd y tyddynwyr unnos yno." Nid oedd yr un ohonynt wedi talu dim rhent. Yr oedd ôl-ddyled arnynt oll. Dyled i bwy, ys gwn i? Na, nid oedd yr un o breswylwyr y tai unnos erioed wedi cydnabod hawliau'r tîrfeddianwyr. Yr oeddynt wedi codi eu cabanod ar gomins y tlodion yn unol ag un o hen arferion gwlad eu tadau. Gofynnwyd i dirfeddiannwr arall fel y canlyn: "Pan oedd y bobl yn adeiladu'r tai unnos, a ddarfu i chwi dreio eu rhwystro, neu eu rhybuddio i beidio?" "Naddo," ebe yntau. Os wyf yn cofio'n iawn, ni ofynnwyd iddo paham. Pe buaswn i yno buaswn wedi gofyn. Hyd y gwelaf i nid oedd ond dau ateb posibl. Naill ai gwyddent na feddent hawl i'w rhwystro, yr hyn oedd yn berffaith wir, mi gredaf, neu gadawsant i'r tlodion adeiladu tai yn dawel gyda'r bwriad o'u cymryd oddi arnynt ymhen amser.

Ond i fyned ymlaen gyda rhagor o ddyfyniadau:—

Were there any sheepwalks or rights of pasturage in existence over the waste which was enclosed?—I presume so, there were rights. They had rights over this—what was common land before—I believe.

Diddorol dros ben yw tystiolaeth Mr. T. E. Ellis, A.S., o flaen y Commissioners; nid oes ofod i'w chofnodi, ond rhoddaf ychydig frawddegau o'i eiddo sydd yn dangos hawl y bobol i'r mynydd.

I would say that the consolidation of estates, the consolidation of farms, and the exercise of manorial rights on the wastes and common pastures of Wales contravene diametrically the whole spirit of the old Celtic tenures of Wales. . . . Enclosures have been ruthlessly made without sufficient forethought for the poor. . . . In a return just issued by the Board of Agriculture it appears that there are still approximately in Wales 953,000 acres of unenclosed mountain land. . . . (Pa faint sydd yn aros heddiw?)

Gofynnwyd iddo:

In relation to Lord Penrhyn and the enclosure, did you say in the House of Commons this . . . Much discontent had been caused in Wales by the enclosure of what had formerly been pasture land. In one case Lord Penrhyn had enclosed

some pasture land, and the fences had been broken down, upon which Lord Penrhyn had used his power as chairman of quarter sessions to obtain a special posse of police to protect the fences, and had levied a special rate in the district to bring these farmers to their senses?

. . . . In his evidence Lord Penrhyn admitted that considerable difficulty had arisen in his district owing to the fact that the pasturage of the tenants had been enclosed. In the assertion of their rights, the tenants had taken down fences; and what did Lord Penrhyn do?—He used his power as a chairman of quarter sessions, if I remember rightly, to obtain a special posse of police for the district, and he levied a special rate to bring to submission these farmers who had asserted their rights. Are those quotations correct?—Yes, the latter.

Do you admit that the enclosure was not made by Lord Penrhyn at all, but in pursuance of an Act of Parliament?—First of all I never said that the enclosure was made by Lord Penrhyn.

Ni raid dywedyd wrth neb pa fodd na chan bwy y gwnaed yr *Enclosure*. Fe wŷr pawb mai gan yr arglwyddi a'r tîrfeddianwyr y pasiwyd yr *Enclosure Acts*. Ac fel y canlyn y dywaid Mr. T. E. Ellis am yr *Enclosure Acts* a'r modd y pasiwyd hwy:—

. . . . That is an instance of the method of enclosure and of the results of the protest of these poor peasants. These deliberate, and it seems to me authoritative, statements, . . . are facts of pregnant interest to the student of the economic history of the land of Wales under the influences of English rule and law . . . In the ancient laws of Wales the common pastures and hill grazings were jealously guarded by the courts of the Cantrev and Cwmwd, because, so runs the law, "every wild and waste belongs to the country and kindred (gwlad a chenedl), and no one has a right to exclusive possession of much or little land of that kind."

Mewn atebiad i gwestiwn arall :

You say one or two owners stated that these sheep runs were vested in them. I suppose they mean they bought the Crown rights to those hills. Is that it?—I do not know. It is a very interesting question.

They become possessed of them in some way?—Yes, in some way. They claim them evidently.

Mewn atebiad i Mr. [wedyn Syr] John Rhys, M.A., dywaid fel y canlyn :—

I referred to the rental of Merionethshire as 140,335*l.* paid as agricultural rent in the last return to which I referred, and then I made this statement : “In a land and among a peasantry singularly devoted to social converse there is not a public village institute or hall ; keenly fond of reading, there is not a public library. In a changeable climate, mainly damp, and with homes small and confined, there is not a single hospital or dispensary.”

Ychydig o barch a gâi'r gwerinwr a'r llafurwr tlawd ; edrychid arno fel pe wedi ei wneuthur gan y Bod Mawr ar ôl i'r clai gorau gael ei ddefnyddio i wneuthur y bobl fawr, i'r unig ddiben o fod at eu gwasanaeth hwy. Yr oedd athrawiaeth Paul fod un llestr i amharch ac arall i barch yn hollol wrth eu bodd. Pa sawl mab ffarm y bu'n rhaid iddo adael ei wlad, neu i'w dad golli ei dyddyn am ddim ond dilyn ôl traed ysgyfarnog yn yr eira ar ddarn o fynydd a drawsfeddiannwyd gan y gŵr a hawliai mai eiddo ef yr ysgyfarnogod, y petris, ieir y mynydd, a physgod nant y mynydd ? Nid oedd nemor well yn Lloegr. Ryw dro torrais y dyfyniad a ganlyn o bapur newydd heb nodi pa un.

The condition of the working classes in the centre and South of England was deplorable. An agricultural labourer had to support a family on 9/- a week and pay for a cottage, probably a very insanitary one.


Those imprisoned for debt were in a terrible plight had they no friends to help them. My mother as a child visited Newgate with Elizabeth Fry, a friend of her mother's, saw the prisoners lying in chains on the straw, and never forgot the sight. Lunatics and even ordinary sick people had but scant attention compared to the present day.

Ninety years ago even good people did not realise what was due to those less fortunately circumstanced than themselves, and serious abuses existed, and little protest made. Poaching was a crime, and though the mantrap with its crocodile teeth

was supposed to be abolished in 1827, I can remember seeing one in use in Yorkshire.

Stephenson's first locomotive, which I recollect well, was made in the year of my birth, and was used to carry coal from the pit's mouth. The industrial revolution was transforming England and causing much misery in the process in manufacturing districts, just as there was an educative movement throughout the mechanics' institutes. I was to see a complete change in affairs—educational, political, social and religious during my long life, and I am glad to know and testify that on the whole the changes have been for the better.

Ni chlywais am drapiau i ddal dynion yng Nghwm Eithin. Yr oedd y cyffion wrth ochr y fynwent yn Llanaled pan oeddwn yn yr ysgol a bûm yn eu treio droeon. Ond diau y defnyddid y trap yng Nghymru yn yr hen amser. Wele ddarlun ohono



Trap i ddal dynion.

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Nid rhyfedd i R. J. Derfel ganü,

*Mynwch y Ddaear yn ol.*¹

Morwynion a gweision ein gwlad,
 Amaethwyr a gweithwyr pob sir,
 Ymunwch ach gilydd bob un
 Yn erbyn ysbeilwyr y tir ;
 Mae'r ddaear yn perthyn i chwi,
 Eich llafur roes werth ar bob dol—
 Tyngedwch pob gradd a phob oed
 Y mynwch y ddaear yn ol.

¹ *Caneuon*, gan R. J. Derfel, Manchester (1892).

Chwarelwyr a glowyr bob un,
 Pob teiliwr a chlocsiwr a chrydd,
 Pob morwr a siopwr a saer,
 Pob eilliwr a nyddwr a gwydd ;—
 Ymunwch ach gilydd bob un
 I hawlio pob mynydd a dol,
 A thyngwch ar allor eich nerth
 Y mynwch y ddaear yn ol.

Paham y llafuriwch y tir
 I eraill gael medi ei ffrwyth ?
 Pa'm gweithiwch o foreu hyd hwyr
 A rhent ar eich gwarau fel llwyth ?
 A chwithau mewn nifer mor fawr,
 Paham y gweithredwch mor ffol ?
 Yn lle cydymuno bob un
 I fynu y ddaear yn ol ?

Mae'r ddaear yn perthyn i bawb
 Ai golud yn rhan i bob un ;
 Fel awyr, goleuni, a dwr,
 Angenrhaid bodolaeth bob dyn .
 Dangoswch Frythoniaid i'r byd,
 Nad ydych yn llwfr nac yn ffol—
 Ymunwch i gyd fel un gwr,
 A mynwch y ddaear yn ol.

PENNOD VIII
HEN DDIWYDIANNAU

I

YN yr hen amser gynt, yr oedd y tyddynnwr yn cynhyrchu digon ar gyfer ei holl angenrheidiau ef a'i deulu bron ar ei dyddyn ei hun—ei fwyd, a'i ddillad, a'i esgidiau. Gallai baratoi crwyn yr anifeiliaid a laddai i wneud esgidiau, a'r adeg honno byddai'r crydd yn chwipio'r gath fel y teiliwr. Ac yr oedd y cwbl o'i fwyd yn tyfu ar y tir, a'i holl ddillad yn cael eu gwneud o'i lin a gwlan ei ddefaid.

Ni wn ond y nesaf peth i ddim am ledr a'i wneuthuriad, er bod un barcdy yng Nghwm Eithin yn fy nghof i, ond y mae swyn neilltuol i mi yn "nefaid mân y mynydd" a'u gwlan, y defnydd a wneid ohono, a'r modd y trinidad ef yn yr hen amser gynt. A chan ei fod wedi bod yn brif ddiwydiant Cymru am oesoedd, ni fyddai hanes bywyd gwledig Cwm Eithin, lle y mae miliynau o ddefaid wedi byw, agos yn gyflawn heb ddisgrifiad pur fanwl o'r dull a'r modd y trinidad y gwlan yno.

Pa mor hen yw y diwydiant gwneud brethyn a gwlanen yng Nghymru, mae'n anodd iawn dywedyd, na pha fodd y gweithid ef ar y cyntaf. Diau mai digon garw ac anghelfydd ydoedd. Anodd hefyd gwybod o ba le y daeth y gelfyddyd i'r wlad hon.

Dywaid Dr. Caroline Skeel, mewn erthygl ar y "Welsh Woollen Industry in the Sixteenth and Seventeenth Centuries," yn *Archaeologia Cambrensis*, Rhagfyr, 1922, "In the fourteenth century Fulling Mills were introduced, and cloth began to be woven on a considerable scale." Amlwg y bu adfywiad ar y fasnach ar yr adeg honno. Ond yr oedd brethyn a gwlanen yn cael eu gwneud oesoedd cyn hynny. A gorffennid trwy fyned ag ef i lan yr afon i'w sgwrio. Ond y mae'n amlwg na chadwodd pandai Cymru eu safle, a dywedwyd wrthyf gan un a fu yn y fasnach yn hir, mai dyna'r rheswm i'r fasnach ddiflannu o Gymru lle y dylasai flodeuo yn anad unman.

Mewn erthygl yn *Archaeologia Cambrensis*, Mehefin, 1924, "The Welsh Woollen Industry in the eighteenth and nineteenth Centuries," rhydd Dr. Caroline Skeel restr o'r trefi a'r dinasoedd lle y gwerthid y brethynau Cymreig, ac enwa nifer o wledydd tramor yr anfonid llawer iddynt, a'r symiau mawr o arian a

ddeuai i Gymru yn gyfnewid amdanynt, a dilyn ddiffaniad y fasnach o Gymru. Meddai am un dref, "In 1873, Machynlleth had twelve flannel and fine yarn manufacturers, and four mill wool carders, but in 1913 had none."

Yn yr *Archaeologia Cambrensis* am 1915, cyhoeddodd y diweddar Canghellor J. Fisher, D.Litt., gynnwys llawysgrif sydd yn Llyfrgell Rydd Caerdydd (*MS 50*), a rydd gryn dipyn o oleuni ar hanes cardio, nyddu, a gweu yng Nghymru. Gelwir yr ysgrif *Wales in the time of Elizabeth*. Dywaid y Canghellor nad yw'n ymddangos i'r llawysgrif gael ei chyhoeddi o'r blaen, nac i unrhyw ddefnydd gael ei wneud ohono. Ymddengys mai ysgrifau heb fod yn unffurf o ran maint a llawysgrifen ydynt, wedi eu hysgrifennu ran yn Gymraeg, a rhan yn Saesneg, ac ychydig mewn Lladin. Nid oes dim i ddangos pwy oedd yr awdur na'i gopïwr. Credir iddynt gael eu cyfansoddi yn amser teyrnasiad Elizabeth, gan Gymro twymgalon a gymerai ddiddordeb mawr yn natblygiad diwydiant ymysg y werin. Cwyna yn erbyn "The Act of the Union 1535," ac y mae yn trafod nifer o gwestiynau ar dirddaliadaeth, *etc.*

Yna â ymlaen i sylwi ar anwybodaeth, tlodi, prinder gwaith, a diffyg cynhaliath y werin, ac fel yr oedd hynny'n achosi mân ladradau ac anesmwythyd yn eu mysg. Y feddyginiaeth y dadleua drosti yw addysg rydd a rhad, ac i'r Frenhines a'i Llywodraeth roddi swm o arian yn nwylo rhywrai cyfrifol i brynu gwlan, fel y gallai'r tlodion ei gardio a'i weu yn eu tai ac ennill bywoliaeth; ac y talai hynny lawer gwaith drosodd i'w Mawrhydi trwy ychwanegu at adnoddau'r wlad i dalu trethi, a thrwy ehangu gwybodaeth y trigolion a'u gwneud yn ddeiliaid ffyddlon i'r Goron.

Pan ddadlau dros addysg rydd, dywaid :

"ffor within the greate Circute and p'cinct of Wales J knowe neyther colledge nor ffree schoole neyther any Bisshop or Prelate, weh with his authority or ffatherly love offereth one Prebend to a foundatyon, no nor the ffee fferme of any one Prebend: And that weh ys muche less, doo once moove yt by hisgodly perswasyon of the people. Wherof they mighte fynde a Number very conformable to charge theyre Landes for that purpose: Yet can the Bisshopps and Prelacy of Wales winck and holde themselves contented, that the Queenes Highnes ys defrauded in her first ffrutes and Tenthes, in that theyre

Benefices bee vnder-vallewed) to a Thowsand Marcks by yeare: Wherof, for my parte, J make lesse Conscience, synce the Lawes have graunted and established the same vpon the Crowne."

Ond gan mai'r hen ddiwydiant gweu sydd dan sylw, gadawn yr hyn a ddywaid am addysg. Teimlai'r awdur yn ddwys dros ei gydgenedl; gwelai fod diffyg gwaith a moddion cynhaliath yn gweithio o dan gymeriad y werin dlawd. Cred fod Cymru fel gwlad wedi ei bwriadu i fagu defaid. Enwa'r gwahanol siroedd lle y ceir mynyddoedd ac ucheldiroedd. Dywaid fod yno ddigon o afonydd lle y ceid dwfr ar gyfer y *fulling mills*, a digon o fawn yn danwydd. Dywaid fod digon o drefi heb fod ymhell y gellid gwerthu'r brethyn a'r wlanen wedi eu gorffen. Credai y byddai'r Cymry yn falch o gyfle i ennill bywoliaeth, a chredai fod Duw wedi bwriadu i'r Cymry ennill eu bara yn y ffordd hon. Meddai:

" And (to declare the Trouthe) Noo people gladder to gayne J thincke and iudge that God and Nature hathe appoynted thinhabitants of those partes to lyve by Cloathing onely." . . .

" And to conclude, by Clothing onely the People of Wales are to bee enriched & broughte to Civility. To the attayning of the p'fectyon wherof, no thing wanteth but a convenyent Stock of Monney, to bee destributed amonge the pore of every the partes of Wales before rehearsed, at the oversight of the honest and Substancyall parrysshioners theare: And for the bwyng of wolle weekely, & delyvery therof to suche pore Spynners, and Carders, that now lyve Jdly, and p'ish for famyn. SEVEN THOWSAND POUNDES will supply the necessity of this matter, wthowte the wch Jmpossible yt ys, to attayne to the reformatyon of the Disorders before specified: A very smalle Some in Comparyson of the greate good, and godly sequele hoped thereby."

Ceir y nodiad a ganlyn gan y Canghellor:—

" There is no actual evidence, that we know of, that his scheme was taken up; and whether his recommendations had anything directly to do with the passing of an Act twenty-one years after the death of Elizabeth we are unable to say. At any rate, in the interval between the writing of the tract and the date of the Act, textile fabrics seem to have received very

considerable impetus in Wales from some cause or other, as shown by the preamble. The Act was passed in 1623—4 (21 James 1, c. 9), and is intituled "An Act for the Free Trade of Welsh Cloths." The preamble reads:—


"Whereas the Trade of Making Welsh Cloths Cottons Frizes Linings and Plains¹ within the Principality and Dominion of Wales is and hath been of long Continuance, in the using and exercising whereof many Thousands of the poorer Sort of the Inhabitants there in precedent Ages have been set on work in Spinning Carding Weaving Frilling Cottoning and Shering whereby they (having free Liberty to sell them to whom and where they would), not only relieved and maintained themselves and their Families in good Sort, but also grew to such Wealth and Means of Living as they were thereby enabled to pay and Discharge all Duties Mizes Charges Subsidies and Taxations which were upon them imposed or rated in their several Counties Parishes and Places therein they dwelled for the Relief of the Poor and for the service of the King and the Commonwealth."

Yn yr hen amser nid oedd un math o beiriant i drin gwlân, i'w nyddu, na'i weu yn frethyn. Gwneid y cwbl â llaw. Y merched a'i triniau, yn gyntaf ei bigo, sef gwahanu'r gwlân garw oddi wrth y gwlân gorau, neu'r gwlân main, yna ei gribo, neu ei gardio i'w wneud yn rholiau oddeutu deunaw modfedd o hyd a thua thrwch bys. Dau ddarn o bren oedd y cardiau, a dannedd mân mân ar un ochr iddynt. Rhoddid y gwlân rhyngddynt a thynnid y naill grib ar draws y llall. Ar ôl hynny gwneid ef yn rholiau trwy roddi ychydig o wlân rhwng cefnau y ddau grib a'i rollo ôl a blaen. Wele ddarlun o'r fainc gardio ar y tudalen nesaf.

Ond erbyn fy amser i yr oedd y ffatrioedd yn gweithio'r gwlân ymhob ardal, a throid hwynt gan olwyn ddŵr yn ddieithriad. Ni wn pa mor hen yw'r olwyn ddŵr yng Nghymru. Diau iddi gael ei defnyddio i falu blawd ymhell cyn ei defnyddio i drin gwlân. Pwy a all ddywedyd pa bryd yr adeiladwyd y ffatri wlân gyntaf yng Nghymru, ac ymha le? Diau iddi daflu llawer iawn allan o waith, oherwydd yr oedd cannoedd lawer, os nad miloedd, yn ennill eu bywoliaeth wrth gardio. Yr oedd masnach helaeth yn cael ei gwneud yn Lloegr a chyflog da am y

¹ A kind of flannel (Halliwell).

gwaith. Cyfeiria Dr. Skeel at streic yn rhyw ran o Loegr ymysg y cardwyr tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg neu ddechrau yr ail ar bymtheg, yr hyn a ddengys eu bod yn bur lluosog ac yn meddu cryn ddylanwad.



Mainc Gardio.

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Ceid dwy neu dair o ffatrïoedd ym mhob ardal. Yr oedd cryn nifer yng Nghwm Eithin. Digon amherffaith oedd y peiriannau yn fy nghof i—y chwalwr, a adnabyddid wrth ei enw clasurol “y cythraul,” a'r *injan* neu y *rowlars* i wneud y gwlân yn rholiau. Bûm lawer tro, wrth fyned â gwlân i'r ffatri, yn gwyllo y rholiau yn dyfod allan o'r *injan*, ac yn disgyn i gafn o'r tu ôl iddi, cafn tebyg i'r dil a fyddai yn yr hen dai i ddal canhwyllau brwyn, ond ei fod yn fwy. Nid wyf yn cofio cardio yn y tai, gan fod y ffatri wedi ei ddisodli. Diau mai'r droell law a ddefnyddid yn y ffatri ar y cyntaf. Un werthdy oedd i honno, ond yr oedd y droell arall yn llawer o'r

ffatrïoedd yn fy nghof cyntaf i, sef y "Jinny." Gellid rhoddi pymtheg neu ugain gwerthyd ar honno i nyddu, ychydig yn llai i gorteddu. Ond y ffermwyr mwyaf yn unig oedd yn gallu talu am nyddu eu gwlan yn y ffatri. Parhaodd y tlodion i nyddu yn eu tai. Yr oedd aml droell fach yn chwyrenellu yng Nghwm Eithin pan fu'n rhaid i mi droi fy nghefn arno i ennill fy nhamaid. Ond rhai blynyddoedd cyn hynny yr oedd troell newydd arall wedi dyfod i'r wlad a elwir y *Mule*, a gellid rhoddi nifer mawr o werthydoedd ar honno—dri neu bedwar cant. Ac nid yn hir y bu'r droell fach cyn cael ei disodli, darfu nyddu yn y tai, a safodd y droell fach, a fu yn suo aml un o'm cyfoed i gysgu â'i chwyrenelliad mwyn.

Mae'n debyg mai'r adeg honno y daeth yr *injan* gardio a wnâi ryw ddwsin neu ddau o roliau ar unwaith, a rhai o'r hyd a fynnid, ugeiniau neu gannoedd o lathenni o hyd. Felly y gwneid i ffwrdd â'r gwaith o bisio rholiau. Am yr hen *injan*, yr oedd yn rhaid rhoi'r gwlan drwyddi ddwywaith, y tro cyntaf i'w gribo a'r eiltro i'w gardio; ond pan ddaeth y newydd nid oedd eisiau ond rhoi'r gwlan i mewn yn yr hen *injan* i'w gribo a cherrid ef ar strap i'r newydd i'w gardio, a deuai allan yn rholiau mawrion wrth y dwsin neu ddau o unrhyw hyd, a'r rholiau yn barod i'w rhoi ar y droell.

Y gwaith nesaaf ar ôl cardio'r gwlan a'i wneud yn rholiau oedd nyddu. Gwaith cywrain iawn oedd nyddu; yr oedd yn rhaid i'r llygad fod yn gyflym a chraff i weled pan fyddai digon o dro, ac i nyddu'n wastad rhag i rannau fod yn fain a rhannau eraill yn braff, fel y gwelsoch ambell greadur dilun yn ceisio gwneud rhaff wellt neu wair, ac yn rhoi y bai ar y trowr. Nid oeddynt yn rhoddi graddau i ferched yng Nghymru'r adeg honno, onide, diau y buasai llawer un wedi cael un am nyddu a gweu. Yr oedd yn llawer anos i'w ddysgu na llawer o bethau y rhoddir gradd amdanynt yn awr.

Yr oedd dwy droell, sef y droell fach a yrrid y rhan amlaf â'r troed; a'r droell fawr fel yr oedd gan fy nain. Bûm yn ei gwyllo yn nyddu ugeiniau o weithiau. Gwneid hon fel hyn. Yn gyntaf, yr oedd mainc fechan o tua dwy droedfedd o uchter a thair troed iddi; ar ei chanol yr oedd post tua dwy droedfedd o uchter, ac ecstro bychan yn ei dop. Yr oedd olwyn neu gant y droell wedi ei wneud yn hollol ar lun olwyn cerbyd, ond ei fod yn ysgafn iawn. Lled y cant neu y cylch oedd tua chwe modfedd a'i drwch tuag wythfed ran o fodfedd; yr oedd post

arall a fforch yn ei dop ar un pen i'r fainc a thwll drwyddo. Gosodid y chwafan yn y fforch, a gwthid y werthyd trwy'r twll yn y fforch a thrwy y chwafan. Yna gwneid strap neu felt o edau wlân, wedi ei gordeddu i fyned o amgylch y cylch a'r chwafan. Troid y cant â'r llaw trwy roddi bys rhwng yr edyn. Gan fod y cylch tua thair troedfedd neu ragor ar ei draws, a'r chwafan heb fod yn ddim ond tua modfedd a hanner, yr oedd y werthyd yn mynd yn gyflym iawn. Rhwymid pen un o'r rholiau wrth y werthyd, a dechreuid nyddu trwy roddi tro cyflym i'r cant ag un llaw, a dal y rholyn yn y llaw arall. Yr oedd yn rhaid dal yr edau allan rhag iddi ddirwyn hyd nes y ceid digon o dro ynddi. Yna dyfod â'r llaw i mewn a gadael iddi ddirwyn am y werthyd, a phisio'r rholiau â'r llaw arall. Ni wn pa faint o wlân a allai gwraig fedrus ei gardio a'i nyddu mewn diwrnod. Yn ei lyfr, *Gwilym Morgan; neu, gyfieithydd cyntaf yr Hen Destament i'r Gymraeg*, Bala (1890), dywaid "Elis o'r Nant" fel y canlyn am y wraig lle y lletyai'r Dr. Morgan pan oedd yn ieuanc :

"Yr oedd yr hen wraig a anneddai y bwthyn llwyd a thlod-aidd hwn wedi gweled dyddiau gwell, ac wedi dyoddef llawer o gylch-gyfnewidiadau bywyd. Cychwynodd ei gyrfa mewn safle anrhydeddus. Yr oedd yn ferch i dirfeddianydd ar raddfa fechan,—ei unig blentyn. Cafodd ddygiad da i fyny. Dysgwyd hi i weu, gardio, nyddu y droell bach, a gallai nyddu gyda'r droell fawr dros bwys gwr o edafedd mewn diwrnod, yr hyn ni allai nemawr un. Gallai farchog hefyd ar un ochr i'r ceffyl. Dysgwyd hi yn lled fanwl mewn dyledswyddau teuluaid. Gallai borthi ieir, moch, lloi a gwartheg yn ddi-ail. Ystyrid hynny yn ddygiad da i fyny."

Ni wn pa sawl cant o lathenni o edafedd ungorn a allai fod mewn pwysgwr o wlân—mae'n rhaid ei fod yn llawer iawn. Gwelais mewn hen *Wladgarwr* y gellir nyddu edafedd ddigon main o bwys o gotwm i estyn o naw a thrigain i ddeg a thrigain milltir o hyd. Ni wn ychwaith paham y gelwid pwys o wlân yn bwysgwr mwy na phwys o rywbeth arall. O'r hyn lleiaf, pwysgwr y clywais ef yn cael ei swnio bob amser. Mwy priodol a fuasai ei alw yn bwysgwraig. Dywedodd un ffatriwr wrthyf mai "pwyscywir" oedd am fod deunaw owns ynddo. Yr oedd deunaw owns yn y pwys 'menyn yn fy nghof i, a mynnodd fy nain roddi deunaw owns yn ei phwys 'menyn i ddiwedd ei hoes,

er na chai ddim rhagor amdano na'r rhai oedd yn rhoi un owns ar bymtheg ynddo.

Ar ôl nyddu yr oedd eisiau cordeddu, sef gwneud edau ddwygorn neu dair cainc o edau ungorn. Gwneid hynny yn yr un dull â nyddu; bechid dwy neu dair cainc wrth y werthyd, a gadewid y ddau neu dri chobyn ar lawr mewn basged yn ymyl.

Os byddai'r edau i gael ei llifo yr oedd yn rhaid ei gwneud yn genglau. Ni ellid ei llifo yn y cobyn am ei fod yn dynn a chaled; nid âi y lliw i mewn. I wneud cengel yr oedd tyllau yn edyn y droell tua hanner y ffordd o'r both i'r cant, bob yn ail aden, a rhoddid peg ym mhob twll; yna rhwymid pen yr edau wrth un o'r pegiau, ac wrth droi y droell dirwynid ef yn gengel oddi ar y werthyd.

“Da gan y diog yn ei wely
Glywed sŵn y droell yn nyddu;
Gweil gen innau, dyn a'm helpo,
Glywed sŵn y tannau'n tiwnio.”¹


Yr oedd llawer o lin yn cael ei dysu gan y ffermwyr yr adeg honno, a defnyddid peth ohono i wneud brethyn dillad—brethyn cartre—ac yn enwedig i wneud brethyn a elwid nerpan, a gwerthid llawer o hwnnw yng Ngwreccsam, Caer, a manau eraill i wneud dillad milwyr. Trinid y llin yn bur debyg i'r gwlan, ond bod y driniaeth yn fwy garw. Yn lle'r cribau dannedd mân mân, defnyddid darn o fwrdd derw, a gosodid nifer o ddannedd hirion tua naw modfedd o hyd. Gelwid hwynt dannedd yr ellyll. Gafaelid mewn tusw o lin a thynnid ef ôl a blaen trwy'r dannedd hyd nes y deuai yn garth parod i'w nyddu. Yr oedd hen ŵr o'r enw Edward Morris wedi cadw dannedd yr ellyll a ddefnyddid yng Nghynwyd ac ychydig o'r carth llin a wneid yno tua chan mlynedd yn ôl. Yn anffodus mae'r darn bwrdd wedi braenu. Cafodd cyfaill i mi y dannedd a'r carth. Cefais un o'r dannedd ac ychydig o'r llin ganddo.

Yr oedd y droell lin ychydig yn wahanol i'r droell wlan. Ni welais yr un fy hun. Mae rhannau o un gan yr un cyfaill yng Nghynwyd. Mae darlun o'r un Ysgotaidd yn y *Leisure Hour* am 1876, a dywaid Charles Ashton mai'r un yw'r cynllun. Llin a nyddid hefyd i wneud edau i'r cryddion a'r sadleriaid. Yr oedd un ohonynt yng ngweithdy'r cryddion yng Nghynwyd drigain

¹ *Cymru Fu*, Lerpwl, 1862.

mlynedd yn ôl, a gwraig yn arfer dyfod yno am ddyddiau i nyddu.

Yr oedd tŷ'r gwŷdd yn perthyn bron i bob ffarm. Fel rheol eil (*lean-to*) wedi ei chodi wrth ochr rhyw adeilad a fyddai. Diau fod llawer un a fu'n gvasanaethu gyda ffermwyr hanner can mlynedd yn ôl a gofia glywed ei feistr yn dweud "Cer i dŷ'r gwŷdd i nôl y rhaw neu'r gaib." Cawsant eu troi yn gytiau arfau a chytiau eraill. Gallai'r gŵr neu un o'r meibion weu gyda'r gwŷdd; ac mewn ffermydd mawr cedwid gwŷdd, neu, i fod yn iawn, gwehydd, ar hyd y flwyddyn. Byddai'r gwrthbannau, defnydd dillad y meibion a'r merched, yn cael eu gwneud gartre, felly priodol iawn yw'r enw brethyn cartre. Gwerthid y gweddill o wlanan, a brethyn, a brethyn nerpan.



Y Gwŷdd

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Gyda llaw gwehydd oedd " Siôn Gynwyd," bardd pur enwog yn ei ddydd, a chychwynnydd yr achos Methodistiaidd yn Edeirnion.

Nid wyf ychwaith yn cofio gwehydd yn gweithio yn yr un o'r ffermydd, ond yr oedd nifer o wehyddion yn gweithio yn eu tai eu hunain yr adeg honno. Yr oedd dau yn Llanaled, ac yn cadw gweithiwr neu ddau, a bŵm yn eu gwylio wrthi lawer tro pan fyddwn yno yn yr ysgol. Nid oes ond ychydig flynyddoedd er pan fu mab i un ohonynt, oedd weinidog amlwg gyda'r Wesleaid, farw. Ond yr oedd gwehyddion yn y rhan fwyaf o'r ffatrioedd, ac nid hir y buont cyn disodli'r gwehyddion o'r tai.

Y gorchwyl nesaf i'w wneud â'r brethyn a'r wlanan oedd myned ag ef i'r pandy i'w bannu. Rhoddid ef yn y cyff, lle y pennid ef â'r gyrdd mawr. Os byddai wedi ei bannu'n iawn, byddai wedi myned i mewn tuag un rhan o bedair, hynny yw, brethyn dwylath o led yn myned i'r cyff yn dyfod allan tua llathen a hanner o led. Defnyddid priddgolch (*Fuller's earth*) a chyfffeiriau eraill i wneud y gwaith ac i dynnu'r olew allan.

Troid olwyn y felin ban gan ddŵr fel yn y ffatri. Ar ôl bod yn y cyff am nifer o oriau tynnid y brethyn neu y wlanan allan a chymerid hi a'i rhoddi ar y dentur i sychu. Byddai honno mewn cae o'r tu ôl i'r pandy. Gwneid hi o nifer o bolion wedi eu gosod ar eu pennau, a bachau o haearn oddeutu hanner modfedd ynddynt, i ddal y wlanan yn dynn; ac wedi iddi sychu, gwneid hi yn gorn, sef yn rholyn.

Perthynai i'r pandy wasg (*press*) i wasgu'r brethyn a'r stwff, neu *bresio*, fel y byddent yn dywedyd, sef dwy *sheet* o haearn oddeutu pedair troedfedd wrth ddwy a hanner, a rhoddent y brethyn neu'r stwff rhwng y ddwy, ac yna doddi pwysau ar yr uchaf i'w gwasgu i lawr, ac yna cynnau tân â glwad, neu goleuad, sef tail gwartheg wedi sychu, i'w thwymo.

Diau y clywsoch sôn am bais stwff. Byddai honno, fel rheol, wedi ei gweu yn rhesog o ddau neu dri lliw, ac yn hardd iawn, ac yn hen ddigon da i eneth o forwyn, a hyd yn oed i ferch ffarm, fynd i'r capel. Gyda phais wlanan a phais stwff amdani, yr oedd yn llawer cynhesach na chyda'r lliprynnod a wisgir yn awr.

Tua dechrau'r ganrif ddiweddaf daeth y gown cotwm i Gymru, ac yr oeddynt yn grand ofnadwy. Yr oedd gennyf hen ewythr yn byw mewn ffarm weddol helaeth, ac yr oedd ganddo ferch, a meddyliai f'ewythr dipyn ohono'i hun ac o'i ferch. Tuag 1840,

syρθiodd y ferch mewn cariad â'r gwas. Galwodd ei thad hi ar y carped, ac meddai: "Prynu het silc a gown stamp i ti, a charu gwas, ai e?"

Credaf fod y pandy yn hŷn o lawer na'r ffatri wlân. Mae aml le yn y wlad yn cael ei alw yn Bandy. Ond, ymhell yn ôl y mae'n sicr y trinid y brethyn, trwy fyned ag ef i lan afon, neu nant, i'w sgwrio. Ymddengys na fu pandai Cymru erioed yn enwog am droi gwaith da allan. Ni allent roddi'r gorffeniad graenus a sidanaidd a roddid gan eu cydymgeiswyr yn Lloegr. Nid yw hynny i ryfeddu ato, oherwydd glynent wrth hen beiriannau wedi gweled eu dyddiau gorau yn amser eu teidiau. Ac mewn llawer man ffarmwr neu saer yn rhoi rhan o'i amser a fyddai'r pannwr. A diau, fel y dywedwyd wrthyf, y bu hynny yn un achos i Gymru golli'r gwaith o drin ei gwlan ei hun.

"Rhaid cael lliw cyn llifo" oedd hen ddihareb gyfleus dros ben weithiau. Pan ddeuai newydd drwg am rywun mewn ardal—stori heb lawer o raen arni, a'r bobl orau yn gwrthod ei chredu, ac yn dywedyd, "'Choelia-i mohoni hi," gallai yr hoff o newydd drwg am ei gymydog bob amser gario'r maen i'r wal ar y bobl orau trwy ddywedyd, "Rhaid cael lliw cyn llifo."

Byddai'n rhaid i'r dynion a'r bechgyn wisgo 'sanau llwydion, na wnaent ddangos y baw, druain. Tipyn o wlân du'r ddafad wedi ei gymysgu â gwlan gwyn, edafedd wedi ei lifo yn "las y pot," fel y gelwid ef. Dyma'r lliw rhataf posibl a'r mwyaf plaen a diaddurn wrth gwrs i'r bechgyn. Ond chware teg i'r merched, hwy fyddai'n llifo, ac yr oedd cael llifo 'dafedd yn wahanol i wneud eu 'sanau eu hunain yn gryn gymhelliad iddynt i wneud y gwaith. Nid oes gennyf lawer o grap ar liw na llifo. Er y bŷm yn gwylio fy nain a'm mam yn llifo lawer tro, o'r braidd y gallwn wneud y gwaith yn awr. Nid wyf yn cofio enw llawer o'r cyffuriau. Cofiaf yn dda y bŷm lawer tro yn nôl pwys o flacwd o Siop Lias, ac Ymhen y Top yn hel cen cerrig. Gwneid sanau smart dros ben trwy roddi hanner y cengel yn y lliw, a chadw'r hanner arall yn wyn. Byddent yn dębyg i geffyl broc. Gwneid 'sanau rhesog hefyd trwy ddefnyddio edau o ddau liw bob yn ail cylch. Yn fy amser i llifid deunydd brethyn yn y ffatri fel rheol, ond cadwodd fy hen ewythr William Ellis i'r diwedd at wlân y ddafad ddu wedi ei gymysgu â gwlan gwyn. A phan âi i roi tro am y defaid, yr hyn a wnâi unwaith bob dydd ac amlach na hynny ar y Sul, gwyddai'n iawn gwlan

pa rai o'r defaid a fyddai am ei gefn. Ac nid peth bach oedd hynny, gallu gwyllo bywyd a symudiadau'r ddafad a fu'n foddion iddo gael dillad clyd o frethyn cartre i'w wisgo.

Bûm yn hel cen cerrig lawer tro, ond nid i'w werthu. Mae'n rhaid fod rhyw nwydd wedi ei ddisodli cyn fy amser i. Amlwg y bu cen cerrig yn nwydd gwerthadwy. Y mae atgofion "Ap Vychan"¹ yn ddi-ddorol dros ben wrth gyfeirio at hel cen cerrig.

"Yn nechrau haf y flwyddyn 1818, yr oedd gwr a gwraig, a thyaidd o blant nwyfus a chwareus, yn byw dan gysgod craig fawr ac ysgythrog, ac mewn ty bychan, a'i do o redyn y mynydd-dir oedd gerllaw iddo, ac nid oedd yr haul yn tywynnu arno am rai wythnosau yn nyfnder y gauaf. Yr oedd yn cael ei gysgodi yn dda rhag gwyntoedd o'r Gorllewin, ac o'r Deheu; ond yr oedd awelon oerion y Gogledd a'r Dwyrain yn ymosod arno yn ddi-ddrugaredd. Mynnai y mŵg hefyd ymgartrefu yn y tŷ a'r to rhedyn, gyda y teulu, ac nid ai allan o'i fodd, os na fyddai y gwynt yn chwythu o ryw bwynt a ryngai ei fodd ef. Yr oedd megis un o'r teulu.

"Ond yr oedd amryw o bethau manteisiol a dymunol yn y fangre wladaidd honno wedi y cwbl. Yr oedd y teulu, wedi iddynt ddyfod drwy un bangfa galed o waeledd, yn cael iechyd pur dda ar y cyfan. Yr ydoedd ffynon o ddwfr iachus yn tarddu o ganol y mynydd mawr, yn union wrth dalcen y tŷ. Ceid digon o danwydd o fawnog oedd yn y mynydd uwchlaw y tŷ, yr hyn a barai fod yr aelwyd ar nosweithiau hirion y dyddiau byrion, yn hynod o gysurus. Eisteddai y tad yn un gornel, a'r fam ar ei gyfer yn y gornel arall, a'r plant yn hanner cylch o flaen y tân, a phob un oedd yn ddigon o faint yn gwau hosan mor gyflym ag y gallai, fel y gallai y fam fyned a hanner dwsin o barau i'r farchnad ar y Sadwrn, a'u cyfnewid yno am angenrheidiau teuluaid.

"Nid oedd yn hawdd peidio a chysgu yng ngwres y tân. Teimlai y plant hynny yn fynych, ac anfonai y fam hwynt allan am dro i edrych beth a welent rhwng y ty a Moel Llyfnant; yna dychwelent i'r ty yn ol i drin y gweill, fel o'r blaen, hyd amser swper, a'r addoliad teuluaid a'i dilynai, ac yna pawb

¹ *Gwaith Ap Vychan*, Llanuwchllyn, 1903.

i orffwys ac mor felus oedd cwsg yn y dyddiau hynny. Ac mor hoenus a diflinder oedd y cyfansoddiad pan ddeffroid yn y bore wedi cysgu drwy y nos.

* * * * *

“ Ar ol terfynu o’r rhyfel mawr rhwng y wlad hon a Napoleon Bonaparte, daeth amser caled iawn ar weithwyr amaethyddol, crefftwyr, a mân amaethwyr Cymru. Yr ydym yn cofio blwyddyn o falldod cyffredinol ar yr yd, ac yr oedd bara iach yn beth dieithr yn y wlad. Bychan iawn oedd cyflog gwr y ty â’r to rhedyn; ac er pob ymdrech o eiddo y fam a’r plant er ychwanegu tipyn at gyflog gwr y ty hwnnw, byd cyfyng a chaled oedd arnynt fel teulu dros amryw flynyddau.

“ Ond . . . agorodd Rhagluniaeth dirion y nef iddynt ddrws o ymwarded, i ryw raddau. Daeth y cen gwyn sydd yn tyfu ar gerrig yn nwydd i fasnachu ynddo. Cesglid ef oddiar y cerrig, a gwerthid ef i fasnachwr am geiniog y pwys, ceiniog a ffyrting, ceiniog a dimai, ac ychwaneg na hynny, pan y byddai galwad uchel am dano. Yr oedd tri o blant y teulu sydd dan ein sylw yn ei gasglu bob dydd, sych a theg. Casglai y tri rhyngddynt oddeutu deunaw pwys, yr hyn oedd yn gryn gymorth i’r rhieni a’r plant allu byw, a thalu eu ffordd. Troes lluoedd allan i’r ffriddoedd a’r mynyddoedd i’w gasglu, ac yr oedd y casglwyr gyda eu cynion yn hel y cen yn llawer cynt nag y tyfai ar y cerrig; ac felly, aeth y nwydd yn brin yn yr holl leoedd oeddynt yn gyfleus i gyrchu iddynt; a rhaid oedd myned yn bellach, bellach, yn barhaus.”

Yr oedd y ffatrïwr, yn enwedig os byddai yn cadw dau neu dri o weithwyr, yn dipyn o lanc mewn ardal, agos gymaint ag yw siopwr neu ysgolfeistr yn ein dyddiau ni. Ond y mae yr hen ffatrïoedd, a fu’n foddion cynhaliaeth i lawer teulu, yn sefyll bron bob un, a gwellt glas mawr wedi tyfu dros yr olwyn ddŵr, y cafn wedi braenu, a’r hen ffatri â’i phen ynddi; y gwlan yn cael ei werthu yn aml yn ddigon isel i fyned i ffwrdd o’r wlad, a’r trigolion yn gorfod talu’n ddrud amdano yn ôl mewn brethyn a gwlanenni a gwrthbannau, er colled ddirfawr i Gymru.

Beth a fu’r achos i Gymru golli’r diwydiant hwn i’r fath raddau ag y gwnaeth? Credaf mai oherwydd dau ddiffyg, diffyg an-turiaeth a diffyg cyfalaf. Soniais am beiriannau newydd yn

dyfod i'r ffatrïoedd, ond dywedwyd wrthyf pan geid peiriant newydd mai un wedi ei droi heibio gan y Saeson ydoedd bron yn ddieithriad, am y gellid ei brynu am ychydig. Felly, ni ellid cystadlu â'r Saeson oedd â digon o fentar a digon o arian i fan-teisio ar bob dyfais newydd. Yr hen stori, glynu'n rhy hir wrth yr hen bethau, hen gartref, hen beiriant, hen ddull. Gwelais aml un yn fy nydd yn mynd i'r wal am yr un rheswm—glynu wrth yr hen beiriannau.

PENNOD IX
HEN DDIWYDIANNAU

II

YR oedd nifer o deilwriaid yn chwipio'r gath yn fy nghof i, ond y mae "Hiraethog" wedi anfarwoli'r teiliwr fel nad oes angen sôn amdano ef. Yr oedd yno ychydig o sadleriaid yn myned o gylch y ffermydd i drwsio gêr y ceffylau. Mae'r gwaith hwnnw i gyd yn cael ei anfon i'r siop yn y dref yn awr. Dywedir yr arferai'r cryddion chwipio'r gath yn yr hen amser, ond yr oedd yr arferiad wedi peidio ers talm. Ond yr oedd "mynd" ar waith y crydd. Cofiaf chwech yn gweithio yn yr un man yn un o bentrefi Cwm Eithin, a dyna gyrchfan llawer gyda'r nos. Dyna'r lle mwyaf difyr y bûm ynddo erioed oedd Tŷ Morus y crydd pan oedd Huw ei frawd, William ei nai, ac Evan y mab, James Watson a John Edwards yno. Y diweddaf oedd y prif wâg. Pan roech fesur eich traed addawai Morus y pâr i chwi ymhen y pythefnos; yna ymhen yr wythnos, ac felly am bump neu chwech o droeon. Ac nid siomiant i gyd fyddai cael eich siomi, oherwydd yr oedd yn esgus i gael myned i dŷ'r crydd i wrando straeon a hanes yr ardal drachefn, ac ni ddisgwyliech gael eich esgidiau hyd y pedwerydd neu y pumed tro. Ac os byddai'ch esgidiau yn gollwng dŵr byddai raid dangos eich traed gwlybion a dywedyd tipyn o'r drefn. Nid wyf yn sicr na fyddai ambell un yn cicio dwy neu dair o hoelion o flaenau'i esgidiau yn bur fuan ar ôl eu cael er mwyn esgus i fyned i dŷ'r crydd, ac ni fyddai raid talu am y rhai hynny os byddai'r esgidiau yn weddol newydd. Toc dechreuodd y "sgidiau pryn" ddyfod i'r ffeiriau, a gwerthid hwy ar y stondin; ac yr oeddynt yn costio llai o'r hanner nag esgidiau Morus y crydd; ond edrych yn amheus a wnâi trigolion Cwm Eithin arnynt, a buan y deallwyd nad oeddynt dda i ddim i'w gwisgo ar y tir. Prynai ambell un bâr at y Sul; esgidiau bob dydd a llawn o hoelion a'u hiro nos Sadwrn, a wisgem ni'r hogiau ar y Sul. Pâr o esgidiau pryn oedd y rhai cyntaf a gefais i ar y Sul. Prynais flacin, gan feddwl ymddangos yn bur daclus y Sul hwnnw, ond druan ohonof! Er rhwbio a brwsio, nid oedd dim sglein yn dyfod arnynt—yr oeddynt fel yspwng. Ond esgidiau pryn, neu esgidiau parod fel y'u gelwir hwy, sydd yn awr ym mhobman yn y Cwm; mae bron

yn amhosibl cael neb i wneuthur pâr o waith llaw. O bymtheg swllt i ddeunaw swllt oedd pris *Morus* y crydd am bar o *water-tights*.

Cyrchfan poblogaidd iawn oedd gefail y gof, fel y pery hyd heddiw. Yno y ceid llawer o hwyl ac ysmaldod. Yn yr hen amser yr oedd gefail y nelar yn lle pwysig. Cofiaf nifer o *nelars* yn gweithio yn Llanaled, yn gwneuthur hoelion o bob math. Gŵr tew, byr, o osodiad cadarn, oedd Robert Nelar. Yr oedd dau neu dri yn gweithio gydag ef. Gweithio ar dasg y byddai'r nelars. Ni wn pa faint a gaent am wneuthur hoelion dwbwl, a hoelion sengel, a hoelion sgidiau. Bùm yn nôl pwys o rai sengel a phwys o rai dwbwl lawer tro o siop Lias. Methaf yn lân â chofio pa faint y pwys a dalwn amdanynt. Ychydig o amser i ddal pen y stori a fyddai gan y nelar, oherwydd main oedd y darn haearn a ddefnyddiai ac ni chymerai fawr o amser i dwymno—dim tebyg i'r amser a gymerai i'r gof dwymno dwy hen bedol i wneuthur un. Heblaw hynny defnyddiai'r nelar ddau ddarn o haearn bob yn ail yn y tân ac ar yr einion, a byddai wrthi fel lladd nadroedd yn curo'r hoelen i'w llun priod, ei thorri wedi gadael un pen yn dew a'i rhoddi mewn twll yn yr einion bach a churo pen arni fel y gwynt. Bu'r Parchedig John Jones, Caernarfon, yno yn gwneuthur hoelion sengel, cyn tyfu'n hoelen wyth ei hunan.

Ar amaethyddiaeth a defaid a merliws y mynydd y dibynnai mwyafrif trigolion Cwm Eithin; ond yr oedd yno lawer mwy o ddiwydiannau nag y sydd yn awr. Mae llu ohonynt wedi myned i golli, byth i ddychwelyd, y mae lle i ofni, a'r unig rai sydd wedi dyfod yn eu lle, hyd y gwelaf, ydyw ffrio ham ac wyau i'r ymwelwyr, a gwerthu *petrol*. Fe fuasai yn well gen i ganwaith fyned i'r mynydd â chaniaid o laeth enwyn a chilcyn torth a lwmp o fenyn mewn blwch pren, i dorri mawn neu lafrwyn, na thendio ar y *visitors*, pe buaswn i yng Nghwm Eithin. Onid yw yn amser i'n harweinwyr ddeffro i ddatblygu rhyw ddiwydiannau yng Nghymru? Mae llechau pridd yr Almaen yn disodli llechi Arfon a Meirion, ac olew Rwsia yn disodli glo Cymru. Beth a fydd i weithiwr i'w wneud ym mhen hanner can mlynedd eto? Ni fydd ein gwlad ddim ond parlwr i gyfoethogion Lloegr. A beth a ddaw o'r Iaith Gymraeg wedyn?

Yr oedd hen ddiwydiannau eraill sydd wedi myned i golli a bron yn angof, a diau fod llu o drigolion ieuainc Cwm Eithin na

chlywsant erioed sôn amdanynt, ac ni freuddwydiasant fod eu tadau mor fedrus gyda gwaith llaw. Wrth ddisgrifio'r diwydiannau hynny, caf gyfle i ddisgrifio ambell erfyn a fu mewn bri yn yr amser gynt, na welodd mwyafrif y to presennol erioed mo'i fath; neu os gwelsant ambell un yn llechu yn nhŷ'r gwŷdd neu gut yr arfau, mae'n debyg na wyddent ar y ddaear fawr i beth yr oeddynt da.

Yr oedd yno seiri coed a seiri cerrig; maent hwy yn aros eto, ac yn cael eu galw'n awr yn *joiners, masons a stone-cutters*. Yn adeg y trawsgyweiriad hwnnw y dechreuodd y crefftwyr wisgo coler wen i ddangos eu huchafiaeth ar y gwas ffarm. Nid wyf yn cofio'r slatar a'r plastrwr yn cael ei alw yn ddim arall, yr hyn a brawf mai newydd-ddyfodiad i Gwm Eithin oedd ef.

Gŵr pwysig hefyd oedd y llifwr, yn enwedig yr un ar ben y pit.

Mae'n syndod gymaint o ddiwydiannau oedd wedi eu crynhoi at ei gilydd mewn aml ardal sydd erbyn hyn wedi eu colli'n lân. Bŵm yn holi fy niweddar frawd yng nghyfraith, Robert Roberts, Cynwyd, cofiadur pennaf yr ardaloedd (gŵr yr wyf yn ddyledus iddo am lawer iawn o hen hanesion sydd gennyf) am restr o ddiwydiannau coll cylch Cynwyd. Cefais y rhai a ganlyn ganddo yn awr ac eilwaith, ac ysgrifennais hwy mor agos ag y gallwn gofio fel yr adroddai ef hwy.

MAELIERWR

· Yr oedd nifer o wŷr ar hyd y wlad yn yr hen amser yn gwerthu nwyddau. Nid wyf yn sicr a arferid yr enw 'maelierwr' am rai yn gwerthu unrhyw nwyddau, ynteu a gyfyngid ef i rai oedd yn gwerthu ŷd a blawd. Yr oedd gŵr o'r enw David Williams, yn byw yn hen gartref fy mhriod, ac yn hynod iawn o'r un enw a'i thad, ond nid wyf yn meddwl fod unrhyw berthynas rhyngthynt, a elwid yn faelierwr.¹ Ei waith ef oedd prynu ŷd, ceirch fel rheol, i'w droi'n flawd a'i werthu. Arferai fyned i'r marchnad-oedd i brynu a gwerthu. Beti oedd enw ei wraig. Byddai llawer iawn o'i hamser yn myned i drwsio sachau, ac arferai rincian llawer oherwydd bod y llygod yn tyllu'r sachau yn ddibaid. Yr adeg honno yr oedd raid cael *licence* i faelera. Yr oedd gan Dafydd Williams un; rhoddodd hi mewn *jar* ar y walbant i gadw. Cafodd y llygod afael ynddi a bwytasant hi er siomiant i

¹Maelierwr, o'r gair *maelera*, cymharer *maelfa*.

Dafydd Williams; ond oherwydd ei fod yn ŵr llygadgraff, gwnaeth y defnydd gorau a fedrai o'i anlwc. Aeth at Beti a dywedodd, "Weldi, dwyt ti ddim i rincian dim chwaneg am fod y llygod yn torri tyllau yn y sachau, mae ganddy'n nhw lisens i wneud yrŵan." Arferai Dafydd Williams fyned i'r Bala bob dydd Sadwrn.

Mae'n debyg fod y Bala yn lle pur enwog am flawd a cheirch. Dywaid y pennill :

" Mae yn y Bala flawd ar werth
Ym Mawddwy berth i lechu ;
Mae yn Llyn Tegid ddŵr a gro,
A gefail go i bedoli ;
Ac yng Nghastell Dinas Brân
Ddwy ffynnon lân i molchi."

FFELTIWR—*Gwneuthurwr hetiau*

Mewn llawer ardal ceir bwthyn a elwir Tŷ'r Ffeltiwr. Yr oedd un felly o'r tu ucha i Gapel Salem ym mhlwyf Llangar. Tŷ'n y Wern oedd ei enw cyntefig, ond pan gymerwyd meddiant ohono gan y ffeltiwr cymerodd ei enw oddi wrtho ef. Gwelais yr hen furddyn yn aros.

Yr oedd Robert Roberts yn cofio dau frawd, Evan Williams, hen lanc, a'i frawd William Williams a'i briod, yn gwneuthur hetiau ffelt yn y tŷ uchod. Âi William a'i briod i'r ffeiriau a'r marchnadoedd yn y cylch i'w gwerthu. Gan y ffeltwyr uchod y cafodd yr het gyntaf a fu ganddo. Un gron, lwyd oedd, a pharhaodd am hir, ond cyfarfu â'i diwedd trwy i'r gwynt ei chwythu dros bont Cynwyd i'r afon.

LLINDY

Safai'r Llindy yn agos i'r lle mae'r Pandy yn awr. Yno y trinidad y llin i'w wneuthur yn edafedd yn barod i'w nyddu, a'i weu yn gymysg â gwlan i wneuthur brethyn nerpan, a ddefnyddid i wneuthur dillad milwyr.

SAER GWELLT (*Straw joiner*)

Cofiai John Lloyd, Tŷ'n y Berth, a fu farw ddeugain mlynedd yn ôl yn bedwar ugain oed, felly wedi ei eni ddechrau'r ganrif,

¹ *Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog, 1898.*

ewythr iddo ef o'r enw William Stephenson, yn byw yn y Gwastad, tŷ a safai o'r tu uchaf i Hafod Bleddyn, yn masnachu fel saer gwellt. Gwnai goleri heŷg (i geffylau wrth gwrs, nid i'r dynion na'r merched), cadeiriau gwellt, a chychod gwenyn.

TURNAL (*Turner*), neu saer gwyn

Gwaith y turnal oedd gwneuthur llestri llaeth, y trwnsiwr 'menyn, yscimer, noe, cawgiau, y gwpan glust, llwyau preniau, y printar—offeryn i farcio'r pwys menyn fel y gellid ei adnabod oddi wrth ei nod. A diau mai oddi wrtho ef y cafodd y brinten ei henw. Y saer gwyn diweddfaf yn yr ardal oedd John Jones, yn byw ym mhen y Geulan, brawd i'r Dr. Arthur Jones, Bangor, gweinidog enwog gyda'r Annibynwyr.

CWPER

Gwneuthurwr tybiau 'menyn, y gunog odro, y cawsellt, *etc.*, oedd y cwper. Un darn oedd llestri y saer gwyn, wedi eu turnio a'u cafnio â'i gyllell gam. Gwneid llestri'r cwper o nifer o ystyllod a chylch o bren neu haearn yn eu dal wrth ei gilydd. Y diweddfaf yn yr ardal oedd un o'r enw Thomas Roberts, hen ŵr dipyn yn chwyrn. Adroddir hanesyn doniol amdano ef a'r Parch. Samuel Jones, Clawdd Newydd. Bu Samuel Jones yn byw unwaith yn Nhŷ'n Celyn, Cynwyd. Yr adeg honno yr oedd wedi pechu yn erbyn yr hen ŵr, ac ni thorrai Gymraeg ag ef. Un tro pan oedd Samuel Jones wedi dyfod o Glawdd Newydd i bregethu i Gynwyd, dywedodd wrth ei hen gyfaill William Williams, y Pandy, "'Da i ddim i'r ysgol y prynhawn yma. Tyd hefo fi i weled rhai o'r hen gyfeillion sydd yn wael.'" Yr adeg honno yr oedd Thomas Roberts yn wael iawn. Mynnodd Samuel Jones fyned i'w weled, er i William Williams wneuthur ei orau i'w berswadio i beidio, am y gwyddai nad oedd yn dda rhwng y ddau. Pan aethant i'r tŷ a chyfarch gwell i'r hen wraig, a holi am yr hen ŵr, dywedodd Samuel Jones yr hoffai gael ei weld, ond gwrthwynebai'r hen wraig am yr ofnai'r canlyniad, ond fe wthiodd Samuel Jones heibio iddi i'r siamber, a dyma'r ymddiddan a fu rhyngddynt:—S.J., "Sut yr ydach chi, Thomas bach?" "Gwael iawn," ebe'r hen ŵr. "Wel, mae'n ddrwg iawn gini glywed; ydach chi yn fy nabod i, Thomas?" "Nac ydw, yn nabod dim ohonoch chi." "Wel, wel, drwg iawn, drwg iawn. Ydach chi yn nabod Iesu Grist, Thomas?" "Ydw; mae O yn llawer haws i'w nabod na chi."

TOI

Yr oedd yno hil o dowyr—hynny yw, dynion a fedrai doi tŷ to gwellt fel na ddeuai defnyn o ddefni trwyddo ; nid ystyrid hwy yn grefftwyr, ac ni welais yr un ohonynt hwy erioed yn gwisgo coler wen, hyd yn oed ar y Sul. Er hynny, yr oedd toi tŷ â gwellt, i ddal dŵr, yn llawer mwy o gamp na thoi tŷ â llechau. Credaf y gallwn i dorri dau dwll mewn llechen a'i hoelio a gwneuthur to i ddal dŵr. Er y medrwn doi tas wair neu das ŷd â gwellt i ddal yn eitha, methais yn lân â rhwystro'r defni trwy do yr hen gartre er treio droeon. Bŵm yn tynnu to i Thomas Jones y towr ac yn ei wylled yn fanwl. Gyda llaw, nid gwaith y medr pawb ei wneuthur yw tynnu to. Rhaid gafael yn nau ben y tusw o wellt a'i dynnu, ei osod yn ôl gyda'i gilydd, a'i dynnu dro ar ôl tro, ac yn y diwedd gafael yn un pen iddo a gwneuthur crib gyda bysedd y llaw arall a'u tynnu trwyddo, a gofalu na byddai'r un gwelltyn wedi ei blygu i gario y dŵr i'r to yn lle i'r gwelltyn nesaf ; fel y gallai hwnnw ei gario drachefn tua'r bargod, yn lle ei gario i mewn i'r to.

Byddai raid i'r tynnwr to ofalu fod ganddo ddigon wrth ei gefn erbyn y clywai y gair "To!" yn dispedain ar ei glustiau. Nid llawer o amynedd i ddisgwyl a feddai'r towr, ac os deallai'r meistr fod y gwas yn ei gadw i sefyll ac yntau'n talu cyflog mawr—efallai o naw swllt neu ddeg yr wythnos—nid esmwyth iawn fyddai ei le. Rhoddai y towr ei ysgol ar y to o fewn dwy i dair troedfedd yn ôl hyd ei fraich i'r talcen ar ei dde. Gelwid y darn hwnnw yn wanaf. Cymerai erfyn yn ei law a elwid topren, darn o bren, oddeutu deunaw modfedd o hyd, a mesen ar ei ben fel ar goes rhaw. Lledai yn ei ganol, yn denau a fflat yn debyg i rwyf, ond bod ei flaen yn culhâu. Gwneid bwlch yn ei flaen fel V, a thipyn o gamder yn ei ganol fel y rhedai yr un ffordd â'r to tra gallai'r towr ddal ei law ychydig uwchlaw. Cymerai y towr dopyn yn ei law dde. Wedi rhoi tro tebyg i gwllwm yn un pen iddo, â'i law chwith codai gynffon yr hen do yr ochr bellaf oddi wrtho ; yna rhoddai flaen y topren ym mhen y topyn a gwthiai ef i mewn i'r to nes bod tua'r hanner o'r golwg oddi tan yr hen do. Yna un arall drachefn a thrachefn hyd nes cyrraedd yr ysgol yn ei ymyl. Yna symudai ychydig yn uwch i fyny, ac felly hyd nes y cyrraeddai'r grib, pryd y byddai raid dyfod i lawr i symud yr ysgol, pan gâi y tynnwr ei wynt am funud.

Ar ôl gorffen toi, yrŵan ac yn y man byddai eisiau adnewyddu y tywyrch trum, a roddid ar y grib. Mesurai y dywarchen tua phump wrth dair troedfedd. Gosodid hwy yn union yr un dull ag y gosodir *tiles* ar grib tai yn awr, ond eu bod yn llawer llaesach—tua dwy droedfedd i lawr y to bob ochr. Felly heblaw cadw'r defni allan, cadwent y to rhag i'r gwynt ei chwalu. Tipyn o gamp oedd torri tywarchen drum o'r maint a nodwyd heb dwell ynddi, a'r un dewdwr ym mhob rhan. Yn gyntaf yr oedd yn rhaid cael tir pwrpasol—hen dir gwydn, ffridd, neu fynydd heb erioed ei droi os gellid ei gael; gwelltglas yn debyg i wair rhosydd a'i wreiddiau wedi ymglymu drwy ei gilydd ac yn ddwfn yn y croen, a hwnnw cyn wytned bron â'r lledr a ddefnyddir yn awr i wadnu esgidiau. I wneuthur y gwaith yn iawn, rhaid oedd cael erfyn pwrpasol. Gwelais rai yn eu torri gyda rhaw neu raw bâl; ond yr erfyn iawn oedd yr haearn clwt. Meddai goes hir; mesen ar ei dop; tipyn o gamder ynddo; y pen, neu'r haearn heb fod yn annhebyg iawn i ben rhaw gul, ond bod ei flaen yn debyg i V, a min fel cylllell o bob tu iddo. Torrid ochrau a dau dalcen y dywarchen yn gyntaf, yna dechreuid gwthio'r haearn dan un pen, a throid y dywarchen i fyny, a rholid hi yn gorn yn debyg i rôl llyfr; yna llinyn o amgylch pob pen iddi ac i ben y tŷ â hi lle'r agorid rhòl y dywarchen.

MWSOGLU

Crefft arall oedd yno sydd wedi llwyr ddarfod bellach, mi gredaf, oedd mwsoglu. Yr oedd llawer o'r hen dai wedi eu hadeiladu heb forter—tyllau yn y muriau, a'r to heb ei deirio, os llechau a fyddai, ac felly yn oerion iawn. Anfonid am y mwsog-lwr cyn dechrau'r gaeaf. Âi yntau i'r mynydd i hel mwsog, lle y câi beth hir a gwydn; ac yna gyda darnau bychain o haearn tebyg i gynion ac o wahanol dewdwr, gwthiai'r mwsogl i'r tyllau gan ei guro'n galed gyda gordd fechan, yn union fel y gwneir bwrdd llong gyda charth. Os nad wyf yn camgofio, yn y Mynydd Main y dywedai Thomas Jones, Llidiart y Gwartheg, yr oedd y mwsogl gorau i'w gael at y gwaith.

GWTHIO

Gwaith arall â mynd arno oedd gwthio rhannau o'r mynydd. Yr oedd y tyddynwyr yn cael y mynydd yr adeg honno bron yn ddi-rent, a mynyddoedd isel oedd rhai Cwm Eithin. A daeth

y tyddynwyr i ddeall, ond ei droi, y ceid cynydau da o geirch. Gwelais geirch dros fy mhen ar rannau o'r mynydd, llawer gwell nag a geid ar y gwaelodion yn aml. Ond sut i'w droi oedd y gamp, oherwydd yr oedd ei groen cyn wytned â gwden helyg; nid oedd aradr yn y lle yn ddigon cref i'w droi, na llanc a allai ei dal, na cheffylau a allai ei thynnu. Er y dywedir mai ar bennau'r bryniau yr oedd ein cyndadau yn byw, ac y gwelir rhych a chefn mewn aml fan, ac er mai coedwigoedd oedd y gwaelodion, cafodd y mynyddoedd ddigon o amser i fagu croen pur dew cyn ein hamser ni. Gan hynny, rhaid oedd gwthio'r mynydd cyn ei droi. Yr oedd pen yr haearn gwthio yn fflat, rhywbeth yn debyg i ben yr haearn clwt, a min da arno. Rhaid oedd ei hogi yn aml. Ar ochr y llaw chwith iddo yr oedd yr ymyl yn troi i fyny, a min arni i dorri ochr y gwthin neu'r dywarchen yn rhydd, fel y tyr cwlltwr aradr ochr y gŵys. Yr oedd coes hir iddo o bump i chwe throedfedd o hyd, a chamder ynddi yn debyg i goes rhaw. Ar ei ben yr oedd mesen hir o ddeg i bymtheng modfedd. Byddai gan y gwthiwr ddarn o ledr ar ei glun, ac â'i glun a'i ddwylo y gwthiai yr haearn nes torri'r dywarchen. Ar ôl ei thorri o hyd neilltuol, wrth gydio ag un llaw ymhob pen i'r fesen, troai y gwthiwr y dywarchen y tu chwith i fyny i ochr y llaw dde, yn union fel y troir cŵys. Am ei lun gwêl Rhif 1, tudalen 106.

Ar ôl i'r gwthin sychu llosgid hwy. Âi y trowr â'r wedd a'r aradr yno ddechrau'r gaeaf, a byddai'n barod i hau ceirch ynddo yn y gwanwyn, a cheid cnwd da o geirch fel rheol y cynhaeaf dilynol, ac am ychydig flynyddoedd wedyn, tra y parhâi'r adnoddau yr oedd y mynydd wedi eu casglu yn ystod oesoedd o segurdd a dim ond defaid yn ei bori. Ond cyn hir iawn, fe gymerodd yn ei ben i gnydio llai lai, ond daliodd i roddi cynydau pur dda am ddigon o amser i'r tîrfeddianwyr godi'r rhenti. Caniataodd y tîrfeddianwyr i'r tyddynwyr drin y mynydd ar eu cost eu hunain, a chodasant y rhenti; a rhwng y cwbl llethwyd aml ffarmwr, ac yn y diwedd yr oedd y rhai a driniodd y mynydd yn waeth allan na'r rhai a'i gadawodd yn borfa defaid. Mae'n debyg yr âi tir bras America yn dlawd mewn amser heb wrtaith, oni bai fod digon ohono i beidio â gofyn iddo gnydio ond bob yn ail blwyddyn.

Ystyrid gwthio y gwaith caletaf yng Nghwm Eithin. Gwneid ef fel rheol ddechrau haf. Telid amdano wrth y rhwd, a

byddai'r gwthiwr yn cyrraedd y mynydd yn fore iawn, â chaniaid o sïot neu ganiaid o laeth enwyn, a bara chaws, a gweithio'n galed hyd yr hwyr. Gweithiwr caled oedd pob gwthiwr, oherwydd fe ofalai pob diogyn na ddysgai ef sut i wthio. Gwelais yn un o lyfrau cyfrifon fy nhaid am 1815 gytundeb a wnaed â gŵr, o'r enw Thomas Williams, i wthio ffridd y Garreg Fawr Syrïor am un swllt ar bymtheg yr acer fel y gwelir. Ni wn pa faint o amser a gymerai i flingo acer o fynydd; dwy i dair wythnos mac'n debyg.

*Ffridd gareg fawr
Syrïor Llandrillo*

*a. r. p.
1-3-2 1/2*

Cyfrinddod i'r raiar gorthio

<i>Derbyn</i>	<i>2</i>	<i>1</i>	<i>6</i>
<i>a. r. p.</i>	<i>1</i>	<i>3</i>	<i>2 1/2</i>
	<i>1</i>	<i>10</i>	<i>8</i>
		<i>10</i>	<i>10</i>

*Due
to Tho. Williams
yn ol. 10-10*

*gorthiws Bettws
wedi rheleg i gwaith
a chodi gromod o arian
0 - 6 - 10 - 10*

William Barnard

TORRI MAWN

Torrid y mawn ddechrau haf gan y dynion, a chodid hwy gan y plant a'r merched yn sypiau, â lle i'r gwynt fyned rhyngddynt i'w sychu, a cherrid hwy adref i'r tŷ mawn, neu eu gwneuthur yn deisi rhwng y ddau gynhaef, a hefyd ar ôl y cynhaef yd. Yr oedd yr haearn mawn yn erfyn pwrpasol at y gwaith, ac ni ddefnyddid ef i ddim arall. Torrid y mawn yn sgwâr fel brics, a thorrai'r haearn ddwy ochr ar unwaith. Dechreuid yn un pen, ac ar ôl torri'r fawnen gyntaf ar ddwywaith, eid ymlaen ar hyd y rhes gan daflu'r mawn i'r lan gyda'r haearn. Gweithid y pyllau yn stepiau fel y gweithir Chwarel y Penrhyn, a lle'r oedd digonedd o fawndir yr oedd rhai ohonynt yn bur ddwfn. Syrthiodd aml un iddynt, fel Dic Siôn Dafydd ac Aer y Pyllau. Mae stori Dic yn ddigon hysbys. Am Aer y Pyllau, un meddw oedd o. Un tro pan oedd yr hen Roberts y Botegir yn dyfod adref o Ruthyn yn y nos, clywai weiddi mawr o bwll mawnog rhwng y Clawdd Newydd a'r Botreyal am help i ddyfod allan. "Pwy sydd yna?" ebe'r hen foneddwr. "Aer y Pyllau," ebe'r llais. "O, yr ydych chi wedi cyrraedd adre felly!" ebe'r hen Roberts, "nos dawch." Gweler llun yr Haearn Torri Mawn, Rhif 3, tudalen 106.


Arferai rhai ddywedyd nad oedd gwaelod i'r gors yr enwir "Glan y Gors" oddi wrthi, ac a adweinir ar lafar gwlad fel Cors Pant Dedwydd. Pan oedd y Saeson yn gwneuthur ffordd o Lundain i Gaergybi trwy'r gors honno ofnent yn fawr rhag cael eu llyncu, a buont wrthi am amser maith yn cario coed a cherrig i geisio rhoi gwaelod i'r ffordd; ond llyncai'r hen gors y cyfan. Er iddynt lwyddo i gael ffordd teimlir hi yn siglo wrth fyned trosti, ac y mae y gwaliau a wnaed gyda'i hochrau bron a myned o'r golwg. Hwyrach y bu'r lle yn llyn un amser.

TORRI CLYTIAU A THALPIAU

Torrid llawer o glytiau mewn mannau lle nad oedd nemor o fawndir. Torrid hwy o'r croen ar fynydd tenau ei ddyfnder, a chan eu bod yn llawn o wreiddiau wedi marw, ac felly'n haen denau o fawn, llosgent yn dân gwresog. Torrid hwy, ar siâp teils a roddir ar y lloriau, gyda'r haearn clwt a ddisgrifiais wrth sôn am dywyrch trum. Yr oedd talpiau yn cael eu torri ychydig yn dewach. Hwy oedd y ddolen gydiol rhwng y clytiau a'r mawn.

TORRI CERRIG

Gwaith pwysig iawn yn yr amser gynt oedd torri cerrig ar y ffordd. Yr oedd nifer o hen frodyr diddorol iawn yn torri cerrig ar y tyrpeg sydd yn rhedeg drwy Gwm Eithin, a rhai ar y ffyrdd croesion. Pan fydd ar ambell bregethwr eisiau rhoi disgrifiad o hen sant duwiol tlawd a hynod o ddiwed, cyfeiria yn aml ato fel hen dorrwr cerrig ar y ffordd. Ond fe adnabûm i aml dorrwr cerrig â mwy yn ei ben yn ôgystal a mwy yn ei galon nag ambell bregethwr a gwrddais. A fuoch chwi yn gofyn i un



1. Haearn Gwthio. 2. Ffust. 3. Haearn Torri Mawn.
4. Haearn Torri Mawn (Sir Gaerfyrddin). 5. Bach Gwair.

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones, 1929*, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

ohonynt unrhyw dro pan fyddech yn cychwyn ar daith, "Gawn ni ddiwrnod braf heddiw, William?" na fedrai broffwydo yn hollol gywir fel y canlyn: "Cawn, mi gawn ddiwrnod braf heddiw; ond feallai y taflith hi ychydig o gafodydd." Pa fodd y gallech argyhoeddi un felly, wrth ddychwelyd, ei fod wedi eich camarwain?

Cyn y gallai dyn ennill ei damaid wrth falu cerrig yr oedd yn gofyn llawer o ymarferiad a llygad craff iawn. Yn torri cerrig ar y ffordd yr wyf fi yn cofio'r hen Robert Roberts, Gwernau. Bùm lawer yn ei gwmini. Gwelech ef wrth eistedd ar dwr cerrig yn ei gwman wedi camu cymaint fel y gallasech feddwl, wrth edrych ar ei ochr, mai sgwâr fawr yn perthyn i un o'r seiri oedd. Er yn agos iawn i'r pedwar ugain a'i nerth wedi pallu, nid oedd un o'r dynion ieuainc cyhyrog a nerthol a allai dorri cymaint o gerrig ag ef. Yr oedd yn hen ffasiwn iawn. Byddai ganddo dair neu bedair o gerrig ar ffurf pen dafad fel rheol o'i gwmpas. Byddai gweddi yn pasio ar hyd y tyrpeg trwy gydol y dydd—amryw ohonynt o'r mân gymoedd o ganol y mynyddoedd. Gyda hwy byddai llanciau mawrion cryfion—cewri o ddynion, ac yn meddwl llawer o'u nerth; ac wrth weld gordd haearn fawr yr hen Robert, awyddent yn aml am roddi prawf o'u nerth, a stopient y wedd i ddangos i'r hen wŷr sut i dorri cerrig. Bùm yn eu gwyllo lawer gwaith. Estynnai yntau un o'r cerrig pen defaid iddynt, a dyna lle byddai dyrnu a dyrnu gyda'r ordd fawr nes y byddai'r ffordd yn crynu dan eich traed. Ond cyn hir byddent wedi llwyr ddiffygio a cholli eu gwynt, ac yn dywedyd, "Rhaid i ni fynd," wedi methu â thorri'r garreg. Edrychai'r hen wr ym myw eu llygaid. Cymerai afael yn y garreg. Gosodai hi i eistedd ynghanol y twr, a chyda rhyw forthwyl bach tua phwys na chodai'n uwch na'i ben, tarawai hi yn ei thrwyn nes byddai yn hollti'n ddarnau, yr hyn a barai i un o feibion Anac edrych cyn wirioned â chut llo. Fel y canlyn y canodd "Einion Ddu" i'r *Dyn ar y Swp Ceryg*¹:

" Cnoc, cnoc roddai'r dyn
Ar ryw gareg fawr ddi-lun;
Er y curo, methai'n lân
Gael o honi ddarnau mân :

¹ *Canauon y Bwthyn*, gan *Einion Ddu* (John Davies), Dolgellau, 1878.

CWM EITHIN

Dal i guro wna drwy gur,
 A dal ati fel y dur :
 Dichon o dan bwys yr ordd
 Y daw'n gymwys balmant ffordd.

Cnoc, cnoc roddai'r dyn
 Gyda'i forthwyl wrtho'i hun ;
 Dal i guro mae o hyd,
 Fel pe b'ai am ddryllio'r byd ;
 Cyn y tröa ef ei gefn,
 Daw â'r ceryg oll i drefn ;
 Wrth ddal ati amser maith,
 Daeth yn feistr ar ei waith.

PENNOD X
HEN DDIWYDIANNAU

III

MEDI A MYND I'R CYNHAEAF

YR oedd gwaith gweision a gweithwyr ar y ffermydd yng Nghwm Eithin yn debyg i'r hyn ydoedd ym mhob rhan o Gymru; ond gan mai lle diweddar ydoedd, cyn gynted ag y byddai'r cynhaeaf gwair drosodd, arferai'r rhan fwyaf ohonynt fyned am fis neu bum wythnos i'r cynhaeaf yd—rhai i Sir Amwythig, eraill i Ddyffryn Clwyd. Byddai'r llanciau hynaf a gyflogai dros y flwyddyn yn cyflogi i gael mis o gynhaeaf; ychwanegai hynny ryw gymaint at gyflog y llanc a lleihâi gostau yr amaethwr. Medi y byddent yn yr hen amser—yn enwedig y gwenith. Yr oedd hynny lawer arafach na thorri gyda'r bladur, ond byddai'r yd lawer taclusach ac yn cael ei hel yn lanach, ac nid oedd yn dihidlo cymaint. Yr oedd y gwenith yn nwydd gwerthadwy iawn y pryd hynny.

Â'r sicl y medid ar y cyntaf, ond bu llawer o fedi â'r cryman hefyd; yr oedd y ddau ar yr un ffurf, sef yn debyg i gryman tocio gwrych, ond bod y sicl yn llai bwaog a hwy. Yr oedd min da ar y cryman, ond dannedd mân, mân, oedd yn y sicl; hi oedd yr hynaf. Defnyddid y ddau bron yr un modd, ond mai taro yr yd a wneid â'r cryman a thynnu'r sicl drwyddo i'w lifio. Cymeryd gafael mewn swp o'r yd yn agos i'r pen â'r llaw chwith, a'i dorri â'r dde. Pan wyf fi yn cofio gyntaf yr oedd y bladur bron wedi disodli'r sicl a'r cryman medi. Âi'r dynion ieuainc i'r cynhaeaf gyda phladur a charreg hogi yn unig, ond parhaodd yr hen frodyr i fyned â sicl neu gryman medi gyda hwy am hir amser. Clywais yr hen dadau yn dywedyd yr awyddent hwy gymaint pan oeddynt yn ieuainc am gael myned i'r fedel ag yr awyddem ni am ladd gwair neu yd. Yn fy nghof cyntaf i fe dorrid yr yd i gyd i mewn. Wrth dorri neu ladd i mewn rhaid ei afra oddi ar ffordd y pladurwr nesaf gan fod yr ystod yn gorwedd yn ymyl yr yd heb ei dorri. Ond daeth lladd allan yn bur gyffredin os byddai yn gynhaeaf da. Erbyn hyn mae'r peiriant torri wedi disodli'r bladur. Ni allaf sicrhau yr hyn a ganlyn, ond credaf ei fod yn agos i gywir: y

torrai un dyn, gyda phladur, gymaint â dau neu dri gyda'r cryman neu'r siel; ac y tyr un dyn gyda'r peiriant gymaint, a mwy, nag a dorrai chwech gyda phladur. Felly fe welir y gwelliant sydd mewn offerynnau amaethyddol. Gyda'r peiriant gall un dyn dorri cymaint ag a dorrai ugain neu ragor wrth fedi.


Bûm yn holi rhai o'r hen frodorion am eu hanes yn myned i'r cynhaeaf, a hen hanesion eraill, lawer gwaith pan gawn ychydig seibiant yn y wlad. Clywais Dafydd Williams, Pant y Clai—a fuasai yn gant ag ugain mlwydd oed pe buasai'n fyw heddiw—yn dywedyd y cofiai ef, pan oedd yn ddyn ieuanc, y cychwynnent o Edeirnion gyda'r nos a cherdded dros y Berwyn a chyrraedd i ardal Croesoswallt erbyn torri'r wawr, a gweithio yn y fedel hyd oddeutu deg o'r gloch y nos. Yn 1915 bûm yn holi William Edwards, Colomendy—oedd yn wyth a phedwar ugain mlwydd oed y pryd hwnnw. Dechreuodd fyned i Sir Amwythig i'r cynhaeaf pan oedd yn dair ar hugain mlwydd oed. Y cyflog yr adeg honno—sef 1850—oedd dau swllt a hanner coron y dydd, a gweithio o hanner awr wedi pump yn y bore hyd tua naw o'r gloch y nos. Byddai'r Cymry mewn cryn anhawster i ddeall y Saeson; ond byddai hen law bob amser yn y fintai, ac yn aml cymerid ffarm neu ddwy i'w medi am hyn a hyn yr acer, a thalu wrth y dydd i'r newyddian.

Dywedai John Jones, a fagwyd yng Nghastell Dinbych—felly a wyddai'n dda am Ddyffryn Clwyd—mai'r swm a delid yno pan oedd ef yn ieuanc am fedi, rhwymo, a chodi'r ŷd oedd o ddeg i ddeuddeg swllt yr acer. Cymerai un neu ddau ffarm i'w medi, ac yr oeddynt i gyflogi a thalu i'r dynion cymwys a arferai weithio ar y ffarm. Aent at y Groes am weddill eu gweithwyr, a thalu wrth y dydd. Dro arall byddai'r hyn a alwai ef yn *Butty Gang* yn cymeryd ffarm neu ddwy ac yn gwneud *Butty Mess* ohoni; sef oedd hynny rhannu'r enillion yn gyfartal. Buont ar ôl hynny yn cael un swllt ar bymtheg yr acer. Gallent ennill y pryd hynny, ond gweithio o olau i olau, tua dwy bunt a phum swllt yr wythnos. Felly yr oedd un dyn yn medi, rhwymo, a chodi oddeutu dwy acer a thri chwarter mewn wythnos.


SBAENO

Rai blynyddoedd yn ôl bûm yn holi Robert Jones, Tan y Ffordd, Cynwyd, a fagwyd yn Nyffryn Clwyd. Dywedai ef fod gwahaniaeth rhwng medi a'r hyn a elwid sbaeno. Wrth fedi

gafaelid mewn tusw o'r yd a'i dorri â'r cryman neu'r siel, a rhoddi swm gafr ar y rhwymyn gyda'i gilydd, a byddai yn daclus iawn. Dilynai'r dynion ei gilydd yn rhes, a gelwid hynny y fedel. Dull sbaeno oedd i bawb gymeryd cefn a thorri o rych i rych a'i hel â blaen y cryman.



Y Cryman Medi.



Y Siel.

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Gwneuthum ymholiad yn *Y Brython* yn 1928 am ragor o oleuni ar y gair *Sbaeno*, a'r hen arferiad. Atebodd nifer o gyfeillion fy nghais.

Dywedai Jack Edwards, Aberystwyth, y cofiai ei dad yn sôn am yr arferiad, ac mai'r argraff ar ei feddwl ef oedd mai o'r gair Saesneg *span* y tarddai, agor y llaw a gafael am ddyrnaid o wenith.

Dywaid "Ieuan Mai," gŵr o Faldwyn, mai "sbanio dwrn fedi" y clywodd ef y gair yn cael ei ynganu yn ei sir ef, ac mai "grwn" a ddywedir ym Maldwyn am yr hyn a alwn ni yn gefn yr ochr arall i Ferwyn. Byddai pob medelwr yn torri'r grwn ar ei draws o rych i rych, a hel yr yd â'i droed nes cael swm ysgub. I fod yn fedelwr da, rhaid oedd bod yn fedrus i newid llaw i sbario

cerdded yn ofer. Pechod anfaddeuol yng ngolwg yr hen bobl oedd torri gwenith â phladur. Tasg medelwr oedd torri hanner cyfair a'i rwymo mewn diwrnod. Cyfair neu erw y gelwir ym Maldwyn yr hyn a alwn ni yn acer. Sacsneg yw yr olaf yn ddiau, ond y mae erw yn ddigon cyffredin a dealedig ym Meirion.

Dywaid "Ap Cenin," ar ôl holi nifer o hynafgwyr pedwar ugain oed a throsodd, mai â'r cryman y sbaenid, a bod sail dda i gredu mai o'r gair swp y daeth—cymeryd gafael mewn dyrnaid o wenith, sef sypynno. Dywaid hefyd fod traddodiad yn ei ardal ef, Llanfairfechan, i long o'r Ysbaen fyned ar y creigiau a myned i lawr, ond i'r dynion ddyfod i dir lle yr oedd nifer o Gymrŷ yn torri ŷd. Rhanasant eu bwyd â'r Ysbaenwyr yn eu trallod, a darfu iddynt hwythau ddatgan eu diolchgarwch trwy ddangos i'r Cymry y modd y byddent hwy yn torri'r ŷd yn yr Ysbaen, a galwyd ef *sbaeno*.

Dywedodd Edward Roberts, y Rhyl, a fagwyd ar yr ochr orau i'r Berwyn, y credai ef mai o'r Ysbaen y daeth y gair, fel daeth y gair *sgotsio* am roi dau geffyl i dynnu aradr wrth ochrau'i gilydd yn Sir Drefaldwyn o *Scotland*. Dywedid am geffyl ieuanc, "Mae o yn *sgotsio* yn dda."

Clywais Thomas Roberts, y Pistyll, Wrexham, Cymau gynt, ac a fagwyd yn Llanarmon yn Iâl, yn dywedyd mai sypynau y clywodd ef y gair yn cael ei swnio.

Bu'r Parch. William Griffith yn holi hen frodorion cylch Abergele. Arferid sbaeno ffa â'r cryman, dau yn cymeryd cefn, un o'r rhych i'r drum a'r llall hyd y rhych arall. Gŵr a gwraig fyddent weithiau. Y pryd hynny cymerai'r gŵr ychydig yn fwy na'r hanner.

Y FEDEL WENITH.

Dywaid "Ap Rhydwen" ymhellach: Hanner cyfair cefn oedd tasg medelwr i'w dorri a'i rwymo mewn diwrnod. Er mwyn gallu torri cae, dyweder o bum acer mewn diwrnod, fel y gellid ei gynhaefu a chael digon ohono ar unwaith i'r gadlas i wneud tâs, arferai'r ffermwyr gynorthwyo'i gilydd. Byddai deg neu ddeuddeg o ddynion yn torri: dyna a elwid y Fedel, o'r gair medi. Diwrnod mawr ydoedd yn hanes y llanciau a'r genethod, a cheid cinio arbennig a gynrychiolir heddiw gan ginio diwrnod yr *Injan*.

Fel y canlyn y dywaid y Parch. D. G. Williams, Ferndale, yn ei draethawd ar Lên Gwerin Sir Gaerfyrddin, a gyhoeddwyd yn 1898 gan Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol :—

Ymddengys i'r " fedel wenith " fyw yn hwy yn y rhannau dwyreiniol a gogleddol o'r sir nag yn y rhannau gorllewinol. Cefais i ei hanes gan rai a fuont lawer gwaith ynddi.

Trefnai nifer o amaethwyr yn yr un ardal i beidio a thorri eu gwenith yr un dydd fel y gallent gynorthwyo eu gilydd. Felly deuai nifer fechan o bob fferm yn yr ardal, yn gystal ag ereill a allent weithio ar y cynhauaf, ynghyd at eu gilydd ar ddydd penodol, fel ag i orffen torri a rhwymo gwenith un fferm mewn un dydd. Erys arferiad debyg eto mewn grym yn rhai parthau o'r sir gyda'r *gwair*. Ceisia y ffermwyr ddeall eu gilydd i beidio a lladd eu gwair yr un dydd, fel y gallont oll roddi cymorth i'w gilydd i gael un lladdiad i fewn mewn un diwrnod. Felly y gwneir hefyd gyda chneifio defaid yn yr ardaloedd mynyddig. Dwy ffurf yw y rhai hyn ar " gymhortha " y dyddiau presennol.

Yn y " fedel wenith " er's llawer dydd byddai dau, gwrryw a bennyw ar yr un grwn¹: mewn gryniau bychain y byddid arferol o aredig y tir. Ai y gwrryw yn gyntaf, ac yr oedd yn ddealledig ei fod ef i gymeryd ychydig yn fwy o " led " na hanner y grwn bach fel y gallai y wraig yn rhwydd gymeryd y gweddill. Os byddai y ferch yn gref a'r bachgen ar yr un grwn a hi yn digwydd bod dipyn yn ieuanc neu yn wan, cymerai y ferch yn wrol le a lled arferol y gwrryw.

Yr oedd swper da i fod noson y fedel wenith fel yr oedd y noson y gorffenedid medi. Yr oedd poten o fath arbennig i fod y noson hon; ei henw oedd " whipod." Gwnelid hi fyny o reis, cân, resins, cwrens, triagl, ac ychydig ddefnyddiau ereill. Byddai cwrw, wrth gwrs, yn awr ac yn y mân, yn cael ei rannu drwy y dydd rhwng cwmni'r fedel wenith.

Wedi gorphen swper, cydunai'r holl gwmni mewn chwareuon difyr. " Dai Shon Goch " a " Rhibo " oeddynt ymhlith omwyaf poblogaidd o'r chwareuon hyn.

Chwareu *Dai Shon Goch* ydoedd fel y canlyn :—Gwisgai dau, yn ferched neu yn fechgyn, mewn hen ddillad carpiog. Cedwid dillad yn gyffredin gan bobl y fferm ar gyfer hyn. Wedi ymwisgo, deuai y ddau allan i'r ysgubor. Rhoddir

¹ "Cefn" y gelwid "grwn" yng Nghwm Eithin.—H.E.

iddynt ffon ; pwysent ar y ffon, yr hon a ddalient gydag un pen iddi ar y llawr. Yna aent fel yma drwy ddawns bur ryfedd, yr hyn a roddai ddifyrwrch nid bychan i'r cwmni.

Rhibo.—I fyned drwy y chware yma safai tri bachgen wyneb yn wyneb â thri arall, a chydiai pob un yn nwyllaw yr un a safai o'i flaen. Ar freichiau y chwech hyn gosodid bachgen a merch i orwedd ar eu hyd gyda'u gilydd. Yna taflai y chwech gwr hwynt i fyny'n bur uchel, gan eu derbyn yn ol ar eu breichiau o hyd. Os byddai merch yn rhedeg i ymguddio ac yn anfoddlon i fyned drwy weithrediadau y "rhibo," cawsai hi ei thafu'n bur uchel, a'i thrin hytrach yn drwsogl pan ddelid hi. Byddai pebyll merched y dyddiau presennol yn rhyfrau i ddal y prawf, ond fel hyn y treulid gynt hwyr dydd fedel wenith, ac ai pawb gartref yn gyfain eu hesgyrn, ac yn ysgafn eu calon.

Fel y canlyn y canodd un o'r hen feirdd am HANES MEDELWYR, ar fesur "*Llef Caerwynt.*"

Ni aethom i fedi, fel tri o ynfydion,
 Heb ddeall yn union mor sosi oedd y *Saeson* ;
 Tros *Berwyn* trwy bur-nerth, i dŷ Meistr *Barnad*,
 Os coeliau ni eu geiriau, caen ganddo blaen gariad :
 Gosod tasg i ni a wnae,
 Addo bwyd, a gwlyb, a gw'lae,
 Nos pan ae hi'n sydyn,
 Y wraig ni roe hi un gronyn.
 Ond gwellt y gwenith melyn,
 Mae hwnnw yn rhy dda i *Welsmyn*,
 Meddai'r fun wrth ben y bwrdd,
 Cychwynnem fyn'd tri *frind* i ffwrdd ;
Hearky, Welshmyn Pray come in,
You shall have bed and everything,
Mary Bright, come here,
Give them drink, a tanker,
 Mae cysgu yn ormod carchar,
 Mewn gwellt ar wyneb daear,
 I ddynton mo'r ewyllysgar,
 Medda'i Meistr selgar sant
 Cewch wely yn y tŷ an [*sic*] ddal y tant.

O'r *Llyfr Cywrach Llwyd, Blodeu-gerdd Cymry, 1823.*

Y DYRNWR

Gwaith pwysig iawn oedd dyrnu yn yr hen amser. Ni ellid cael bwyd i ddyn nac anifail heb y dyrnwr. Cedwid dyrnwr trwy'r gaeaf yn y ffermydd mawr, oherwydd dyrnid y cyfan â ffust, yn fy nghof cyntaf. Ni w'n pa faint o bobl y dyddiau hyn a w'yr y gwahaniaeth rhwng ffust a choes brws, ac a wyddant fod ffust yn ddau ddarn—troedffust a lemffust. Gwelw'r ddarlun o'r ffust, rhif 2, tudalen 106. Yr oedd eisiau cryn arferiad i ddefnyddio'r ffust, neu fe gâi'r dyrnwr lempan drom yn ei ben. Gallai Robert Ellis ddyrnu tri hobaid o geirch mewn diwrnod gyda ffust fechan, er yr ystyrid dau hobaid yn waith diwrnod pur dda. Wele ysgrif (tud. 116) yn dangos y pris a delid am ddyrnu yn 1831. Ar ôl dyrnu'r yd yr oedd llawer o waith i'w wneud cyn y byddai'n barod i'w anfon i'r felin. Y peth cyntaf oedd ysgwyd y gwellt, yna tynnu'r manwellt ohono. Gwneid hynny gyda chribin gref bwrpasol, gyda dwy neu dair o wdenni wedi eu rhoi trwy'r goes a'u plygu fel yr elai'r ddau ben i dwll ym mhen y gribin. Yna cribinio tuag atoch a chicio'r yd ag un troed trwy y gribin. Ar ôl hynny yr oedd, eisiau ei ridyllio.

Rhaid oedd rhoddi'r haidd trwy un gorchwyl arall—ei golio sef torri'r col yn rhydd oddi wrth y grawn. Un math o golier a welais i, a gwelais amryw heblaw un fy nhaid oedd mewn cyflwr da. Gwaith gof cartref ydoedd, darn o haearn oddeutu dwy fodfedd o led a thua chwarter modfedd o dewdra, wedi ei blygu yn bedair congl ysgwâr a'i asio yn un gongl, yn sefyll ar ei ymyl. Mesurai o ddeuddeg i bymtheg modfedd ar ei draws. Yna cymerid darnau eraill o haearn yr un lled, feallai ychydig yn deneuach (oddeutu tri-wyth modfedd), torri tyllau mewn dwy ochr i'r sgwâr, a'u gosod hwy ar draws y sgwâr o fewn oddeutu modfedd i'w gilydd a *rifetio* eu pennau yn yr ochrau i gyd ar eu cyllyll, fel y dywedir, ac edrychai yn debyg i *foot-scraper* a welir wrth ambell gapel, ond ei fod yn sgwâr. Wrth y ddwy ochr arall gosodid darnau o haearn ar i fyny—y ddau yn cyfarfod â'i gilydd oddeutu troedfedd uwch ben y sgwâr, ac yn ffurfio soced, ac yno y gosodid y goes pren a safai yn syth ar i fyny. Ar ôl chwalu'r twr haidd yn weddol denau ar lawr yr ysgubor, defnyddid y colier yn debyg i ordd y fuddai gnoc, neu fel y gwelir dynion yn pydlo clai neu fariol i'w galedu. Nid oedd min ar yr heyrn oedd ar eu cyllyll neu buasant yn torri'r gronyn :

1891 Work Done by Wm Jones Labourer L 0 8
 To the Use of Genl Hunt Massenet
 May 10 began to work and look off to Nov. 30
 That from 28 Days @ 1.5⁰⁰ Day - 6.12.0
 Throwing 25 bushel of Catch @ 5⁰⁰ bushel 0.10.5
 Throwing 17 1/2 bushel of Barkley @ 7⁰⁰ bushel 0.10.2 1/2
 August Received by the Payment of Mr. Jones -- 1-0-0
 For Hay at Massenet -- -- 1-3-0
 For the calf -- -- 0.12.0
 House Rent -- -- 0.14.0
 Due Balance L 4 - 3 2 1/2

ond gan fod y col wedi sychu a breuo yr oedd yn hawdd ei dorri oddi wrth y gronyn, a byddai'r haidd yn tatsio rhwng y cylyll ac yna yn barod i'w nithio.

Diwrnod mawr oedd diwrnod nithio. Yr oedd y *machine* nithio wedi dyfod i arferiad yn y rhan fwyaf o'r ffermydd pan gofias gyntaf. Gyda honno, ond ei throï a thywallt yr *ŷd* i mewn, hi a'i gwahanai, a deuai'r grawn, y gwehilion, a'r manus allan ohoni trwy hoprenni gwahanol. Ond y wyntyll hen ffasiwn oedd yn fy nghartref i. Gwelais rai yn ceisio nithio tipyn yn y gwynt trwy daenu cynfas neu huling ar lawr a gollwng yr *ŷd* yn araf a thenau dros ymyl y gogor fel y chwythai'r gwynt y manus ymaith. Gwneid hynny mewn ambell le bychan lle nad oedd ond ychydig o *ŷd* na'r un wyntyll at y gwaith. Credaf mai'r wyntyll oedd gennym ni oedd y math cyntaf a wnaed yn oesoedd bore hanes—hynny yw, mai dyna oedd dull y wyntyll gyntaf. Gwneid hi o ddau bost oddeutu pum troedfedd o uchter. Yr oedd raelsen yn y top a'r gwaelod i gysylltu'r ddau bost â'i gilydd, ryw bedair troedfedd oddi wrth ei gilydd; darn o bren tua deunaw modfedd o dan bob post i wneud traed fel y safai i fyny yn gadarn; yna tua chanol y ddau bost, darn sgwâr o bren oddeutu pedair modfedd o dewdra yn cyrraedd o'r naill bost i'r llall, ecstro byr ym mhob pen a handlen ar un ohonynt, a stylleu wedi eu hoelio ar ddau sgwâr y pren; ac ar ymyl allan pob un o'r rhai hynny, un ochr o sach wedi ei hoelio i wneud labedi. Wrth y raelsen uchaf yr oedd bwrdd o ryw bedair stylleu naw modfedd o led yn cael ei sicrhau â'i osgo ar i lawr wrth ben y labedi. Tra byddai un yn troi y wyntyll â'i holl egni fe ollyngai un arall yr *ŷd* o ogor i lawr y bwrdd yn denau; disgyrnai'r grawn trwm yn ymyl y wyntyll, y gwehilion—neu'r tinion, fel y gelwid ef fynychaf—ychydig ymhellach; a'r us neu'r col haidd yn bellach drachefn, a phob rhyw bum munud byddai raid cymryd ysgub i symud yr us a'r gwehilion rownd y twr, neu deuai'r grawn ar ei gefn fel y cynhyddai'r twr. Hoffai rhai waith dyrnu yn fawr. Fe fyddwn innau yn dygymod yn iawn ag ef ar ddiwrnod oer ystormus, ond os byddai raid dyrnu ar ddiwrnod braf yn y gwanwyn, fel y bu lawer tro, fe dorrwn fy nghalon, ac ni fyddai llawer o'm hól ar ddiwrnod felly. Erbyn heddiw, mae'r dyrnwr mawr—yr *injan* ddyrnu—ym mhob man. Credaf fy mod yn cofio'r *injan* ddyrnu gyntaf yng Nghwm Eithin. "Injan Enoc" y gelwid hi. Yr oedd ef yn arwr mawr yn y Cwm. Bùm yn cario dŵr iddi. Ni wnâi hi ddim ond dyrnu.

Yr oedd raid cario'r ŷd yn ei faw i ysgubor a'i roi mewn sachau yn rhywle y ceid lle ; ac ar ôl iddi fod yn dyrnu am ddiwrnod yr oedd gwaith rhidyllio a nithio am ddyddiau.

CRASU A MALU

Dynion pwysig yng Nghwm Eithin oedd y craswr a'r melinydd. Soniais wrth un gŵr ieuanc yn ddiweddar am y craswr. Tybiodd ef mai y *baker* a feddylw'n, sef dyn yn crasu bara. Yr hynaf o'r frawdoliaeth a gofias yw *Morus* y Craswr, cefnder i "Jac Glan y Gors." Yr oedd y craswr hwn yn bod pan nad oedd ond merched yn crasu bara. Byddid yn crasu ceirch cyn ei falu. Gellir malu ceirch drwyddo yn fwyd moch heb ei grasu, ond ni ellir ei silio heb ei grasu. Yr oedd dau fath o ody'n i grasu yn fy nghof i, ody'n wellt ac ody'n deils. Y gyntaf oedd yr hynaf. Yng ngwaelod yr ody'n yr oedd lle tân tebyg i bopty mawr hen ffasiwn. Yn yr hen amser twymnid ef gyda mawn, ond erbyn fy amser i yr oedd llosglo (*charcoal*) wedi dyfod yn bur gyffredin. Wrth ben hwnnw drachefn yr oedd math o lofft wedi ei theilio. Taenid yr ody'nid ŷd o ryw bymtheg neu ugain hobaid ar y teils cynnes, a throid ef unwaith neu ddwy gyda rhaw bren. Yn yr ody'n wellt nid oedd ond trawstiau yn groes ymgroes yn gwneuthur llofft, a byddai raid myned â thair neu bedair batingen o wellt i'w roddi drostynt. Ar y gwellt y tywelltid y ceirch yn haen denau, a gwaith gofalus iawn oedd sicrhau eich traed ar y trawstiau wrth dywallt y ceirch o'r sachau, a'i droi gyda'r rhaw bren a'i lenwi yn ôl i'r sachau, neu byddai eich coesau trwy'r llofft a chollid y ceirch. Ar ôl ei lenwi i'r sachau â'r rhaw bren byddai raid ysgwyd y gwellt i gael y gweddill. Mae dau reswm dros grasu'r ceirch ; yn gyntaf, heb ei grasu nid yw yn ddigon sych i wneud bara ; ac yn ail, ni ellir—neu o'r hyn lleiaf ni ellid gyda pheiriannau'r hen felinau—wahanu'r rhynton oddi wrth yr eisin.

Diwrnod pur fawr oedd diwrnod silio. Byddai raid i ddau neu dri fyned i'r felin y diwrnod hwnnw, a rhaid oedd i un ohonynt fod yn ddigon cryf a heini i gario'r pynnau o'r ody'n i'r felin. Gwnâi'r gweddill y tro yn wan hen neu wan ieuanc. I silio rhaid oedd codi ychydig ar y garreg ucha yn y felin, fel y byddai bron ddigon o le i'r geirchen basio rhwng y ddwy garreg heb ei malu—yn unig torri'r plisgyn heb falu'r gronyn ; a chan fod y geirchen yn galed ar ôl y crasu deuai'r plisgyn i ffwrdd yn gyffredin yn ddau ddarn ; a hawdd oedd gwahanu'r rhynton oddi

wrth yr eisin wedyn gyda gograu neu fath o wyntyll fechan. Yna gostyngid y garreg, a rhoddid y rhynion trwy'r felin i'w malu. Ond byddai cryn lawer o'r eisin yn aros drachefn. Deuai y mân flawd allan trwy un hopren a gelwid ef yn flawd masw, neu flawd moch; a'r blawd ceirch drwy hopren arall. Byddai eisiau ei ogryn drachefn i gael a ellid o'r eisin allan. Cymerai rhai ychydig o'r rhynion adre heb ei falu i wneud uwd rhynion am y credent ei fôd yn gwneud gwell uwd na'r blawd; o'r hyn lleiaf yr oedd yn ychydig o newid ar unffurfiaeth y swper. Cymerai y melinydd a'r craswr eu tâl am eu llafur mewn toll o rynion neu flawd, ac yr oedd y mwyafrif ohonynt yn berffaith onest. Ni chymerent ragor na'u siâr, ond yr oedd ambell un anonest; a phan ddeuai rhai newyddion, cymerai amser hir iddynt ennill eu cymeriad.

Byddai'r ceffylau yn prancio wrth fyned â'r odyndaid flawd ceirch adre; gwyddent yn iawn beth oedd yn y drol, a disgwyl-ient am eu rhan ar ôl cyrraedd. Cedwid y blawd ceirch mewn cist dderw hynafol. Stwffid ef yn galed a chadwai am hir amser; ac aml y cleddid ham neu ddwy yn ei ganol, y lle gorau posibl i gadw ham wedi ei sychu. Ond byddai cryn lawer o eisin sil yn y bara ceirch gyda'r hen felinau. Aml y gwelid hwy yn sgleinio yn y dorth geirch, yr un fath â'r bran yn y bara gwenith. Ac yn rhyfedd iawn fe fagwyd tô ar ôl tô o ddynion a merched cryfion ac iach ar fara ceirch a llawer o eisin sil ynddo, a'u hoes yn llawer hwy nag oes y bobl sydd yn byw heddiw ar gacen siop. Diddorol yw gwyllo ambell hogyn yn curio ar ôl iddo briodi dandi, ac yntau wedi ei fagu ar fara cartre ei fam.

Pa mor gynnar y daeth yr olwyn ddŵr i droi'r felin yng Nghwm Eithin, anodd dywedyd. Gwelais un o gerrig y felin law yn Edeirnon, ac nid yw yn edrych yn hen iawn, ond bod y ffaith mai ar ochr y mynydd y caed hi yn tystio bod ei chyfnod braidd yn bell yn ôl. Mesura tua deunaw modfedd ar ei thraws, a phedair o dewdra, wedi ei rhesu yn bur fân. Pa un ai'r uchaf ai'r isaf ydyw nis gwn

Yn *Y Gwladgarwr*, Mawrth 1834, ceir a ganlyn (tudal. 80):

LLAW-FELINAU CYMRU.

At Olygydd y Gwladgarwr.

Hybarch Syr,—Yn yr zil du dalen o Rifyn Ionawr, sylwech nad oeddych hysbys ymha un o blwyfau Edeyrnon

y mae'r lle a elwir *Bryn-y-Castell*, y fan y daethid o hyd i weddillion un o hen felinau y Cymry. I hyn yr atebaf, mai yn mhlwyf Corwen y mae, sef yn ymyl y dref hōno; a gelwir y fan yn fwyaf cyffredin *Pen-y-Bryn*, neu *Ben-bryn-y-Castell*: ac y mae traddodiad yn y gymmydogaeth hōno hyd heddyw, fod gynt ar y Bryn dywededig Felin yn malu heb gynnorthwy dwfr, tân, na gwynt; ac felly y dyb yw mai yn ol trefn ysgogiad parhâol (*perpetual motion*) perffaith yr ydoedd hon yn troi. Dywedir hefyd mai o fewn ychydig amser yn ol y symudwyd y darnau meini oddiyno gan wr boneddig o swydd Gaerllëon. Nis gallaf yn awr gofio enw y gwr na'i breswylfod, er i mi glywed lawer gwaith pan oeddwn yn byw yn Nghorwen.

Cafwyd maen melin o'r dull y sonir genych chwi yn y Rhifyn crybwyllledig, o dan y ddaear, yn ymyl Nannau, ymhlwyf Llan Fachraith, yn swydd Feirionydd, yr hwn faen a ddefnyddiwyd wedi hyny yn gafn môch. A chafwyd un arall yn ymyl Ceimarch yn yr un plwyf; ond yr ydoedd hwn yn ddau ddarn: ac y mae hen wr boneddig yn Nôlgellau (Mr. T. Williams) yn cofio yr amser y cafwyd hwynt.—Ydwyf,
Barch. Syr; eich ewyllysiwr da,

Dôlgellau.

Richard Jones.

Diddorol iawn yw hanes datblygiad y felin o'r oesoedd bore. Y mae dwsinau o wahanol fathau wedi eu cloddio o'r ddaear, ac y mae edrych ar eu darluniau yn peri syndod. Mae'n debyg mai'r hynaf yw'r garreg wedi ei chafnio ychydig, a lwmp o garreg yn llaw merch i guro a gwasgu'r blawd o'r tywysennau. O hynny hyd felinau dŵr Cwm Eithin, ceir pob math. Mae'n debyg mai'r ferch a roddodd y tro cyntaf i'r felin law; pa un ai mab ai merch a ddyfeisiodd resu dwy garreg, a throi'r uchaf gyda handlen, ni ŵyr neb. Ond ar ôl ei chael mae'n debyg iddi ddatblygu yn bur fuan o ran maint. Ar ôl hynny bu caethion, gwartheg, mulod, a cheffylau yn ei throi cyn cael yr olwyn ddŵr. Dwy garreg wedi eu rhesu a fu'n malu am oesoedd dirif, gyda gwelliannau hyd nes y daeth y *roller mill* tua hanner canrif yn ôl.

Pa bryd y cymerodd y brenin a'r barwniaid feddiant o'r melinau yn y wlad hon, anodd gwybod. Mae'n debyg mai ar ôl i'r olwyn ddŵr ddyfod i arferiad. Felly y bu am oesoedd lawer. Nid yn unig meddiannai'r barwniaid y tir a'r dŵr, ond y gwynt

hefyd, fel y dengys yr hanes a ganlyn am rai myneich yn 1391 ag arnynt eisiau adeiladu melin at wasanaeth y mynachdy, ond rhwystrwyd hwy gan *The Lord of the Manor*, a hawliai nad oedd neb i godi melin heb ei ganiatâd ef. Meddyliasant godi melin wynt ar dir y fynachlog, a chawsant ganiatâd yr esgob, ond nid hir y buont heb ddeall fod *The Lord of the Manor* yn hawlio'r gwynt hefyd, ac fe'u rhwystrwyd. Yr oedd meddu melin yn drosedd o gyfraith y wlad, ac yr oedd ysbïwyr yn myned o gwmpas i wylid na châi neb godi melin.

Ond ymhen amser dechreuodd y werin ymladd am ei hawliau. Ceir yr hanes a ganlyn am drigolion Sir Gaer¹ :—

“Vale Royal Abbey, Cheshire, owned the multure or milling rights of the neighbouring town of Dernhall by charter granted in 1299 by Edward I., and till 1329 appears to have peaceably exercised it; all the townsmen grinding at the abbey mill. In that year, however, a considerable rebellion against the compulsion arose in the town, the burgesses coming out in arms to resist the officials from the abbey who, of course; were bent on capturing the querns. The erring burgesses were eventually brought to their senses by the hopelessness of such a struggle, and in due course a number of them were led before the abbot in his court in the monastery, with straw halters round their necks—*multi eorum in eadem curiæ fenâ ducti*—formally tendering their humble submission to the laws of the mill. Ten of the most rebellious [ceir yr enwau] were sentenced to forfeit their goods and cattle to the abbot; while the rest of the offenders were paraded before their lord and received his full pardon in solemn assembly.

.

“The ancient Laws and Institutes of Wales, codified in the ninth and tenth centuries, contain not only the allusions to querns already quoted, but some references of considerable interest to watermills; the code no doubt comprising some of those early British laws which the Welsh carried with them on their retreat to their mountain fastnesses. These enactments show a watermill to be a valuable possession, to be treasured

¹ *History of Corn Milling*, Bennett and Elton, 4 cyf., 1898—1904.

as an inheritance :—A mill, a weir, and an orchard are called the three ornaments of a kindred, and those three things are not to be shared or removed, but their produce shared between those who have a right to them.—*Ancient Laws and Institutes, bk. ii. ch. xvi.*”

Mae cyfeiriadau at y melinau yn hen gyfreithiau Cymru. Er enghraifft, pan fyddai gŵr a gwraig yn ymadael â'i gilydd, yr oedd y gŵr i gael y garreg ucha a'r wraig y garreg isaf. Ac y mae nifer o gerrig melinau Cymru o bob math yn y *British Museum*. Caed cryn nifer mewn hen sefydliad ar yr afon Brent ym Môn. Diau fod nifer dda erbyn hyn yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Y mae Môn wedi bod yn enwog am ei cherrig melinau. Yn yr un llyfr fe ddywedir :—

“ According to Strabo and Posidonius, millstone quarries existed anciently in Magnesia (near Smyrna), in Macedonia, and in Britain at Mona or Anglesea. This latter place remained noted for its millstones through the middle ages. A Welsh millstone was bought for Dublin Castle Mills in 1334. . . The late keeper of these royal mills, Nicholas de Balscote, in his account rendered to the Irish Exchequer in March of that year, debits Edward II. with, among other things, a sum of 28/9 expended in a ‘ Welsh millstone.’ ”

Credir mai'r Rhufeiniaid a ddysgodd drigolion y wlad hon i ddefnyddio'r olwyn ddŵr. Mae'n debyg mai'r *Norse Mill*—sef yr *horizontal*—oedd y gyntaf. Gyda honno nid oedd yr un olwyn gocos. Yn unig yr oedd yr olwyn ddŵr wedi ei chysylltu â'r garreg uchaf gydag ecstro yn myned trwy'r isaf, ac felly araf iawn oedd ei throadau, ac ni falai lawer o sacheidiau mewn diwrnod. Dywedir nad oes olion yr un o'r math hwnnw wedi eu darganfod yng Nghymru, cr y cred rhai fod y gair “ rhod ” yn profi y buont yno yn yr hen amser. Mae'n amhosibl gwybod pa bryd nac ymha le y rhoddodd yr olwyn ddŵr ei thro cyntaf yng Nghymru. Diau iddi beri syndod mawr.

Dywaid “ Iolo Morgannwg ”¹ mai “ yn 340 y cafwyd y melinau wrth wynt a dŵr gyntaf yng Nghymru lle cyn hynny nid oedd amgen na melin law.”

¹ *Iolo Manuscripts, Liverpool, 1888.*

Ond credir bod yr olwyn ddŵr yno cyn hynny, ac mai ymhen tuag wyth can mlynedd ar ôl hynny y daeth y felin wynt yno. Nid oedd llawer o angen amdani hi yng Nghymru, gan fod yno ddigon o nentydd a disgyniad da i'r dŵr yn y rhan fwyaf o'r wlad. Credir mai o'r Dwyrain y daeth y syniad am y felin wynt.

Bu melinau yn cael eu gyrru gan lanw'r môr. Agorwyd un felly gyda rhwysg mawr yn Lerpwl yn 1796.

Dŵr a gwynt a fu'n malu holl flawd y wlad hon hyd 1784, pryd y dechreuwyd gyrru'r Albion Mills, Llundain, ag ager—y gyntaf yn yr holl wlad. Melid y cyfan gyda cherrig hyd nes y ddaeth y *roller mill* i fod.

Ni wn pa un yw'r felin hynaf yng Nghymru. Yn adroddiad y *Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments and Constructions in Wales and Monmouthshire, county of Merioneth*, 1921, ceir a ganlyn:—

Melin y Brenin, the king's mill.

This mill, still in use, represents and probably occupies the site of the royal mill mentioned in the Extent of Merioneth of 7 Henry V. It was the mill of the manor of Ystumgwern to which many of the tenants owed suit. The present buildings are comparatively modern, and do not appear to have incorporated any remains of their predecessors.

Dywedir bod yr hen felin sydd (neu oedd yn ddiweddar) o du isaf Castell Rhuthyn yn sefyll heb lawer o wahaniaeth ynddi, ond un ychwanegiad bychan, er amser Edward I.

GYRRU GWYDDAU

Cyn dyfod y trê'n ac yn amser y "goits fawr," byddai raid i bawb a phopeth ond y bobl fawr a'r ieir gerdded. Mynnent hwy gael eu cario bob amser. Yn ystod y cynhaeaf gwair gwelid y gwyddau yn pasio ar hyd y tyrpeg, trwy Gwm Eithin ar eu ffordd i Loegr, i soffla i'w paratoi eu hunain ar gyfer y Nadolig. Gofynnid am amynedd mawr i yrru gwyddau, gan mai cerddwyr araf ac afrosgo ydynt, a threuliant lawer o'u hamser i glegar yn lle mynd yn eu blaenau. Clywais yr arferid eu pedoli un amser trwy rod-di eu traed mewn pyg rhag iddynt fyned i frifo, ond nis gallaf sicrhau. Cymerai ddyddiau iddynt deithio o Gwm Eithin i Loegr. Cofiaf yn dda hen ŵr o'r Ysbyty a arferai deithio

gyda hwy trwy'r Cwm. Un tro, pan oeddwn yn torri gwair yn y ddôl ac yn meddwl cryn lawer ohonof fy hun fel torrwr gwair, rhoddodd ei bwys ar y wal a gwaeddodd arnaf: "Hoga'n lle torri'n hagar." Digiais yn fawr wrtho am fy sarhau felly. Nid gwyddau Cwm Eithin yn unig a welem yn pasio; deuent yn heidiau o Arfon ac efallai o Fôn hefyd, gan fod y brif ffordd o Gymru i Loegr yn myned trwodd.

Hen wraig bach yn gyru gwyddau ar hyd y nos,
 O Langollen i Ddolgellau, ar hyd y nos
 Ac yn d'wedyd wrth y llanciau,
 "Gyrwch chwi, mi ddaliaf finau,"
 O Langollen i Ddolgellau,
 Ar hyd y nos.

GYRRU GWARTHEG

Rhamant ddiddorol iawn yw hanes gyrru gwartheg. A chyn amser y trê, yn yr haf a'r hydref, gwelid hwy yn yrruedd yn pasio ar hyd y tyrpeg. Anfonid llawer o wartheg Cwm Eithin i Gaint i'w pesgi ar adnoddau y wlad fras honno ar gyfer marchnad Llundain. Felly yr oedd y daith yn faith a chymerai ddyddiau lawer i'w cherdded. Yr oedd lleoedd priodol ar y ffordd i aros dros y nos. Gwyddai'r hen yrwyr amdanynt yn dda.

Yr oedd porthmon o'r enw Mr. Clough yn byw yn Llandrillo ddechrau'r ganrif. Yr oedd ganddo gi hynod am ei fedr i yrru gwartheg. Byddai Mr. Clough yn mynd ar gefn ei ferlen o Landrillo i Gaint, a'i gi, 'Carlo,' yn ei ganlyn. Un tro pan oedd yng Nghaint, mynnai un o'i gwsmeriaid iddo werthu ei ferlen iddo. Ar ôl hir grefu gwerthodd hi, gan benderfynu mynd adre gyda'r "goits fawr." Ond beth oedd i'w wneud â 'Charlo'? Rhoddodd y cyfrwy ar ei gefn, a chlymodd nodyn wrtho yn gofyn i'r gwestwyr lle yr arferai alw roddi bwyd a gwely i 'Carlo,' a rhoi'r cyfrwy ar ei gefn a'i gychwyn yn ei flaen; a dywedodd wrth 'Carlo' am fynd adre. Felly yr aeth, gan alw ymhob gwesty yr arferai alw gyda'i feistr, a chyrhaeddodd Landrillo yn ddiogel â'r cyfrwy ar ei gefn wedi bod ar ei daith tuag wythnos.

366
 Porthmon oedd Edward Morris, Perthi Llwydion, ac ar un o'i deithiau y bu farw yn Essex yn 1689. Gydag un o'r gyrruedd

gwartheg yr aeth Dic Shôn Dafydd o Gerrig y Drudion i Llundain :—

“ O'r diwedd Dic a ddaeth i Lunden
A'i drwyn o fewn llathen at gynffon llo,
Ar hyd y ffordd a'i bastwn onnen,
Yr oedd e'n gwaeddi—' Haiptrw ho !' ”

PEDOLI GWARTHEG

Mae carnau gwartheg yn feddalach na charnau ceffylau, ac ni allant gerdded ymhell ar ffordd galed heb gloffi. Oherwydd hynny arferid eu pedoli fel ceffylau, ond bod eu pedolau hwy yn ddau ddarn am eu bod yn hollti'r ewin, ac nid un darn fel pedol ceffyl, ac yr oeddynt yn llawer teneuach ac ysgafnach.

Diwrnod hwyliog fyddai trannoeth y ffair mewn llawer llan a thref, pan fyddai dau gant neu dri o wartheg eisiau eu pedoli i gychwyn ar eu taith. Mae'n debyg pe gofynnid i un o ofaint ein dyddiau ni bedoli buwch mai pedol un darn a roddai iddi fel un ceffyl, a sodlau uchel fel sydd yn y ffasiwn gan y merched. Meddylier mewn difrif am i fuwch gerdded ar flaenau ei thraed o Gwm Eithin i Loegr !

Medi 8, 1921, cefais yr hanes a ganlyn gan Mr. Zachariah Jones, gof, Cynwyd, ac ef yn ŵr llawn pedwar ugain oed, am y dull a'r modd yr arferid pedoli gwartheg. Pan oedd Mr. Jones yn fachgen ieuanc gweithiai gyda gof yn y Bala, a arferai wneud llawer iawn o bedoli gwartheg, nid yn unig yn y Bala ond yn y trefydd cylchynol. Arferent wneud cannoedd o bedolau yn y gaeaf yn barod erbyn y deuai galw.

Wele ddiwrnod mawr ym myd pedoli gwartheg. Mae'n debyg mai *record day* y gelwid ef yn ein dyddiau ni. Un noswaith daeth gair i'r Bala fod trigain o wartheg eisiau eu pedoli yn Nolgellau drannoeth. Am dri o'r gloch bore drannoeth yr oedd pedwar o ddynion yn cychwyn am Ddolgellau er mwyn dechrau ar y gwaith mewn pryd. Yr oedd ganddynt faich o bedolau. Yr oedd eisiau pedwar cant a phedwar ugain o bedolau i drigain o wartheg, hoelion, morthwylion, cyllyll i naddu'r carnau, *etc.* Yr oedd y daith tua deunaw milltir. Cynhwysai'r pedwar ddau of, cwmpwr—gŵr talgryf, esgrynog a nerthol—a chynorthwywr. Fel y canlyn yr eid ymlaen gyda'r gwaith. Cymerai y cwmpwr a'i gynorthwywr

raff a thafient hi am gyrn un o'r bustych, a daliient ef Gafaelai'r cwmpwr yn ei ddau gorn. Gafaelai'r cynorthwywr yn un troed blaen iddo a chodai ef i fyny gan ei blygu yn y glin. Yna rhoddai'r cwmpwr dro yn ei gyrn ac i lawr ag ef. A daliiai ef i lawr tra byddai'r cynorthwywr yn clymu ei bedwar troed. Yna yr oedd ganddynt ddarn o haearn tua thair troedfedd o hyd, blaen ar un pen a fforch ar y pen arall iddo. Gyrrid ef i'r ddaear a rhoddid y cortyn oedd yn rhedeg o'r traed blaen i'r traed ôl ar y fforch. Yna byddai'n barod i'w bedoli. Ac âi un gof ymlaen gyda naddu carnau a deuai'r llall ar ei ôl i hoelio pedolau. Yna gollyngid yr eidion yn rhydd, a cheid ei weld yn cerdded yn ei esgidiau newyddion.

Dylid cofio un ffaith, nad deunawiaid a anfonid i lawr i Loegr yr oes honno fel yn ein dyddiau ni. Cedwid y bustych hyd nes byddent yn ddwyflwydd a hanner a thair blwydd oed, felly gwelir nad gwaith bach a hawdd oedd eu dal a'u tafu i lawr. Yn y lot uchod, meddai Mr. Jones, yr oedd eidion du anferth o Sir Fôn, a gwaith caled fu cael y rhaff am ei gyrn. A phan gaed hi gwylltiodd a rhuthrodd ôl a blaen, a llusgodd y ddau ddyn trwy'r afon; ond daliasant eu gafael a dygasant ef yn ôl, a'r diwedd fu i Sir Feirionnydd roddi Sir Fôn ar wastad ei gefn. Cerddodd y pedwar yn ôl i'r Bala yr un noswaith. Y swm a dderbyniai'r meistr am bedoli oedd deg ceiniog yr eidion.

Nid wyf yn meddwl bod dim gwell wedi ei gyhoeddi ar hanes gyrru gwartheg o Gymru i Loegr, y prynwyr a'r gyrwyr, nag erthygl y Dr. Caroline Skeel, M.A., a ymddangosodd yn *Transactions of the Royal Historical Society*, 1926, o dan yr enw "The Cattle Trade between Wales and England from the Fifteenth to the Nineteenth Centuries." Yma gwelir yr anhawster a geid yn aml yn yr hen amser i gael y gwartheg Cymreig i farchnadoedd Lloegr, a'r prisiau bychain a geid amdanynt, fel y gwelir yn "Registers of Horse and Cattle Sales" trefydd fel Yr Amwythig. Am fustach tair oed yn yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ar bymtheg, ni cheid yn aml fwy nag o bymtheg i ddeg swllt ar hugain, wedi ei yrru yr holl ffordd o gymoedd Cymru i Loegr.

Diau mai diddorol a newydd i lawer fydd y dyfyniadau a ganlyn yn dangos y modd y deuai gwartheg duon Môn i Gwm Eithin a mannau eraill cyn codi Pont Menai, a hanes y gyrrwr ar ei daith:

To Mr. Duignan's description of the route from North Wales may be added the details given in Aikin's valuable *Journal of a Tour through North Wales* in 1797. He was lucky enough to see some black cattle, reared in Anglesey, swimming across the Menai Strait on their way to Abergele fair, where they would be bought up by drovers and disposed of at Barnet fair to farmers in the neighbourhood who would fatten them for the London market. Many of the cattle while swimming across the strait were carried towards Beaumaris Bay; boats rowed after the stragglers and sometimes the boatmen threw ropes round their horns and towed them to the shore. From Abergele the cattle would probably go up the Clwyd valley, for there is an inn called the *Drovers' Arms* a mile or so north of Ruthin and near by is a field where cattle used to be thrown and shod. Thence they would make for the Old Chester Road.


Although the dealer and foreman drover and other senior drovers would put up at inns, occupying beds at prices ranging from 4*d.* to 6*d.* a night, the juniors would often sleep under hedges in the fields with the cattle. The pay of the drovers who took cattle from Haverfordwest to Ashford early in the nineteenth century was at the rate of 3*s.* per day plus a bonus of 6*s.* on being paid off at their destination. They supplemented their earnings by selling milk when near places of any size. After the cattle had been sold at Ashford, the dealers came back by coach and the drovers on foot. Every effort was made to avoid turnpike gates. When this was impossible, at some such gates one man used to carry another on his back so that only one person could be charged. No account of the Welsh drover must omit mention of the drover's dog.

PENNOD XI


GWAITH A CHELFI FFARM

HYD y gwn i, mae gwaith ffarm yng Nghymru yn bur debyg heddiw i'r hyn oedd pan oeddwn i yn hogyn, ond fod y peiriannau a'r celfi at y gwaith wedi gwella llawer. Yr adeg honno heuid y cwbl â llaw, heddiw mae'r *drill* i hau, a nifer o offerynnau i lanhau'r tir, ac i hel a difa gwreiddiau. Yn yr hen amser nid oedd ond yr aradr a'r og, fforch a chribin, y bladur i dorri'r gwair a'r *ŷd*, a'r gribin fawr i'w llusgo ar eich ôl, a'r gribin fach. Gwaith y merched oedd cribinio a thaenu ystodiau. Ond heddiw yn lle plygu yn ei gefn a bwrw iddi, caiff torrwr gwair eistedd yn gyfforddus yn ei gerbyd a'r ceffylau yn ei dynnu; a'r un fath wrth daenu ystodiau a chasglu. Ond yn sicr rhoddid llawer mwy o lafur yn y tir yr adeg honno, a gellid y pryd hynny alw'r rhan fwyaf o Gymru yn dir Iâl. Paham y meddiannodd rhan fechan o gylch Bryn Eglwys yr enw, mae'n anodd gwybod.


Diau nad anniddorol i rai fyddai disgrifiad byr o offerynnau a chelfi amaethyddol Cwm Eithin, llawer ohonynt erbyn hyn wedi myned allan o arferiad, ac nid oes ond ychydig yn cofio dim amdanynt. Hyd ddechrau'r ganrif o'r blaen yr oedd y ffyrdd yn anhygyrch iawn. Ni ellid mynd â throl ar hyd ond ychydig iawn ohonynt, a newydd beth oedd y drol yr adeg honno. Dywedir mai Lawrence Jones, tad John Jones, "Glan y Gors," a ddaeth â'r drol gyntaf i Gwm Eithin, tua chant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Ac yn ddigon rhyfedd, i Fwlch y Beudy, hen gartre Robert Jones, brawd "Glan y Gors," y daeth y drol a'r ecstro haearn gyntaf, a hynny yn fy nghof i. Ar gefnau'r ceffylau gyda'r pilyn pwn y cerrid bron bopeth, ac âi'r ffyrdd dros ben pob boncyn. Ni wn pa mor bell yn ôl y dechreuwyd defnyddio'r ceffyl gan yr amaethwyr. Dengys yr enw Saesneg sydd bron ar bob ceffyl o'i gymharu ag enw Cymraeg prydfferth y fuwch, nad yw'n hen iawn, a chofiaf ddigon o hen frodorion a fu'n aredig gyda'r ychen. Bùm i yn troi gyda'r aradr bren sydd erbyn hyn wedi llwyr ddiplannu. Yr oedd dau fath o geir i gario *ŷd* a



Y Pilyn Pwn.



Yr Aradr bren



Yr Iau.

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trw y Ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

gwair, ac mewn lle gwlyb a llechweddog ychydig a ddefnyddid ar y drol yn fy nghof cyntaf. Y naill oedd y car llusg, a wneid o ddau bren ar hyd y gwaelod, un bob ochr, a raela ar eu traws, pedwar post, raela i wneud ochrau a thalcenni iddo, a bachu ceffyl tresi wrtho, a'i lusgo. Y llall oedd y car cefn; gwneid ef gyda dau bren, yn debyg i hanner olwyn, y pennau eraill yn gwneud dwy fraich yn estyn ymlaen fel breichiau trol, a gwneid y talcenni a'r ochrau fel y llall, ond yn lle ceffyl tresi, defnyddid y ceffyl bôn a strodur arno; felly yr oedd yn haws ei dynnu, gan nad oedd ond rhyw ddarn llai na hanner olwyn yn taro yn y llawr, ac yr oedd lawer haws ei droi o gwmpas a'i gael i'r lle y dymunid.

“Clywch y briglyn crwn yn brolio,
Fel y gwnaeth e gewyll teilo;
Gwelais ddydd y gwnae fy naïn
Gewyll teilo gwell na rhain.”¹

Newydd ddyfodiad oedd y ceffyl i Gwm Eithin at wasanaeth yr amaethwr cyffredin, ac ef yn unig a gâi wellt wedi ei dorri yn yr hen amser, a diau y bu amser pan fyddai raid iddo yntau bori schnoi ei fwyd fel rhyw greadur arall. Ond fe ddaeth amser, naill ai am ei fod yn Sais ac yn ormod o wŷr bonheddig i gnoi ei fwyd ei hun, neu am na chaniatâi ei feistriaid iddo ddigon o hamdden i'w gnoi, pryd y bu rhaid dechrau torri gwellt iddo.

Pwy a ddyfeisiodd yr *injan* dorri gwellt gyntaf, amhosibl dywedyd. Yr oedd gan fy nhaid *injan* dorri gwellt hen ffasiwn iawn. Yr oedd ganddo dros gan mlynedd yn ôl, ac nid yw'n debyg iddo ef ei chael yn newydd, felly mae'n bosibl ei bod o'r math cyntaf. Ni welais i yr un arall yn hollol yr un fath â hi, ac os gwyr hogyn ffarmwyr rywbeth fe wŷr am dorri gwellt. Dull yr *injan* dorri gwellt oedd fel y canlyn. Yr oedd iddi bedair coes i sefyll arnynt. Ar dop y coesau yr oedd boc neu gafn bychan rhyw wyth modfedd o led ac o ddyfnder, ac yn agored yn ei dop ar un pen iddo, ac yn wastad â dwy o'r coesau yr oedd darn o ddr tebyg i'r dur ar y tindar, wedi ei wneud yn un darn, yn gwneud pedwar sgwâr tuag wyth modfedd bob ffordd fel y gellid stwffio pen y gwellt

¹*Pennillion Telyn*, gan W. Jenkyn Thomas, Caernarfon, 1894.


trwyddo at y gyllell. Yr oedd darn o fwrdd rhydd yn ffitio ar ei dop fel caead ac yn ffitio o'r tu mewn iddo, a darn o haearn fel ecstro ar ei dop ac yn myned allan trwy ochrau'r bocs, ac yr oedd hic bwrpasol iddynt godi a gostwng. Wrth ddau ben yr ecstro bechid darn o haearn, a thredl oddi wrth y rhai hynny, fel y gellid gwasgu'r gwellt yn galed pan oeddynt yn ei dorri. Wedi ei bachu wrth un o'r coesau yr oedd cyllell hir fel cyllell dorri maip. Yna yr oedd cafn rhydd o'r un lled a dyfnder, a thua thair troedfedd o hyd, y gellid ei fachu wrth y cafn, a choes fel twm o dan fraich trol i ddal y pen arall, fel y gellid cadw yr *injan* mewn lle bach pan na fyddid yn ei ddefnyddio. Cymerai'r torrwr haffled o wellt wedi ei dynnu'n dda, a rhoddai ef ar ei hyd yn y cafn, a chydag un llaw gwthiai ef ychydig ymlaen bob gafael. Gwasgai â'i droed a chyda'r gyllell gan ei chadw'n glos i'r dur. Torrai'r gwellt yn gyflym iawn, yn fân ac yn wastad, ac ni chlywais 'Captyn' y ceffyl na 'Leion' y mul yn cwyno erioed fod eu bwyd yn rhy fras.

CORDDI

Pwy a feddyliodd am gorddi llaeth i gael menyn, a phwy oedd yr hogen a gyweiriodd y menyn gyntaf, tybed? Mae yn edrych yn syml iawn i ni, ond dyfais fawr a gwerthfawr oedd hi pan wnaed hi. Pa un ai'r selen fenyn ai'r cosyn yw'r hynaf? Ni wn pa fath yw windas gaws y dyddiau hyn. Hen greadures hen ffasiwn iawn a gofiar fi. Dim ond bocs a'i lond o gerrig, ac ysgriw i'w godi a'i ollwng ar dop y cawsellt, i wasgu'r dŵr allan o'r cosyn. Pa ffurf oedd ar y fuddai gyntaf? Fe gofiar dri math o fuddai yng Nghwm Eithin. Y fuddai dro oedd un; fe wŷr pawb amdani hi, ac nid oes eisiau sôn amdani. Y ddwy arall oedd y fuddai gnoc a'r fuddai siglo. Credaf mai'r fuddai siglo oedd yr hynaf, oherwydd yr oedd llawer buddai gnoc yn fy nghof i, ond prin iawn oedd y fuddai siglo. Nid oedd y fuddai gnoc ond tebyg i ddoli twb, ond yn ddyfnach ac yn culhau at y top, lle'r oedd caead a thwll. Yna gordd, ei phen o gylch ac edyn, a choes hir yn dyfod trwy'r twll yn y caead, a thynnid hwnnw i fyny ac i lawr—gwaith digon caled. Yr oedd y merched yn corddi wrth amser, dau neu dri o gnociau cyflym a byrion, ac un hir ac araf, ac os byddai'r 'gennod ar hâst, rhoddid digon o ddŵr cynnes ynddo ar slei ac fe gorddai'n fuan.

Meddai'r fam neu'r feistres, "Ydi o yn peidio â dwad yn rhy fuan, dywed? Roist ti ddim dŵr cynnes ynddo, naddo? 'Doedd dim isio."


Ond buddai siglo oedd gennym ni, ac yr oedd hi'n edrych yn oedrannus. Meddai bedair coes ryw dair troedfedd oddi wrth ei gilydd bob ffordd yn y gwaelod, ond deuai'r ddwy ar bob



Y Winds Gaws.

Adgynhychwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

ochr i gyfarfod ei gilydd yn y top fel "V" wedi ei throï a'i phen i lawr, raelis yn dal y coesau wrth ei gilydd, ac ar dop y ddwy yr oedd lle wedi ei wneud i ecstro orffwys. Bocs oedd y fuddai oddeutu dwy droedfedd o ddwfn ac o led, a thua thair i bedair troedfedd o hyd. Yr oedd caead yn codi ar y top tua hanner hyd y fuddai, dwy resel yn rhannu'r fuddai yn dair rhan. Yr oedd ecstro bychan o bob tu yn union ar hanner hyd y fuddai, ychydig yn nes i'r top na'r gwaelod, a gosodid y fuddai i orffwys ar y ddau ecstro ar dop y coesau. Pan oedd yn sefyll byddai un pen i lawr ychydig, yn gorffwys ar y ffon oedd rhwng y coesau. Yna tywelltid y llaeth i mewn. Yr oedd dolen neu le i gydio â dwy law ar bob pen. Yna dechreuid siglo'r fuddai. Gallai un wneud hyn, neu ddwy pan fyddai angen, neu byddai'r bechgyn eisïau myned i lewys y genethod; a rhedai'r llaeth ôl a blaen r wy'r rheseiliau, a chorddai'n gyflym.



Y Fuddai Siglo.

Gwnaed y darlun gan Mr. Dan R. Jones, o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, oddi wrth fraslun o waith fy wŷr Wynne Kyffin.

Mae'r fuddai siglo, y ceir darlun ohoni yn y *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, gan Iorwerth C. Peate, a gyhoeddwyd gan yr Amgueddfa Genedlaethol yn 1929, yn edrych lawer mwy hynafol na'r un o'r tair uchod.

CWN YN CORDDI

Mae yn y Llyfrgell Genedlaethol yr hyn a elwir *Dog Wheel*. Wrth edrych arni daeth i'm cof hen arferiad oedd yng Nghymru o gŵn yn corddi. Nid oedd wedi darfod yn hollol yn fy nghof cyntaf i. Yr oedd dau gi yn corddi mewn ffarm a elwir Plas yn Ddôl, heb fod yn fwy na rhyw chwech neu saith milltir o'm hen gartref, ond yn anffodus yr oedd wedi ei rhoi heibio cyn i mi fyned cyn belled o'r bwthyn y'm ganwyd. Ond clywais hanes triciau Cŵn Corddi Plas yn Ddôl yn cael ei adrodd gyda'r nos. Y mae gennyf ryw syniad wedi ei gadw yng nghefn fy meddwl, ond y mae'n wahanol iawn i'r *Dog Wheel* yn y Llyfrgell. Yn gyntaf rhoddaf yr hyn a ddywedir am honno yng Nghatalog Arddangosfa'r Llyfrgell 1930 :—

A dog wheel from Pilroth, Llanstephan, the home of the late Mr. J. W. Harris. It was fixed in the hall—half kitchen and half dining room—and was in use during the early part of the 19th century. The original house was pulled down some years ago, and the dog wheel passed into the possession of the late Sir John Williams.

The following account of a dog wheel written in 1890 by the late Edward Laws, F.S.A., describes this old-time domestic appliance :—

“ In the year 1797, Thomas Rowlandson, the celebrated caricaturist, and his friend Wigstead visited Newcastle Emlyn in the course of a tour through Wales. As was the custom in those days they made a book out of their adventures, Wigstead undertaking the letterpress, and his more celebrated friend providing the illustrations. They put up at 'a decent inn,' and Rowlandson made a drawing of the kitchen. Wigstead writes—'A dog is employed as turnspit; great care is taken that this animal does not observe the cook approach the larder; if he does he immediately hides himself for the remainder of the day, and the guest must be contented with more humble fare than was intended.' ”

Maint yr olwyn yn y Llyfrgell yw dwy fodfedd a deugain ar ei thraws a rhyw ddeng modfedd o led; y mae'r edyn ar y ddwy ochr allan, a rhyw ystyllen gul oddeutu dwy fodfedd wedi eu hoelio ar hyd ymyl y cylch o'i chwmpas yn gwneud cantal; felly y mae o'r tu mewn yn wag ac yno y mae'r ci bach a'i goesau byrion yn cerdded o tua chwech i fyny i tua naw, a chymeryd wyneb cloc yn gyffelybiaeth; a'r olwyn yn parhau i droi o dan bwysau'r ci bach. Yna y mae strap cul oddi wrth chwafan yn ochr yr olwyn yn myned am chwafan arall ar ben ecstro, ac y mae coes dafad yn cael ei chysylltu â phen arall yr ecstro hwnnw, ac yn troi yn araf o flaen tân i rostio. Diau mai treth fawr ar y ci oedd gorfod cerdded o fewn i'r olwyn am amser ac edrych ar y darn cig yn ei ymyl a'i aroglau hyfryd yn codi i'w wyneb, ond unwaith wedi ei glymu o'r tu mewn i'r olwyn rhaid oedd cerdded neu dagu. Nid rhyfedd felly yr ymguddiai at amser rhostio cig.

Nid oedd eisiau olwyn na chi i rostio cig yng Nghwm Eithin, ond yr oedd yno lawer o gorddi.

Ymddangosodd yr hyn a ganlyn yn y "Welsh By-gones," yn y *Cardiff Weekly Mail*, Ionawr 10, 1931:—

DOG WHEELS IN PEMBROKESHIRE.

"Mr. Henry Mathias, a Haverford lawyer of a generation or more ago, told the late Mr. Edward Laws the Antiquary that he remembered eight dog-wheels in Pembrokeshire," writes a correspondent, "including one at the Castle Hotel and another at the Hotel Mariners, Haverfordwest; one at Lamphey Park, and another at Mr. George Roch's, of Butterhill. It appears, too, that there was at one time a pure breed of dogs called 'Turnspits' in Pembrokeshire, but some families used the 'Curdog' (or Corgi) or a small terrier. They were generally sharp little fellows, and were credited with sufficient intelligence to understand when a heavy dinner was to be dressed, for then they would make off and leave the kitchen-maid to turn the spit in their stead."

YR OLWYN GORDDI

Yr oedd yr olwyn gorddi yn bur wahanol i'r uchod, rhywbeth yn debyg i'r hen *Treadmill* yn y carcharau. Yr oedd eisiau cryn lawer o nerth i gorddi lle y byddai buches fawr. Dywedid y byddai dau gi pur fawr yn cerdded ar yr olwyn ym Mhlas yn

Ddôl. Nid wyf yn sicr pa un ai yn ochrau ei gilydd yr arferent fod ai ynteu'r naill o'r tu ucha i'r llall. Pa un bynnag, yr oedd eisiau olwyn bur fawr. Gan na welais yr un o'r olwynion fy hunan, gwneuthum gais yn *Y Brython*, Awst 28, a Medi 4, 1930, am i rywun a gafodd y fraint o weled un anfon disgrifiad ohoni, a chefais dri o atebion.

Dywaid H. A. Williams, Rhyl, fel y canlyn :—

Yn *Y Brython* diweddfaf gofynna eich gohebydd, *H.E.*, a oes rhywun yn aros a welodd gŵn yn corddi. Yr wyf yn ateb fy mod i yn un a welodd gŵn yn corddi, mewn fferm fawr yn ymyl fy nghartref. Yn yr haf, pan fyddai'r buchod yn llaethog iawn, byddai corddi bob dydd Mawrth a dydd Gwener. Nid oeddwn ond bachgen ieuanc iawn, ac mewn hwyl garw yn gwyllo paratoi y cŵn i fyned ar yr olwyn. Dau gi mawr oedd ganddynt, ac nid oeddynt yn rhy hoff o ddiwrnod corddi ; a bore dydd y corddi, yn gweled y merched yn paratoi'r llaeth a'i roddi yn y corddwr, ni fyddent i'w gweled—wedi ymguddio neu fynd am dro i'r caeau, a byddai raid i rywun fyned i chwilio amdanynt a'u cyrchu at eu gwaith. Safent yn llonydd gan edrych ar yr hen olwyn, a'u tafod allan, a chael *feed* go dda. Yna bachu y *strap* wrth eu coler oedd am eu gwddf, a'r pen arall wrth y trawst uwch eu pen, a gorchymyn iddynt fyned, ochr yn ochr, ar yr olwyn, yr hon oedd ar osgo, ac yr oedd pwysau y cŵn yn ei throï ; a byddai raid iddynt barhau i gerdded neu grogi, a'u tafod allan yn bwrw glafoerion, a deheu am eu gwynt. Ac felly am ddwy awr neu dair weithiau ; ac wedi i'r llaeth dorri yn fenyn, ni fyddai eisiau troi mor gyflym, felly tynnu un ci i ffwrdd a gadael y llall i droi yn araf, a newid y ddau bob yn ail ; a balch iawn fyddai'r ddau o gael *order* i ddyfod i lawr ar ôl gorffen. Yna gwylient am y sgram i fwyta a arferent gael ar y diwedd. Nid yw fy nghof yn ddigon clir am fanylion a maint yr olwyn. Fy syniad yw mai tua chwe troedfedd ar ei thraws oedd yr olwyn, a *straps* o goed tenau wedi eu hoelio yn aml fel *steps* i draed y cŵn fachu, a haearn danneddog o dani yn troi yr olwyn gocos bach wrth y fuddai. Credaf y bu terfyn ar hyn tua'r 70's.

Un a eilw ei hun " Runcornfab " a ddywaid :—

Cofiaf yn dda eu gweled lawer iawn o weithiau pan oeddwn yn fachgen. Fe'm ganwyd yn Amlwch, Môn, yn 1857, a byddai fy nhad yn fy ngyrru'n aml iawn ar neges iddo, ar ôl

dyfod o'r ysgol, i ffermdy Aberach, Llaneilian, ger Amlwch. Mr. J. Elias oedd enw'r amaethwr, ac yr oedd yno ddau gi mawr iawn yn ochr ei gilydd; ac y mae y disgrifiad a ddyry *H.E.* yn union yr un fath ag a fyddai ar gŵn Aberach. Methaf â deall sut y gallai ci bach gorddi. *Treadmill* oedd hon fel a fyddai mewn carcharau. Gwelais un yng Ngharchar Beaumaris yn 1908, pan oeddwn yn yr ardal honno ar seibiant haf, ond yr oedd y *treadmill* wedi bod yn segur am bum mlynedd ar hugain yr amser hwnnw, a chredaf ei bod yn yr un sefyllfa heddiw. Mae'r carchar wedi ei gau, ond gellir gwled y cwbl ond ymofyn â'r awdurdodau.

Dywedodd fy nghyfaill a'm cymydog John Lloyd, a hanoedd o Gwm Eithin fel minnau, iddo fod yn Llŷn yn 1898, ac ymwled gyda "Myrddin Fardd" â ffermdy yn agos i Chwilog, a gwled un o'r olwynion a holi beth ydoedd. Rhoddodd ddarlun i mi ohoni o'i gof. Credai ef fod yr olwyn honno tua phedair troedfedd ar ddeg o draws fesur. Dywedai "Myrddin Fardd" wrtho y byddai rhaid cau cŵn Llŷn i mewn y noswaith o flaen y diwrnod corddi neu y byddent yn sicr o fod wedi dianc cyn y bore; nid oeddynt yn hoff o waith.

Gwelir yn amlwg, felly, mai olwyn yn troi ar ei lled orwedd oedd yr olwyn gŵn, ac wyneb mawr iddi fel wyneb cloc, a hwnnw wedi ei fyrddio, a darnau o goed meinion wedi eu hoelio o gylch yr wyneb bob rhyw ddwy droedfedd i'r cŵn allu bachu eu traed. Y mae'n debyg fod llawr wedi ei wneud i guddio'r rhan isaf ohoni, dyweder o bump o'r gloch hyd saith. Gosodid y cŵn arni tuag wyth o'r gloch, bechid cortyn oddi wrth drawst uwch ben wrth goler y cŵn, yna byddai rhaid iddynt gerdded rhwng wyth a naw neu dagu.¹

Ymddengys mai pur wahanol i'r uchod oedd y *Treadmill*. Dywaid fy nghyfaill Joseph Hughes, Bootle, iddo weled y *Treadmill* yn hen garchar Biwmaris yr haf diweddaf. Olwyn yn troi ar ei phen ydyw hi, medd ef, fel olwyn ddŵr, ond ei bod yn llydan iawn. Y mae lle i chwech o garcharorion gerdded arni yn ochrau ei gilydd, a therfyn rhwng pob un fel na allent weled ei gilydd. Rhaid bod rhyw drefniant i'w rhwystro i droi yn rhy gyflym pan fyddai pump neu chwech yn cerdded arni gyda'i gilydd, gan fod yn debyg y gallai na byddai mwy nag un carcharor i mewn weithiau, a rhaid oedd i'r olwyn droi gydag un. Dywaid ymhellach fod olwyn gŵn yn aros ym Mrynsiencyn, Môn.

¹ Gweler ddarlun Cŵn yn Corddi yn yr Atodiad ar y diwedd.

Pa bryd y gwnaed i ffwrdd â'r drol gŵn yng Nghymru nis gwn. Gwelais rai yn Llydaw yn 1908.

Ond erbyn hyn mae'r *separator* wedi dyfod hyd yn oed i Gwm Eithin, a dyna'r hen greadur casaf gennyf ei weld mewn tŷ ffarm o ddim. Meddyliwch am hogyn wedi ei fagu yn y wlad, ac wedi treulio llawer mwy yn anialwch y dref na'r Israeliaid yn anialwch Sina, yn cael mynd am dro i Gymru, ac ar ddiwrnod tesog o haf, bron a lleddfu yn yr haul, yn unioni at dŷ ffarm at amser cinio gan ddisgwyl am fowliaid o datws llaeth. Gwraig lawen yn ei dderbyn i mewn, a'i wadd i'r gegin lle y clywai'r tatws yn berwi. A hen gwrnad oer y *Separator* yn torri ar ei glustiau o'r briws, ac yntau yn gwybod nad yw llaeth enwyn y *separator* yn dda i ddim ond i dwyllo'r moch. Y fath siomedig-aeth.

Hwyrach na allaf wneud yn well, yn lle rhoi disgrifiad o ddodrefn y tŷ a chelfi'r briws, na rhoddi cerdd y dodrefn i mewn fel y ceir hi yn *Beirdd y Berwyn*, o gasgliad Syr O. M. Edwards (1902), gan un o feirdd Cwm Eithin.

CERDD DODREFN TY.

Tôn—"Hun Gwenllian."

Dowch yn nes i wrando arna,
 I chwi'n ufudd y mynega,
 Llawer peth y ddylech geisio,
 Er na wyddoch ddim oddiwrtho ;
 Oni bydd morwyn sad synhwyrol,
 A dyn glew gwaredd da naturiol,
 Gwell yw iddyn i gwasaneth
 Nag ymrwymo yn ddi-goweth,
 Oni bydd y stoc i ddechre
 Ganddo fo ne ganddi hithe ;
 Os priodi'n ddiariangar,
 Cyn pen hir y bydd edifar.

Dyle pob gŵr gwedi ymrwmo
 Wneud y fydde gweddol iddo,
 Cymryd gofal yn wastadol
 Am y pethe sy angenrheidiol ;
 Ni all dyn na dynes heini
 Fyw ar gariad a chusanu,

Rhaid cael bwyd, a diod hefyd,
 Ac yn rhwydd arian i'w cyrhaeddyd,
 Rhaid cael buwch i ddechre swieth,
 A cheffyl iti os mynni ysmoneth,
 I gario tanwydd wrth ych eisie,
 Gore towydd i fynd adre.

Gwag yw tŷ heb iar a cheliog,
 A phorchellyn wrth y rhiniog,
 Fo biga'r iar lle syrth y briwsion,
 Fe bortha'r porchell ar y golchion ;
 Padell fawr a phadell fechan,
 Crochan pres ne efydd cadarn,
 Piser, budde, hidil, curnen,
 Rhaid i'w cael cyn byw'n ddiangen ;
 Rhaid cael twned i dylino,
 A stwnt i roddi'r ddiod ynddo,
 Rhaid cael sach i fynd i'r felin,
 A gogor blawd i ddal yr eisin.

Llech, a grafell, a phren pobi,
 Mit llaeth sur, a gordd i gorddi,
 Noe i gweirio yr ymenyn,
 A photie pridd i ddal yr enwyn ;
 Desgil, sowser, a chanwyllbren,
 Ledel, phiol, a chrwth halen,
 Trybedd, gefel, bache crochon,
 Saltar, a thynswrie ddigon ;
 Bwrdd a meincie i eistedd wrtho,
 Ac ystolion i orffwyso,
 Silff i roddi y pethe arni,
 Cowsellt, carcaws, a chryd llestri.

Bu agos imi a gado yn ango,
 Gwely y nos i gysgu ynddo,
 Cwrlid, gwrthban, a chynfase,
 A gobennydd i roi'n penne ;
 Ac ond odid bydd raid ceisio
 Cryd i roddi 'r babi ynddo ;
 Padell uwd a pheillied, mopren,
 Picie bach a rhwymyn gwlanen ;

Rhac a batog, caib a gwddi,
 Car, ystrodur, mynwr, mynci,
 Picwarch, cribin, ffust i ddyrnu,
 Gogor nithio gyda hynny.

Bwyall, nedde, ac ebillion,
 Lli a rhasgal, gordd a chynion,
 Pladur, cryman i gynhafa
 Gwair ac yd mewn pryd cynhaua,
 Morter, pestel, padell haiarn,
 Padell ffrio, grat, a llwydan,
 Siswrn, nodwydd, a gwniadur,
 Troell a gardie a chliniadur,
 Cyllell, gwerthyd, bêr, gwybede,
 Crib mân a bras i gribo penne,
 Pabwyr, gwêr, i wneyd canhwylle.

Wedi cael y rheini i'r unlle
 Gwelir eisie cant o bethe,
 Gwledd a bedydd a fydd gostus,
 A mamaethod sydd drafferthus ;
 Bydd rhaid talu ardreth hefyd,
 A rhoi treth er lleied golud.
 Ystyried pawb cyn gwneyd y fargen,
 A ellir cadw ty 'n ddiangen,
 Haws yw gorwedd heb gywely
 Na byw mewn eisie'r pethau hynny.
 Cyn priodi dysgwch wybod
 Nad oes mo'r dewis wedi darfod.

C.D. a'i cant.

Y BACH GWAIR

Gwelais y bach gwair yn Hafod Elwy, a golwg hynafol iawn arno. Gweler y darlun rhif 4, tudalen 106. Meddai goes tebyg i goes picfforch fer, a soced i'r goes fyned i fewn, yr haearn ychydig o fodfeddi o hyd, efallai tua chwech. Estynnai allan yn syth oddi ar y goes, a blaen iddo tebyg i flaen caib. Ar ei ganol yr oedd tagell gref, tebyg i fach pysgota neu dryfer. Wrth ei ddefynddio gwthid ef i'r das wair, ac wrth ei dynnu yn ôl deuai â choflaid gydag ef. Torri gwair yn y fagwyr a gofiat fi,

gyda'r haearn a choes tebyg i goes haearn clwt, neu raw bâl, a minnau yn sefyll ar fy nhraed i'w ddefnyddio. Yr oedd un arall yr un siâp â sgwâr, lle y dysgais fyned ar fy ngliniau i'w ddefnyddio. Dywedodd un gŵr wrthyf mai i dynnu gwair o'r daflod neu y cywlas ac nid o'r das y defnyddid ef.

A ydyw y stric, y corn grut hir,—corn buwch a gwaelod pren a hic yn agos i'r top lle y gwthid darn bach o bren yn gaead,—a'r corn bloneg, pwt, byr, tew, wedi ei wneud yr un modd, wedi diflannu, a dim ond y gresten yn aros?

MALU EITHIN

Dywedir y bu melinau eithin yn rhai o rannau mynyddig Cymru. Pan oedd yn ysgrifennu hanes Llanfairfechan i'r *Brython*, dywedai "Ap Cenin" fod dwy o'r cyfryw yn cael eu troi gan olwyn ddŵr yn yr hen amser yng nghymdogaeth Llanfairfechan. Yn rhyfedd iawn ni chlywais sôn fod yr un wedi bod yng Nghwm Eithin, cartref yr eithin. Ni allaf ddywedyd pa fath bethau oeddynt. Credaf fod ynddynt ryw ordd neu rywbeth i'w wasgu yn seiten ac yna ei falu fel y melir gwellt neu wair. Cofiaf i lawer o eithin gael ei ddefnyddio yn fwyd i wartheg a cheffylau yn ystod y tair blynedd poethion tua 1869-1871, pan gymerodd amryw o fynyddoedd Cymru dân gan wres yr haul, ac y buont yn llosgi am fisoedd, un yn ymyl fy nghartre yn mygu hyd ar ôl y Nadolig gan fod y tân wedi myned i lawr yn ddwfn i'r mawndir.

Yr oedd yn fy hen gartref ddigon o eithin ieuainc ffrwythlon. Cariodd y mân dyddynwyr lwythi oddi yno i'w hanifeiliaid oedd ar lwgu. Torrais innau ugeiniau o feichiau i'n gwartheg ninnau. Y ffordd y paratoid hwy oedd rhoi fforchiaid ohonynt mewn cafn carreg fel cafn mochyn; yna cymerid gordd bren weddol lydan, a'u pwyo nes y byddai hynny o fonyn oedd yn dal y dail a'r pigau wedi ei gleisio neu ei ysigo'n dda. Yna eu malu yn yr *injan* dorri gwellt, eu hunain, neu gyda gwellt. Yr oeddynt yn fwyd maethlon iawn, a'r anifeiliaid yn awchus amdanynt. Ond dywedid eu bod yn rhy boeth i geffylau. Curai ein hen "Gaptyn" ni lawer ar ei draed ar eu holau, ond gallai "Leion" y mul eu bwyta heb eu malu, y pigau a'r cwbl.

Bûm yn defnyddio hen offeryn arall i drin eithin—math o ddwy gyllell wedi eu gosod yn groes i'w gilydd yn debyg i X, a haearn yn dyfod i fyny oddi wrthynt, ac yn ffurfio soced lle y rhoddid coes ynddo. Gosodid fforchiaid o eithin ar ddarn o

bren llydan, ac yna pwyid hwy â'r haearn yn debyg fel y corddid â gordd y fuddai gnoc, gan droi'r haearn ôl a blaen yn ddidor fel y gwneid â'r colier. Defnyddid math o fenig lledr, neu y menig cau a ddefnyddir i blygu'r gwrych, i'w codi o'r cafn a'u rhoddi ym mhreseb y gwartheg, a byddent hwythau yn arfer bod yn bur ofalus wrth eu cnoi rhag ofn y pigau a allai fod yn aros. Dywaid y Parch. William Griffiths, Abergele, iddo glywed yr hen frodorion yn sôn am hen offeryn arall—y "Dryn-olenbren,"¹—maneg bren a ddefnyddid i afael yn yr eithin.

DIWRNOD HEL DEFAID

Hwyrach y dylwn, er mwyn ambell un, ddywedyd nad yw gwlan yn tyfu yn yr America, fel cotwm, ond ei fod yn tyfu ar gefn y ddafad yng Nghymru. Ond y mae amryw oruchwylion y mae'n rhaid myned trwyddynt i'w gael yn edafedd parod i weu. Y peth cyntaf yw golchi'r defaid. Diwrnod mawr a rhamantus iawn yng ngolwg y plant a'r ieuencid yw diwrnod golchi defaid. Ar ddiwrnod poeth ym Mehefin, cyn dechrau ar y gwair, 'roedd rhaid myned i'r afon fechan i gau llyn, oni byddai'r afon yn un weddol gref a llyn naturiol yn barod ynddi. A phan ddeuai'r diwrnod golchi ymrysonai'r bechgyn pwy a gâi fyned i'r llyn i drochi'r defaid. Yr oedd y rhai hynaf yn hoffi bod ar y lan a chadw eu crwyn yn sych. Yn blygeiniol iawn, cyn i'r haul godi, cychwynnid i'r mynydd i hel y defaid i'r gorlan ar lan y llyn, a gwaith mawr ydoedd. Y pryd hynny, nid oedd y ci hel wedi dyfod i Gymru, dim ond y ci dal, fel y byddai'n rhaid i'r holl deulu droi allan i hel defaid.

Y gwahaniaeth rhwng ci dal a chi hel defaid yw hyn. Arfer y ci dal oedd rhedeg ar ôl y ddafad a ddangosid iddo, a'i dal gerfydd ei gwar, a hynny'n dyner heb adael ôl ei ddannedd ar ei chroen; a rhyfedd mor fedrus oedd gyda'r gwaith ar ôl ei ddysgu'n dda, hyd nes y dechreuai hen ddyddiau ei ddal, pryd, fel rheol, yr âi'n frwnt, ac y byddai'n rhaid chwilio am ddilynydd iddo. Pan âi dafad ar gyfeiliorn, âi'r bugail i chwilio amdani, a'i gi gydag ef, a chwplws yn ei boced. Adwaenai'r ci y nod gwlan gystal â'i feistr, ac nid oedd ond eisiau'r gorchymyn "dal hi," na byddai'n gafael yn ei gwar, a'r bugail yn rhoddi'r cwplws am ei gwddf, ac yn hwylio tuag adref. Nid oedd y ci dal lawer o werth i hel y defaid at ei gilydd.

¹ Gweler ddarlun o Felin Malu Eithin yn yr Atodiad ar y diwedd.

Pan oeddwn yn hogyn yr oedd hel defaid y plwyf yn rhan o fywyd gwledig, sef hel defaid y "set" (dyna fel y clywais ef yn cael ei ynganu). Peth cyffredin yn ein dyddiau ni yw gweld mewn newyddiaduron: "Mae dafad ag oen ar dir John Morgan, Tŷ'n Llidiart, yn dwyn y nod clust—torri blaen y chwith a bwlch tri thoriad oddi arnodd. Canwe ym mlaen y ddeheu, a bwlch plyg odditanodd. Os na hawlir hi gan ei pherchennog cyn Gŵyl Fair, gwerthir hi i dalu'r costau." Nid felly yn yr hen amser. Hawliai'r plwyf (y Festri, mae'n debyg), y defaid cyfeiliorn. Gosodid yr hawl i ffarmwr am swm neilltuol o arian i gerdded yr holl blwyf a chymeryd pob dafad ddieithr i ffwrdd. Ar ddiwrnod penodedig gwerthid hwy bob un oni ddeuai'r perchenogion i'w hawlio, a thorrid eu clustiau fel na allai neb eu hawlio oddi ar y prynwr.

Nis gwn pa bryd y gwnaed i ffwrdd â'r arferiad hwnnw. Yr oedd yn ei lawn rym pan oeddwn yn hogyn. Evan Jones, Aedden, oedd yn cymeryd y "set," ac Edward Jones, y mab, oedd yn eu hel. Cofiaf ef yn dda yn dyfod â dau gi gydag ef, ac yn gofyn, "A welsoch chi rywbeth diarth?" Bûm gydag ef aml dro, ac yr oedd yn hynod o graff i weled dafad ddieithr, er bod ei lygaid braidd yn groesion. Safai yng nghornel y cae, un goes yn ôl, ac un goes ymlaen, gan blygu i tua hanner ei hyd a'i bwys ar ben ei ffon. A'r ddau gi yn ymryson gwylid pa un a gâi'r anrhydedd o glywed "Dacw hi!" gan ei dangos â'i law, "dal hi, Mot," neu "Pero," p'run bynnag a gâi'r gwaith. A hynod mor graff oedd y cŵn i wahaniaethu un nod gwlan gwahanol i'r un oedd ar yr holl ddefaid yn y cae, dyweder dwy gengel ar draws y cefn, neu beth bynnag a fyddai nod y ffarm. Ymhen munud neu ddau byddai'r ci wedi ei dal, ac Edward Jones yn archwilio ei nod clust; ac os un ddieithr fyddai, fe allai wedi crwydro o Sir Drefaldwyn a dyfod gyda'r defaid adre o'r mynydd, edrychai dyn hel y "set" yn llawen, ond os byddai'n rhaid ei gollwng tynnai wyneb fel diwrnod golchi.

Ond ryw hanner can mlynedd yn ôl daeth y ci hel defaid yn bur gyffredin i Gymru. Credaf mai o'r Alban y daeth, ac erbyn hyn diau ei fod wedi disodli ei ragflaenydd allan o'r wlad bron yn gyfangwbl. Gydag ef gellir hel y defaid at ei gilydd, a dal un yn eu mysg yn hawdd ar ganol y cae, neu eu hel i'r gorlan, a gall un dyn fynd â gyr ohonynt i'r ffair, neu'r man y mynno, gydag un neu ddau o'r cŵn gwerthfawr hyn.

Ond mae'r amser y cyfeiriaf ato cyn eu dyddiau hwy ; byddai'n rhaid i'r holl deulu, ond y wraig, droi allan i hel defaid. Câl hi aros gartref ond iddi ofalu sefyll yn yr adwy pan ddeuai'r defaid i lawr, a gwae hi oni wnâi hynny, oherwydd byddai'r ffarmwr yn wyllt ofnadwy ddiwrnod hel defaid, yn bloeddio ac yn arthio. Mae'r diwrnod lawer tawelach erbyn hyn. Gallai'r bugail hel ei ddefaid yr adeg honno gyda llawer llai o sŵn na'r ffarmwr.

Mae diwrnod golchi defaid a'r diwrnod cneifio yn dal yn debyg, felly nid oes angen eu disgrifio ; gyda'r hel yn unig y mae cyfnewidiad mawr.

Wele ddisgrifiad y diweddar Owen Jones, "*Meudwy Môn*," o drigolion un o bentrefi Cwm Eithin yn ei *Cymru yn Hanesyddol* (1875):—

"Y mae bywyd gwledig yn uchelder ei fri yng "*Nghwm Eithin*." Y llafurwr amaethyddol, a'r bugail, ydyw breninoedd y fro ; a'r gwragedd a'r llancesau diwyd, a welir yn brysur gyda'r gwiaill a'r edafedd, agos bob dydd o'r flwyddyn, oddigerth y Suliau, ydyw y breninesau yma. Yn fyr, y mae "*Cwm Eithin*" yn un o'r ychydig leoedd hynny y gellir gweled ynddynt ddiwydrwydd, tawelwch, caredigrwydd, a sirioldeb gwledig, hen drigolion "*Cymru Fu*" heb eu llychwino gan rodres a thrybestod ffasiwnol cymdeithas mân drefydd, a llannau, y dyddiau presennol."

Gŵr craff a diwylliedig oedd "*Meudwy Môn*," yn caru ei wlad, ac yn gwybod ei hanes yn well nag odid neb ; a hawdd credu oddi wrth y darlun uchod i hen arferion *Cymru Fu* fyw yng Nghwm Eithin yn hwy nag yn un rhan arall o Gymru. Ac os byth y bydd yr iaith Gymraeg farw, nid oes dim sicrach nad yng Nghwm Eithin y treulia hi ei nawnddydd, o barch i John Jones, "*Glan y Gors*," ac mai yn y pwll mawnog yn y Mynydd Main y cleddir hi, y pwll y syrthiodd Dic Sion Dafydd iddo.

PENNOD XII

HEN DDEFODAU AC ARFERION

I

UN o wyliau hynaf Cymru oedd yr Wylfabsant. Mae'n syn mor anodd yw cael ei tharddiad, ei hanes, a'r dull y cerrid hi ymlaen. Ceir digon o gyfeiriadau condemniol ati ddechrau y ganrif ddiweddaf a diwedd y ganrif o'r blaen. Ond beth bynnag oedd hi, diddorol iawn i lawer fuasai darluniad gweddol fanwl ohoni. Yr wyf wedi methu â gweld yr un hyd yn hyn. Clywais lawer o gyfeiriadau ati yn nyddiau plentyndod gan fy nhaid a'm nain a hen drigolion Cwm Eithin. Drwg gennyf erbyn hyn na fuaswn wedi holi rhagor yn ei chylch yr adeg honno, er fy mod wedi holi cryn lawer ar fy nain, oherwydd pan ddeuai rhywun dieithr i'n tŷ ni, clywid hi bob amser yn dywedyd, " Rhaid i ni fyned ati hi i wneud gwely Gw'mabsant." Ga'n fod yn debyg nad oes ond ychydig erbyn hyn o'r rhai a fagwyd yng nghymoedd y wlad yn cofio hyd yn oed yr olion hynny, nodaf hwy yn y fan hon.

Mae'n debyg nad oes llawer yn aros a fu'n cysgu mewn gwely gwylmabsant; fe fŷm i lawer gwaith. Deuai nifer o ddieithriaid neu berthynasau ar eu hawc i dyddyn bychan yng nghanol y wlad (ni fyddai pobl yn myned am eu gwyliau yr adeg honno) i edrych am eu cyfeillion a'u perthynasau yn awr ac eil-waith, a deuent fel huddygl i botes heb eu disgwyl—nid arhosit fwy nag un noswaith fel rheol. Yr oedd ymweliad felly yn llawer mwy plesurus na'r dull rhodresgar presennol o anfon rhyw awgrym i ddechrau, yna derbyn gwahoddiad—os daw, ac yna penodi'r amser, paratoi mawr ar ei gyfer, a helynt a stŵr ar ran y gwahoddwr. Yn ôl yr hen arfer, pa mor daclus bynnag fyddai'r tŷ fe gâi'r wraig ddywedyd, "Wel, mi ddoethoch ar ein pac ni a ninnau'n fwy aflawen nag arfer. Jane bach, cliria dipyn ar y llanastr yma. Johnny, dos i alw ar dy dad; mae ym mhen ei helynt yn y cae pella. Wel, John, ddoethoch chi? Beth yn y byd a wnaeth i chi roi'r hen gôt garpiog yna am danoch a chynnoch chi un arall? A 'blaw hynny, fyddwch chi byth

yn ei gwisgo hi. Ond rhaid i chi gael bod yn fwy aflawen nag arfer pan ddaw rhywun diarth, rhad arno chi, 'byga i.'

Ar ôl rhoddi te i'r dieithriaid a holi a stilio, galwai'r wraig y ferch, y gŵr, neu'r forwyn, o'r naill du, a dywedai, "'Does yma ddim digon o le iddynt gysgu; rhaid i ni wneud gwely gw'mabsant.'" Os briws, cegin, siamber, ac un llofft wrth ben y siamber yn unig a fyddai mewn tŷ a dim ond dau bren gwely, dyweder, byddai dau wely plu, neu wely plu a gwely manus, neu ddau wely manus, yn ôl yr amgylchiadau, ar bob pren, gobennydd a philw sbâr, a nifer o wrthbannau a chynfasau yn cadw yn y cwpwrdd près. Tynnid un o'r gwelâu oddi ar y pren a gosodid ef ar lawr y siambar neu'r llofft, a gwneid ef i fyny. Neu os digwyddai na fyddai lle i osod y gwely yn y siamber neu'r llofft, cymerai'r gŵr y dieithriaid am dro cyn swper i weled yr ebol bach. Yn y cyfamser cariai'r wraig y gwely a'r dillad o'r siamber a dodai hwy yn y briws, ac ar ôl swper âi'r ymwelwyr i'w gwelâu i'r siamber; yna cyrchai'r gŵr a'r wraig y gwely o'r briws a gosodent ef yn daclus ar lawr y gegin, a chysgai'r ddau ynddo ac efallai blentyn neu ddau yn y traed. Codent yn fore drannoeth, ac ni fyddai olion o'r gwely i'w weled pan godai'r dieithriaid i fyned i'r *bathroom* i ymolchi ar garreg y drws. Clywais fy nain yn dywedyd, wrth i rai ei holi beth oedd ystyr gwely gwylmabsant, y defnyddid llofft yr yd, llofft yr ystabal, llawr yr ysgubor, a'r cywlas os byddai yn wag, i wneud gwelâu pan oedd yr hen ŵyl yn ei gogoniant. Pan ddeuai ar ymweliad â phentref, parhâi am wythnos gyfan. Gwely ardderchog oedd gwely gwylmabsant; dim perygl i neb frifo wrth syrthio dros yr erchwyn pan fyddai yn orlawn.

Ond anodd iawn yw cael dim o fanylion hanes yr hen ŵyl. Beth a feddylir wrth Wylmabsant? A oedd hi yn un o'r gwyliau Eglwysig yn ei chychwyn? Ni cheir cyfeiriad ati yn *Cydymaith i Ddyddiau Gwylion*, 1712. Cyfeirir ati gan yr Athro Syr John Rhys ddwywaith yn ei *Celtic Folklore: Welsh and Manx*, dwy gyfrol, 1901, ond nid oes ganddo esboniad arni. Dywaid yn un lle, y dywedai un Mr. William Jones o Langollen wrth sôn am lôn gwerin Beddgelert:—

Moreover, many a fierce fight took place in later times at the *Gwyl-fabsant* at Dolbenmaen or at Penmorfa, because the men of Eifionydd had a habit of annoying the people of Pennant by calling them Bellisians.

A rhydd yr esboniad a ganlyn o'i eiddo ei hun :

These were held, so far as I can gather from the descriptions usually given of them, exactly as I have seen a *kermess* or *kirchmesse* celebrated at Heidelberg, or rather the village over the Neckar opposite that town. It was in 1869, but I forget what saint it was with whose name the *kermess* was supposed to be connected: the chief features of it were dancing and beer drinking. It was by no means unusual for a Welsh *Gwyl Fabsant* to bring together to a rural neighbourhood far more people than could readily be accommodated; and in Carnarvonshire a hurriedly improvised bed is to this day called *gwely g'l'absant*, as it were 'a bed (for the time) of a saint's festival.' Rightly or wrongly the belief lingers that these merry gatherings were characterized by no little immorality, which made the better class of people set their faces against them.

Dywaid Marie Trevelyan :—

Mal Santau, or Mabsant was the title given to festivities held from parish to parish for a week at a time. These celebrations were chiefly held on saints' days St. David's Day being the grandest festival of all. The Mal Santau, or Mabsant, included revelry, rustic sports, dancing, solo and partsinging, and varied kinds of amusements. Harpists and fiddlers attended every Mabsant, and the inn that had the best musician obtained the most custom. Sometimes these festivities were held in the town halls of little country towns, or else in the village inns, or barns lent by farmers for the occasion.—*Glimpses of Welsh Life and Character*, by Marie Trevelyan. London: John Hogg, 13 Paternoster Row. 1893.¹

Dywaid Robert Jones, Rhos Lan :

Yr oedd mewn llawer o ardaloedd un Sul pennodol yn y flwyddyn a elwid gwylmabsant, ac yr oedd hwnw yn un o brif wyliau y diafol; casglai y'nghyd at eu cyfeillion luaws o

¹ Gweler hefyd *Folk Lore and Folk Stories of Wales*, by Marie Trevelyan, with introduction by E. Sydney Hartland. London: Elliott Stock. 1909.

ieuengctyd gwammal o bell ac agos, i wledda, meddwi, canu, dawnsio, a phob gloddest. Parhâi y cyfarfod hwn yn gyffredin o brynnawn Sadwrn hyd nos Fawrth.¹

Gallai mai gŵyl baganaidd oedd ar y cyntaf, ac yna ei chysylltu â gŵyl y seintiau. Yn ôl fel y clywais i, parhâi'n fynych am wythnos gyfan. Cyfarfyddai dau blwyf neu ddwy ardal â'i gilydd i gystadlu yn y mabolgampau. Codai'r teimladau yn bur uchel yn aml rhwng cefnogwyr y gwahanol ymdrechwyr; ac yn aml setlid yr ymdrechfa mewn ymladdfeydd, yn union fel y gwneid yn aml ar faes y bêl droed neu ambell eisteddfod yn ein dyddiau ni, onibai nad yw'r gyfraith y dyddiau hyn yn caniatáu penderfynu pwy biau'r llawryf trwy ymladd â dyrnau fel yn yr hen amser; rhaid i bobl heddiw gadw'r ysbryd drwg yn eu brestiau. Fel y clywais am bregethwr enwog heb fod nepell o Gwm Eithin. Yr oedd ei ddefaid wedi bod yn tresmasu ar dir cymydog, a phan alwodd yntau i weled y cymydog, dechreuodd hwnnw ei regi, pryd y dywedodd y wraig wrtho am beidio â rhegi'r gweinidog, rhag cywilydd. "O," ebe'r hen weinidog, "gadewch iddo. Mae lot o regi yn fy mrest innau, ond ni cha i mo'i ollwng o allan."

Yn *Y Brython* 1859 (yr ail argraffiad) ceir a ganlyn am gampau yr hen Gymry:—

"Un o nodweddau neillduol yr hen Gymry ydoedd, eu bod yn darostwng eu sefydliadau yn rhyw fath o gyfundrefn neu ddosbarth wladwriaethol. Yr ydoedd i bob peth ei gylch;—cylch cerddoriaeth, cylch barddoniaeth, cylch hela, cylch chwareu. Cylch barddoniaeth a renid i 24 cynllun; felly cylch cerddoriaeth,—“Pedwar mesur ar hugain cerdd dant y sydd;” ac felly hefyd cylch chwareu a ddsberthir i *bedair camp ar hugain*. Pa mor hen ydyw y dosbarthiad hwn nid ydym yn sicr. Rhoddir yma y gofres, gwedi ei thynu allan yn benaf o eiddo'r Dr. Davies, a ymddangosodd yn ei Eirlyfr Lladin a Chymraeg, yn y flwyddyn 1632 (gan egluro wrth fyned rhagom).

“Pedwar camp ar hugain y sydd,”—Camp yn arwyddo celfyddyd, medr—*gymnastics*.

Gwaith gan Robert Jones, Rhos Lan, Wrexham, 1898. “Y Llenor, Llyfr xv.”

“O’r pedwar camp ar hugain hyn deg gwrolgamp y sydd.”—*Gwrolgamp*—, yn meddwl camp ag oedd yn gofyn grym neu orchest corff, yn hytrach na chraffineb meddwl neu gywreindrwydd moes.—Yn Lladin, *Ludi viriles*.

Eto, “A deg Mabolgamp y sydd;” “*Et decem [sic] juveniles*.” Sef wrth *Fabolgamp* y meddylid Campau Ieuencyd.

Eto, “A phedwar Gogamp y sydd.”—Ystyr *gogamp* yw isgamp; camp isradd, camp ddibwys, er difyrwch yn fwy nag er addysg. “*Triviales et vulgares*.”

Yn nesaf, yr ydym yn cael yr is-ddosbarthiad o dan y tri phrif ddosbarth uchod; canys byddai ein hynafiaid yn dosbarthu yn fanwl.

“O’r deg gwrolgamp, chwech sydd o rym corff; sef ydynt, 1. *Cryfder*; 2. *Rhedeg*; 3. *Neidio*; 4. *Nofio*; 5. *Ymafael*; 6. *Marchogaeth*.

Yr oedd nifer mawr o gampau a chwaraeon yn cael eu cynnal yn yr Wylmabsant. Fel y dywaid “Eos Iâl” yn *Drych y crib-ddeiliwr*, 1859:—

Ymgasglent ar y sulie
 I lan, neu bentre,
 I chware teniss,
 A bowlio Ceulys,
 Actio Enterluteiau,
 Morrus dawns a Chardiau,
 Canu, a dawnsiio,
 Chware Pel, a phittsio.
 Taflu Maen, a Throsol,
 Gyda gorchest rhyfeddol,
 Dogio Cath glapp,
 Dal llygoden yn y trapp,
 Cogio ysgyfarnog,
 Ymladd Ceiliogod,
 Chware dinglen donglen
 Gwneud ras rhwng dwy Falwen,
 Jympio am yr ucha,
 Neidio am y pella,
 Rhedeg am y cynta,
 Siocio am y pella,
 Saethu am y cosa,
 Bexio am y trecha.

Diddorol iawn fuasai cael gwybod pa nifer o gampau'r meddwl a arferid yn yr hen wyliau hyn. Dywaid ysgrifennydd yr erthygl uchod y defnyddid llawer ohonynt. Diau fod y bardd a'r telynor yno mewn afaith.

NOSWAITH LAWEN

Yr oedd y Noswaith Lawen mewn bri mawr yn yr hen amser. Prin oedd moddion adloniant cyn geni'r cyngerdd, a'r ddarlith, a'r cyfarfod cystadleuol. Deuai ambell gwmni yn awr ac eilwaith i chwarae interliwdiau megis y gwnâi "Twm o'r Nant." Er hynny treuliai ein hynafiaid eu bywyd yn llawen. Nid oedd y Noson Lawen wedi ei llwyr roddi heibio yn fy nghof i.

Cedwid y Noson Lawen pan fyddai rhywun yn ymadael o'r ardal, neu rywun yn dychwelyd ar ôl bod i ffwrdd am amser, ac yn aml heb unrhyw achos neilltuol yn galw, ond er mwyn y difyrrwch diniwed. Gwahoddid telynor o rywle arall, oni byddai un yn y lle y cedwid y Noson Lawen; ond yr oedd y delyn yn gyffredin iawn yn aneddau'r ffermwyr. Cened gyda'r tannau, cyfansoddid englyn neu ddarn o farddoniaeth am y gorau, adrodd straeon Tylwyth Teg ac am ysbrydion, a thrafod yr hanesion diweddaraf. Fel y canlyn y darlunia "Glasynys," yn "*Yr Wyddfa*," *sef gwaith barddonol* O. Wynne Jones, Talysarn [1877], y Noson Lawen :

Hen arfer Hafod Lwyfog
 Er dyddiau "Cymru fu,"
 Oedd adrodd chwedlau wrth y plant
 Ar hirnos gauaf du :
 Un hynod iawn oedd Neina
 Am gofio naw neu ddeg
 O'r pethau glywodd gan ei nain
 Am gampau'r Tylwyth Teg
 Wrth gribo gwlan ddechreunos,—
 A'i merch yn diwyd wau,—
 A'r gŵr yn diwyd wneyd llwy bren
 Neu ynte efail gnau :
 Ond Teida oedd y goreu
 Am hen gofiannau gwlad,
 Y rhai a ddysgodd yn y cwm
 Wrth gadw praidd ei dad.

Canent benillion gyda'r tannau tebyg i hyn¹ :—

Bachgen bach o Felin y Wig,
Welodd o erioed damaid o gig,
Gwelodd falwen ar y bwrdd,
Cipiodd i gap a rhedodd i ffwrdd.

Caru yn Nghaer a caru yn Nghorwen,
Caru yn Nyffryn Clwyd a Derwen,
Caru mhellach dros y mynydd,
Cael yn Nghynwyd gariad newydd.

Neidiodd llyffant ar ei naid
O Lansantffraid i Lunden,
Ac yn ei ol yr eilfed waith
Ar ganllaw pont Llangollen ;
Ond lle disgynnodd y drydedd waith
Ond yn nghanol caerau Corwen.

Dyfrdwy fawr ac Alwen
A aeth a defaid breision Corwen,
I'w gwneud yn botes cynef coch
I blant a moch Llangollen.

Ni allaf wneuthur yn well na gadael i “Lasynys” ddisgrifio'r Noson Lawen fel y'i ceir yn “*Cymru Fu*” “Llyfrbryf,” 1864. Tebyg oedd ym mhob rhan o Gymru.

“Awn i Gowarch, ac arhoswn yn yr Hafod noson gyfan. Ym mha le y cawn dammaid a llymmaid, neu “wlyb a gwely,” chwedl pobl chwarelydd? Pob peth yn iawn, dim ond myned i Gowarch? Cwm ydyw Cowarch tua dwy filltir o hyd, afon wrth gwrs yn rhedeg drwy ei ganol, a digon o frithylliaid ynddi bob amser. Tai bob ochr i'r Cwm; rhai a'u talceni i'r allt, ac ambell un a'i gefn yno. Math o *wtra*, nid ffordd na llwybr sydd yno, yn dirwyn ar draws ac ar hyd, nes ein dwyn i le gwastad a fu unwaith yn fawnog, ond erbyn hyn sydd gyttir gwastadlyfn. Ym mhen uchaf y Cwm saif craig anferth fel mewn blys syrthio bob munud. Y mae ganddi hên wyneb

¹ *Casgliad o lén-gwerin Meirion*, gan William Davies, yn “Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Blaenau Ffestiniog, 1898.” (1900).

hagr-bygythiol ! Ond o dan ei gên, y mae'r Hafod. Hên dy hir-groes, heb weled erioed galch ond o bell yw'r lle : ond awn i mewn. Mae yno groeso calon i bob gwyneb byw bedyddiol. Y mae hynny yn rhywbeth onid ydyw ? Nid ofnem na chaem weled peth newydd—mae pob peth i'r teithydd yn newydd pan y mae yn y mynyddoedd. Sut le yw'r Hafod ? Y mae yno globen o gegin fawr, a simneu gymmaint a pharlwr go lew : a thwll mawn ddigon o faint i roi gwely ynddo pe buasai angen. Pan gurasom yn y drws fe'n hattebwyd yn *gyfarthiadol* gan ryw haner dwsin o gorgwn blewog, a dau ddaear-gi neu dri. Ond daeth rywun at y drws, a chawsom wrth ysgwyd llaw ysgwyd calon hefyd : nid ryw hên ddefod lugoer moni hi yma ; ond y mae y galon i'w theimlo yn curo yn y bysedd ac yng nghledr y llaw. Wedi cael maidd a brechdan fara ceirch teneu, yr ydym am drin y byd ei helyntion a'i gofion. Y mae'r tân yn olwyth, a'r fflammau yn chwyrnu wrth ymryson esgyn ! Ninnau, ddau o honom, yn eistedd mewn dwy gadair freichiau ; un o dderw du, a'r llall o fasarn gwyn. Gyferbyn a ni, sef yw hynny am y tân, yr oedd f'ewyrth Rolant, yn siarad ac ar yr un pryd yn trin ei ysturmant. Y mae modryb Gwen a'i golwg lawen tua'r cwppwrdd tri-darn yn chwilio am gwyr i rwbio bwâ ei ffidil ; ac y mae'r mab hynaf yn cyweirio ei delyn yn ymyl y bwrdd mawr. Er mai pur debyg i hên wydd yn clegar am geiliogwydd y byddwn yn ystyried nâd annifyr y *Glarioned* bob amser ; etto yn yr Hafod,—yng nghesail y mynyddoedd, yr oeddym yn foddlon i ddygymmod hefog unrhyw fath o offer cerdd. Wedi dod i'r kannwyllau yn eu lleoedd priodol, a thaclu'r tân a rhoi pob peth yn ddel ac yn deidi, cafwyd *unawd* ar yr ysturmant gan ôr y ty. Er fod y pren almon wedi blodeuo ar ei ben er's llawer blwyddyn, ac ôl ewinedd miniog amser ar ei ruddiau ; etto chwareuai ei offeryn bach yn dda-ddigrifol. "Twt Roli," ebe Modryb Gwen, "dyro'r goreu iddi hi bellach ; tyr'd am *Ddifyrwch Gwyr Dyfi*," ebai wrth y Telynor, a *deuawd* cywrain a gawsom ; ac ar ol hyn caed *Cyd-gân* : yr ysturmant a'r delyn, y crwth a'r *glarioned* : y ffeiff a thwmbarîn gan Deio Wmffra ! Yr oedd y ty yn dda-sain, a phawb yn gwneyd ei waith fel y dylasai. Ar hyn dyma rywun yn curo yn drws, a phwy oedd yno ond Deio Puw. Hên law digrif iawn. Byddai yn d'od i'r Hafod bob rhyw dair wythnos yn ei gylch er's cryn ddeugain mlynedd,

ac hen fachgen doniol lawen oedd efe hefyd. Medrai adrodd holl chwedlau ysprydion y fro, a chwareu ffidil yn hylaw. Wedi cael tŷn ar y ffeiff,—un wyllt-siongc-nwyfus,—dyma modryb Gwen yn gwaeddi yr eiltro, “Roli tyr’d i’r llawr,” a’r hên wŷr yn ufuddhau i’r alwad mewn munud; er danghos hyn, dyna fo yn taflu ei ddwy gloesan, ac yn piccio atti hi i agor y *ddawns*! Yr oedd yno o leiaf *saith* o honynt wrthi hi yn ysgwyd eu berrau yn hwylus heinyf! Hên ac ieuangc yn ymddifyru gyda’r un ynni ac awydd a’u gilydd! Ar ol cael eu gwala o glettsio eu traed: eisteddwyd wed’yn a chaed cystal dysglaid o dê, ac a dywalltwyd erioed drwy big y tebot! Yn wir yr oedd te’r Hafod yn dda! Pawb yn un a chyttun heb air garw na golwg sarug! Ar ôl hyn caed canu hefo’r *tannau*. Pawb yn hyddysg ar y gwaith o’r ieuengaf hyd yr hynaf, ac nid oedd fawr o berygl cael mesglyn allan o’i le yn eu gwaith. Holwyd hwy a fyddent yn arfer cael noson felly yn fynych, a chaed ar ddeall mai dim ond ryw deirgwaith yn yr wythnos! Fel hyn yn sŵn awen, cân, a thelyn, y mae’r teulu yma’n treulio eu hoes. A thyma beth arall, pan ddaw hi’n amser *cadw dyledswydd* nid oes neb *dwysach* a *thaerach* wrth orsedd gras na f’ewyrth Rolant pan fydd ar ei liniau;—nac un sydd *ryddach* ei chalon, *burach* ei moes, a *glanach* ei thafod, na modryb Gwen. Ni ddaw cardottyn byth i’r drws heb gael ei ddiwallu; ni ddaw’r un o blant tylodion y mân deïos yno heb gael am ddim caniad o laeth tew a chlewtau o frechdan: yn y gwyliau, llawer dafad dda a rennir yno, a thrwy gydol y flwyddyn, gellir dweyd am yr Hafod hefo’r anfarwol IEUAN BRYDYDD HIR, pan dorres allan fel hyn:—

Agor dy drysor dod ran—yn gallwch

Tra gelli i’r truan:

Gwell ryw awr golli’r arian,

Na chau’r god, a nychu’r gwan.”

Y NOSWAITH WEU

Hyd ryw drigain mlynedd yn ôl, yr oedd y Noswaith Weu yn sefydliad pwysig yn hanes bywyd teuluaid Cwm Eithin. A dichon nad anniddorol fydd disgrifiad gweddol fanwl ohoni, gan ei bod erbyn hyn wedi myned o’r ffasiwn yn lân, a chyfan-gorff y genedl heb wybod dim o’r hanes, fel llawer o bethau

eraill a fu'n elfennau pwysig yn ffurfiad bywyd gwledig Cwm Eithin. Ni wn pa mor gyffredinol oedd y noswaith weu dros Gymru: a oedd hi yn gyfyngedig i'r cymoedd, neu a gynhelid hi o dan ryw enw arall mewn rhannau eraill o Gymru? Clywais mai "Ffrâm" y galwai pobl Llanuwchllyn hi. Mae'r enw hwnnw yn ddirgelwch hollol i mi. Noswaith Weu y galwem ni hi. Dywedir am yr Hybarch Ddafydd Cadwaladr iddo ddysgu darllen wrth sylwi ar y llythrennau ar y defaid o gylch ei gartref—Erw Dinmael; ac ar ôl iddo fod yn hogyn ym Mhlas Garthmeilio, iddo fyned yn was bach i Nant-y-cyrtiau, a'i fod erbyn hynny wedi dysgu'r *Bardd Cwsc* a *Taith y Pererin* ar ei gof, a bod galw mawr arno yng Nghwm Tir Mynach i adrodd darnau ohonynt yn y Nosweithiau Gweu. Ac os oedd y trigolion yn mwynhau y rhai hynny, nid oeddynt yn isel iawn eu moes na'u meddwl. Mae Cwm Tir Mynach agos cyn nased i Lanuwchllyn ag ydyw i Gwm Eithin. Pa fodd na cheid yr un enw yno sydd ddirgelwch. Ond rhai gwreiddiol iawn yw pobl Llanuwchllyn. Tebyg eu bod wedi gweled rhyw un yn rhoi hosan ar y gweill a'i gweled yn debyg i ffrâm wyntyll ar ei gogwydd.

Cynhelid ambell Noswaith Weu yn fy amser i, ond yr oedd yr hen sefydliad annwyl yn dechrau edwino. Yr oedd y ddarlith, y cyngerdd a'r cyfarfod cystadleuol yn dechrau ennill eu lle, a'r hen ffurf ar adloniant o dan ryw fath o gondemniad. Cofiaf yn dda iawn un Noswaith Weu yn fy hen gartre pan oeddwn hogyn bach, fy nain yn llywyddu. Mynnodd gael un yn fuan ar ôl i ni symud i Gwm Eithin o Gwm Annibynia. Yr oedd wedi bod yn sefydliad cyson yn ei hen gartref—Pentre Gwernrwt—pan oedd hi'n ieuanc, a dyna ei ffordd hi o'i *hintrodiwsio* ei hun i ardal newydd: gwahodd y merched a'r bechgyn ieuainc i Noswaith Weu. Yr wyf yn meddwl mai dyna'r un olaf a gynhaliwyd yng Nghwm Eithin, ac efallai yr olaf yng Nghymru. Y peth tebycaf iddo, mae'n debyg, yn ein dyddiau ni yw'r *At Home* a gynhelir yn nhai'r mawrion.

Nid oedd bron yr un capel Ymneilltuol o fewn y wlad gant a deugain o flynyddoedd yn ôl. Nid oedd y cyngerdd na'r ddarlith wedi eu geni. Nid oedd ond ychydig o wasanaeth crefyddol yn y llannau ar y Sul. Nid oedd y werin yn myned i'r eisteddfod, dim ond ychydig o feirdd a llenorion. Nid oedd gan y bobl gyffredin unrhyw fan cyfarfod ond y dafarn. Ond ar nosweithiau hirion y gaeaf yr oedd y Noswaith Lawen a'r Noswaith Weu. Ni fûm erioed mewn Noswaith Lawen. Credaf

mai'r gwahaniaeth rhyngddynt oedd fod y Noswaith Lawen yn cael ei chynnal fel rheol yn y ffermydd mawr lle y byddai cegin helaeth, neu o'r hyn lleiaf lle fel Hafod Lom a digon o le ynddo i "ganu cainc ar fainc y simne." Ond am y Noswaith Weu, gellid ei chynnal hi mewn tyddyn bychan neu fwthyn y gweithiwr, ac felly yr oedd yn sefydliad mwy cyffredinol na'r Noswaith Lawen. Yr oedd felly yn y rhan o'r wlad y cefais i fy nwyn i fyny ynddi.

Pan benderfynai teulu gael Noswaith Weu, y gwaith cýntaf oedd penderfynu pwy i'w gwahodd. Dibynnai'r nifer ar faint y tŷ, ac adnoddau'r gwahoddwyr. Fel rheol merched a llanciau ieuainc fyddai'r gwahoddedigion. Byddai gwraig y tŷ wedi bod yn brysur trwy'r prynhawn yn paratoi'r wledd, gwneud *leicecs* a chrasu cacen ar y radell, ac un o'r plant wedi bod yn y pentref yn nô! torth wen a phwys o siwgrwr lôff, ac erbyn y deuai'r gwahoddedigion byddai popeth yn barod. Y merched a ddeuai i mewn gyntaf. Arferai'r llanciau loetran ychydig ar ôl. Pan geid pawb i eistedd, gwelid y merched i gyd yn hwylio i weu, pob un â'i hosan a'i gweill a'i phellen edau, a deuai ambell lanc â'i weill a'i bellen edau i weu gardas er mwyn hwyl. Ond ychydig iawn a dyfai'r sanau yn y Noswaith Weu, oherwydd byddai straeon digrif y llanciau a'u gwaith yn tynnu'r gweill o dan y pwythau yn eu rhwystro.

Yn ddigon aml byddai ambell hen frawd ychydig diniweitiach na'r gweddill, neu a gymerai arno ei fod felly, ac a fedrai arogleuo Noswaith Weu o bell, a deuai am dro i edrych am y teulu y noswaith honno heb wybod dim am yr amgylchiad er mwyn o bosibl cael rhan o'r wledd, ac anaml y methai â chael gwahoddiad i mewn. Clywais am un, Wil y Cwmon, a arferai wneuthur felly. Un tro, wedi iddo gael dod i mewn i wledd fras, estynnwyd platiad mawr o *leicecs* iddo yn nofio mewn ymenyn gan un o'r merched ieuainc oedd wedi gweld peth felly yn cael ei wneud yn rhywle, yn lle yr hen arferiad o ddywedyd, "Dowch, cyrddwch ato, gwnewch fel pe baech chi gartre; mae'n ddrwg iawn gen i na fase geni rwbeth gwell i gynnig i chwi; mae arna i ofn nad ydi'r *leicecs* ddim yn neis." Ond gan nad oedd Wil yn deall y ffrasiwn newydd gafaelodd yn y plât, rhoddodd ef ar y pentan yn ei ymyl, a bwytaodd y cwbl.

Gofelid bob amser am gael digrifddyn neu un da am ddywedyd straeon, a cheid toreth o straeon Tylwyth Teg a straeon am ysbrydion. Fel rheol adroddid digon o'r diweddf i beri gormod

o ofn ar y merched fyned adref eu hunain, a châi'r llanciau esgus i fyned i'w danfon. Ceid llawer o hanes yr ardal ynddynt, megis pwy oedd cariad hwn neu hon. Weithiau âi sôn allan fod Miss Jones, y Fron, a John Morus, mab yr Hendre, yn caru, ond byddai'r ddau mor slei fel yr oedd yn amhosibl cael sicrwydd. Nid oedd hafal i'r Noswaith Weu i gael allan ai gwir ai gau y stori. Gwahoddid y ddau : byddai'r ferch i mewn yn gyntaf, a gofelid bod rhywun a fedrai ddarllen arwyddion i mewn. Fel y gwyddys fe gaiff pob merch ieuanc *electric shock* pan ddaw ei chariad i mewn i ystafell, neu felly yr oedd merched cyn dyddiau'r *Suffragettes*. Caiff ambell un hi yn drom iawn, a rhaid iddi wneud rhywbeth i ollwng y *current* allan. Os bydd plentyn bach yn ymyl, gafaela ynddo a chofleidia ef, neu os cath fydd gafaela yn honno a theifi hi i fyny ac i lawr. Oni chymer y ffurf honno, mae'n sicr o ddangos yn lliw yr wyneb. Ar amgylchiad felly byddai rhyw William Hendre Bach yn gwylio'r symudiadau, ac os gwelai arwydd, gofynnai i wraig y tŷ, "Be ydi'r achos fod Miss Jones y Fron wedi coch, Mrs. Jones?" "Be, ydi hi wedi coch, William?" "Wel ydi siwr, 'dat i chlustia. Ysgwn i ydi ei chariad hi yn rhywle o gwmpas, tybed?" Gomeddai lledneisrwydd a chymdogaeth dda ddilyn y mater ymhellach ar y pryd, ond byddai'r stori wedi ei chadarnhau.

Am y Noswaith Weu, dyfynna Syr John Rhys yn ei *Celtic Folklore, Welsh and Manx*, 1901, a ganlyn o eiddo William Jones, Llangollen :—

"I was bred and born in the parish of Beddgelert, one of the most rustic neighbourhoods and least subject to change in the whole country. Some of the old Welsh customs remained within my memory, in spite of the adverse influence of the Calvinistic Reformation, as it is termed, and I have myself witnessed several Knitting Nights and Nuptial Feasts (*Neithiorau*), which, be it noticed, are not to be confounded with weddings, as they were feasts which followed the weddings, at the interval of a week. At these gatherings song and story formed an element of prime importance in the entertainment at a time when the Reformation alluded to had already blown the blast of extinction on the Merry Nights (*Noswyliau Llawn*) and Saints' Fêtes (*Gwyliau Mabsant*)."

PENNOD XIII

HEN DDEFODAU AC ARFERION

II

WED'-BO-NOS

HEBLAW'R Nosweithiau Llawen pan ymgasglai nifer o gyfeillion at ei gilydd, yr oedd gan ein tadau ffyrdd eraill o dreulio eu horiau hamdden yn fuddiol, diddorol, a llawen ymysg eu teuluoedd. Hyd yn oed pan na fedrai ond ychydig ddarllen ac ysgrifennu, "difyr oedd yr oriau." Yr oedd adrodd straeon am y Tylwyth Teg, am ysbrydion a drychiolaethau, am wrhydri'r hynafiaid, canu hen alawon a chanu'r delyn, mewn bri mawr. Pwy mor ddedwydd â'r hen ŵr mwyn, onid e? Fe'u difyrrai llawer eu hunain gyda gwaith llaw. Os gallai un ddarllen, byddai ef wrthi'n darllen y Beibl neu ryw lyfr megis *Taith y Pererin* neu arall. Yn fy amser i yr oedd "*Y Faner*" yn treiglo o dŷ i dŷ ac yn cael ei darllen yn uchel gan ryw un er budd y teulu. Darllenai fy nhaid lawer yn uchel bob amser. Darllenodd gannoedd os nad miloedd o benodau o'r Beibl yn fy nghlyw. Ac oni fyddwn yn darllen fy hunan neu'n dysgu ysgrifennu, fe'm difyrrwn fy hun yn hollti delt ac yn gwaelodi'r rhidyll neu'r gogor, gwneud basged, gwneud ysgub fedw neu lings, gwneud llwy bren, pilio pabwyr i wneud canhwyllau brwyn, gwneud trap i ddal y twrch, gwneud ffon neu wn saeth a gwn papur, fel y gwnâi'r bechgyn ar bob aelwyd o'r bron, tra byddai'r merched yn nyddu neu'n gweu eu gorau, y gweill yn mynd cyn gyflymed â gwennol gwehydd.

Diau y bu noswaith pilio pabwyr yn achlysur gan y trigolion i gyrchu i dai ei gilydd, a gelwid hi'n "Noswaith Bilio"; ond nid wyf yn cofio am Noson Bilio yn fy amser i. Erbyn hynny yr oedd canhwyllau gwêr wedi dyfod yn bur gyffredin. Dywaid Syr John Rhys yn *Celtic Folklore, Welsh and Manx*, iddo gyfarfod â Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon, a ddywedai fel y canlyn:—

Story-telling was kept alive in the parish of Llanaelhaearn by the institution known there as the *pilnos*, or peeling night, when the neighbours met in one another's houses to spend

the long winter evenings dressing hemp and carding wool, though I guess that a *pilnos* was originally the night when people met to *peel* rushes for rushlights.

Er nad wyf yn cofio Noswaith Bilio pan ddeuai cymydogion at ei gilydd, er hynny, mi fûm yn pilio pabwyr am ddarn o noswaith ugeiniau o weithiau, a llosgwyd miloedd o ganhwyllau brwyn yn fy nghartref a chartrefi eraill Cwm Eithin yn fy amser i. Gwaith digon difyr oedd pilio pabwyr ar ôl ei ddysgu fel y gallech wneud heb dorri'ch bysedd a gwneud bylchau yn y mwydion. Oherwydd fe dyrr pilyn pabwyr eich bys at yr asgwrn oni fyddwch yn ofalus. Wedi cael corniaid o babwyr, torri eu blaenau, dechrau eu pilio o'r bôn, a gadael un pilyn tua 1/16 modfedd i wneud asgwrn cefn i'r gannwyll, ei throchi hi mewn ychydig wêr toddedig yn y badell ffrio, byddai'n barod yn fuan i'w goleuo. Gwneid llond dil ohonynt ar unwaith fe



Canhwyllbren Cannwyll Frwyn.

Adgynhyrchwyd o'r *Guide to the Collection of Welsh Bygones*, 1929, trwy ganiatâd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

rheol. Wedi ei goleuo, byddai raid symud y gannwyll bob rhyw bun munud gan y byddai wedi llosgi at y ganhwyllbren, oni fyddech yn ei dal yn eich llaw i ddarllen.

Yr oedd y gannwyll wêr yn prysur ddisodli ei rhagflaenydd y gannwyll frwyn yn fy nghof i, yn enwedig yn y ffermydd, pan ellid fforddio i ladd mochyn at iws y teulu. Defnyddid y gwêr creifion i wneud canhwyllau. Cedwid y flonegen i wneud tost lard a thymplen siwed, bwyteid y creision yn aml, hyd yn oed o'r creifion. Yr oedd merched i'w cael yn myned o gwmpas y tai i wneud canhwyllau yn union ar ôl amser lladd moch, ddechrau'r gaeaf; gwelid hwy yn myned o gwmpas â'u hofferynnau gyda hwy, sef dau bolyn main, oddeutu saith neu wyth troedfedd o hyd, tebyg i *clothes props* a ddefnyddir yn ein dyddiau ni lle nad oes gwrych i sychu'r dillad, a bwndel o briciau canhwyllau oddeutu dwy droedfedd o hyd a thewdwr bys. Ar ôl cyrraedd, gosodid y polion i orffwys eu pennau ar ddwy gadair oddeutu deunaw modfedd oddi wrth ei gilydd. Tra byddai'r gwêr yn toddi ar y tân, cymerid pellen o wic; torrid hwnnw tua deunaw modfedd o hyd; plygid yn ei ganol am fys un llaw, tra cydid yn ei ben â'r llaw arall, a rhoddi ychydig o dro ynddo a rhoddi'r pric canwyll drwy dwll y bys. Pan geid deg neu ddeuddeg ar y pric, ryw ddwy fodfedd oddi wrth ei gilydd, gosodid y priciau ar draws y polion oddeutu tair modfedd oddi wrth ei gilydd. Yna tywelltid y gwêr i badell neu bot llaeth llydan; yna dechrau yn un pen i'r rhes, a'u trochi yn y gwêr; a byddai rhaid gwneud hynny ugeiniau o weithiau cyn y ceid y gannwyll yn ddigon tew. A chymerai'r gorchwyl gryn oriau. Ychydig iawn o bobl a feddyliai am brynu canwyll yr amser honno; ond y mae'n debyg mai prynu canhwyllau y mae pawb erbyn hyn, ac nad oes neb yng Nghwm Eithin a fedr wneud canwyll frwyn nac un wêr; a phe bai'r cyflenwad o'r siop yn pallu oherwydd rhyw achos, fe fyddai'n dywyllwch mawr yno.

HEN ARFERION NOS GALANGAEAF

Ymddengys fod Gŵyl Nos Galangaeaf yn un hen iawn yng Nghymru. Ond yr oedd bron wedi colli ei gafael yng Nghwm Eithin yn fy nghof cyntaf i; ychydig rhagor o sylw a wneid ohoni nag a wneir yn awr. Cofiaf ambell gofcerth yn cael ei goleuo ar y topiau. Ac yr oedd i'r afalau a'r cnau le pwysig:

ymysg y plant, fel yn ein dyddiau ni. Yn nhraethawd Charles Ashton ar *Fywyd Gwledig yng Nghymru ddechreu y ganrif o'r blaen*, mae erthygl bur faith ar "Nos Calangaeaf."¹ Ysgrifennai Charles Ashton yn 1890. Ni allaf wneud yn well na dyfynnu ychydig ohoni:—

"Yr oedd Nos Calangaeaf yn noson bwysig hefyd. Ac nid oedd ein teidiau yn esgeulus o gadw yr hen ddefod o gyneu tanau ar y noson hon, pryd yr elent yn lluoedd i'r ffriddoedd a'r brynau cyfagos i wneuthur coelcerthi o redyn ac eithin. Dywedir wrthym fod yr arferiad hwn mor hyned ag amser y Derwyddon; ac mai dyben y tanau oedd boddhau y duwiau, er na ddywedir pa lês a ddeilliai iddynt trwy hyny. Yr hen syniad uniawngred oedd y dylid diffodd y tân yn mhob aelwyd ar y noson hon, a'i ail gyneu gyda phentewyn a ddygent adref o'r goelcerth, ac ychydig a fyddai llwyddiant yr hwn a esgeulusai gymeryd o'r tân cysegredig. Ond er cryn lawer o holi methasom a chael allan fod y rhan bwysig hon o'r seremoni yn cael ei chadw i fynu o fewn cyfnod ein testun. Ond y mae amryw yn cofio am yr "hwch ddu gwta" a fyddai yn ymlid y werin anwybodus adref oddiwrth y goelcerth. Y diafol ei hunan, mewn rhith hwch ddu â chynffon gwta, ydoedd yr ymliidiwr. Ac o bosibl na fyddai ei gynddaredd yn erwin yn eu herbyn y pryd hwn am eu bod newydd foddhau yr ysbrydion da. Nid oes dros dri ugain mlynedd er pan yr oedd pobl yn credu fod gan yr hwch ddu nodwyddau blaenllymion gyda'r rhai y byddai yn trywanu yr hwn a fyddai yr olaf yn myned dros ben camfa."

Felly rhedai a rhuthrai pawb fel ag i beidio â bod yn olaf anffortunus. Tebyg mai dyma'r dybiaeth a roddodd fod i'r hen ddywediad, "Nos galangaea', bwgan ar ben pob camfa." Ond er gwaethaf yr hwch ddu, a'r bwganod, mynnai'r bobl wledig ychwaneg o ddifyrrwch wedi cyrraedd adref. Dechreuid y gweithrediadau trwy i'r bechgyn godi afalau o lestraid o ddwfr am y gorau. A chaffai pawb hynny o afalau a lwyddent i'w codi yn y ffordd hon. Y mae digon yn cofio'r arferiad o godi afalau o'r dwfr, ond ni all neb benderfynu pa bryd y sefydlwyd y ddefod.

¹ *Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Bangor 1890.* (1892).

YR WYLNOS

Bûm mewn gwylnos droeon pan oeddwn yn hogyn yng Nghwm Eithin. Fel y canlyn y dywaid William Davies yn *Llen Gwerin Meirion*¹ amdani :—

“Nid ydym heb gredu fod ein teidiau a’n neiniau yn teimlo mor ddwys ag ydym ninau wrth golli eu perthnasau a’u cyfeillion, ond yr oedd ganddynt ffordd ryfedd i ddangos eu teimladau —yr oedd y cynulliadau hyn ar ddechreuad y ganrif yn warth i ddynoliaeth. Y mae yn wir y cynelid rhyw gymaint o gyfarfod gweddio yn rhai ohonynt gynt. Ond ar ol myned trwy y gwaith hwnw, eisteddai y rhai fyddent wedi ymgynull yn nghyd, neu o leiaf lawer ohonynt, i yfed cwrw a chwareu cardiau. Yr oedd chwareu cardiau yn hynod boblogaidd yn Nghymru yn nechreu y ganrif bresenol, ac yr oedd yn foddion difyrwch mewn modd neilltuol mewn gwylnos. Hysbyswyd ni gan un a fu mewn gwylnos mewn ty yn mhlwyf Llanymawddwyer’s oddeutu deng mlynedd a thriugain yn ol, [sef tua 1820] iddi weled y chwaraewyr, o ddiffig bwrdd cyfleus, yn chwareu ar gaead yr arch. Dichon mai eithriad oedd y tro hwn, ond yn ol yr hyn a ddywedwyd wrthym, yr oedd gwylnosau y rhan gyntaf o’r ganrif yn Nghymru yn ddigon tebyg i *wakes*, neu wylnosau y Gwyddelod yn y dyddiau hyn.”

Darlun du iawn a geir gan Robert Jones, Rhoslan, o’r gwylnosau. Dywaid yntau mai ychydig oedd y galar ar ôl y meirw, ond y rhai a fyddai’n marw yn ganol oed ac yn gadael nifer o blant ar eu hôl. A rhydd hanes rhyfedd iawn am wylnos i hen ferch. Ymddengys na theimlai ein tadau fawr o golled ar ôl hen lanciau a hen ferched. Ni wn a fu’r gwylnosau mor baganaidd erioed yng Nghwm Eithin ag yr ymddengys eu bod yn Llanymawddwy a Sir Gaernarfon. Yr oeddynt yn wahanol iawn yn fy nghof cyntaf i. Ni welais i erioed gwrw na chardiau mewn gwylnos; cyfarfodydd gweddio dwys iawn oeddynt ymysg yr ymneilltuwyr ac anerchiad neu bregeth gan y person ymysg yr eglwyswyr. Yr olaf y bûm ynddi oedd un i hen wraig Tŷ’n Twll yn 1872, “Elis Wyn o Wyrfai,” yn gweddio ac yn annerch. Yn un o’i

¹ *Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Blaenau Ffestiniog* 1898. (1900).

“Chwech canig Cymru Fu” ceir darlun byw iawn gan “Bryfdir” o’r wylnos yn ei gwahanol agweddau. Fel y disgrifir hi yn y ddau bennill a ganlyn y cofiaf hi¹ :—

I’r Wylnos gyda’r lliaws
 Ni awn yn ddifrif ddwys,
 Gan feddwl cyn i angau
 Orddiwes ein crwydriadau
 Am “Graig” i roi ein pwys.

Mae’r Weddi’n trochi’i hadain
 Yn nyfroedd galar prudd,
 A’r Emyr fel pererin
 Yn cerdded trwy y ddrychin
 A chwilio am y dydd.

Anodd iawn esbonio hyfdra’r hen Gymry ym mhresenoldeb y marw, a hwythau mor ofergoelus gyda golwg ar ymddangosiad ysbrydion yr ymadawedig. Clywais fy nhaid yn adrodd lawer gwaith mai un o’r prif chwaraeon yn y Cwm ar ôl y gwasanaeth fore Sul fyddai llamu ar y cerrig beddau. Yr oedd gan fy nhaid frawd tal o’r enw Owen Barnard, oedd yn ben campwr yn y chware, ac a gloffwyd am ei oes yn un o’r ymdrechfeydd. Ond y mae’n sicr y buasai mwyafrif y chwaraewyr a’r edrychwyr yn crynu wrth basio’r fynwent yn y nos.

CERDDED Y TERFYNAU

Yr oedd yr arferiad yng Nghwm Eithin pan oeddwn yn hogyn i gerdded y terfynau, sef y terfyn rhwng y plwyfi a’i gilydd, a rhwng y siroedd a’i gilydd. Gwneid hynny bob rhyw nifer o flynyddoedd. Nid wyf yn sicr pwy oedd yn gyfrifol am y gwaith. Mae’n debyg mai’r *overseer*, a’i fod yn hen arferiad. Nid oedd yr *ordnance maps* wedi eu cwblhau mae’n debyg yr adeg honno, ac yr oedd rhaid bod yn sicr pa faint o’r tir oedd yn perthyn i bob plwyf fel y gellid ei drethu. Cofiaf y fintai yn myned o gwmpas—dau neu dri o hen bobl a dau neu dri o ddynion ieuainc; felly sicrheid y terfynau o oes i oes.

¹ *Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaetbol Aberpennar, 1905.*

DEFOD PRIODAS

Ceir cryn lawer o hanes defod priodas yn *Yr Hynafion Cymreig*, gan Peter Roberts, a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin yn 1823.

Wedi i fab a merch benderfynu priodi, anfonid cyfaill i'r mab ieuanc i ofyn y ferch gan ei thad. Wedi cytuno ar y dydd, anfonid y gwahoddwr i'r wledd allan. Âi yntau o gwmpas yr holl gymydogeath i wâdd pawb i'r briodas gyda rhigwm hir o farddonaeth neu anerchiad tebyg i'r un a ganlyn :

“Gan ein bod ni yn bwriadu cymeryd arnom yr ystâd o Lân Briodas, ar ddydd Iau, y 18fed o Ragfyr nesaf, ein cyfeillion a'n cefnogant i wneud NEITHIOR ar yr achlysur yr un diwrnod, yr hon a gedwir yn Nhŷ Tad y Ferch Ieuanc yn Heol-y-Prior, yr hwn a adnabyddir wrth yr arwydd Geffyl Gwyn ; yno y gostyngedig ddeisyfir eich llon gyfeillach, a pha Rodd bynag a weloch fod yn dda ein cynnysgaethu â hi, a dderbynir yn ddiolchgar, ac a ad-delir yn llawen, pa bryd bynag y galwer am dani ar yr unrhyw achlysur,

Gan eich gostyngedig Weision,

A.B.

C.D.”

Y mae Rhieni y Mab Ieuanc, a'i frodyr a'i chwiorydd, yn dymuno i bob Pwythion ag sydd yn ddyledus iddynt hwy, i gael eu dychwelyd i'r Mab Ieuanc ar y diwrnod rhag-ddywededig, a hwy a fyddant yn dra diolchgar am bob Rhoddion ychwanegawl—Hefyd y mae rhieni y ferch ieuanc yn dymuno i bob pwythion ag sydd yn ddyledus iddynt hwy i gael eu dychwelyd i'r ferch ieuanc ar y diwrnod hwnnw, a hwy a roddant eu diolchgarwch gwresocaf i bob un a ddanghoso unrhyw garedigrwydd ychwanegawl iddi.”

Aent i'r eglwys ar gefnau eu ceffylau, a chymerai'r ferch ieuanc a'i chyfeillion arnynt geisio dianc rhag y gŵr ieuanc, a diau i galon aml eneth guro'n gyflym rhag ofn iddynt lwyddo.

Treulient eu mis mêl drannoeth a'r dyddiau canlynol trwy edrych trwy'r pwythion a dderbyniasent, a'u gosod yn eu lleoedd priod yn eu cartref newydd. Ond yr oedd yr arferion uchod wedi diflannu cyn cof i mi, a'r genethod wedi dyfod yn ddigon hy i ddangos eu bod mor awyddus i briodi â'r bechgyn, ac nid cymeryd arnynt ddianc.

Yn ei lyfr *Gleanings from a Printer's File* (1928), y mae Syr John Ballinger yn rhoddi hanes am y dull yma yn gyflawn fel yr oedd yn cael ei arfer yn siroedd canolbarth Cymru, yn enwedig yn Siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin. Hyd y gwyddom nid oes enghraifft ar gael, mewn llawysgrif nac yn argraffedig, o'r *bidding letter* yng Ngogledd Cymru.

DAWNSIO HAF

Ceir darnodiad o'r ddefod hynafol dawnsio haf yn *Y Gwyl-iedydd*, 1823, tudal. 306, gan un a'i geilw ei hun "Callestrwr," fel yr arferid hi yn Callestr (Fflint, mae'n debyg). Ym mis Ebrill arferai o ddwsin i ugain o bobl ieuainc ymuno i baratoi ar gyfer y ddawns. Gwisgai'r dawnsiwr eu crysau yn uchaf wedi eu haddurno ag ysnodennau a blodau. Cariai'r arweinydd fforch bren ar lun y llythyren Y. Gwnïd lliain o'r naill fraich i'r llall, ac addurnid y fforch ag amryw lestri arian, tebotiau, llwyau, cigweiniau, *etc.* Byddai gyda hwy grythor yn ei ddillad ei hun, "cadi" mewn gwisg merch, ac ynfytyr mewn gwisg ryfedd â phlu yn ei ben. Ar y dydd cyntaf o Fai, cychwynent i'w taith o gylch y ffermydd. Pan gyrhaeddent at dŷ, chwaraeai y crythor ei gainc a dawnsiai'r dawnsiwr gan chwyfio cadachau gwynion yn rheolaidd ac ar unwaith. Dechreuai'r ynfytyr ar ei gampau, megis cymeryd arno ddwyn y peth yma a'r peth arall, a gafael yn y plant a'r genethod ieuainc. Yna âi'r "cadi" i'r tŷ ac o gwmpas, ag ysgub mewn un llaw, a math o letwad gasglu yn y llaw arall. Ar ol derbyn rhoddion y teulu aent i le arall, a byddent wrthi am ddyddiau weithiau.

Ceisai'r ysgrifennydd olrhain cychwyn y ddefod yn ôl i'r cyfnod cyn Cristionogaeth, ac iddi gael ei sefydlu er cof am dduwies yn cyfateb i'r dduwies Rufeinig *Flora*.

Gwelais hanes y dawnsio haf yng Ngwyddelwern. Dywedai'r hanesydd fod nifer o ieuencid o Ddyffryn Clwyd yn myned o gylch y wlad i ddawnsio haf, ac iddynt ddyfod i Wyddelwern. Credai ef mai yr un ddefod y cyfeirir ati yn Llyfr y Barnwyr, ii. 21. Pan oedd meibion Benjamin yn fyr o wragedd cynghorwyd hwy i fyned ac ymguddio yn y gwinllannoedd, a gwylio'r merched yn dyfod allan i ddawnsio, ac iddynt gipio bob un ei wraig. Deallaf fod y ddefod mewn arferiad lai na hanner can mlynedd yn ôl mewn rhannau o'r wlad. Dywedodd gwraig, nad yw ond

trigain oed, wrthyf yn ddiweddar iddi gymeryd rhan yn y ddefod droeon pan oedd yn eneth ieuanc o gylch Colwyn a'r parthau hynny.

HEL CALENNIG

Bydd pawb ohonom yn gweiddi " Fy Nghalennig i," ond heb gael dim ond dymuniad am flwyddyn newydd dda yn ol, ac y mae'n debyg nad oes yma nemor ohonom a fu o gylch y wlad yn hel calennig. Yn yr hen amser arferai'r tlodion a'r plant fyned o gwmpas y wlad i hel calennig ar ddydd Calan, a gofalai'r amaethwyr am fara a chaws ar eu cyfer. Cened un neu ragor o'r penillion a ganlyn :—

Calenig wyf yn 'mofyn
Ddydd Calan ddechreu'r flwyddyn,
A bendith fyth fo ar eich tŷ
Os tycia im' gael tocyn.

Calenig i mi, Calenig i'r ffon,
Calenig i fwyta'r noswaith hon :
Calenig i'm tad am glytio'm 'sgidiau,
Calenig i mam am drwsio'm 'sana.

Rhowch Galenig yn galonog
I ddyn gwan sydd heb un geiniog,
Gymaint roddwch rhowch yn ddididig,
Peidiwch grwgnach am ryw 'chydig.

'Nghalenig i'n gyfan ar fore dydd Calan,
Blwyddyn Newydd Dda i chwi.

Os gwrthodid hwy :

Blwyddyn Newydd Ddrwg,
Llund y tŷ o fwg.¹

HEL BLAWD Y GLOCH. CASGLU YD Y GLOCH

Defod hynafol iawn, mae'n ddiâu, oedd hel blawd y gloch. Methais â dyfod o hyd i neb yn Edeirnion yn cofio'r clochydd yn dyfod o gwmpas i hel blawd y gloch, ond bu'r arferiad

¹ Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaetbol Blaenau Ffestiniog, 1898.

hwn ym mhob rhan o Gymru. Dywaid William Davies ei bod hi'n arfer ym Meirion i'r clochydd fyned o gwmpas y ffermydd y cynhaeaf yd i hel ysgub y gloch, ac yr arferai pob amaethwr roddi ysgub neu ddwy iddo. Dro arall âi â'i gwd ar ei gefn pan ddeallai fod y ffermwyr wedi dechrau dyrnu, a dyma oedd ei dâl am ganu cnul ar ddydd angladd.

Cyfeiria "Llyfrbryf" at yr un ddefod yn ei lyfryn *Y Ddau Efell*. Geilw ei arwr "Nicodemus." Aeth dau hogyn at Nicodemus un tro i'r clochdy, pan oedd yn canu'r gloch, i ofyn am eglurhad iddo ar ei waith, pryd y bu ymddiddan tebyg i'r hyn a ganlyn :

"I ba beth y mae *passing bell* yn dda, Nico?" ebe un o'r bechgyn.

Synnodd Nico at y fath anwybodaeth, ac atebodd, "Da i bob peth. Dyna un peth y mae yn dda : I hysbysu'r plwyfolion fod hwn neu hon wedi marw, a bod yr enaid wedi pasio i'r purdan. . . . Hen arferiad dda er dyddiau yr Apostolion a chyn hynny am a wn i." Ac aeth ymlaen, un, dau, tri i wyth, ac yna stopio am funud a dechrau drachefn.

"Pam wyth mwy na chwech neu saith, Nico?" ebe un o'r hogiau drachefn.

"Dyma'r rheol," ebe yntau, "sylwch chwi rwan pan fo gŵr priod wedi marw, 9 tinc ; gwraig briod, 8 tinc ; dyn dibriod, 7 tinc ; merch ddi-briod, 6 tinc ; llanc tan ugain oed, 5 tinc ; lodes, 4 tinc ; baban gwrryw, 3 tinc ; geneth, 2 dinc."¹

Felly galwad ar y plwyfolion i weddio dros enaid yr ymadawedig oedd canu'r gloch, ac ychydig o yd neu flawd oedd tâl y clochydd.

Nid oes gennyf gof i mi glywed y gloch yn cael ei chanu yn ôl rhif. Cofiaf wraig y clochydd—Beti'r gof, fel y gelwid hi—yn myned o gwmpas i hel blawd y gloch. Bùm yn llygad-dyst o'm mam o'i phrinder yn rhoddi llond bowlen o flawd ceirch yn ei ffetan.

HEL BWYD CENNAD Y MEIRW

Yr oedd hon yn hen ddefod. Dywaid "Llew Tegid" mai hel bwyd ddydd gŵyl y meirw a wneid yn Llanuwchllyn. Dydd

¹ Allan o'r *Traethodydd*, Treffynnon, 1875.

Calan Gaeaf oedd y dydd hel bwyd cennad y meirw, ond byddai llawer o dlodion yn parhau i hel am ddyddiau. Dywaid Wm. Davies fod Cynwyd, Corwen, Llansantffraid a Glyn Dyfrdwy wedi bod yn ffyddlon iawn i'r ddefod hon. Cerddai llawer o wragedd tlodion o gwmpas, a gofalai gwragedd y ffermydd bobi a chrasu nifer o deisennau bychain i'w rhoddi, ac i rai fod o gwmpas mor ddiweddar ag 1876. Arferai plant fyned yn gwmnïau i hel bwyd cennad y meirw.

Dywaid fy nai, John Edwards, fod yr arfer yn fyw ym Metws Gwerfil Goch yn 1900, neu ddiweddarach, ac mai dyma'r pennill a'r dôn a ganent wrth hel bwyd cennad y meirw pan oedd yn hogyn yn yr ysgol yno :—

$$\left\{ \begin{array}{l} | m : r, r, f \quad | m : d \\ \text{Dydd da i chi} \quad \text{hedd-iw,} \end{array} \right\}$$

$$\left\{ \begin{array}{l} | m : r, r, f \quad | m : d \\ \text{Bwyd cennad y} \quad \text{meir - w,} \end{array} \right\}$$

$$\left\{ \begin{array}{l} | m : r .f \quad | m : d \\ \text{Da ges i} \quad \text{ym - a} \end{array} \right\}$$

$$\left\{ \begin{array}{l} | m : r .f \quad | m : d \\ \text{Flwyddyn i} \quad \text{hedd-iw.} \end{array} \right\}$$

Cofiaf yn dda i mi fod unwaith yn hel bwyd cennad y meirw yn y Cwm Main, neu Gwm Dwydorth, pan oeddwn tua phump oed. Dechreuasom ar y daith yn Nhaf Mawr. Cawsom globen o frechdan driagl. Bwyteais a allwn ohoni, ond yr oedd darn mawr yn weddill, a'r triagl wedi rhedeg i'm llewis ac ar hyd fy mrat. Nid oedd gennyf ysgrepan i'w rhoddi ynddi, a minnau eisiau myned gyda'r bechgyn i Tŷ Tan y Ffordd, y ddwy Wenallt a Choed Bedo. Yng nghanol fy mhenbleth, gwelais Hugh, mab Tŷ Tan y Ffordd, yn troi tir i wenith, ac am y gwrych â mi. Pan gefais ei gefn, gwthiais trwy'r gwrych a rhoddais y frechdan o dan y gŵys. Meddyliais lawer gwaith fyned i'r cae i edrych a ydyw hi yno.

Er chwilio a holi cryn lawer nid wyf wedi llwyddo i gael unrhyw eglurhad ar yr arferiad hynafol o hel bwyd cennad y meirw.

HEL WYAU'R PASG

Arferid hel wyau'r Pasg yn yr hen amser. Fel y canlyn y dywaid William Davies yn *Nghyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Blaenau Ffestiniog*, 1898:

“Rhyw wythnos o flaen y Pasg, arferai y clochydd fyned o amgylch â basged ar ei fraich i hel “wyau y Pasg,” a byddai y plwyfolion yn ol eu gallu yn cyfranu o un hyd haner dwsin. Byddai ei dŷ yr adeg hon yn un o'r rhai â mwyaf o wyau ynddo o un tŷ yn y wlad. Dywedir mai rhan o dâl y clochydd ydoedd yr wyau hyn am ofalu am y gladdfa.”

COCYN SAETHU

Cynhelid yr hyn a elwid cocyn saethu, sef saethu at nod am y gorau, i gynorthwyo'r rhai wedi cyfarfod â rhyw anffawd, megis damweiniau, a cholledion trwy i anifail farw. Nid wyf yn cofio gweled yr un, ond cofiaf rai yn myned o gwmpas i amcan felly lawer tro. Gelwid hynny yn “hel briff.”

HEL BWYD

Yr oedd yn arferiad hefyd i lawer fyned o gwmpas y wlad i hel eu bwyd. Fe gofiaf rai o'r gwragedd tlotaf neu efallai rai oedd wedi arfer yn eu hieuenctid, yn dyfod o gwmpas yn ddwy a thair i hel eu bwyd. Clywais John Hughes—a fagwyd yng nghymdogaeth Betws y Coed, hynafgwr dros ei bedwar ugain oed, ac wedi treulio'r rhan fwyaf o'i oes yn Llundain, ac a fu â llaw yng nghychwyn eglwysi Walham Green a Clapham Junction, ond sydd erbyn hyn wedi croesi'r terfyn—yn dywedyd y cofiai ei fam yn adrodd ei hanes, iddi hi yn 1817, pan oedd yn eneth bur ieuanc, a nifer eraill fyned o Fetws y Coed i Sir Fôn i gardota blawd. Dywedai eu bod wedi cael gwell cynhaeaf ym Môn y flwyddyn honno nag yng nghymoedd Arfon a Meirion, ac y byddai'r merched, ar ôl dyddiau o hel eu bwyd a hel blawd, yn dychwelyd â llond cwd o flawd ceirch, wedi ei gael gan ffermwyr neu yn hytrach fferm-wragedd caredig Môn. Gelwid Môn yn “Granary Cymru.” Tybed mai dyna'r rheswm iddi gael ei galw yn Fam Cymru, am y byddai tamaid i'w gael yno pan fyddai'r cynhaeaf wedi methu yn y rhannau mynyddig?

Pur ychydig a wyddom ni am galedi'r amseroedd yn nyddiau'r hen bobl. Fel hyn y canodd "Eos Iâl" ar y mater :—

Nid oedd yr hen Gymry
 yn tra arglwyddiaethu
 Ond yn ymddwyn yn dirion
 Tu ag at eu Gweinyddion.
 Ni chai 'r Wenidoges
 Ddweyd Meistar, a Meistres,
 Syr, na Mam hefyd,
 Namyn Fewyrth, a Modryb,
 Pan y byddai heth galed
 yn gwasgu trucinied.
 anfonent eu gweison
 I dai y Cym'dogion,
 a chyflawntent eu hangen
 Gyda gwyneb llawen.
 Er maint o bregethu
 yn awr sydd ynghymru
 Mae cariad rywffodd
 Bron gwedi diffodd,
 a'i gladdu yn farwol
 ymedd yr hen bobol.¹

¹ *Drych y Cribddeiliwr*, gan "Eos Iâl" (Dafydd Hughes), Llansantffraid, 1859.

PENNOD XIV

HEN ARFERION BENDITHIOL I'R TLAWD

YN yr hen amser yr oedd y tlawd a'r gweddol dda allan yn llawer nes at ei gilydd nag ydynt yn awr. Fe ofelid am y tlawd mewn llawer dull a modd. Clywais fy mam yn cwyno mai un o'r pethau gwaethaf a ddaeth i Gymru o Loegr oedd "Mistar" a "Mistres." Yn yr hen amser "F'ewyrth" a "Modryb" yr arferai'r gwas a'r forwyn alw eu meist'r a'u meistres. Teimlai F'ewyrth a Modryb gyfrifoldeb am eu teulu.

GWLANA

Un o'r defodau mwyaf bendithiol i'r tlodion oedd y ddefod neu'r arferiad o wlana. Mae pob lle i gredu ei bod yn hen iawn—pa mor hen, amhosibl gwybod. Cawn sôn yn y Beibl am y lloffa ar ôl y medelwyr, a gorchmynnir i'r ffermwyr beidio â medi cornelau eu meysydd, peidio â chrafangu am y cwbl iddynt eu hunain. "Cofia'r tlawd a'r amddifad." Yr oedd lloffa yn beth pur gyffredin yng Nghymru gan mlynedd yn ôl. Dywaid y Parch. D. G. Williams, Ferndale, yn ei draethawd buddugol yn Eisteddfod Llanelli, 1895, *Casgliad o Lên Gwerin Sir Gaerfyrddin*, fel y canlyn am loffa:—

"Arferai amaethwyr y sir adael i'r tlawd fyned i fewn i gae yd i loffa mor gynted ag y codid yr yd i'w ddâs. Newydd farw mae'r arferiad hon. Cofia dynion cymharol ieuainc hi mewn grym. Gwnai y tlawd gryn dipyn ohoni."

Nid ydwyf fi yn ei chofio mewn grym yn yr ystyr uchod. Arferem ni y plant lleiaf loffa; dyna a fyddai ein gwaith yn ystod y cynhaeaf, ond yn ein caeau ein hunain yn unig y gwnaem hynny.

Yr oedd pob merch deilwng o'r enw yng Nghymru yn medru gweu, a dyna un o brif foddion cynhaliath llawer teulu tlawd. Gellid prynu gwlan am o chwech i wyth geiniog y pwys neu lai, ond yr oedd y swm hwnnw ymhell uwchlaw cyrraedd llawer yr adeg honno. Nid oedd cyflog y tad ond prin ddigon i gael bwyd i'r fam a'r plant. A dibynnai ar y fam i wneud llawer cynllun i gael ychydig o geiniogau i gael dillad, clocs ac esgidiau (os

gellid eu cyrraedd) i'r teulu. Ac un o brif foddion cynhaliaeth oedd gwaith y fam yn "gweu sanau gwerthu." Dibynnai cynhaliaeth y teulu lawer ar gyflymder bysedd y fam yn trin ei gweill. Efallai y dylwn egluro y term "sanau gwerthu" oedd yn hollol ddealladwy i bawb pan oeddwn i yn hogyn. Isel iawn oedd pris sanau gwerthu: deg ceiniog neu un geiniog ar ddeg y pâr. Felly ni ellid fforddio rhoddi llawer o edau nac o lafur ynddynt. Edau ungorn a ddefnyddid fel rheol, a gweill breision, a'u gweu yn llac. Ni fuasent yn para wythnos i Robert y tad a'r hogiau, gyda'u hesgidiau tewion a'u clocs, na fyddai eu sodlau wedi gwisgo a'u bodiau trwyddynt. I wneud sanau cartre, defnyddid edau ddwygorn neu dair cainc, a gweill meinion fel y gellid eu gweu'n glos. Cofiaf y byddai Betsen y Garwyd yn cael hanner coron am bâr o sanau cartre pan nad oedd pris sanau gwerthu yn fwy na swllt a cheiniog. Ond yr oedd sanau gwerthu yn ddifai i hen siopwyr a rhyw hen daclau felly, oedd yn cael eu bwyd heb weithio amdano!

Ond pa fodd i gael gwlan heb arian i'w brynu? Perthynai i'r tlawd ei ran. Ni feddyliai'r hen bobl am ladd eidion, mochyn neu ddafad heb anfon rhyw damaid bach i rai o dlodion y cylch. A'r un fath gyda chynhaeaf y cneifio, yr oedd y tlawd i gael ei ran. Nid oedd gwraig ffarmwr deilwng o'r enw, a chanddi ddiadell gref o ddefaid, na ofalai am roddi dau neu dri chnu o wlan o'r neilltu yn barod erbyn y deuai'r gwlanwyr heibio. Gwir mai'r gwlan garw a geid gan ambell wraig grin-tachlyd, ond ni wrthodai dusw o wlan i'r rhai a alwai.

Gyda bod y cneifio drosodd, cychwynnai gwagedd y gweithwyr ar eu taith, bob yn ddwy neu dair. Galwent ym mhob amaethdy lle'r oedd defaid. Byddai'r arweinydd yn wraig mewn oed, yn deall tymheredd y ffarmwraig. Os byddai gwraig ieuanc yn y fintai, cyflwynai'r arweinydd hi feļ gwraig hwn a hwn, ac yn perthyn i'r rhain a'r rhain. Câr hen gydnabod dusw pur dda, ond tusw bychan a gâr newyddian. Cymerai ddyddiau lawer i gerdded y gymdogaeth; ac erbyn gorffen byddai ganddynt swm pur dda o wlan. Ni synnwn nad fel hyn y treuliodd llawer gwraig ieuanc ei mis mêl. Priodi ddydd Sadwrn, mynd i'r capel y Sul ym mraich ei phriod, ac i'w gartre fo i swper nos Sul. Yna ar ôl i'w phriod fyned at ei waith bore Llun, cychwyn gyda'i mam; ei mam yng nghyfraith, neu ei modryb i wlana. Ffordd ardderchog, onid e? Teithio trwy ei holl gwmwd a gweled llawer lle na welodd o'r blaen, yn awyr

iach diwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf, a chael defnydd sanau iddi hi a'i phriod, a moddion i beidio â dal ei dwylo. Ystyriai'r hen bobl nad oedd dim mwy niweidiol i ferch newydd briodi na dechrau dal ei dwylo.

Yr oedd cylchdeithiau gwlanwyr Cwm Eithin, fel rheol, yn rhyw dair neu bedair milltir o gylch eu cartrefi; ond yr oedd eithriadau. Âi ambell un dros y mynydd. Yr oedd llawer o ffyrdd gan wragedd ffermwyr i estyn y gardod; ambell un yn sarug a chybyddlyd. Weithiau ceid gwraig garedig a'i gŵr yn gybyddlyd. Yr adeg honno, byddai'n rhaid i'r wraig wasgu'r tusw gwlan yn glepyn bach caled os byddai'r gŵr yn ei gwylid yn estyn y rhodd, rhag iddo edrych yn llawer. Dro arall ceid gwraig gybyddlyd, a gŵr rhadlon. Y pryd hwnnw chwelid y tusw allan i edrych yn fawr. Ond fel rheol pobl garedig oedd gwŷr a gwragedd Cwm Eithin, ac estynnid y rhodd yn llawen.

Cofiaf yr hen ddefod o wlana yn dda iawn; gwelais lawer o'r gwlanwyr ar eu teithiau. Goddefer imi roddi darlun o un o'r gwlanwyr wrth ei henw, sef Mari Wiliam, Pen y Criglyn. Nid wyf yn meddwl ei fod yn unrhyw ddirmyg ar neb ddywedyd iddi fod yn gwlan. Bu aml santes loyw wrth y gwaith. Yr oedd gan Mari Wiliam amryw deithiau i wlana—rhaf o gwmpas ei chartref, a thros y Fynyllod ac oddi yno i Gwm Annibynia¹; rhaf y gallai eu gwneuthur mewn diwrnod a dychwel yn ôl at y nos. Ond am y daith y soniaf amdani, yr oedd yn un faith iawn—o'i chartref i flaen un o ganghennau hwyaf Cwm Eithin, pellter o tua phymtheng milltir. Pan fyddai'n mynd i'r daith honno, ni alwai yn y ffermydd o gylch ei chartref. Dechreuai o du ucha pont neilltuol gyda'i chefnder, gan gadw ar ochr cilhaul i Gwm Eithin wrth fynd i fyny nes cyrraedd yn agos i'w dop. Croesai ef ychydig yn uwch i fyny na chartref ei chyfnither, lle'r arhosai am noswaith o dan ei "Chronglwyd." Yna deuai i lawr ar hyd yr ochr ogleddol. Nid wyf yn sicr pa mor uchel yr âi Mari i'r cwm uchaf, a âi hi'n uwch na giât Rhyd Olwen yng Nghwm y Mynach, ai peidio; ond gan y byddai yn troi a throsi o'r naill ffarm i'r llall, diau y cerddai tua thrigain milltir ar y daith hon.

Diau fod mwy nag un rheswm paham yr âi Mari Wiliam mor bell oddi cartref. Un, mae'n ddiâu, oedd ei bod o dueddiad crwydro tipyn o gwmpas, ac yr oedd yn gwmni difyr. Câi groeso mewn llawer man. Heblaw'r sach oedd ganddi i gario

¹Ceir hanes Cwm Annibynia yn y bennod nesaf.

gwlân, yr oedd ganddi un arall i gario newyddion, ac yr oedd y rhai hynny wedi eu gosod yn weddol drefnus yn y sach; gallai gael gafael ar y rhai a fyddai fwyaf tebyg o blesio, gan ei bod trwy hir ymarferiad wedi dyfod i adnabod ei chwsmeriaid yn bur dda. Peth arall a gyfrifai am ei theithiau pell oedd ei bod yn hanu o hen deulu, a hwnnw'n deulu lluosog iawn, wedi canghennu a gwasgaru i bob rhan o Gwm Eithin. Yr oedd ganddi berthynasau ym mhob man lle'r elai, neu gwyddai am rywun yn perthyn i berthynas iddi hi, a rhoddai hynny ryw fath o hawl iddi arnynt.

Cymerai nifer o ddyddiau i Fari wneud ei thaith. Bûm yn aros am ddwy flynedd gyda hen ewythr. Yr oedd ef yn nai i John Ellis y Cerddor, ac yn gefnder i Mari Wiliam. Yr oedd yn un o'r lleoedd olaf y galwai Mari ar y daith hon, ac arhosai yno noswaith bob amser. Yr oedd yn werth ei gweled yn dyfod, un pac o wlân wedi ei rwymo ar ei chefn, rywbeth yn debyg i gas gobennydd wedi ei stwffio yn dynn o wlân; pac arall o dan bob cesail, tebyg i gas clustog. Byddai fy hen ewythr wrth ei fodd yn ei gweled yn dyfod, a gofalem ninnau'r hogiau aros yn y tŷ y noson honno ar ôl swper, oherwydd un o wleddoedd gorau'r flwyddyn oedd clywed f'ewythr yn holi Mariam hanes a helynt y teuluoedd y byddai hi wedi galw gyda hwy. Chwerddais lawer yn fy llewys pan glywn fy ewythr yn gofyn i Fari ail adrodd ambell hanesyn. Gwaeddai "Eh?" pryd y gwyddwn yn iawn ei fod wedi ei glywed y tro cyntaf. Ond yr oedd rhywbeth yn yr lhanesyn yn goglais ei glustiau. Amheuw'n weithiau a oedd ff'ewythr yn peidio â hoffi clywed newydd drwg am rai o'r cymdogion, oherwydd byddwn yn sylwi mai dyna'r straeon y gofynnai i Mari eu hail adrodd. Ond chware teg iddo, nid âi'r satori ddim pellach trwyddo ef, ni cheid mohono i ddywedyd gair bach am neb. Cadwai'r cwbl iddo'i hun. Ond am mod-ryb, yr oedd ei hwyneb fel yr heulwen. Gallai hi fwynhau hanesion am lwyddiant pawb, hyd yn oed cymydog y teimlai'n buur sicr ynddi ei hun mai un o'i defaid hi oedd mam yr oen llywaeth a fegid ganddo.

Dyna fraslun o hanes hen ddefod Gymreig a fu o wasanaeth mawr i gannoedd o deuluoedd tlodion yn yr hen amser gynt, ond sydd bellach wedi diflannu'n llwyr o'r wlad, ac nid wyf yn cofio i mii weled dim o'r hanes wedi ei groniclo. Credaf na thybiai neb ei fod yn ddim diraddiad myned o gwmpas y wlad i wlana, oherwydd amser enbyd iawn ydoedd hi. Credwn erbyn hyn y dylai pawb sy'n fodlon i weithio, ac i wneud ei ran, gael

ei fwyd a'i ddillad heb fyned i gardota amdano. Ac y mae'r iach yn gyfrifol i ofalu am yr hen a'r methiantus.

Y DDAFAD FARUS

Ffordd arall i gael gwlan yn rhad oedd hel y tuswau gwlan a geid wedi bachu yng ngrug y mynydd ac ar hyd y gwrychoedd. Un o gyfeillion pennaf y tlawd oedd y ddafad farus. Fe wyddai hi sut i wneud drwg fel y delai daioni, a haedda gofiant.

Erbyn diwrnod cneifio, ni fyddai nemor ddim gwlan ar gefn y ddafad farus, a phe buasai pob ddafad mor garpiog ei gwisg â hi, ni fuasai'r wyl gneifio yn werth ei chynnal. Yn Ebrill a dechrau Mai, wrth weled y cae hadau a'r egin am y clawdd â hi; byddai ei chwant amdanynt wedi mynd yn feistr corn arni. Âi dros bob clawdd a thrwy bob gwrych. Er mai lladrones oedd, hi oedd un o gyfeillion pennaf y tlodion yn yr hen amser gynt. Byddai ei gwlan fel rheol yn myned i gadw traed a choesau plant y gweithiwr tlawd rhag rhewi. Dywaid llawer mai creadur dwl, diniwed, a difeddwl yw'r ddafad; ond nid yw hynny'n wir am y ddafad farus. Ymddengys fod ganddi hi lawer mwy o synnwyr na'r gweddill o'i rhyw. Ni wn pa un ai am ei bod hi'n gallach na'r lleill y mae hi'n lladrones, ai ynteu datblygu mwy o synnwyr na'r lleill wrth ladrata y mae hi. Hynny yw, a fuasai'r defaid eraill cyn galled â hi pe baent yn lladron? Ac a fuasai hi cyn wirionedd â hwy pe buasai'n ddafad onest?

A fuoch chwi yn gwylio'r ddafad farus yn y cae egin? Gwyr yn iawn mai dyma'r pechod mwyaf all dafad ei gyflawni, a bod ei meistr yn barod i'w lladd am y pechod hwn; ond wrth hen arfer, mae'r demtasiwn wedi ei meistrol'i'n hollol. Pe gwyddai y torrai ei gwddf yn yr ymdrech i fyned trwy'r gwrych nid oes ganddi nerth i beidio. Edrychwch arni yn y cae egin. Mae hi'n glustiau i gyd; clyw bob smic; mae ei chydwybod yn danllwyth o'i mewn, ac ar yr arwydd lleiaf o ddynesiad rhai o deulu'r ffarm neu Tango'r ci, bydd trwy'r gwrych yn ei hól fel ergyd o wn.

Dowch gyda mi am dro i gaeau'r Fron Lwyd ddiwedd Ebrill. Mae hi'n braf iawn. Fe awn ni i'r caeau porfa, ac fe eisteddwn i lawr am ychydig. Yn union o'n blaen mae cae o egin ceirch yn edrych yn las a hardd. Wirionedd i, dacw Megan a'i hoen bach yng nghanol y cae egin. Mae hi'n edrych yn gynhyrfus iawn, a'i chlustiau i fyny yn gwrando, ac yn sbio o'i chwmpas. Dacw

hi'n cymryd y goes a thrwy'r gwrych i'r cae porfa. Beth sydd yn bod? Ni chlywais ac ni welais i ddim byd. O, wir! mi wela Morgan, gŵr y Fron Lwyd, a Thango yn cychwyn oddi wrth y tŷ sydd dri lled cae oddi yma i fyned am dro i olwg y caeau. Rhaid bod Tango wedi cyfarth o lawenydd wrth gychwyn. Ni chlywais i ddim oddi wrtho, ond rhaid fod Megan wedi ei glywed. Mae hi'n clywed fel cath. Gwylwch hi'n awr. Ar ôl dyfod trwy'r gwrych fe bawr ychydig dameidiau, yna cerdda oddi wrth y gwrych wyth lath neu ddeg yn frysio. Pawr drachefn ychydig dameidiau, ac felly o hyd nes cyrhaedda'r ochr bellaf oddi wrth yr egin i'r cae, os na bydd wedi myned drwodd i'r cae nesaf erbyn y daw Morgan a Thango. Dacw Morgan a Thango wedi cyrraedd i'r cae. Mae'r defaid gonest yn pori yn ymyl, a hyd yn oed ar ochr gwrych y cae egin, ond dim perygl i chwi weled Megan, y ddafad farus, yn y fan honno. Mae hi mor awyddus i ddangos ei gonestrwydd fel na fyn ei gadael ei hun mewn safle i gael ei hameu.

BRENNINES Y BWTHYN

Ceisïaf roddi darlun o deulu'r bwthyn ddechrau'r ganrif ddiweddaf. Mae'r gŵr a'r wraig o dan ddeugain oed, Robert a Mari. Mae ganddynt saith o blant. Mae Robert yn gweithio yn y Cwm, yn cael chwe cheiniog yn y dydd—tri swllt yn yr wythnos—o gyflog a'i fwyd. Mae ganddynt gornel o ardd i blannu ychydig o datws, a chânt blannu rhes neu ddwy yn y Cwm. Erys Robert adref am ddeuddydd neu dri ym Mai neu Fehefin i dorri mawn, a chaiff fenthyg gwedd y Cwm i'w cario adref. Ond mae'n rhaid i Mari a'r plant eu codi a'u trefnu i sychu. Mae Robert, y bachgen hynaf, yn bymtheg oed, yn hogyn ym Mryn Mawnog; yn cael pum swllt ar hugain yn y flwyddyn o gyflog; Mari yn ddeuddeg oed, yn hogen yn y Foty, yn cael ei bwyd, a rhywbeth a wêl Citi Morris, y wraig, yn dda ei roddi iddi; Dei yn naw oed, yn cadw gwartheg yn Rhyd yr Ewig am ei fwyd; Siân yn saith; Wil yn bump; Jac yn dri, a Mag fach yn naw mis.

Tri swllt yn yr wythnos yw'r holl arian a ddaw i mewn, ac eisïau bwyd a dillad i'r teulu. Mae ganddi datws, a chaiff ddigon o laeth enwyn yn y ffermydd o gwmpas; ac os gall fforddio cael a chadw mochyn, mae'n rhaid ei werthu er mwyn cael yr arian; ni all ei gadw at wasanaeth y teulu, ac y mae eisïau esgidiau a dillad.

Dacw hi, Frenhines y Bwthyn, yn cychwyn ar ei thaith i'r Cwm i nôl hanner pwys o fenyn a chaniaid o laeth enwyn. Gedy Jac a Wil o dan ofal Siân, sydd yn saith oed ; lapia'r babi mewn siôl, dim ond ei ben allan ; gesyd ef ar ei chefn ; rhydd un gornel i'r siôl dros ei hysgwydd dde, a'r gornel arall o dan y gesail chwith, a chylyma hi o'r tu blaen, ei braich trwy ddolen y can, pellen o edafedd yn crogi ar fach wrth linynd ei ffedog, a'i dwylo yn gweu ei hosan, ond yn codi pob tusw o wllân a wêl ar hyd y ffordd. Ac ar ôl cyrraedd y Cwm feallai y caiff fara a chaws ei hun, a chwpanaid o lefrith i'r babi. Lleinw gwraig y ffarm ei chan llaeth enwyn, a rhydd yr hanner pwys menyn yn y llaeth, ac os bydd Robert yn ei llyfrau, rhydd brinten fach dros ben. Cyfeiria Mari ei chamre yn ôl yr un fath, ond fod y can llaeth ar ei phen yn lle ar ei braich, y gweill yn myned cyn gyflymed â gwennol gwehydd, a'r baban yn mwynhau'r daith lawn cystal â babanod y dyddiau hyn a deithia yn eu cerbyd pedair olwyn.

Yn ei disgwyl yn eiddgar yn ôl, yn chware wrth y penwar, byddai Siân, Wil a Jac ; a'r funud y gwelent hi'n dyfod, torrent allan i ganu :—

“ Dacw mam yn dyfod ar ben y gamfa wen,
A rhywbeth yn ei ffedog a phiser ar ei phen.”

Rhydd Daniel Owen, yn ei Gofiant, ddarlun o'i fam sydd yn dangos ynni, gwydnwch, medr a phenderfyniad mamau Cymru. Ac meddai “ Iorwerth Glan Aled ” :

“ Mae merched Cymru'n well,
Fel gwagedd, na phob rhai
A geir o wledydd pell,—
Ceir gweled hyn trwy'n tai ;
Y maent yn iach a llon,
A boddlon iawn eu gwedd ;
Byth yn parhau
I ganu'n glau,
Wrth nyddu a gwau mewn hedd.”

Yr oedd gweu 'sanau felly yn rhan bwysig iawn o waith y merched, ac yn aml byddai'r dynion yn gweu hefyd. Deuai'r saneuwyr, sef y prynwyr 'sanau, i bob ffair a marchnad, ac aent â hwy i'r lleoedd poblog i'w gwerthu. Gyda llaw, dyna oedd William Llwyd, Pitt Street, a gychwynnodd y Methodistiaid yn

Lerpwl, yn ei wneud. Nid wyf yn sicr pa bris a geid am bâr o 'sanau, ond cofiaf fy nain a'm mam yn gwerthu 'sanau dynion am un geiniog ar ddeg a swllt y pâr.

Bob tro y darllenaf "Gân y Crys" bydd y dagrau yn llenwi fy llygaid, a byddaf yn diolch na fu raid i'n mamau tlodion ni fyw yn nhrefi mawr Lloegr. Cawsant yr awyr las yn do uwch eu pennau, a'r gwelltglas yn gwrlid o dan eu traed, ac anadlu awyr iach y mynydd; ac er tloted oeddynt ni fu raid iddynt orwedd ar wely gwellt. Cawsant wely manus esmwyth i gysgu arno. Byddaf yn diolch hefyd mai gweu oedd eu diwydiant ac nid pwytho. Ni theimlasant "rym brwdaniaeth cur." Nid oedd raid iddynt eistedd yn eu cwman mewn congl dywyll, gallent weu wrth rodio'r meysydd, "a chael 'arogl chweg y blodau tlysaf gaed." Gallai fy nain a'm mam weu fel y gwynt, a darllen eu Beibl ar y ford bach gron wrth eu hochr a thorri allan i ganu wrth ddarllen, a thynnu yn rhaffau'r hen addewidion.

Diau fod llawer erbyn hyn wedi tyfu i fyny na welsant erioed "Gân y Crys." Ni wn fawr amdani yn y gwreiddiol, ond mae'n anodd gennyf gredu bod y gwreiddiol yn fwy byw na'r cyfieithiad. Rhoddaf hi yma:—

CAN Y CRYS

(*Cyfieithiad o waith Thomas Hood, gan "Iorwerth Glan Aled"*).¹

A bysedd eiddil, blin,
 Ac emrynt llawn o gur,
 Eisteddai gwraig mewn carpiog wisg,
 Gan drin ei nodwydd ddu;
 Pwyth—Pwyth—Pwyth,
 A ddodai gyda brys,
 A chyda llais dan drymaidd lwyth
 Hi ganai "Gân y Crys."

Gwaith, Gwaith, Gwaith,
 Nes toro gwawr y nen;
 Gwaith, Gwaith, Gwaith,
 Nes t'wyno'r ser uwch ben;

¹ *Gwaith Barddonol Iorwerth Glan Aled* (Edward Roberts), Lerpwl, 1890.

Gwell bod yn gaeth-ddyn erch,
 Yn nghanol Tyrcaidd drâs ;
 Lle nad oes enaid gan un ferch,
 Na dilyn gwaith mor gâs.

Gwaith, Gwaith, Gwaith,
 Ymenydd ysgafnha,
 Gwaith, Gwaith, Gwaith,
 Yn ddwl y golwg wna ;
 Gwnïad—clwsiad—clwm,
 Am gyflog fechan geir,
 Nes uwch botymau cysgu'n drwm,
 A gwaith mewn breuddwyd wneir.

Chwi, fedd chwiorydd teg,
 Mamau, a gwragedd gwiw—
 Cofiwch nad gwisgo lliain'r y'ch,
 Ond bywyd dynolryw !
 Pwyth—pwyth—pwyth,
 Mewn tlodi, newyn, chwys,
 Ag edef ddwbl pwytho o hyd
 Yr amdo fel y crys !

P'am son am angau du ?
 Drychioliaeth esgyrn dyn !
 Nid ofnaf wel'd ei echrys dull,
 Mae'n debig im' fy hun !
 Mae'n debig im' fy hun,
 Yn fy ymryd dinacâd—
 O Dduw ! paham mae bara'n ddrud,
 A chnawd a gwaed mor rhad !

Gwaith—Gwaith—Gwaith.
 Fy llafur sy'n parhau ;
 Beth ydyw'r cyflog ? Gwely gwellt,
 Crystyn a charpiau brau !
 Tô drylliedig, a llawr noeth—
 Bwrdd a chadair wan ;
 Y muriau gwag—a'm cysgod gwael
 Yn unig ddelw'r fan !

Gwaith—Gwaith—Gwaith,
 Drwy oerfel Rhagfyr hir ;
 Gwaith, Gwaith, Gwaith,
 Tra'r hin yn frwd a chlr ;
 O dan fargodion, ceir
 Nythle gwenoliaid chwim,
 A hwy â'u cefnau heulog fydd,
 Yn danod gwanwyn im'.

O ! na chawn arogl chweg
 Y blodeu tlysaf gaed—
 Yr awyr uwch fy mhen,
 A'r gwellt-glas dan fy nhraed!
 O ! am un awr fel cynt
 Y bu'm mewn melus nwyd,
 Heb wybod dim am rodfa drist,
 A gostiai bryd o fwyd !

O ! na chawn orig fach
 Yn ngodreu tyner nawn—
 Nid serch na gobaith ddenai 'mryd,
 Ond gofid monwes lawn !
 Ychydig wylo wnai im' les !
 Ond grym brwdaniaeth cur,
 A sych fy nagrau rhag i ddafn
 Rydu fy nodwydd ddur !

A bysedd eiddil blin,
 Ac emrynt llawn o gur,
 Eisteddai gwraig mewn carpiog wisg,
 Gan drin ei nodwydd ddur :
 Pwyth, Pwyth, Pwyth,
 A ddodai gyda brys,
 O ! na bai'r holl gyfoethog lwyth,
 Yn deall " Cân y Crys."

PENNOD XV

CWM ANNIBYNIA.

MUDO A DYDDIAU YSGOL

YNG Nghwm Annibynia y gwelais oleuni dydd gyntaf— hynny yw, os goleuni dydd ydoedd. Dywedodd un hen frawd dreng, a gredai mai'r ffordd orau i yrru mulod yw eu curo yn eu clustiau, mai goleuni lleuad a welais gyntaf, ac nad oedd honno'n llawn. Ni fu gennyf fawr o feddwl ohono ef ar ôl hynny; byddaf yn ei gicio yn ei grimogau bob cyfle a gaf. Tybiaf glywed y darlennydd yn dywedyd, "Fe allai nad oedd bell o'i le; paham y cicio?" Ie, ie; ond y gwir sydd yn brifo clustiau dyn yn ddychrynlyd. Ni waeth gan bobl mo'r llawer pa faint o gelwydd a ddywedwch chwi amdanynt, ond i chwi beidio â dywedyd y gwir. Yr oedd Robert Thomas, y Llidiardau, yn ddigon o athronydd i ddeall hynny. Ni ofnai ef frifo Dr. Edwards y Bala wrth ddywedyd y gwir, er cymaint gŵr oedd ef.

Ond digwyddodd un tro, pan oedd Robert Thomas yn byw yn Ffestiniog, i Dr. Edwards ac yntau groesi ei gilydd yr un Sul, Robert Thomas yn pregethu yn y Bala, a Dr. Edwards yn Ffestiniog. Pan gyfarfuant ar ôl hynny, ebe Dr. Edwards:—"Sut yr ydych chiwi, Robert Thomas? Mae'n dda gennyf eich gweled chiwi. Yr oeddwn yn falch glywed y cyfeillion yn dywedyd mor dda yr oeddych yn pregethu y Sul y buoch acw. Dywedent eich bod yn pregethu yn afaelgar a grymus, fel un o hen gewri'r dyddiau gynt."

"Ho! Ho!" ebe Robert Thomas. "Fe glywis inne y bobol acw yn deud ych hanes chithe'n pregethu, ac yr oedden nhw yn deud eich bod chi'n pregethu'n ddigon sâl. 'Newch chi ddim digio wrtha i am ddeud y gwir, na newch, Dr. Edwards? Dydw i ddim yn digio wrthoch chi am ddeud celwydd."

Un o'r mân gymoedd a gychwyn allan o Gwm Eithin yw Cwm Annibynia, a dderfydd yn bigfain mewn mynydd isel. Gelwir ef Cwm Annibynia am mai'r Annibynwyr piau fo. Ni feiddiodd yr un enwad arall erioed roddi ei draed i lawr yno. Pan gofiar ef gyntaf yr oedd ynddo ddwy eglwys Annibynnol, ac felly y mae eto. Dywedir y byddai'r hen wragedd a arferai

hel eu bwyd yn ei alw ef yn Gwm Dwydorth, oherwydd wrth fyned i fyny un ochr, a dyfod yn ôl yr ochr arall, a galw ym mhob tyddyn, ni fyddai ganddynt yn y cwd blawd ond digon i'wneuthur dwy dorth geirch.

Yng ngenau'r Cwm yr oeddwn i yn byw, ac yr oedd yno ychydig o Fethodistiaid yn gymysg â'r Annibynwyr, ac yn myned i un o gapeli'r Methodistiaid yng ngwaelod Cwm Eithin; ond i hen gapel bach S□□□□— y troediwn i dros bont Rhyd y Clwyde, pont garreg (nid cerrig, cofiwch) heb ddim canllaw iddi. Un tro, wrth ddychwelyd o'r oedfa, nos Sul dywyll, rhedais dros y bont yn lle aros am oleuni'r gannwyll lantarn, a syrthiais dros y bont i'r afon. Tynnwyd fi allan yn fuan, a daeth y Parch. Humphrey Ellis, y pregethwr oedd yn y daith, ac a gydgerddai â ni ymlaen, a thynnodd ei law ar hyd fy mhen amryw droeon, a phcidiais innau â chrïo.

Llawr pridd oedd i'r capel yr adeg honno. Er hynny yr oedd yr adnod, "Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barotach i wrando nag i roddi aberth ffyliaid," wedi ei cherfio mewn llechfaen wrth ben y drws. Bûm yn ceisio dyfalu lawer gwaith ar ôl hynny beth a barodd i'r hen dadau ei rhoddi yno. Oherwydd nid hawdd gwneuthur llawer o sŵn ar lawr pridd. Ond y mae dylanwad yr adnod wedi aros arnaf ar hyd fy oes. Ni fûm erioed yn euog o wneuthur sŵn wrth fyned i dŷ Dduw. Hoffwn gael cyfle unwaith eto i fyned i dynnu fy het i'r hen gapel a'i garreg gysegredig. Diau pe buasai Rhagluniaeth wedi trefnu imi aros yng Nghwm Annibynia, mai Annibynnwr selog fuaswn heddiw, a Hen Gyfansoddwr, y mae'n debyg, oherwydd y diweddar Barch. Michael D. Jones oedd gweinidog yr eglwys fach a gyfarfyddai yn y capel â'r llawr pridd. Teimlaf yn falch i mi gael dywedyd fy adnod wrth Michael Jones. Coffa da amdano. Meddai ddynoliaeth braf, ac annibyniaeth ag asgwrn cefn iddi. Ond collais fy annibyniaeth pan oeddwn rhwng chwech a saith oed, a phwy a wŷr y golled?

Y mae sŵn gorfoledd Diwygiad '59 yn fy nghlustiau yn awr— y Cyfarfod Gweddi ganol nos ar y groesffordd wrth lidiart y pentre, yr ahlith trigolion y godre, ar ôl dyfod allan o'r capel cyn gwahanu. Yr oedd y nefoedd yn ymyl. Nid oedd eisiau dim ond dringo i ben un o'r mynyddoedd a gylchynai'r cwm, a thorri twll yn y llofft las uwchben na fuasem ynddi. Clywem yr angylion yn canu'n fynych pan agorid y drws i rywun fyned i

mewn i'r Capel Mawr uwchben. Yr oedd un hogyn fel Seth Bartle, diuan, dipyn diniweitiach na'r gweddill. Daeth yn ystorm o fellt a tharanau ofnadwy un diwrnod. Rhedodd ei frodyr a'i chwiorydd i gyd i'r tŷ am loches, ond arhosodd y bachgen diniwed allan yn hamddenol. Aeth ei fam i chwilio amdano. "Oes gen ti ddim ofn, 'y machgen i?" ebe'r fam. "Nac oes," ebe yntau. "Beth wyt yn ei feddwl yw'r sŵn mawr yna, 'ngwas i?" ebe hi drachefn. "Dim ond Iesu Grist yn rhedeg yn Ei gloes ar hyd y llofft fawr uwchben," ebe yntau. Pa le y mae'r athronydd a fedr ateb yn well heddiw? Beth yw taranau? Y Creawdwr mawr yn cerdded yn drwm trwy natur? Ond daeth rhyw bregethwr ysgolheigaidd ar ei dro, a dywedodd nad oedd y llofft las a welem uwchben yn ddim ond y terfyngylch, neu'r lle pellaf a allem ni ei weled er ei bod yn edrych fel pe bai yn taro ym mhen y mynydd, ond pe dringem yno, yr edrychai cyn belled oddi yno drachefn ag o waelod y Cwm. Dringais innau i ben y Garth, ac felly'r oedd. Aeth y Nefoedd yn bell, bell. O na chawn fyned yn blentyn yn f'ol a byw yn ymyl y Nefoedd.


Cadw Cyfarfod Gweddi oedd chware'r plant yr adeg honno. Cofiaf yn dda un o'r cyfarfodydd hynny. Tri o fechgyn bach yr ardal wedi eu hel at ei gilydd i warchod tra'r elai'r rhieni i'r capel nos Sul, Urias y ffactri, yn Fethodus, Bob, fy nghefnder, a minnau, yn Annibynwyr. Ar ôl i bawb gychwyn aethom ninnau i gadw cyfarfod gweddi undebol, Bob yn dechrau. Gweddiwr pur faith oedd ef yr adeg honno. Yr oeddym i gyd ar ein gliniau ac yntau yn hir weddi, a minnau wedi blino'n lân ar fy sefyllfa. Gwyddwn yn dda fod Urias yn oglais o'i gorun i'w sawdl; ac er cael rhywbeth i'm difyrro fy hun, dechreuais arno. Gwylltiodd yntau yn gaclwm, a gwaeddodd allan: "Dywed 'Amen,' Robin, gael i mi hitio Huwcyn." Chware teg iddo, nid oedd am fy nharo pan oedd brawd ar ei liniau yn gweddi. Ac o drugaredd i'm hesgyrn, fe ddaliodd Robin ati am dipyn wedyn. Ciliais innau i'r gongl bellaf, ac erbyn i'r "Amen" ddyfod yr oedd cynddaredd Urias wedi cilio. Da gennyf ei fod yn parhau yn dirf ac yn byw yn y Bala.

Gwerthwyd nifer o ffermydd Cwm Annibynia. Collodd llawer eu cartrefi, a thorrodd hynny galon aml un o'r hen drigolion—fy nhaid yn eu mysg. Y dydd cyntaf o Fai, 186—, trodd gweddi Cwm Annibynia allan yn lluoedd i symud ein dodrefn a'n celfi ni i Gwm Eithin, pellter o ryw bedair neu bum

milltir. Edrychai llawer o'r trigolion yn ddigalon iawn pan gychwynasom. A pha ryfedd? Oherwydd fy nhaid oedd bron yr unig ysgolhaig yn y Cwm, wedi bod am flynyddoedd yn yr ysgol yn Ellesmere, ac wedi ei ddwyn i fyny yn fesurydd tir, yn Sais da, a chanddo lawysgrif fel *copperplate*. Ef oedd cyfreithiwr y Cwm—yn gwneuthur ewylllys pawb yno, a llyfr y dreth i'r trethgasglydd, *etc.* Mae amryw o hen ewyllysiau, *receipts* am Dreth y Golau, a thoreth o bethau eraill yn ei lawysgrif yn fy meddiant. Cyrchai llawer i'w wrando'n darllen *Y Faner*. Yr oedd yn fedrus iawn â'i ddwylo. Gallai wneuthur bron unrhyw beth, a gwnâi bopeth am ddim. A diau mai yn "Yr Hows" y buasai cyn diwedd ei oes, oni bai fod fy nain yn gofalu, pan werthid rhywbeth oddi ar y tyddyn, am gadw'r arian at y rhent.

Ond sôn am fudo yr oeddwn. Un o ddyddiau mwyaf f'oes. Ni wyddwn ddim am y cartref newydd ond trwy hanes. Cefais yrru'r gwartheg am ran o'r ffordd, a'm cario yn y drol ful y rhan arall. Treuliodd "Lion," y mul, dros ugain mlynedd o'i oes gyda ni, ac ef oedd un o'm hathrawon pennaf ym more f'oes. Llauer gwaith, pan fyddwn yn ei boenydio, neu pan fyddai wedi blino arnaf, y rhoddodd ei ben rhwng ei goesau, ac y tafodd fi nes y byddwn yn ysgrialu, a rhedeg i ffwrdd ychydig lathenni, yna'n troi i edrych a fyddwn yn fyw. Chware teg iddo, ni thorrodd asgwrn i mi erioed; ond dysgodd i mi rai o wersi pwysicaf fy mywyd. Gwn yn bur dda sut i yrru mulod, a buasai hynny lawn cymaint o werth â gradd mewn prifysgol i aml un.

Cawsom dyddyn bychan yng Nghwm Eithin, gan yr un meist'r neu feistres tir ag oedd wedi gwerthu ein hen gartref. Ond tyddyn yn cael ei drin ar hyd breichiau ydoedd, a'r adeiladau wedi mynd yn wael iawn. Bu raid inni godi ysgubor, ystabal côr i'r gwartheg hesbion, ac amryw gytiau yr haf cyntaf ar ôl myned yno. A'r cwbl a gawsom gan y feistres tir at y gost oedd caniatad i fyned i goedwig y plas i dorri digon o goed at y gwaith. Gwerthwyd y tyddyn hwnnw drachefn ymhen deng mlynedd, a chafodd y feistres tir bris da am yr adeiladau yr oeddym ni, o'r prinder, wedi gorfod eu codi at ein gwasanaeth. Ond cawsom aros yno drachefn gan y meist'r newydd am yr un rhent. Ymhen rhai blynyddoedd gwerthwyd y cartref hwn yr ail waith. Cafodd yr olaf o'r teulu rybudd i ymadael. Yr oedd yn wael ei iechyd ar y pryd. Ni allai oddef y syniad o golli'r cartref. Torrodd ei galon a chymerwyd ef i'r cartref fry rai misoedd cyn i'r rhybudd



Y Bwthyn.

i ymadael ddyfod i ben. Cefais innau'r gorchwyl prudd o wneuthur *auction* ar yr hen gelfi yn 1899, a throi fy nghefn ar yr hen gartref am byth, er y byddaf yn myned at yr hen dŷ, ac ar hyd yr hen lwybrau, a thrwy'r eithin i "Ben y Top," i gael llond fy mrest o awyr iach, a chael un olwg arall ar y cylch mynyddoedd, bob tro yr af i Gwm Eithin. Hen gartref fy mebyd! Er mai tywyrch oedd dy drum, a gwellt dy do, a hwnnw mor isel nes i mi daro fy mhen gannoedd o weithiau yn dy dylathau wrth godi'n sydyn o'm gwely yn lle rowlio allan fel y dylaswn, i.e., er hyn oll, cu iawn wyt gennyf fi.

Mae llawer yn synnu fod mwy yng ngafael y darfodedigaeth yng Nghymru fynyddig ac iach nag y sydd mewn rhannau eraill o'r wlad, a beïr y tai a'r bwyd a llawer o bethau. Ond anghofir mai Celt ac nid Sais yw y Cymro. "*Hard words will never break a bone,*" medd y Sais. "Gair garw a dyr galon," medd y Cymro. Y mae, neu yr oedd, ymlyniad y Cymro wrth ei gartref yn ddiarhebol. Buasai llawer llai o'r darfodedigaeth yng Nghymru pe buasai yno well deddfau tir a sicrwydd daliadaeth. Clywch sŵn calonnau toredig gŵr a gwraig Cilhaul Uchaf yn dygyfor yng ngeiriau "S.R." pan gawsant rybudd i ymadael â'u cartref gan y stiwart tordyn, di-enaïd. Nid yw ond un o filoedd o rai tebyg iddo. Bydd fy ngwaed yn berwi a dagrau yn llenwi fy llygaid wrth ddarllen am greulonderau llawer stiwart ac ambell dirfeddiannydd at ein cyndadau.

Y rheswm fod tir ddaliadaeth mor ansicr yng Nghwm Eithin y pryd hynny oedd fod yr ysgwïer a berchenogai y rhan fwyaf ohono, a'r mân gymoedd yn rhedeg allan ohono, wedi colli arno'i hun, ac wedi ei roddi mewn sefydliad i'r perwyl hwnnw yn agos i Lundain er cyn cof i mi, a'r plas yn wag; ei wraig, yr hon oedd Saesnes, a heb yr un aer, yn byw'n wastraffus neu'n celcio arian iddi ei hun, am mai i nai ei phriod yr oedd yr ystad i fyned ar ei ôl. Ni wariai ddim ar yr adeiladau; y cwbl a wnâi oedd hel y rhent. Aeth yr ystad i ddyled, a bu raid gwerthu rhannau helaeth ohoni ddwy waith yn fy nghof i.

Pan gyrhaeddais Gwm Eithin yr oedd pawb yn ddieithr i mi. Nid oedd yno gymaint ag un wyneb a welswn erioed o'r blaen, a theimlwn yn swil, ond buan iawn y deuthum i adnabod y plant bach, plant capel Cwm Eithin, a phlant Llanaled, lle y mynych gyrchwn i Siop Lias am chwarter o de un geiniog ar ddeg, pwys o siwgwr coch grôt, neu bwys o siwgwr gwyn pum ceiniog; ac os byddai rhywun pwysig yn debyg o ddyfod i de, pwys o siwgwr

loaf chwe cheiniog, ac i siop Sian Jones am werth swllt o flawd i wneud torth ganthreg.

Diau na fyddai hanes bywyd gwledig Cwm Eithin agos yn gyflawn heb bennod ar ddyddiau ysgol—cyfnod mwyaf rhamantus a diddorol ym mywyd hogyn, er iddo barhau'n hogyn ar hyd ei oes, ac yn enwedig gan iddo agor ei lygaid yng Nghymru pan oedd y werin yn dechrau dyfod i gredu y dylai pob plentyn gael rhyw ychydig o addysg a dysgu ysgrifennu, er bod llawer yn credu nad oedd angen am y fath beth. Nid oedd yn ddim ond balchter, a gwell i'r plant er eu lles oedd dechrau ennill eu tamaid cyn gynted ag y medrent. "Ni chafodd 'nhad a mam ddim ysgol, ac fe wnaethant hwy yn iawn; maent yn y ncoedd ers blynyddoedd, ac ni chawsom ninnau ddim ysgol. By be ydi'r helynt sydd ar yr hen bregethwrs yma ac eraill hefo'u haddysg a'u haddysg o hyd?" Yr oedd llawer o icuenctid Cwm Eithin ychydig o flynyddoedd yn hŷn na mi heb gael dim ysgol bron.

Erbyn fy amser i yr oedd pethau wedi newid: yr oedd y Cwm wedi deffro drwyddo, ac nid wyf yn meddwl fod nemor un o'm cyfoedion na fuont yn yr ysgol bob dydd am ryw gymaint o amser. Pan symudais i o Gwm Annibynia i Gwm Eithin yr oeddwn rhwng chwech a saith oed, heb fod mewn ysgol ond Ysgol Sul. Yr oedd hi yn frwydr boeth iawn rhwng yr Ymneilltuwyr a hen berson Llanfryniau. Ni newidiais fy mhlwyf er symud o Gwm Annibynia i Gwm Eithin (yn drawiadol iawn mewn plwy o'r un enw, yn ôl cyfieithiad "Dewi o Ddyfed," yr wyf wedi bod ar hyd fy oes). Aeth yn ymladdfa rhwng y Person a'r Ymneilltuwyr ar gwestiwn addysg. Yr oedd yno ryw fath o ysgol wedi bod yn Llanfryniau mewn hen dŷ neu ryw fath o adeilad isel yn ymyl y Ficerdy, ond yr oedd wedi myned yn sâl ac anghyfleus. Tua'r adeg honno, codwyd ysgoldy yn ymyl yr eglwys—"Yr Ysgol Frics," fel y galwem ni hi, a ffermwyr y cylch, a'r rhai hynny yn Ymneilltuwyr bob un, wedi gwneuthur eu rhan at ei chodi trwy gyfrannu a chario ati. Yn fuan dechreuodd y Person fyned i'r ysgol fore Llun i edrych pwy a fyddai yno, ac anfon y plant na fyddent wedi bod yn yr Eglwys fore Sul adref i ddywedyd wrth eu rhieni oni ddeuent i'r Eglwys y Sul na chaent ddyfod i'r ysgol. Arweiniodd hyn i frwydr boeth rhwng y Person a'r Ymneilltuwyr. Ei amcan oedd gorfodi'r Ymneilltuwyr i ddyfod i'r Eglwys neu eu niweidio trwy rwystro i'w plant gael addysg. Ond fe drowyd 'Cyngor Ahitophel' yn ffolineb y tro hwn fel llawer tro arall; deffrôdd hyn yr Ymneill-

tuwyr i waelod eu bodolaeth ; ymgynddeiriogasant y mynnent addysg i'w plant. Nid dynion gwellt mo bobl Cwm Eithin. Onid yno y magwyd merthyron y degwm ? Onid hwy a fu'n ysgwyd gŵr o'r enw Mwrog, y "*bwm bailiff*," a ddaeth i gasglu y degwm ar ran Esgob Llanelwy, fel bretyn ar ganllaw Pont y Glyn, a'i anfon yn waglaw i'w wlad ei hun ? Onid hwy a ddiodd-efodd garchar yn Rhuthyn am eu gwaith ? Ie, cafodd rhai o'm cyfoedion, ar ôl i mi droi fy nghefn ar yr ardal, y fraint o fod yn ferthyron y degwm. Cefais innau'r fraint o gasglu ychydig arian at gostau eu hamddiffyniad. Maent i gyd ond chwech wedi croesi i'r wlad lle mae rhyddid a chydraddoldeb. Heddwich i'w llwch.¹

Cofiaf yr Hen Berson yn dda. Yr oedd mewn gwth o oedran pan welais ef gyntaf. Gŵr o Sir Aberteifi ydoedd. Fel y dywedodd "Wil Bryn Hir" wrtho un tro : "Mi welaf ar eich pen mai un o Sir Aberteifi ydech chwi, lle y mae nhw yn magu mochyn a pherson ym mhob tŷ tlawd." Er ei gulni at yr Ymneilltuwyr, yr oedd yn ŵr rhadlon ar lawer cyfrif ; yn gymydog caredig iawn ; meddai bersonoliaeth gref, pen mawr, gwallt gwyn cyrliog. Bûm yn ei dŷ lawer tro yn talu'r degwm, a chawn fara a chaws ganddo bob amser, a gwahoddiad i'r Eglwys. Deuai i hela i'm cartref. Meddai wn a miliast ruddgoch gyflym ei throed ; canlynai'r byddigions o'r Plas. Yr oedd yn ustus heddwch ; anfonodd aml hogyn i'r carchar am saethu petrisen, fy athro i yn yr Ysgol Sul yn eu mysg, a hynny, mae'n debyg, ar ddarn o'r mynydd yr oedd rhywun dipyn cyn hynny wedi ei ddwyn oddi ar y tlodion. Mae'n debyg ei fod yn credu y cyflawnai ddyletswyddau ei weinidogaeth bwysig wrth wneuthur hyn, a phlesio'i nawddogwyr. Dywedid mai anodd cael ei ail mewn cinio. Priodolid iddo'r dywediad am yr 'ŵydd' mai ffowlyn digon anfelys oedd hi i ginio, ei bod yn ormod o ginio i un, a heb fod yn ddigon i ddau.

Gwnâi'r Person bob ystryw a defnyddiai bob sgriw i orfodi ei holl blwyfolion i fyned i'r Eglwys. Rhag ofn i mi dynnu darlun rhy ddu o'r gŵr parchedig, a bod fy nghof am yr hyn a ddigwyddodd gryn lawer dros drigain mlynedd yn ôl yn chware mig â mi, gwell imi egluro fy mod wedi ysgrifennu'r storïau hyn fwy na phymtheng mlynedd yn ôl pan oeddwn yn wael am wythnosau ar ôl damwain, a heb ddim i'm difyrru fy hun. Cefais fis o seibiant yn awelon iach Cwm Eithin, a holais gryn lawer

¹ Gweler eu darlun ac eglurhad yn yr Atodiad ar y diwedd.

ar yr hen frodorion y pryd hynny am droeon bore oes. Yn ffodus iawn deuthum ar draws merch yr unig siop oedd yn Llanfryniau y pryd hynny, ac sydd gyfoed â mi ac oedd yn yr Ysgol Gerrig yr un pryd â mi, nas gwelwch ers mwy na hanner can mlynedd. Ond wrth holi am hen gyfoedion, deuthum o hyd iddi. Aeth yn ymgom rhyngom am yr hen amser gynt. "Chwi gofiwch," meddai, "mai gennym ni yn y siop yr oedd y Post Office. Llawer gwaith y bygythiodd yr hen Berson fy nhad, os gadawai i ni'r plant fyned i'r capel y cymerai y Post Office oddiarnom." "Aml i dro," meddai, "y cyfarfu â mi ar y llan fore Llun. 'Fuost ti yn y Tŷ Cwrdd yn Nhop y Lôn ddoe yn to? Cofia di mai i uffern yr aiff y plant sydd yn mynd ono i gyd; fe gânt eu llosgi i gyd yn greision mewn llyn o dân a brwmstan.'" "Cyfarfûm â brawd arall ychydig yn hŷn na mi, a gafodd ei anfon adref aml dro ar fore Llun am beidio â myned i'r Eglwys fore Sul. "Arferai fy nhad a'm mam," meddai, "fy anfon i'r Eglwys ar fore Sul weithiau. Cofiaf yn dda iawn un bore Llun nad oeddwn wedi bod yn yr Eglwys. Daeth y Person ataf. 'Lle buost ti bore ddoe?' meddai. 'Gartre yn gwarchod i mam fynd i'r capel,' ebe finnau yn ddigon diniwed. Gwylltiodd y tro hwnnw yn waeth nag arfer." Ebe'r un gŵr, "Hen frawd *practical* iawn oedd yr hen Berson; ni wnâi lawer o ragor rhwng Sul a diwrnod arall. Cofiaf wrth ddyfod allan o'r Eglwys un bore Sul ei glywed yn gweiddi ar ôl un o'r bechgyn, 'Hei, dywed wrth dy fam am ddwad acw i godi tatws yfory.'"

Aeth yr ymladdfa yn dost rhwng y Person a'r Ymneilltuwyr ar gwestiwn yr ysgol. Gwrthododd y Person yn bendant adael i blant yr Ymneilltuwyr fyned i'r ysgol onid aent i'r Eglwys fore Sul. Plygodd rhai i anfon eu plant, ond gwrthododd eraill yn bendant. A'r diwedd fu i'r Ymneilltuwyr adeiladu ysgoldy bach o gerrig yn mesur chwe llath wrth naw llath ar lan yr afon ar ganol y pentre ar gyfer yr Eglwys, a bu'n ddolur llygad i'r hen Berson tra fu byw, ac efallai ei fod wedi byrhau ei oes. Meddai un o'm cyfoedion wrthyf: "Fe lifodd yr afon yn fawr fel y gwnâi yn aml, ond y tro hwn fe dorrodd o dan y dorlan ac fe weithiodd dwll o dan sylfaen ochr yr ysgol gerrig. Gwelodd yr hen Berson law rhagluniaeth yn y peth. 'Y rhai am iddynt ddianc o Eglwys ac o Ysgol Frics ni ad dialedd iddynt fyw!' Ond er iddo weddio am iddi syrthio, ni wnaeth, a buan y llanwodd yr Ymneilltuwyr y twll â cherrig mawr, a safodd yr ysgol gerrig ac fe synnodd yr hen Berson." Y mae'r hen golegdy, er wedi

ei droi yn *warehouse* siopwr, yn sefyll heddiw, yn edrych mor gadarn ag erioed, yn dystiolaeth i fuddugoliaeth rhyddid ar drais a gorthrwm. Bùm yn tynnu fy nghap iddo, ac yn syllu gydag edmygedd mawr arno yn ddiweddar.

Diau fod llawer Eglwyswr ac aml Ymneilltuwr erbyn hyn yn methu â deall beth oedd wrth wraidd y cri am Ddatgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys yng Nghymru, a pheth a roddodd fod i Ryfel y Degwm. Ond cofio'r nifer o ddynion culion, dialgar oedd yn llenwi pulpudau'r Llannau, ni raid i neb synnu. Diau fod hen Berson Cwm Eithin yn un o'r rhai mwyaf eithafol. Prawf o hynny yw mai yno yn unig y magwyd nifer o ddynion a gafodd eu galw yn "Ferthyron y Degwm." Cofier hefyd nad yw'r amser y soniaf amdano ond rhyw bymtheng mlynedd yn ddiweddarach na'r amser y cyhoeddwyd "Brad y Llyfrau Gleision," ac mai ei gyfoedion, ac efallai aml un iau nag ef, a fu'n rhoddi eu tystiolaeth o flaen y Ddirprwyaeth Frenhinol Saesneg, rhai a ddaeth i'r casgliad mai un o'r pethau mwyaf niweidiol a ddaeth i Gymru erioed oedd ei Hymneilltuaeth. Gwelodd y Ddirprwyaeth chwech o smotiau duon mawr ar gymeriad Cymru : 1, Diffyg gwareiddiad ; 2, Diffyg gwybodaeth ; 3, Meddwdod ; 4, Anniweirdeb ; 5, Ein hiaith ; 6, Ein Hymneilltuaeth. Yr oedd y pedwar cyntaf yn gynhyrchion y ddau olaf. Diffyg gwareiddiad a diffyg gwybodaeth yn codi o'r ffaith na fedrai'r trigolion siarad Saesneg. Meddwdod ac anniweirdeb Cymru i'w olrhain i'w Hymneilltuaeth. Fel y canlyn y symia un o'r Dirprwywyr ei Adroddiad i fyny :—

"Y mae'r iaith Gymraeg yn cadw Cymru i lawr yn enbyd, ac yn gosod lliaws o atalfeydd ar ffordd cynnydd moesol a llwyddiant masnachol y genedl. Anodd ydyw gorbrisio ei heffeithiau er niwed. Ceidw y bobl oddi wrth gyd-drafodaeth a'u dyrchafai yn fawr mewn gwareiddiad, ac atalia wybodaeth fuddiol i mewn i'w meddyliau. Gwelir effeithiau andwyol yr iaith Gymraeg yn eglur ac alaethus yn y brawdlysoedd. Mae yn gwyrddroi y gwirionedd, yn ffafrio twyll, ac yn cefnogi anudoniaeth." "Dywedir," meddai drachefn, "fod y diffyg o ddiweirdeb yn cael ei gynhyrchu yn arbennig gan y cyfarfodydd gweddio hwyrol, a'r cydgyfeillachu sydd yn canlyn wrth ddychwelyd adref. Haerriad eithaf naturiol offeiriad o Eglwys Loegr," meddai, "ydyw fod profiad maith wedi fy argyhoeddi i o gymeriad mwy heddychlon a theyrngarol y

rhai hynny o'r dosbarth isaf sydd yn aelodau yn y Llan, na'r rhai a berthyn i'r sectau eraill."¹

Felly nid yw'n unrhyw syndod fod y Cymry wedi codi mewn gwrthryfel yn erbyn Eglwys Loegr a thalu degwm at ei chynnal.

Cafwyd gwahanol bersonau i addysgu plant yr Ysgol Gerrig. Bu mab y dafarn yno am dymor, ac yna merch y gweinidog Annibynnol. Ymhen peth amser, caed hen lanc o ysgolfeistr wedi cael addysg bur dda, wedi bod mewn siop lyfrau yn y Strand, Llundain, ac yn ddysgwyr da iawn. Enillodd yr Ysgol Gerrig enw da iddi ei hun; deuai aml hogyn mawr o dipyn bellter o ffordd yno am chwarter neu hanner blwyddyn yn y gaeaf i berffeithio ychydig arno'i hun. Cefais innau nifer o chwarteri yno ar ôl i mi adael ysgol Llanaled, ond arhoswn gartref yn yr haf i dorri gwair ac ŷd.

Pan oeddwn i yn yr ysgol nid llawer o gydnabyddiaeth oedd rhyngom ni, blant yr Ysgol Gerrig, â'r dyrnaid plant oedd yn yr Ysgol Frics. Teulu'r gynffon, cadwent hwy yr un ochr â'r Eglwys a'r Ysgol Frics i'r afon, tra yr arhosem ni ar yr un ochr â'r Ysgol Gerrig a'r Efail i'r afon. Ond pe buasai yn myned yn ymladdfa, ni fuasai gan gwlinys yr Ysgol Frics ddim siawns yn erbyn crymffastiau'r Ysgol Gerrig. Felly yr aeth pethau ymlaen hyd nes y daeth y Bwrdd Ysgol. Cynhelid yr Ysgol Gerrig gan roddion gwirfoddol a cheiniogau'r plant.

Ni wn pa fath bregethwr oedd yr hen Berson, oherwydd yr oedd yr helynt ynghylch yr ysgol wedi peri i mi gasáu'r Eglwys. Dwy waith y bu fy nhroed erioed o'i mewn; y tro cyntaf pan oeddwn tua thair ar ddeg oed yng nghladdedigaeth un o'm hen flaenoriaid; a'r ail waith pan ddaeth y Person newydd yno. Yr oeddwn wedi ei glywed ef yn pregethu o'r blaen mewn gwylnos pan oedd yn Berson Llanllonydd, ac wedi ei hoffi.

Da gennyf allu dywedyd nad oedd pob Person fel hen Berson Llanfryniau. Yn Llanaled, y plwyf agosaf i mi, yr oedd yno ŵr hawddgar a da, llydan ei orwelion, yn Berson, a rhyddid i bawb anfon eu plant i'r ysgol ar yr un telerau. Ac fel y digwyddai fod, yr oedd fy nghartref i ar derfyn y ddau blwyf, dim ond milltir union i Lanaled, tra yr oedd dros ddwy filltir o ffordd i Lanfryniau, prif ac unig bentref fy mhlwyf fy hun. Felly i Lanaled y cefais fy anfon i'r ysgol. Ac fel y canlyn y bu.

¹ Gweler *Reports of the Commissioners of inquiry into the state of Education in Wales*, London, 1848.

Yn fuan ar ôl i ni symud i Gwm Eithin, yng nghanol brwydr addysg, daeth ffarmwr cefnog, cymydog, i'm cartref, un o arweinwyr capel bach Cwm Eithin. Yr oedd golwg gwyllt arno, fel pe newydd ddyfod allan o un o gyfarfodydd yr Ysgol Gerrig. Meddai wrth fy mam :—

“ Yr oedd Huw bach yn ateb yn dda iawn i Robert Owen yn Sasiwn y Plant. A wnewch chwi adael iddo fyned i'r Ysgol ? Os gwnewch, fe dala i am ei ysgol o am y flwyddyn gyntaf.”

Diolchodd fy mam yn gynnes iawn iddo, ac addawodd y cawn fyned cyn gynted ag y gallai fy nghael yn barod. Aeth fy mam ati i daclu fy nillad. Yr oedd fy nhaid wedi fy nysgu i ysgrifennu rhyw ychydig cynt, a dysgodd yr A.B. Saesneg, a'r “*Twice one are two*” i mi tra y bûm yn paratoi, ac aeth trwy ei gypyrddaid o lyfrau Saesneg—ni feddai yr un Cymraeg ond y Beibl. Tynnodd oddi yno *Eiriadur Cymraeg a Saesneg*, gan T. Lewis ac eraill, Caerfyrddin, 1805 ; 'rwyf wedi ei drysori o hynny hyd yn awr.

Nid oedd gennyf y syniad lleiaf beth oedd yng nghrombil llyfrau Saesneg fy nhaid, ond yr oeddwn wedi dechrau hoffi darllen a dysgu allan. Yr oedd gennyf Feibl, Rhodd Mam, Hyfforddwr a Holwyddoreg John Hughes, Lerpwl, ac yr oedd hwnnw bron i gyd ar fy nghof, a gallwn ateb cwestiynau ar hanesion y Beibl, a dywedyd beth oedd oed y byd pan anwyd llawer o gymeriadau'r Hen Destament. Wrth droi dalennau'r Geiriadur, deuthum ar draws y gair “*Reverend*.” Gofynnais i'm taid am ei ystyr : “*Dyna deitl y Personiaid*,” ebe yntau, “ac y maent yn galw'r hen bregethwrs yma yn *Reverends* yrŵan,” ebe ef. Cefais ysgytiad ofnadwy i'm hysbryd. “Yr hen bregethwrs yma,” gweision yr Arglwydd, yn ôl fy syniad i ! Deallais mai Eglwyswr oedd fy nhaid yn ei galon, er na fu yn yr Eglwys yn fy nghof i. Bu yn mynd i gapel bach llawr pridd Cwm Annibynia amser Diwygiad '59. Dyna'r unig air bach a glywais erioed ganddo am yr Ymneilltuwyr. Yr oedd fy nain yn selog o'u plaid, wedi ei magu o dan adain Charles o'r Bala. Cyngorwyd fi i wneuthur ychydig o benselau er gwneud ffrindiau o blant Llanaled, a buont yn ddefnyddiol iawn i'r pwrpas hwnnw. Yr oedd yno ddigon o gerrig nadd yn fy nghartre, a gwnaent benselau da iawn. Yr oedd yno haen ar yr wyneb, a deuwyd o hyd i haen arall pan oedd Charles Nailor yn turio am lo.

Wele fi, ar fore Llun bythgofiadwy i mi, yn cychwyn yn swil a chrynedig. Sglaetsan yn crogi o dan fy nghesail wrth linyndros fy ysgwydd. Llond un boced o benselau, tipyn o frechdan yn y llall i'm cinio. Yr oedd yno dair tafarn yn Llanaled. Byddwn yn arfer myned i un ohonynt i bostio llythyr, ac i un arall i werthu ambell bysgodyn. Nid oedd yn ein hafon ni y pryd hynny ond brithylliaid. Y mwyaf a gefais erioed yno oedd un deunaw owns. Cefais bris pur dda am hwnnw. Ond am y dafarn arall, ewythr a modryb i mi oedd yno. Tŷ to gwellt isel, wedi ei godi ar dair gwaith o leiaf, os nad pedair gwaith, ac yno yr oedd fy mam wedi trefnu i mi fwyta fy nghinio. Nid oedd rhaid i mi gario dim ond tipyn o frechdan i'm canlyn. Cawn ddigon o laeth neu botes, ac ambell damaid o gig. Awn trwy'r gorchwyl mawr o fwyta fy nghinio gyda'r bechgyn yn y pen ucha. Nid oedd neb yn yfed yno, a byddai Modryb yn y parlwr bach yn ymyl yn cadw chware teg i mi pan gymerid fi'n ysgafn. Cefais lawer o garedigrwydd ganddynt, ac ni wnaeth y ddiod ddim niwed iddynt hwy yn bersonol. Pan fyddai rhai wedi yfed yn dda, byddai'n rhaid cael talu am lasiaid i F'ewyrth, oherwydd yr oedd yn gwmni mor ddifyr, yn siarad a chwerthin a phrocio'r tân; ac os byddai raid iddo gymryd glasiaid, "droper o gin" a gymerai bob amser, a hynny oedd llymaid o ddŵr. Derbyniodd lawer o arian yn ystod yr hanner can mlynedd neu ragor y bu yno am lymaid o ddŵr glân. Ni ofynnodd neb i mi yfed dafn, erioed yno, ac ni feddyliais erioed am wneud. Gwelais lawer o yfed yno—yr un rhai fel rheol. Cofiaf dri o hogiau ieuainc yn dyfod yno un tro i nôl glasiaid. Edrychodd Modryb yn front arnynt, ac yn bur fuan dywedodd wrthynt am fynd adre.

Bu un tro doniol iawn yno. Yr oedd mab y Person yn hoff iawn o'r dafarn. Aeth yn ffrwgwd rhyngddo ef ac un arall wedi cael gormod. Yr oedd ganddo wasgod grand ryfeddol amdano o ddeunydd gwahanol i weddill ei ddillad, ac yn y ffrwgwd rhwygwyd y wasgod yn ddarnau. A'r cwestiwn mawr wedyn oedd sut i wynebu ei fam ar ôl mynd adre. Yr oedd ganddo fwy o ofn ei fam na'i dad, a pheth oedd i'w wneud? Wedi hir feddwl penderfynodd losgi ymylon y rhwygiadau, a myned adre a dywedyd wrth ei fam ei fod wedi digwydd rhoddi ei getyn heb ei ddiffodd yn iawn ym mhoced ei wasgod, iddi fyned ar dân, ac iddo gael dihangfa gyfyng iawn. Cafodd groeso a chydymdeimlad mawr a gwasgod newydd gan ei fam.

Hen batriarch ardderchog oedd Person Llanaled—pur wahanol i'r gŵr a fu yn erlid John Jones, Glanygors. Felly ni chefais i'r fraint o fod yn ferthyr addysg trwy gael fy ngyrru adre fore Llun am beidio â mynd i'r eglwys fore Sul. Heblaw hynny yr oedd yno ysgolfeistr o Gymro twymgalon a llenor gweddol wych. Mae peth o'i waith wedi ei gyhoeddi. Er mai Saesneg a siaradai ef yn yr ysgol, ni chlywais i sôn am y *Welsh Not*, sef y gosb am siarad Cymraeg. Cadwai wialen fedw anferth, wedi ei phlethu, a wnâi ei gwaith wrth ei dangos. Anaml y byddai'n rhaid iddo ei defnyddio. Nid wyf yn meddwl iddo frifo llawer ar neb â hi. Coffa da sydd amdano. Bu ef a minnau yn gyfeillion cynnes i ddiwedd ei oes faith, ac yn gohebu peth.

Credaf nad oes ysgoldy yng Nghymru yn sefyll ar le iachach nag un Llanaled. Saif bron ar uchaf y cwm, Hiraethog un ochr, a'r Brotos a mynyddoedd eraill yr ochr arall. A mynyddoedd Sir Gaernarfon fel rhes o gadfridogion i'w gweled yn y pellter trwy ffenestr yr ysgoldy. Buasai'n gywilydd i unrhyw blentyn beidio â dysgu rhyw gymaint, pa mor ddwl bynnag, yn y fath le.

Pan euthum i'r ysgol, nid oedd yno ond yr ysgolfeistr i ddysgu y dosbarthiadau i gyd, er bod yno gryn nifer o blant o bob oed, yn enwedig yn y gaeaf. Arferai rhai o'r plant mwyaf roddi gwersi i'r rhai lleiaf. Yn fuan ar ôl i mi fyned yno, oherwydd henaint a llesgedd yr hen Ficar parchedig, daeth yno gurad, a deuai ef i'r ysgol yn bur fynych i roddi gwers i rai o'r dosbarthiadau. Mae'n debyg na wnâi fawr ond darllen llithoedd, a cherdded ar hyd y llan ôl a blaen. Byddem ninnau yn gwneud *bow* iddo pan gyfarfyddem ag ef ar y llan; gwenai yntau yn neis iawn arnom. Paham y byddem yn gwneud *bow* i'r curad nis gwn; ni fyddem byth yn gwneud *bow* i'r gweinidog. Cefais aml wers gan y curad mewn darllen a rhifyddiaeth.

Arferai William Jones, Lerpwl, roddi te a bara brith i ni unwaith yn y flwyddyn. Ac un tro cawsom de neilltuol ar ddyfodiad Tywysog Cymru i'w oed. A chwpan i yfed y te a llun y Tywysog arni. Cafodd dyn y *mail* bach gôt goch, a bu'r gôt goch yn yr ardal yn hir ar ôl i ddyn y *mail* bach ei throi heibio, yn cael ei phrynu a'i gwerthu gan y naill hogyn i'r llall. Nid oedd treulio arni.

Yn fuan ar ôl i mi adael yr ysgol fe adeiladwyd ysgoldy i'r genethod i fod ar eu pennau eu hunain, a diau i hynny dorri rhyw gymaint ar ramant bywyd ysgol Llanaled. Mae'n ddrwg

gennyf orfod addef mai rhyw do go ddiniwed o ysgolheigion oedd y to yr oeddwn i yn eu mysg. Ychydig o amser o'n blaenau ni yr oedd yno rai a ddaeth yn enwogion—"Taliesin Hiraethog," "Huw Myfyr," "Llew Hiraethog," Huw ac Isaac Jones, Hendre Ddu, Dr. David Roberts ("Dyn y foch aur"), Gwrecsam, y Parch. David Jones, Hugh Evans, Tŷ'n y Gilfach; ac o'r to ar ein holau y cododd "Bardd y Drysau," "Glyn Myfyr," a Thomas Jones, bardd ac awdur gwych. Ond o'n criw ni, yr unig un, hyd y cofiaf, a ddaeth i enwogrwydd oedd "Tawelfryn," awdur cofiant "Ieuan Gwynedd," sydd yn aros eto. Ond diolch am yr addysg a gawsom; er mor ddiniwed y troesom allan, mae'n siŵr y buasem yn fwy diniwed fyth hebddi.

Hyd y gwn i, yr oedd chwaraeon plant ysgol Cwm Eithin yn debyg i chwaraeon y dyddiau hyn. Byddem yn chwarae pêl droed yn y gaeaf, er na chlywais y gair pêl droed na *football* erioed yn cael ei arfer. Yr oedd gennym ni ein henw clasurol ein hunain ar y bêl, sef "cwd tarw." Yr arferiad oedd i ddau o'r bechgyn hynaf fod yn arweinwyr—pob un i ddewis ei fyddin. Câl'r cyntaf bigo un a'r nesaf bigo dau, ac yna bob yn ail nes ceid digon. Weithiau cymerent yn eu pennau i roddi tro i'r hen blant bach yn y fyddin, nes y byddai cae'r llyn yn ddu gan blant. Arferem hefyd ddogio cath glap, pitsio, troi'r topyn cwrs, chwarae marblis—pob chwarae yn ei dymor neilltuol ei hun.

Ond gwell i mi adael llonydd i'r chwaraeon rhag ofn i mi roddi fy nhroed ynddi. Ni fûm yn arwr mewn chwaraeon. Anaml y mentrwn chwarae marblis o ddifrif, gan mai colli y byddwn, ond yr oedd yno rai, fel finnau, yn fodlon i chwarae o "fregedd." Byddaf yn meddwl i mi ddechrau fy oes yn y pen chwith, oherwydd yr oeddwn cyn hoffed o gwmni hen bobl pan oeddwn yn hogyn ag wyf o gwmni plant bach yn awr; ac, ar aml ganol dydd pan na fyddwn yn chwarae, trown am ymgom at hen bobl y 'Sendy a fyddai bob amser yn sefyll â'u pwysau ar y wal pan fyddem yn chwarae, neu yr hen *stonecutter* dall oedd yn byw wrth dalcen yr ysgoldy ac yn dyfod allan i eistedd ar y wal isel. Hoff oeddwn o'u gwrando yn myned dros dreialon caled bore'u hoes, a diau i mi dreulio gormod o fore fy oes ymysg hen bobl a chario bywyd yn rhy drwm yr adeg honno, ac y buasai yn well i mi fod wedi chwarae rhagor.

Mae'n debyg nad ydyw pawb yn blant yr un amser ar eu hoes, y mwyafrif yn ei dechrau, eraill yn ddiweddarach. Byddaf yn credu y caiff ambell un ei eni i'r byd heb fod yn blentyn o gwbl.

Cofiaf am un gweinidog yr amheuern i yn fawr a fu ef yn blentyn erioed. Byddai'n sôn am yr amser yr oedd yn ieuanc ; mor dda oedd o ac eraill ; ac yn ein ceryddu ni beunydd a byth. Yn ffodus, ymhen tipyn digwyddais fod yn ardal ei hen gartref. Cyfarfûm â gwraig oedd wedi ei magu y drws nesaf iddo, a dywedais wrthi am y driniaeth a gaem ganddo.

"Yn awr," meddwn, "mae arnaf eisiau i chwi ddweud ychydig o'i hanes o pan oedd yn hogyn, gael i mi gael dweud wrtho. Ni wnaf ddweud pwy a ddywedodd wrthyf. Dywedwch dipyn o'i dricie fo."

"Gwarchod pawb !" ebe hithau, "nid oedd ganddo fo ddim tricie. Bachgen da iawn oedd o ; darllen ei lyfr y bydde fo."

"Ydech chwi ddim yn cofio iddo roi'r gath i lawr trwy'r simdde erioed ?"

"Bobol annwyl ! chymere fo lawer am wneud ffasiwn beth," ebe hi ; "bachgen da iawn oedd o."

"Wel, wraig," meddwn drachefn, "ydech chwi'n meddwl dweud wrtha i fod o wedi ei ail eni cyn ei eni y tro cyntaf ?"

"Bachgen da iawn oedd Gruffydd beth bynnag."

Bu'n rhaid i mi droi'n ôl yn siomedig.

PENNOD XVI

ENWADAU CWM EITHIN

NI fyddai hanes bywyd gwledig unrhyw gwm yng Nghymru agos yn gyflawn heb ddisgrifiad gweddol fanwl o'r gwanol enwadau a bywyd y capel, oherwydd mai'r capel oedd bron yr unig beth a ddylanwadai ar fywyd plentyn heblaw ei gartref. Yno'r oedd ei ddiddordeb, am gyfarfodydd y capel y dyhëai, yno y cyrchai ar ôl ei ddiwrnod gwaith. Mae'n rhaid cofio bod plant a phobl mewn oed yn credu mai eu henwad hwy yw'r gorau o ddigon. Mae'n debyg fod syniadau pawb lawer yn ehangach am enwadau eraill yn awr nag oeddynt pan oeddwn i'n blentyn. Na feier arnaf, gan hynny, os byddaf yn dywedyd mai'r enwad y cefais y fraint o fod yn aelod ohono oedd y gorau o ddigon, ac felly disgrifiad o fywyd fy nghapel bach fy hun yn unig a allaf ei roddi. Ei flaenoriaid a'i athrawon yn unig a adwaenwn yn iawn (hynny yw, os oedd digon yn fy mhen i'w hadnabod yn iawn); hwy oedd fy arwyr.

Yr oedd y dadleuon enwadol wedi lliniaru llawer erbyn fy amser i, er y daliai pob enwad yn selog dros ei gredo. Yr oedd yr hen chwerwedd cas wedi diflannu, felly yr oedd yr enwadau yn hollol gyfeillgar yng Nghwm Eithin pan gofias ef, ac mae'n sicr fod erledigaethau hen Berson Llanfryniau wedi eu closio at ei gilydd. Ond yr oedd ôl yr hen helyntion i'w gwled neu i'w clywed yn amlwg iawn, oherwydd pan fyddai pregethwr o un enwad yn pregethu gydag enwad arall, caech ei glywed bron bob amser yn myned allan o'i ffordd i ddyfynnu darn o bregeth neu sylw o waith rhywun yn perthyn i'r enwad a wasanaethai ar y pryd, gan gyfeirio ato fel "gweinidog enwog gyda'ch enwad parchus chwi." Paham y byddai eisiau dywedyd bod un o'r pedwar enwad crefyddol a wnaeth gymaint i Gymru yn barchus, oni bu amser yr edrychai'r enwadau ar ei gilydd heb fod felly? Cefais lawer o hwyl wrth glywed ambell bregethwr bach, na châi lawer o gyhoeddiadau gyda'i enwad ei hun, yn sôn am gewri parchus "eich enwad parchus chwi." Byddaf yn clywed ambell un hyd y dydd hwn o brif bregethwyr Cymru yn gwneud hyn. Tebyg eu bod wedi eu codi mewn rhan o'r wlad lle y parhaodd y chwerwedd yn hwy nag y dylasai, ond bydd yn

merwino fy nghlustiau bob tro y clywaf y geiriau “*Eich enwad parchus chwi.*” Tybed fod angen dywedyd am enwad crefyddol ei fod yn barchus? Ach a fi!

Yng Nghwm Annibynia y'm ganwyd, a bûm yn Annibynnwr selog am yn agos i saith mlynedd. Un o blant y Parch. Michael Jones oeddwn; ond pan symudais i Gwm Eithin collais fy Annibyniaeth. Ac y mae'n debyg fod pob un yn colli ei Annibyniaeth pan fo 'n rhywle rhwng pump a saith mlwydd oed. Ni chaiff lawer o'i ffordd ei hun ar ôl hynny, mae'n rhaid iddo ddyfod yn un o'r Methodistiaid, er bod rhai yn eu galw eu hunain yn Annibynwyr hyd yn oed ar ôl priodi! Nid rhyw lawer o Annibynwyr oedd yng Nghwm Eithin. Aros un ochr i'r Cwm yn ei gilfachau yr oeddynt, ac yr oedd y capel nesaf dros ddwy filltir o'm cartref newydd, tra'r oedd dau gapel Methodist o fewn milltir, a'm mam wedi bod yn mynychu un ohonynt flynyddoedd yn ôl—y lleiaf a'r pellaf o'r ddau, os oedd peth gwahaniaeth yn y ffordd. Yno y'm cefais fy hun. Er mor ieuanc oeddwn arhosodd lle pur gynnes yn fy nghalon i'r Annibynwyr. Credwn mai hwy oedd yn dyfod nesaf at y Methodistiaid. Yr oedd yno hen ferch a thri hen lanc o Annibynwyr yn byw yn ymyl ein capel bach ni, ag ôl Diwygiad '59 wedi aros yn drwm arnynt, a deuent i'n capel ni weithiau, yn enwedig ar gyfarfod diolchgarwch. Yr oeddynt yn danbaid yn eu gweddïau, un ohonynt yn borthwr hynod iawn yn y gwasanaeth. Gwaeddai “He, He,” gyda rhyw lais trëiddgar. Cofiaf un tro C. R. Jones, Llanfyllin, yn aros gyda'i frawd John Jones. Rhod ef i bregethu nos Sul yn ein capel ni. Yr oedd gŵr ieuanc o'r Bala yn y daith yn hanu o Borthmadog. Rhod y ddau i bregethu. Cydgerddwn â nifer adre, a'r siarad oedd mai'r efrydydd oedd wedi pregethu orau, ond bod yr hen lanc wedi gweiddi mwy o lawer o “He, He” pan oedd C.R. yn pregethu. Ond nid oedd yn hollol fel *safety match* Ioan Jones. Soniai Ioan Jones am hen frawd a arferai borthi yn y moddion yn frwdfrydig iawn yng nghapeli ei enwad ei hun. Ni thaniai yng nghapeli'r enwadau eraill.

Byddwn yn myned i gapeli'r Annibynwyr yn awr ac eilwaith i ddarlithoedd a chyfarfodydd pregethu, pryd y byddai “Hwfa Môn,” “dyn y foch arian,” ac eraill yn pregethu, a byddwn i, fel pob hogyn arall, yn edrych mor ddoeth a phwysig ag y medrwn mewn capel dieithr.

Nid oedd dim Bedyddwyr yng Nghwm Eithin. Gallwn i edrych o ben y top ddeng milltir i bob cyfeiriad heb weled yr

un. Bedyddiwr, ac yr oeddwn yn hogyn go lew cyn gwybod dim amdanynt, er i mi glywed enw Christmas Evans lawer tro. Daeth "Pedr Hir" i fyw i dŵp y Cwm ar ôl i mi ymadael. Clywais y gellid gweled ei ben ef yr adeg honno o'm cartref dros ysgwydd Mwdwl Eithin, pan âi i'r mynydd i ddysgu Groeg yn lle dal *poachers*. Cefais fraw i waelod fy esgidiau pan welais gapel Bedyddwyr gyntaf yn fy oes. Y waith gyntaf y'm cefais fy hun ym mhrif dre Cwm Eithin, wrth gerdded trwy'r dre a rhythu ar ei rhyfeddodau mawrion, gweled golau ar flaen peipen yn ystabl yr *Hotel*, a methu â gweled kannwyll frwyn na channwyll wêr yn y beipen; ac wrth i mi ymhela â hi aeth y golau allan. Ar ôl myned allan o'r ystabl, cerddais ychydig is i lawr y dref. Gwelais adeilad â bwrdd ar ei dalcen, ac arno *Baptist Church*. "Wel, wel," meddwn wrthyf fy hun, "mae nhw wedi dwad. Mae hi wedi darfod arnom yng Nghymru. Fe gawn ni yr Ymneilltuwyr ein llogi bob copa walltog. Tybed fod a fynno'r hen Berson rywbeth â'u dwyn hwy yma i ddial arnom ni, blant yr Ysgol Gerrig?" Ychydig yn gynt clywswn yr hen flaenor yn dywedyd ei fod yn ofni bod yr Ymneilltuwyr yn myned yn debycach i'r Eglwyswyr a hwythau yn myned yn debycach i'r Pabyddion, ac yr ofnai mai yn Babyddol yn ei hól yr âi Cymru. Pabistiaid y galwai fy nain y Pabyddion, a siaradodd lawer yn fy nghlyw am eu creulonderau at y Protestaniaid yn amser Mari Waedlyd. Pan welais *Baptist Chapel*, cymerais yn ganiataol mai'r Pabistiaid oeddynt. Pwy na fuasai yn cael braw wrth eu gweled wedi cyrraedd i waelod Cwm Eithin? Ymhen amser ar ôl hynny, yr oedd yno wraig wedi bod yn byw yn Llundain ac yn arfer gwrando gyda'r Bedyddwyr, ac wedi dychwelyd i'w hen gartref yn Llanllonydd, un o frigau Cwm Eithin, a dymunai gael ei bedyddio. Trefnodd nifer o'r Bedyddwyr o rywle â dau neu dri o'u gweinidogion i ddyfod i Lanllonydd i'w bedyddio. Y prynhawn Sul a ddaeth, ganol haf, a'r haul yn entrych y ffurfafen. A gwelwyd y ffyrdd a'r llwybrau o bob cyfeiriad yn ddu gan bobl yn cyrchu i Lanllonydd, rhai ar hyd y cymoedd a rhai dros y brynau. Euthum innau yn y dyrfa yn llawn chwilfrydedd. Mae afon enwog yn rhedeg trwy Lanllonydd a phont faen i'w chroesi, a llyn braf o'r tu ucha i'r bont. Ac yr oedd ei ddwfr yn loyw a grisialaidd y diwrnod hwnnw, a'r gro mân o'i waelod yn adlewyrchu goleuni'r haul. Yr oedd y bont a'r llechwedd wrth y llyn yn orlawn o bobl pan gyrhaeddais, ond gan fy mod yn fychan o gorffolaeth gwthiais drwyddynt a

heibio i gornel y bont ar y llechwedd yn ymyl y llyn. Yno y syllais mewn gorchwyledd ar y Sacrament Cysegredig yn cael ei weinyddu gan weinidog tua chanol oed gyda defosiwn ac urddas. Gwrandewais yr anerchiadau a'r pregethu wedyn yng nghapel y Methodistiaid gan rai o'r gweinidogion a ddaethai yno. Ni allaf ddywedyd beth oedd enw'r un o'r gweinidogion, a'r unig beth sydd wedi glynu yn fy nghof o'r gwasanaeth yw darn o emyn :—

“ Af ar ôl yr Apostolion
A aeth yn ffyddlon o fy mlaen,
Ac a gladdwyd yn y dyfroedd
Fel gorchmynnodd Iesu glân.”

Ni fu arnaf byth ofn y Bedyddwyr ar ôl hynny.

Nid llawer o Wesleaid oedd yng Nghwm Eithin. Capeli bychain a chynulleidfaoedd bychain oedd ganddynt. Fel rhyw ddolen gydiol rhwng y ddau enwad arall a'r Eglwys yr edrychwn i arnynt yr adeg honno. Ni wn yn iawn paham. Mae'n debyg mai un rheswm oedd eu bod yn dysgu cwmp oddi wrth ras a minnau wedi fy nysgu ac yn credu nad oedd y fath beth yn bosibl. Ond y mae'n rhaid i mi addef y byddai cwmp yn beth pur fynych yn eu mysg yng Nghwm Eithin yr adeg honno. Yr oedd llawer gormod o yfed, mae'n sicr, gyda phob enwad, ond fe gredwn i a llawer eraill eu bod hwy yn fwy goddefgar na'r enwadau eraill at aelodau yn slotian.

Byddwn yn myned i'w capel i gyfarfodydd. Cofiaf fyned yno un tro i wrando'r Parch. Owen Cadwaladr Owen, mab y Parch. Cadwaladr Owen, Dolwyddelan. Yr oedd y Wesleaid wedi taenu'r newydd ei fod yn well pregethwr o lawer na'r mab arall oedd yn fugail gyda ni y Methodistiaid yn rhai o gapeli Cwm Eithin, ac aeth llawer o Fethodistiaid yno i farnu, a minnau yn eu mysg. Mae'n rhaid i mi addef ei fod lawer mwy parablus na'i frawd iau, ond nid argyhoeddwyd ni ei fod yn well pregethwr. Yr oedd iaith blaenoriaid y Wesleaid yn llawer mwy steilus na iaith ein blaenoriaid ni; yr oedd un neu ddau ohonynt fel pe buasai ganddynt iaith neilltuol ar gyfer y Sul. Yno y clywais y geiriau “Eisteddleoedd,” “Moddiannau,” a “Chyfeillach” gyntaf yn fy oes, yn cyfateb i “Seti,” “Cyfarfodydd” a “Seiat” gennym ni.

Ychydig iawn a fynychai Eglwys Llanfryniau er i'r hen Ber-son wneud ei orau i orfodi pawb i fyned yno. Rhyw nifer tebyg i

deulu Arch Noah oeddynt. Yr oedd Eglwys Llanaled ychydig yn well, am fod yno Berson oedd yn un o'r rhai mwyaf rhyddfrydig yn yr oes honno; ond yr oedd y trigolion wedi gweled gormod o'r sgrïw i feddwl yn uchel o'r Eglwys i wneud llawer â hi. Fy syniad i'r pryd hwnnw oedd mai lle i bobl yn cadw cŵn hela, y stiwardiaid, *cipars* a disgyblion y torthau ydoedd hi, ac nid oedd gennyf fawr o feddwl o'r naill na'r llall ohonynt. Methwn yn lân â deall pe buasai y Person yn myned i gadw seiat gyd â hwy, y cawsai lawer o hwyl. Clywais am y Parch. John Williams, Llecheiddior (os wyf yn cofio'r enw yn iawn), offeiriad duwiol-frydig yn byw yn amser y Diwygiad Methodistaidd, wrth weled llwyddiant a gwerth y seiadau o dan arweiniad Williams Pantycelyn ac eraill, yn penderfynu ceisio cadw seiat yn ei Eglwys. Un nos Sul hysbysodd ei fod am gael cyfarfod i gael rhyddymddiddan am bethau crefydd; rhyddid i bawb ddywedyd eu profiad a pheth a fyddai'n pwysu fwyaf ar eu meddwl; hwyrach y gallent yn y modd hwnnw gynorthwyo llawer ar ei gilydd. Noswaith y cyfarfod a ddaeth, ond ni ddaeth ond tri yno hen wraig dlawd, gwraig gyfoethog, a ffarmwr cefnog. Ar ôl i'r offeiriad ddechrau'r cyfarfod a rhoddi anerchiad agoriadol byr, trôdd ar yr hen wraig dlawd, "Wel, Mari, mae'n dda gen i eich gweld wedi troi i mewn. Beth sydd gennych chiwi i'w ddweud wrthym ni?"

"Chwi wyddoch, Mr. Williams, mai hen wraig weddw dlawd ydwyf fi; dim ond deunaw o'r plwy at fyw. Mae hi'n galed iawn arna'i. 'Rydw i yn methu â chael digon o fwyd; mi 'rydech chiwi yn ŵr o ddylanwad mawr, ac mi roeddwn yn meddwl y gallech chiwi fy helpu i gael ychydig chwaneg."

"Ie; wel, Mrs. Jenkins, mae'n dda iawn gen i eich gweld chiwi wedi dywad atom ni heddiw. A wnewch chiwi ddweud gair o'ch profiad wrthym ni; rywbeth sydd ar eich meddwl chiwi?"

"Fe fidd yn dda odieth geni gael gweid, Mr. Williams. Mae 'da fi riw boin yn fy ochr with ers amser. 'Rw i wedi bod gida llawer o ddoctoriaid, ond rw i yn ffaeli'n lan â chael dim reliff. 'Rw i'n gwbod eich bod chiwi yn ŵr dysgedig, ac yr oeddwn i yn meddwl, 'falle, y gallech chiwi roi rhiw gyngor i mi ffordd i gael madel â'r boin yma."

"Mae'n ddrwg gennyf fi, gyfeillion, mae arnaf ofn eich bod wedi camddeall natur y cyfarfod. Mae'n ddiâu fod gennym ein treialon a'n helbulon gyda phethau y bywyd hwn, ond cyfarfod yr oeddwn i yn meddwl i hwn fod i ymdrin â phethau ysbrydol—

ein treialon a'n temtasiynau, i'n paratoi ni ar gyfer y byd ar ôl hwn. Mae hen afon angau gennym i'w chroesi bob un ohonom ; ac fe fydd arnom angen am rywbeth i'n cynorthwyo i groesi honno, ac i lanio'n ddiogel yr ochr draw. Beth sydd gennych chwi i'w ddweud, Mr. Morgan ?”

“ Wel, wir, Mr. Williams, yr oeddwn i yn meddwl, pan o'ech chwi yn sôn am yr afon sydd gyda ni i'w chroesi, am yr hen geffyl gwyn oedd 'da fi. Weles i yr un afon erioed na nofiws e hi, ond 'rw'i wedi ei werthu e. Pam na fase chi'n gweid wrtho i am yr hen afon yma cin i fi ei werthi e ?”

Syniad pur gyffredin oedd gennyf am y *cipar*. Er enghraifft, rhywbeth yn debyg i syniad yr Iddew am y publican, er na ddiodeffodd Cwm Eithin gymaint oddi wrth y *cipars* yn fy nghof i â llawer rhan arall o Gymru. Methwn â gweled y gallai fod a wnelo'r *cipar* lawer mwy â chrefydd na'r cŵn a ganlynai. Yn wir, nid oedd ambell un ohonynt yn yr oes honno yn annhebyg iawn ei olwg i rai o'r cŵn a ganlynai. Yr wyf braidd yn meddwl pe buaswn yn gwybod am benbleth Darwin i gael gafael ar y *missing link* yr adeg honno y buaswn wedi anfon ato i ddweud “ Dowch i Gymru, ac mi a'i dangosaf i chwi.” Ceir llun da o Guto'r *cipar* yn *Robert Sion o'r Gilfach* gan “ Elis o'r Nant.”

Tebyg iawn i syniad Gwen Phillip am yr Eglwys oedd fy un innau y pryd hwnnw, ac yr oedd hwnnw gryn lawer yn uwch na syniad yr hen Berson am bobl y capel. Hen wraig erwin oedd Gwen Phillip. Gallai regi llawn gystal â'r un dyn yng Nghwm Eithin, a medrai witsio. Felly, fe fyddai gennym ni'r plant gryn lawer o'i hofn. Ni fuasai yr un ohonom yn meiddio tynnu wynebau a gwneud ystumiau o flaen drws ei thŷ hi. Er hynny, yr oedd cryn lawer ym mhen Gwen Phillip. Yr oedd ganddi fab a'i enw Wil, bachgen digon dawnus a medrus, a gallasai fod yn ddefnyddiol iawn mewn capel neu eglwys ; ond tipyn o chwit-chwat ydoedd, a dechreuodd slotian gyda'r ddiod. Bu gyda'r Methodistiaid yn hir, yn cael ei ddiarddel, ac yn cael tro a myned yn ei ôl, ond blinasant arno yn y diwedd. Ymunodd yntau â'r Wesleaid, a bu yno am dymor yn cario ymlaen yn debyg, i mewn ac allan. Ond fe flinasant hwythau arno. Yna fe ymunodd â'r Eglwys, a'r diwedd fu iddynt hwythau ymwrthod ag ef, wedi mynd ohono dros ben llestri. Hysbyswyd ei fam fod Wil wedi cael ei droi o'r Eglwys. Cododd hithau ei dwylo uwch ei phen a beichiodd allan, “ Wel, wel, mae Wil ni wedi colli'r trê'n olaf i'r nefoedd.”


Pan oeddwn yn cychwyn *Y Brython* pryderais lawer pa fodd i'w wneuthur yn anenwadol, oherwydd cael papur newydd cenedlaethol oedd fy syniad, a gofynnais a chefais gynghorion gwerthfawr gan rai o arweinwyr pob enwad. Ond ar ôl ei gychwyn cefais wmbredd o gwynion gan bobl enwadol, nad oedd *Y Brython* yn gwneuthur digon o sylw o'n henwad ni, a "dydech chwi byth bron yn sôn am ein capel ni," er, efallai, mai eu henwad hwy oedd yn cael mwyaf o sylw ar y pryd am fod cymanfa neu gyfarfodydd yr enwad hwnnw yn digwydd bod yr adeg honno, a sylw arbennig o'u capel hwy. Ymhen amser, ar ôl blino llawer ar fy meddwl gan ddywediadau brathog, deuthum i'r penderfyniad mai'r unig ffordd i wneuthur papur newydd yn anenwadol, yn ôl syniad rhai, oedd peidio â sôn dim am yr un enwad ond ein henwad ni, a phur ychydig am y capeli eraill o'n henwad ni.

PENNOD XVII

EIN CAPEL NI

SAFAI Capel Cefn Cwm Eithin nid mewn llan na phentref, ond ar ei ben ei hun ar godiad tir ychydig lathenni o'r hen ffordd. Codwyd ef ar derfyn y ddeunawfed ganrif. Ef oedd yr hynaf yn y cylch. Capel ysgwâr a dau ddrws i fyned i mewn iddo. Yr oedd y pulpud a'r allor rhwng y ddau ddrws, a'r seti'n codi yn uchel tua'r cefn a stepiau uchel i fyned iddynt. Yr oedd llwybr ar gyfer pob drws ac un yn y canol, y seti'n ddyfnion â drysau'n cau, yn fy nghof cyntaf, a dwy res o feinciau ar y llawr, y bechgyn yn eistedd un ochr a'r genethod yr ochr arall; ond yn fuan rhoed dwy sêr hir yn lle dwy o'r meinciau, ac aeth rhagor o'r plant i eistedd i'r seti. Yr oedd tŷ'r capel wrth ei dalcen, ac ystabl wrth dalcen hwnnw, a mynwent o'r tu ôl, a chotel o dir i gael gwair i geffylau'r pregethwyr, gyda lawnt weddol fawr o dir o'i flaen; y tir i gyd wedi ei roddi gan wâr a fu â llaw fawr yng nghychwyn yr achos. Lle diddorol dros ben i ni yr hogiau oedd yr ystabl lle'r arhosai ceffylau'r pregethwyr, yn enwedig ceffylau'r pregethwyr teithiol. Llauer ymgom felys a gawsom gyda hwy yn eu holi am eu teithiau. Meddylier gymaint a allai hen geffyl melyn yr hen Brydderch o'r Gopa, neu geffyl John Dafis Nerquis, ei ddywedyd wrthym yn eu dull eu hunain. Yr oeddynt gymaint o *wags* â'u meistradoedd. Ond fel yr oedd yr oes yn myned yn fwy materol, fe drowyd yr ystabl yn dŷ er mwyn cael rhent at gynnal yr Achos. Ac yn fuan fe brynodd masnachydd anturiaethus ddarn o'r lawnt ac adeiladodd dŷ a siop, fel y gallai mynychwyr y capel saethu dwy frân ar yr un ergyd, cael cynhaliath corff ac enaid.

Yr oedd gwydr golau yn y ffenestri, a phan fyddem wedi blino yn gwrando'r bregeth ar brynhawn Sul marwaidd, gallem ein difyrru ein hunain wrth edrych ar rywun yn rhedeg i droi'r hwch o'r haidd, neu'r wŷn bach yn prancio ar hyd llethrau'r ochr gyferbyniol i'r cwm. Yn yr haf byddai'r ffenestri a'r drysau yn agored, a deuai'r gwenoliaid i mewn i wrando'n fynych, yn enwedig pan fyddai yno bregethwyr wrth eu bodd. "Y wennol a gafodd dŷ." Gwelais y gwenoliaid droeon yn gwrando'n astud aar y Parch. William Pugh, Llandrillo, yn pregethu. Mae'n



Ein Capel Ni

debyg eu bod yn meddwl mai un o'u cyfeillion y gwenyn fyddai wrthi. Ys gwn i beth a fuasai pobl yr oes hon yn ei feddwl o wrando ar William Pugh yn pregethu am awr ar brynhawn Sul marwaidd, fel cacynen mewn bys coch? Bu'n rhaid i ni ddwyn y groes honno lawer tro.

Nid oedd yno ddim i dwymno'r capel yn y gaeaf, ond nid wyf yn cofio i mi erioed fod yn oer ynddo, er nad oeddwn yn meddu côt uchaf'. Arwydd o henaint neu o falchter oedd gwisgo côt uchaf yng Nghwm Eithin. Gresyn na buasai'r hen arferiad dda honno wedi parhau. I beth yn y byd y mae gan ŵr ieuanc a'i wythiennau yn llawn o waed eisiau côt uchaf? Mae llawer o hogiau o bregethwyr yn andwyo eu hiechyd a'u cyfansoddiad wrth wisgo côt uchaf a chadach mawr fel hanner gwrthban am eu gyddfau er ceisio ymddangos yn debyg i hen gewri'r pulpud. Pan welaf un o'r creaduriaid bach hynny byddaf bob amser yn dyfod i'r casgliad nad yn ei frest y mae'r gwendid ond yn ei ben. Mae'n debyg mai'r rheswm fod eisiau twymno capeli yn ein dyddiau ni yw bod y pregethwyr a'u gwrandawyr wedi oeri llawer rhagor y byddent yn yr hen amser. Yr oeddynt wedi dechrau twymno'r eglwysi lawer o flynyddoedd cyn dechrau twymno'r capeli. Clywais adrodd fod y dyrnaid addolwyr a fynychai Eglwys Cynwyd wedi myned i deimlo'n oer iawn, a galwyd cyfarfod o'r wardeniaid ac eraill er cael gafael ar ryw gynllun effeithiol i dwymno'r lle. Cynigiwyd amryw ffyrdd i wneuthur hynny, ond nid oedd llawer o lewych arnynt. Cododd yr hen Feistar Williams, Gwerclas, ar ei draed, a chynigiodd eu bod yn cael John Jones, Talsarn, yno i bregethu, mai dyna fuasai'n ei thwymno drwyddi. Ardderchog, yr hen Williams! Ond ni bu angen am dwymno'r capeli am flynyddoedd ar ôl hynny. Ond syywaeth fe ddaeth angen am dwymno'r capel. Os edrychir dros ddalennau'r *Faner* am y blynyddoedd '67 a '68, ymhen llai na deng mlynedd ar ôl Diwygiad '59, fe welir fod y cwestiwn o oerni'r capeli wedi datblygu'n gwestiwn poeth. Erbyn hyn ceir *heating apparatus* ym mhob capel, ac eto maent yn oerach nag yn yr hen amser gynt.

Pan gyrhaeddais i gapel bach Cwm Eithin, yr oedd yno dri o flaenoriaid. Yr oedd yno bedwar arall wedi bod o'u blaen er amser cychwyn yr Achos, tri o'r pedwar wedi marw, ac un wedi symud oddi yno, a bu'n flaenor mewn dwy eglwys arall ar ôl hynny. Dim ond tri o flaenoriaid y capel hynaf yn y cylch oedd wedi marw cyn cof i mi. Rhaid fy mod yn dechrau myned yn

hen, ond cofier mai un blaenor oedd yno, rhoddwr y tir, yn yr oes gyntaf. Yr oedd yr hynaf o'r tri yn ffarmwr mawr, ac o ymddangosiad boneddigaidd. Gwallt gwyn, cyrliog, ac yn ysgwyd ei ben bob amser, arwydd i ni'r plant ei fod yn dduwiol iawn. Yr oedd ganddo gorffolaeth fawr. Yr oedd drysau'r capel yn ddau ddarn, ac un hanner a agorid bob amser. Gyda thrafferth y deuai ef i mewn. Gwthiai y rhan oedd o dan ei wasgod i mewn yn gyntaf, ac yna deuai yn wysg ei ochr am gongl yr hanner drws caeedig ac i mewn yn debyg fel y deuir â bwrdd crwn i mewn i ystafell. Wrth feddwl amdano wedi dyfod i oedran addfetach, credaf mai hen ŵr da ydoedd; a gallwn feddwl wrth gofio am ffurf ei wyneb a'i ben ei fod yn ŵr o farn ac yn gymeriad cryf. Cofiaf yn dda ddiwrnod ei gladdu. Dyna'r tro cyntaf i mi roddi fy nhroed yn Eglwys Blwyf Cwm Eithin.

Gŵr pur wahanol oedd blaenor arall. Ffarmwr mawr heb ddim hynod iawn ynddo. Rhoddai bwys neilltuol ar ei air a gofalai am ei gadw. Arferwn feddwl ei fod yn ŵr mawr ar ei liniau, a meddyliai yntau ei fod yn bur fawr ar ei draed, ac felly yr oedd o ran ei gymeriad, ond nid oedd ei wybodaeth na'i allu i siarad yn gyhoeddus ond pur gyffredin. Siaradai yn uchel iawn ym mhob man, yn enwedig mewn cwmni; ond ar gefn y ferlen neu yn ei gerbyd yr oedd yn ei ogoniant. Meddai ferlen dda bob amser. Byddai'n barchus iawn o'r plant a'r bobl ieuanc. Yr oedd gennyf barch mawr iddo ef a'i deulu caredig, a chefais gystal cyfle, os nad gwell, i'w adnabod â llawer o drigolion Cwm Eithin.

Y trydydd oedd ein pen blaenor. Ffarmwr oedd yntau, ond fod ei ffarm yn llawer llai, a buasai un llai fyth yn gwneuthur y tro iddo o ran hynny o waith a wnâi. Ond yr oedd yn flaenor ardderchog. Blaenor yn byw mewn ffarm oedd ef, ac nid ffarmwr wedi ei wneuthur yn flaenor. Meddai bersonoliaeth hardd a gwybodaeth eang, ac yr oedd yn ymadroddwr rhwydd, yn drefnydd medrus, yn holwyddorwr pobl mewn oed, ieuencid neu blant, dan gamp. Ymysg yr holl flaenoriaid y deuthum i gyffyrddiad â hwy, ni chyfarfûm â'i debyg am holwyddori. Byddai ei gael i ddarllen pennod ac i holi arni ar ddechrau'r cyfarfod gweddi nos Sul y wledd flasusaf yng nghapel Cwm Eithin. Yr oedd yn un o'r athrawon medrusaf, a phlannodd awydd angerddol am wybodaeth mewn to ar ôl to o blant Cwm Eithin. Ef oedd y dechreuwr canu, ac nid oedd ei debyg am hynny

yn yr holl ardaloedd. Ei unig fai, am a wyddwn i yr adeg honno, oedd ei fod yn rhy arw am ei ffordd ei hun. Ac âi i'w ful oni châi hi. Safai ei gartref yn agos i'r capel. Yr oedd yn dŷ da, hen gartref yr hen frenin weinidog ac un o brif arweinwyr y Methodistiaid yr oes o'r blaen; ac yno y lletyai'r pregethwyr. A byddai wrth ei fodd gyda hwy. Ond ofnai hogiau'r Bala ef; yr oedd yn holwr caled. Byddai yn ei ogoniant wrth arwain y pregethwr at y capel. Os digwyddai fod pregethwr enwog yn y daith, dyweder Dr. Edwards, y Bala, yr adeg honno, yn lle rhoddi ei ddwylo ym mhocedau ei lodrau fel arfer, tynnai ei wasgod i fyny a gwthiai ei ddwylo oddi tan ei lodrau, er mwyn teimlo'n llond ei ddillad. Meddai rai ffaelectedau, ond diolch amdano, gwnaeth waith na ddileir mohono.

Nid oedd yr un o flaenoriaid "Ein Capel Ni" yn amlwg yn y Cyfarfod Misol; Morgan Dafydd, blaenor Llanllonydd, eglwys oedd yn yr un daith â ni, oedd popeth yno. Hen lanc yn cadw siop, neu'n hytrach y siop oedd yn cadw'r hen lanc, ac yntau'n treulio ei amser i ddarllen a gwasanaethu'r Corff. Gŵr hyddysg yn ei Feibl, ac yn medru darllen y Testament Newydd yn y Roeg, a gweithiau diwinyddion gorau ei oes ar flaenau ei fysedd. Ond siaradwr afrwydd ydoedd, er siarad bob amser; gŵr cryf; o gymeriad dilychwin, yn cael ei anrhydeddu gan bawb, ond blaenor digon sâl gartref. Nid oedd yno ar hyd y blynyddoedd ond un blaenor gydag ef, dyn bychan ym mhob peth ond mewn ffyddlondeb a duwioldeb, ond yr oedd yn gwneud yn iawn i gario dŵr i Morgan Dafydd. Pan ofynnid ei farn ar gwestiwn, "O, yr un fath â fo," fyddai ei ateb bob amser. Morgan Dafydd a fyddai'n dechrau bron bob cyfarfod gweddi, a'r blaenor arall yn diweddu, ac yr oedd yno un brawd arall yn arfer moddion yn y canol, i wneud *sandwich*, a phan fu'r ddau hen bererin farw, nid oedd yno neb braidd i gario'r gwaith ymlaen. Eglwys wan mewn ardal fawr a phoblog ydoedd.

Yr oedd yno well eglwys, gwell pobl, rhai mwy darllengar a deallgar nag yn yr un ardal arall yng Nghymru "yn ein capel ni." Gellir nodi amryw resymau am hynny. Un yw y bu y Parch. Thomas Charles o'r Bala yn ofalus iawn am ein capel ni yn ei gychwyn, am mai ef oedd y cyntaf i gael ei godi yn y cylch ar ôl y Bala; hynny'n brawf fod pobl Cwm Eithin yn rhai effro wrth natur. Peth arall, daeth un o brif dadau Methodistiaeth i fyw o fewn ychydig o lathenni i'r capel yn 1815, a bu yno hyd 1834. Gŵr byw ac effro, meddylgar, ac yn fyfyrwr mawr.

Clywais Evan Huws yn sôn llawer am ei weithgarwch. Pan fyddai ganddo hamdden, arferai adael i'w geffyl gerdded yn araf tra byddai yntau wedi ymgolli mewn myfyrdod. "Cofiaf ei gyfarfod aml dro o Gwernanau i'r hen Ffolt," ebe Evan Huws, "a phasiai fi heb sylwi." Cydnabyddid fod Ysgol Sul "Ein Capel Ni" ar y blaen i holl ysgolion y cylch. Arferai ei rhif fod yn ddwbl rhif yr aelodau eglwysig. Bu'r Eglwys fach heb weinidog yn gofalu dim amdani o 1834 hyd 1864, a phan ymunais i â hi nid oedd yr un gweinidog yn byw yn nes na rhyw bum neu chwe milltir iddi. Felly, er byw heb ofal unrhyw weinidog am ddeng mlynedd ar hugain, yr oedd yn un o'r eglwysi mwyaf byw yng Nghymru. Ychydig iawn oedd nifer y paganiaid o'i chylch, dim ond dau neu dri, a deuent hwythau i'r cyfarfod diolch am y cynhaeaf.

Llenwid pulpud "Ein Capel Ni" gan weinidogion y cylch, megis Dafydd Rolant, y Bala; Robert Thomas, Llidiardau; John Hughes, Gwyddelwern; Dafydd Hughes, Bryneglwys; Robert Williams, Llanuwchllyn; Richard Williams, Llwynithel, Glan'rafon; John Williams, Llandrillo; Edward Williams, Cynwyd; Elis Evans, Llandrillo; Dafydd Edwards, Glan'rafon; Robert Edwards, Llandderfel; y ddau Isaac Jones (y tad a'r mab), Nantglyn; Robert Roberts, Parc; John Jones, Penmachno; Eli Evans, Dolwyddelan, a William Pugh, Llandrillo. Deuai Dr. Edwards yn ei dro. Ni chefais i'r fraint o glywed Dr. Parry, ond toreth y pregethwyr oedd "Hogiau'r Bala." "Gŵr ifanc o'r Bala fydd yma yn pregethu y Sul nesa," dyna a glywid Sul ar ôl Sul yn aml, ac yr oeddym ni'r plant yn meddwl yn uchel iawn ohonynt, ac yr oedd corff y gynulleidfa yn eu parchu a'u mwynhau yn fawr.

Arferai Evan Huws ddywedyd nad oedd yn iawn i neb aros gartref ar nos Sul ystormus hyd yn oed i ddarllen pregethau John Jones, Talsarn, ei arwr mawr ef, os gallai ymlwybro i'r capel. Yr oedd dyfod i'r Tŷ yn beth mawr yng ngolwg yr hen saint. Yn hynny yr oeddynt yn wahanol iawn i seintiau'r dyddiau diweddfaf hyn. Oni bydd y pregethwr wrth eu bodd arhosant gartref. Ond y peth mawr yng ngolwg yr hen bobl oedd cyfarfod y Gŵr yn Ei Dŷ. Eto yr oedd peth rhagfarn yn aros yn erbyn hogiau'r Bala, yn enwedig ymhlith rhai o'r hen bobl oedd yn hongian rhwng y Capel a'r Eglwys, heb fynychu ond ychydig ar na'r naill na'r llall, ac yr oedd ambell un o'r dosbarth hwnnw yn teimlo'n bur gryf yn eu herbyn. Cofiaf glywed am un ohonynt yn dywedyd ei

farn fel y canlyn am hogiau'r Bala. Galwn ef yn Huw Dafydd. Gŵr wedi darllen llawer, ac yn meddu cryn graffter meddwl. Adwaenwn ef yn dda. Anaml yr âi i gapel, ambell dro i'r Eglwys. Yn amser Diwygiad Richard Owen perswadiwyd ef i fyned i wrando arno, ac yr oedd yn amlwg ei fod wedi teimlo o dan ei weinidogaeth. Wrth gydgerdded adref mentrodd cyfaill ofyn iddo, "Beth oeddych chwi yn ei feddwl o'r pregethwr yna, Hùw Dafydd?" "Wel," ebe yntau, "dyna ŵr wedi ei anfon gan Dduw heb os nac onibai." Yna stopiodd, ac meddai ymhen munud neu ddau, "Ond am y diawled bach o'r Bala yna sydd gynnoch chi bob Sul, wn i ddim pwy sydd yn anfon y rhai yna."

Er nad oedd ond dau flaenor yn Ein Capel Ni am ran o'r amser y bûm i yno, nid oedd yr allor yn wag; byddai'r hen bererinion yn yr amser gynt yn ddigon gostyngedig i ddyfod i'r allor. Yr oedd yno ddau neilltuol yn arfer eistedd, Richard Jones a John Huws. Hen ŵr bychan oedd yr olaf, a phob amser yn eistedd yn fflat ar ben grisiau'r pulpud, a phob amser â gwên ar ei wyneb; a phan fyddai pregethwr wrth ei fodd estynnai ei big dros ddrws y pulpud. Llawer o hwyl a gawsom ni'r plant yn ei wyllo yn tynnu ei ben yn ôl pan fyddai pregethwr hwyliog â breichiau hirion ganddo, dyweder John Hughes, Tyddyn Cochyn, yn rhoddi ei bregeth fawr ar y cribddeiliwr ac yn ei ddisgrifio yn cribinio'r cloddiau a'r cymylau, ac yn glanio yn y byd tragwyddol heb gymaint a botingen o wellt, ac yn gweiddi "Dim byd i mi, bobol bach; rhywbeth i mi hefyd, rhywbeth i mi hefyd." Hen bregethwr llawn dwylath o daltra, â breichiau anghyffredin o hirion. Bûm yn ofni lawer tro gweled pen John Huws wedi ei dynnu o'r gwraidd ac yn disgyn ar y Beibl, ond gofalai'r hen frawd am dynnu ei big i ddiogelwch pan welai y breichiau mawr yn dechrau chwifio.

Yr oedd gan rai o'r hen bererinion ryw hyfdra, neu beth bynnag y galwaf ef. Yr oeddynt yn nes at y pregethwyr ac yn fwy cartrefol nag ydym ni yn yr oes hon, a dywedent eu barn wrthynt yn bur ddifloesgni. Clywais adrodd am hen bererin mewn capel arall. Hen ŵr tal, tenau, yn eistedd mewn sêr ar godiad wrth ochr y pulpud; a phan safai i fyny yr oedd cyn daled â'r rhan fwyaf o'r pregethwyr. Un tro yr oedd yno ŵr yn pregethu ar y "Ddeddf a Moses," a Moses a Moses oedd ganddo ar hyd yr amser. Y funud y dywedodd Amen, cododd yr hen bererin ar ei draed a'i hanner drosodd i'r pulpud, a lediodd y pennill a ganlyn gyda phwyslais neilltuol:—

“ Er cymaint gŵr oedd Moses,
 Mae'r Iesu'n fwy, medd Duw !
 Mae Moses wedi marw,
 Mae'r Iesu eto'n fyw.
 Ni welais neb mor fedrus
 Ag Iesu am drin fy nghlwy,
 A chan ei fod fath feddyg
 Ffarwel i Moses mwy.”

A chanwyd ef gyda hwyl.

Yr oedd y Seiat yn bur boblogaidd yn Ein Capel Ni. Byddai braidd yr holl aelodau yn ei mynychu. Ar ôl gwrando'r plant yn dywedyd eu hadnodau a'u holi'n bur fanwl ar adnod y testun ac ar y bregeth (yr oedd y rhan fwyaf ohonom yn ysgrifennu'r testunau a'r pennau), gofynnai un o'r blaenoriaid am air o brofiad, a dechreuai un o'r brodyr neu'r chwiorydd, bron yn ddieithriad, ohonynt eu hunain. Cwyno llawer ar eu bywyd diffwrwyth y byddai'r hen saint a'r saint ieuainc, ond yr oedd eu profiad yn *real* iawn, mi gredaf. Dywaid rhai: Pa ddiben i blant wrando peth felly, nad ydynt yn deall dim ohono? Ond mi gredaf oddi ar fy mhrofiad fy hun fod plant yn deall profiad crefyddol yn dda iawn, a bod ei wrando yn gwneud argraff ddofn iawn ar eu meddwl. Anaml iawn y gallai'r un o'r chwiorydd ddywedyd ei phrofiad heb dorri i lawr i wlo'n hidl oherwydd ei diffyg cariad at, a ffyddlondeb i'r, Gŵr a garai mor fawr. Yr hen chwaer hynaf oedd yno, Sali, Tŷ Tan y Berllan, fyddai'r orau am fedru dal i ddywedyd ei phrofiad heb wlo. Hen chwaer olau yn ei Beibl, o gynheddfau cryfion, blaen ei geiriau, ond torrai hithau i lawr yn lân weithiau. Yr oedd y blaenoriaid yn fedrus iawn i ddefnyddio'r Balm o Gilead i wella'r clwyfau.

Yn Ein Capel Ni yr oedd yr Ysgol Sul orau yn yr holl gwm-pasoedd. Gyda dosbarth y plant lleiaf byddai'r hen frawd arall a arferai eistedd yn yr allor, Richard Jones, neu'r "hen dynnwr clustiau," fel y galwem ni ef. Ei ddull oedd rhoddi gwrs i un ohonom ar y tro, ac oni byddai'r gweddill yn edrych ar eu gwrsi gafaelai yn eu clustiau gan roddi hanner tro a phlwc sydyn. Cadwai hynny ni mewn trefn ac i edrych ar ein gwrsi. Gellir adnabod y rhai a fu yn ei ddosbarth wrth hyd eu clustiau a'r hanner tro sydd ynddynt. Er y cyfan, byddem ni yn hoff iawn ohono. Nid hen ŵr cas ydoedd, ond yr oedd direidi yn llond ei groen. Llawer tro y cymerodd fi adref gydag ef i de,

ond byddai'n rhaid i mi ofalu am eistedd yn ddigon pell oddi wrtho pan fyddwn yn yfed te neu ni fyddai fy nghlustiau yn ddiogel. Ni chlywais sôn am safonau, safoni a safonwyr yno; ond yr oedd gennym ni drefn lawer gwell na hynny. Unwaith bob blwyddyn âi'r arolygwr ac un o'r athrawon trwy ddosbarthiadau'r plant, a châi bob un oedd wedi gwneud cynnydd mewn darllen a gwybodaeth ei symud i ddosbarth uwch, a chryn anfri oedd i'r un gael ei adael ar ôl. Yr oedd yr ysgol yn un fyw iawn. Yr oedd y blaenor a enwais, ac eraill oedd wedi codi yn ei gysgod, yn gallu taflu rhyw asbri ac awydd yn y plant i ddarllen a deall hanes cymeriadau yr Hen Destament, ac yn y rhai hŷn i ddeall y Testament Newydd. Plant Ein Capel Ni a fyddai ar y blaen bob amser yn ateb yn Sasiwn y Plant. Cynhelid cyfarfod darllen yn y gaeaf. Yr oedd yno gôr, a chôr Ein Capel Ni a enillai bob amser yng Nghyfarfod Mawrth oni byddai yn cael cam.

Bugail cyntaf Cwm Eithin, hynny yw, bugail cyntaf y saint, oedd un o fyfyrwyr cynharaf y Bala. Yr oedd yno aml fugail defaid wedi bod, ac yr oedd pawb yn gynefin â'r gair bugail ac yn deall ei ystyr yn bur dda. Ond yr oedd y syniad o fugail eglwysig yn newydd iawn. Yr oedd i ddyn roddi ei holl amser i bregethu a chadw seiati, ac felly gael ei dalu am wneud dim byd, a gallu byw heb ffarm na siop, yn beth na welwyd neb erioed yn ei wneud yng Nghwm Eithin ond y Person. Ac nid rhyw awydd mawr oedd yn neb am weled rhagor o Bersoniaid.

Ni fu unrhyw bregethwr yn cymeryd y gofal lleiaf o'n Capel Ni ar ôl marw'r hen wron yn 1834, ac yr oedd yr hen long o dan ei llawn hwyliau; ond yn 1864 daeth y bugail newydd, yn ŵr ieuanc yn syth o'r coleg. Meddai bersonoliaeth hardd iawn, ac yr oedd yn bregethwr hwyliog iawn, dyna syniad hogyn amdano. Bu farw yn 1874, ymhen deng mlynedd, a chyhoeddwyd cofiant iddo. Bob tro y byddai fy hen weinidog, y diweddar Barch. Griffith Ellis, a minnau yn sôn amdano byddem yn methu â chytuno. Daliwn i allan, pe buasai wedi cael byw i aeddfedrwydd oedran, y daethai yn bregethwr pobl-ogaidd, ond credai ef fel arall. Ond peidier â'm camddeall: nid cael ei alw i ofalu am ryw drigain a deg yn Ein Capel Ni a wnaeth, ond ei alw i ofalu am chwech o eglwysi, a'r ffordd rhwng y ddwy bellaf oddi wrth ei gilydd tuag wyth milltir. Daeth yntau i fyw i Lanaled, yn y canol. Yno yr oedd yr eglwys fwyaf a'r dref fwyaf ymysg y chwech. Yr oedd

ganddo ferlyn da i'w gario o gwmpas a deuai unwaith yn y pythefnos i'n Capel Ni i gynnal cyfarfod gyda'r plant a'r bobl ieuainc am chwech, a'r seiat am saith.

Beth a feddyliai llawer o'r gweinidogion sydd bron â cholli eu gwynt a'u lladd eu hunain gydag un eglwys o ryw ddau cant o aelodau neu ddwy eglwys fach o gant yr un, a'r rhai hyn ddim ond dwy filltir oddi wrth ei gilydd—o ofalu am chwech o eglwysi ar wasgar trwy ddarn o wlad yn estyn o bymtheg i ugain milltir. Ni wn a all bugail defaid y dyddiau hyn ofalu am gynifer o ddefaid ag a wnâi rhai y dyddiau gynt. Nid wyf yn cofio sut yr aeth yr alwad iddo. Mae'n debyg fod y chwech eglwys wedi cytuno i'w alw. Ymhen pedair blynedd drachefn rhannwyd yr esgobaeth yn ddwy, ac yn 1868 daeth yr ail fugail. Ymneilltuodd y cyntaf i'r tair eglwys uchaf, a daeth y bugail newydd i'n Capel Ni, Llanaled a Llanllonydd. Gŵr ieuanc tal gyda llais mawr, pregethwr gwych, oedd yn fyw hyd yn ddiweddar.

Yr oedd y fugeiliaeth erbyn hyn yn dechrau dyfod yn gwestiwn llosgawl. Credaf i'r fugeiliaeth gael ei mabwysiadu yng Nghwm Eithin yn un o'r lleoedd cyntaf. Mae'n debyg fod dau reswm am hynny. Yn un peth yr oedd yn agos i'r Bala, yn yr un Cyfarfod Misol â Dr. Edwards, ac yr oedd ei ddylanwad ef yn fawr iawn yno. Peth arall, yno yr oedd yr eglwysi mwyaf byw yng Nghymru ac yn gweled gwerth y fugeiliaeth yng nghynt na rhannau eraill o'r wlad, er bod llai o angen amdani yno nag yn yr un rhan arall. Nid wyf yn credu bod dim angen amdani yn Ein Capel Ni yr adeg honno, oherwydd gofal a medr y blaenoriaid. Cyn pen hir iawn drachefn rhannwyd yr esgobaeth yn dair, gan roddi dwy eglwys i ofal pob bugail. Felly yn awr mae tri yn gofalu am ran o Gwm Eithin lle nad oedd un yn fy nghof cyntaf i. Methaf â gweled fod yr eglwysi fawr mwy llewyrchus nag oeddynt o dan ofal yr hen do o flaenoriaid. Ond cwestiwn arall yw pa fath olwg a fuasai arnynt erbyn hyn pe buasant heb ofal bugeiliol ar ôl i'r hen do o flaenoriaid farw.

ATODIAD

DYMUNAF ddiolch i Mr. (yn awr y Dr.) Iorwerth C. Peate, M.A., o'r Amgueddfa Genedlaethol, am ei adolygiad a ymddangosodd yn *Y Brython*, Hydref 22, 1931, ac am alw fy sylw at rai camgymeriadau, a rhai gwelliannau a ellid eu gwneuthur yn y gyfrol. Galwodd fy sylw at y Dog Wheel, y Felin Falu Eithin a'r Olwyn i Gorddi gyda Chŵn sydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol, a dywaid : "Os â Hugh Evans i ffermdy o'r enw Bwlch Tocyn, ger Blaenau Ffestiniog, fe wêl fuddai gŵn yn dal i weithio ; o leiaf fe'i gwelais yno yn nechrau gwanwyn 1930, a dau gi yn ei gweithio ; ac yr oedd y cŵn yn falch o'u gwaith ac yn ymddangos yn hapus ddigon wrth gorddi. Ni cheisient ymguddio ac anodd oedd eu cadw oddi wrth y fuddai."

Galwodd Mr. Joseph Hughes, Bootle, ac amryw eraill, fy sylw at y ffaith fod cŵn yn parhau i gorddi mewn mannau yn Arfon a Môn. Dywedais fod yr arferiad wedi ei roddi heibio ym mro fy mebyd pan oeddwn yn ieuanc iawn, a chredwn iddo gael ei roddi heibio trwy rym deddf. Ymholais â chyfaill a oedd deddf o'r fath wedi ei phasio, a chefais yr hyn a ganlyn :

In 1839 a clause was inserted in the Metropolitan Police Act forbidding dogs to be used as beasts of burden in the Metropolitan Police Area (i.e. within a radius of 15 miles of Charing Cross).

In 1854 a bill was passed for the prevention of cruelty to animals, and in this bill a clause was inserted to the effect that no person should, in any part of the United Kingdom, use any dog for the purpose of drawing or helping to draw any cart, carriage, truck or barrow. This bill was passed into law, but did not come into operation until January 1st, 1855. A report of the Society for the Prevention of Cruelty to Animals of that year states that, to the best of their belief, there was not a single dog employed to draw a cart or vehicle on any public roadway in the United Kingdom.

Ni enwir cŵn yn corddi yn y ddeddf, ond credaf mai dyna'r adeg y rhoddwyd yr arferiad i fyny ym mro fy mebyd.

Galwodd Mr. Peate fy sylw hefyd at y camgymeriad a wnaed yn y darlun ar dudalen 106 ; trwy ryw amryfusedd rhoddwyd

haearn torri mawn Sir Gaerfyrddin yn lle Bach Gwair Rhif 4. Ychwanegir y Bach Gwair at y darlun y tro hwn, Rhif 5.

Yr un pryd, goddefer i mi alw sylw at y gwahaniaeth a welir rhwng Haearn Mawn y Deheudir ac un Cwm Eithin. Yn un y Deheudir nid oes ond rhyw glap bach ar ben y goes i afael ynddo, tra yn ein rhai ni yr oedd dwrn neu fesen yn ei wneuthur yn debyg i T. A'r un fath gyda'r rhawiau, coesau byrion a lle i afael gyda grym, a gellid defnyddio ochr i mewn i'r glin i wthio'r rhaw o dan y pridd neu y marial y ceisid ei symud. Ond gwelais rawiau rhai o siroedd y deheudir, a choesau hirion fel picffyrch; edrychent yn anhylaw iawn i Ogleddwr. Beth yw'r rheswm am y gwahaniaeth? Galwodd fy sylw hefyd at y defnydd a wneuthum o'r gair *pwysgwr* am bwys o wllân (tud. 88). Dywaid mai 'pwys gŵyr' a ddylai fod, sef y pwys a ddefnyddid gan wehyddion Gŵyr, rhanbarth o Gymru oedd yn nodedig am ei gwllân. Diau mai ef sy'n gywir. Dywedodd fy nain wrthyf lawer tro, "Rhaid i ti fynd a phwysgwr neu ddau o wllân i'r ffatri, gael i mi gael 'dafedd i droedio sane." Felly gadawaf ef i mewn fel gair llafar gwlad. Anodd erbyn hyn yw gwybod paham y galwyd ef yn bwys gŵyr ar y dechrau. A ydoedd yr un bwysau ag mewn rhannau eraill o'r wlad?

Ar dudalen 126 soniais am "ddeunawiaid." Dywaid fy nghyfaill "Bodfan" mai "dyniawed," "dyniewaid" a ddylai fod, ac nad yw'r gair deunawiaid yn air llafar gwlad o gwbl. A galwodd fy sylw at y ffaith fod y gair "dyniawed" i'w gael yn "Breuddwyd Rhonabwy," yn Llyfr Coch Hergest, yn y 14 ganrif, ac yn y Beibl. Dylaswn gofio fy Meibl yn well, a bod Micah wedi ei ddefnyddio. Ond gan fod trigolion Cwm Eithin yn parhau i'w ddefnyddio, a bod deunawiaid yn enw da ar wartheg deunaw mis oed gadawaf ef i mewn.

Ar dudalen 115 wrth sôn am *ddyrrnu â ffust*, defnyddiais y geiriau *troedffust* a *llemffust*. Mewn llythyr a dderbyniais oddi wrth yr Athro Edward Edwards, dywaid iddo fod yn gweithio gyda'r holl hen gelfi a enwir yn CWM EITHIN: gwelaf mai *bonffust* a *llafn ffust* a ddefnyddia ef. Ni wn pa un sydd gywir. Troedffust a lemffust a glywais i ar lafar gwlad yng Nghwm Eithin.

Gofynnodd amryw i mi beth yw ystyr y gair "Glwad" (gleuad) a ddefnyddiais ar dudalen 91 am dail gwartheg sych a losgid i sychu gwlanen a brethyn yn y pandy. Drwg gennyf na allaf ei egluro, ond dyna fel y clywais ef yn cael ei swnio, a

gwelaf fod Ap Cenin yn ei ddefnyddio wrth ysgrifennu hanes Llanfairfechan.

Ar dudalen 12, wrth sôn am yr arwres o Dŷ Cerrig, a gadwodd ei theulu rhag newyn trwy weù tair hosan y dydd, dywedais, "Dylai ei henw hi a llawer un debyg iddi gael ei gerfio yn y graig â phlwm, ond methaf yn lân yn awr â bod yn sicr o'i henw, Phebi Jones, Tŷ Cerrig, yr wyf yn meddwl, onid wyf yn cymysgu, ac mai dyna oedd enw gwraig Richard Jones, etc."

Yn ffodus iawn, mae Mr. J. Clark Jones, Mochdre, wrthi ers blynyddoedd yn hel achau pobl Cwm Eithin, a chefais enw yr arwres ganddo a'i hanes. Sioned Roberts oedd ei henw, gwraig Thomas Jones, Pen y Gaer Bach, ac yno yr oedd yn byw pan gadwodd ei theulu rhag y newyn du. Yr oedd Thomas Jones, ei phriod, yn ewythr frawd ei dad i Jac Glan y Gors. Yr oedd tri Phen y Gaer pan gofias y lle,—Pen y Gaer Dafydd, Pen y Gaer Thomas a Phen y Gaer Evan Huws. Pen y Gaer Bach oedd enw gwreiddiol Pen y Gaer Thomas.

Anfonodd Mr. Jones lawer o hanes Phoebe gwraig Richard Jones i mi hefyd. A chan fod yr hanes yn taflu llawer o oleuni ar y modd y byddai'r twrneiod o Lundain yn trin ein tadau a'n mamau, rhoddaf yr hanes i mewn fel y cefais ef gan Mr. Clark Jones. Gwelaf hefyd fod Sioned Roberts o'r un teulu â Pheter Ffowc, Tŷ Gwyn, y soniaf amdano yn Helynt yr Arian Mawr ar dudalen 59.

"Gwraig Richard Jones, Tŷ Cerrig, Llangwm, oedd Phoebe, merch ieuengaf John Jones, Tŷ Cerrig,—gorŵyr i Thomas Ffoulkes, Tŷ Gwyn.

"Ganwyd John Jones yn 1750, a bu farw yn 1833, ac adweinid ef yn ei ddyddiau olaf fel "John Jones, White Bear." Ei wraig gyntaf (mam Phoebe) oedd Mari, merch John Jones, Y Groesfaen, a'i ail wraig oedd Catherin Maurice, gwraig weddw ag iddi fab wedi tyfu i fyny o'r enw Richard Maurice, Penucha, Sir Fflint.

"Yr oedd John Jones yn berchen stâd helaeth,—tua dwy a r bymtheg o ffermydd ym mhlwyfi Gwyddelwern, Corwen, Llangar, Llanfawr, Llangwm a Llanfihangel-glyn-myfyr,—ac yn ei ewyllys, ddyddiedig Mawrth 23, 1833, ar ôl darparu ar gyfer ei wraig, gadawodd y cwbl, ynghŷd â'i eiddo per-, sonol, i ddau o ymddiriedolwyr,—Richard Maurice, mab ei ail wraig, a John Jones, Cynlas,—er budd ei blant a'i wŷrion,

sef (1) Mary, gwraig Samuel Jones, Pentre Ffynnon, Whitford; (2) Phoebe, gwraig (fel y cyfeiriwyd uchod) Richard Jones, Tŷ Cerrig, a (3) plant ei ferch ymadawedig Catherine, gwraig Meredydd Roberts, Moelfre Fawr, Tŷ Nant. Ynglŷn â'r gymynrodd i blant Catherine, yr oedd yn amodol ar Meredydd Roberts (yr hwn oedd wedi ail-briodi ers dwy flynedd) i roddi i fyny ysgrif-rwym (bond) am £1,000.

"Ar ôl marwolaeth John Jones ym mis Rhagfyr, 1833, nid oedd yr ewyllys wreiddiol ar gael, ond yr oedd copi ohoni wedi ei gadw gan y cyfreithiwr a'i gwnaeth. Codwyd cyngaws yn yr Uchel Lys am ganiatâd i brofi'r copi, ac ar yr 8fed o Rhagfyr, 1835, cafodd y weddw lythyr-cymyn (Probate) i'r ewyllys, ac ymhen y mis rhoddwyd iddi lythyr-terfynedig (limited probate).

"Yn y cyfamser yr oedd y stâd wedi myned i ddwylo Richard Maurice, un o'r ymddiriedolwyr, ac ni allai'r weddw na'r plant gael unrhyw ran o'r eiddo.

"Yn 1835 dechreuodd y weddw gyngaws yn Llys yr Arglwydd Ganghellor (Chancery) yn erbyn yr ymddiriedolwyr am gyfrif o'r stâd a'r eiddo, ac am gael penodi ymddiriedolwyr newydd i weinyddu'r ymddiriedaeth. Gwnaed ymchwiliad gan y Llys, a gorchynnwyd bod cyfrif yn cael ei roddi o'r holl eiddo. Gorchynnwyd hefyd fod y ffermydd yn cael eu gwerthu a'r arian a dderbynnid amdanynt yn cael eu talu i mewn i'r llys.

"Bu'r weddw farw yn 1838, a chariwyd y gyfraith ymlaen gan gyflawnydd ei hewyllys (*executor*); dygwyd i mewn i'r cyngaws liaws o bersonnau, cynhaliwyd amryw o ymchwiliadau (*inquiries*), a chadwyd yr achos o flaen y Llys yn ddi-dôr am ugain mlynedd, hyd 1856, pryd y gwelwyd fod yr holl arian yn y Llys, dros ddeng milar hugain o bunnau (£30,000), wedi eu llyncu gan y costau! Ar hynny, cytunodd y cyfreithwyr o boptu i ddirwyn y cyngaws i ben, a gadawyd yn y cyfrif, i'w ranu rhwng y plant a'r wyrion, y swm o £27/2/3, ac y mae'r swm yna yn aros heb ei hawlio hyd heddiw."

Anfonodd Mr. Clark Jones hanes manwl am helynt arian mawr Peter Ffoulkes, Tŷ Gwyn; fel y bu i ryw Peter Ffoulkes o Sais geisio trawsfeddiannu'r arian; a'r ffaith nad oedd rhyw Gymro wedi ysgrifennu Saesneg yn gywir yn rhwystro i drigolion Cwm Eithin gael eu harian o Lundain. Pe buasai ein tadau ni, dri-

golion Cwm Eithin, wedi cael eu hawliau, diau na fuasem ni mor dlawd ag ydym heddiw.

Ond gan fod y manylion a anfonodd Mr. Clark Jones braidd yn faith, ac nad ydynt o ddiddordeb neilltuol ond i nifer fach o ddarllenwyr y llyfr, ni roddais hwy i mewn i gyd. Er hynny diolchaf yn gynnes iawn iddo am y drafferth a gymerodd yn casglu'r holl fanylion a'u hanfon. Ymddangosodd yr hanes yn *Y Brython*, Chwefror 1, 1933.

Dywedodd un neu ddau a adolygodd y llyfr y credent fy mod yn rhy lawdrwm ar y tirfeddianwyr a'u stiwardiaid. Credaf innau fel arall, a byddaf yn synnu i'n tadau eu goddef cyhûd. Ac i brofi fy mhwnc rhoddaf ddyfyniad o lythyr yn diolch am fy llyfr a dderbyniais oddi wrth Mrs. L. D. Jones, gweddw Llew Tegid :

"Gwn innau am greulondeb y stiwardiaid. Yr oedd fy nhad yn un o ferthyron '59, sef John Thomas, Pandy Mawr, Llanuwchllyn, ar stad Syr Watcyn. Yr oedd fy nhad wedi bod yn yr America cyn priodi, ac wedi cael *ideas* newydd, ac felly wedi gwario cannoedd o bunnau drwy ychwanegu at y tŷ a thrin y ffarm nes clywais rai yn dywedyd ei bod fel gardd. Yna daeth y lecsiwn, ac wedyn *warning* i ymadael, a dim dimai o *compensation*. Methwyd â chael ffarm am flwyddyn, a gorfod gwerthu popeth. Cawsant sicrwydd wedyn na wyddai Syr Watcyn ddim am y peth nes bod y tenantiaid gorau oedd ganddo ar y stad wedi chwalu.

"Nid wyf yn cofio'r lecsiwn honno, ond ar ôl lecsiwn wedyn—'68 mae'n debyg, pan oedd y ffermwyr yn y South yn cael eu troi i ffwrdd, y peth yr wyf yn ei gofio yw mam yn darllen *Y Faner* ; y gohebydd yn darlunio ocsiwn ar ffarm a gwerthu'r fuwch goch, a'r dagrau yn disgyn ar y papur. Ond nid rhyfedd, yr oedd wedi myned trwy'r un peth.

"Yr wyf yn cofio merched yn dod i wlana, ac ambell un i hel blawd, yn enwedig Jimmie Lanfor. Byddai yn dod yn gyson. Ni fûm yn gwisgo'r *Welsh Not*, ond y mae gennyf un wedi i'm diweddar briod ei gael o dan lawr ysgol y Garth yma."

Mae'n debyg fod Syr Watcyn yn rhy brysur yn rhoddi'r Gwyddelod i lawr i wybod beth oedd ei stiwardiaid yn ei wneuthur. Ond amlwg ei fod yn cyfiawnhau eu gwaith neu buasai'n rhoddi *compensation* i'r ffermwyr y gwnaeth y fath anghyfiawnder â hwy.

Cynghorwn bleidwyr y tirfeddianwyr i ddarllen hanes dioddefaint nifer o amaethwyr Sir Aberteifi ar ôl etholiad 1868, a gofyn a allant gyfiawnhau eu gwaith.


Diolchaf i Mr. Thomas Thomas, Y.H., Dinmael, am ddarlun o Ferthyron y Degwm,—ef yn un o'r merthyron ei hunan (hen gyfeillion bore oes i mi lawer ohonynt). Gwelir y darlun yn yr Atodiad. Ond dywedir nad yw rhai o'r prif arweinwyr yn y darlun, a bod ynddo rai na chymerasant fawr o ran yn y rhyfel; ond ceir ynddo gynrychiolaeth dda o drigolion Cwm Eithin.

Diolch iddo hefyd am alw fy sylw at un camgymeriad a wneuthum wrth adrodd eu hanes oddi ar fy nghof ar dudalen 33 trwy ddywedyd: "Goddefodd hen gyfoedion i mi gael eu hanfon i garchar Rhuthyn yn hytrach na pharhau i ymostwng i gyfraith orthrymus oedd wedi dyfod i lawr o'r Oesoedd Tywyll." Nid yw hyn yn hollol wir. Ceir cyfeiriad hefyd at Ferthyron y Degwm ar dudalennau 187 a 189.

Yr wyf erbyn hyn wedi cael yr hanes yn weddol gyflawn gan Mr. Thomas Thomas, Dinmael, ac o hen gyfrolau o'r *Faner*, ond ni allaf ei roddi yma yn gyflawn am y llanwai gryn nifer o dudalennau. Rhoddaf ychydig o'r prif ffeithiau. Yn nechrau blynnyddoedd yr wyth degau yr oedd pris cynnyrch amaethyddiaeth yn isel iawn, a chredai'r amaethwyr y dylent gael gostyngiad o tua 2/- yn y bunt am mai ar gynnrych y tir yr oedd y degwm wedi ei drethu. A gwnaethant apel at bersoniaid y plwyfi. Caniataodd nifer o'r personiaid, rai 1/-, rai 2/-, ac ambell un 3/- yn y bunt, am y gwelent gyni'r amaethwyr. Ond gwrthododd person Llangwm, y Parch. Ellis Roberts, "Elis Wyn o Wyrfai," a rhai personiaid eraill, ostwng dim i'r amaethwyr.


Penderfynodd nifer o amaethwyr Cwm Eithin beidio â thalu oni chaent y gostyngiad. Canlyniad hynny oedd i'r *Ecclesiastical Commissioners*, Mai 18, 1887, anfon oddeutu ugain o feiliaid i atafaelu ar eiddo pedwar ar hugain o amaethwyr dewr Cwm Eithin a wrthodai dalu. Ond canwyd corn gwlad, a daeth y lluoedd ynghyd, a rhwystrwyd hwy gan y dorff mewn nifer o ffermydd rhag cario eu bwriad allan, ond llwyddasant i atafaelu ar eiddo pedwar o amaethwyr.

Ar ôl atafaelu yr oedd yn rhaid gwerthu'r fuwch goch neu pa anifail bynnag yr oeddynt yn cymryd meddiant ohoni. Y dydd cyntaf o Fehefin, 1887, yr oedd arwerthiant i fod yn y Fron Isa, lle y trigai fy nghyfnither a'i phriod, Thomas Hughes, ar ddwy fuwch




MERTHYRON Y DEGWM—1887. (Mae y rhai y mae * ar eu cyfer yn fyw).

Y rhes isaf o'r chwith i'r dde—1 Rt. Jones, Crydd, Glasfryn; 2 Rt. Jones, Ffynnon Wen; 3 Wm. Hughes, Saer, Glasfryn; 4 Owen Parry, Penthiw, Cerrigdrudion; 5 Dd. Jones, Llwyn Mali, Llangwm; 6 Dd. Roberts, Tynfelin, Llangwm; 7 *Rt. Roberts, Pant y Mel Bach, Bettws G.G.
Y rhes ganol o'r chwith i'r dde—1 Wm. Williams, Arddwyfaen, Llangwm; 2 Ellis Jones, Tŷ'n-y-Mynydd, Cerrig; 3 *John Lloyd, Tŷ Isa'r Cwm, Cerrig; 4 Rhys Jones, Tŷ Cerrig, Bettws; 5 John Lloyd, Glasfryn; 6 Ed. Davies, Bodyneliw, Bettws.
Y rhes uchaf o'r chwith i'r dde—1 *E. T. Edwards, Saracen's Head, Cerrig; 2 Ed. E. Jones, Cysulog, Dimmael; 3 Thos. O. Jones, Aelwydbrys, Cerrig; 4 Robt. Parry, Cigydd, Cerrig; 5 David Edwards, Pen Llan, Bettws; 6 John Vaughan, Teiliwr, Bettws; 7 James Metcalf, Cerrig; 8 *David Davies, Plase, Tŷ Nant; 9 Alun Lloyd, Cyfreithiwr; 10 John Jones, Brynmadog, Llangwm; 11 Morgan Hughes, Bryntiau, Llandderfel; 12 John Jones, Moelfre; 13 Robt. Hughes, Tŷ'n-y-Waen, Glasfryn; 14 Thos. Thomas, Tŷ Nant; 15 *Urias Jones, Glasfryn.



Buddai Gŵn o Ddolellog, Rhostryfan, Llanwnda, Sir Gaernarfon : yn awr yn
Oriol y Celfi Gwerin, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
Trwy ganiatad Amgueddfa Genedlaethol Cymru.



Melin Eithin o'r Tyddyn, Dyffryn Arduwv Meirionnydd : yn
awr yn Oriol y Celfi Gwerin, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
Trwy ganiatad Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

yr atafaelwyd arnynt. Erbyn chwech o'r gloch y bore yr oedd 25 o heddeidwaid Sir Ddinbych a'u harolygydd wedi cyrraedd y Fron Isa. Ond yr oedd Mwrog yr arwerthwr a'i gyfeillion ar ôl yn cyrraedd, ac erbyn hynny yr oedd holl drigolion y cylch wedi casglu,—yr amaethwyr â'u ffyn, a'r gweithwyr a'r gweision â phastynau cryfion, a'r merched yn eu cefnogi i sefyll y frwydr. Dechreuodd yr arwerthwr gynnig y gwartheg ar werth, ond ni chynigiodd neb geiniog i'w prynu i mewn, ac yr oedd agwedd y dorf yn myned ynfwy cynhyrfus. Gan na phrynai neb y gwartheg, nid oedd dim i'w wneuthur ond ceisio myned â hwy ymaith. Ond buan iawn y gwelwyd na chaniatâi'r dorf hynny,—myned â dwy fuwch oedd yn werth pedair gwaith swm y dyled,—a da iawn fu gan yr arwerthwr a'i gyfeillion gael myned adref â'u hesgyrn yn gyfain. Anfonwyd hwy a'r heddeidwaid i fwrdd, a dywedir bod dros dri chant o bobl yn eu danfon ar hyd y ffordd trwy'r Glyn i Gorwen, wedi eu cynhyrfu i waelod eu bodolaeth a golwg fygythiol iawn arnynt.

Deallwyd bod yr arwerthwr a'i deulu yn dod i gynnal arwerthiant mewn ffermydd eraill, ond ni wyddid o ba gyfeiriad y deuent. A dyna'r pryd y daeth y teleffon gyntaf i Gwm Eithin,—gosod dynion ar bennau'r bonciau yn bolion o fewn cyrraedd gwaedd y naill i'r llall, a chynnau coelcerthi i hysbysu'r ffordd y deuai'r arwerthwr a gwâr ar gefnau ceffylau cyflym i gario'r newyddion. Daethant o gyfeiriad Cerrig y Drudion mewn cerbyd a dau geffyl yn eu tynnu. Ac erbyn iddynt gyrraedd yr oedd tyrfa anferth wedi casglu. Stopiwyd y cerbyd, a chaed pawb ond y gyrrwr allan. Dychrynwyd y ceffylau, ac aethant i lawr i gyfeiriad Corwen ar garlam gwyllt. Yna gwnaed i'r gelynyon gychwyn cerdded tua Chorwen trwy'r Glyn. Bygythiwyd tafu Mwrog yr arwerthwr i'r trobwll ofnadwy hwnnw, ac oni bai am ymyriad rhai o'r arweinwyr, diau mai wedi ei ladd y buasai. Yr oedd y gelynyon yn y fath fraw nes begio am eu bywyd. Gwnaed iddynt fyned ar eu gliniau ac arwyddo papur fel y canlyn: "We hereby promise not to come on this business again in any part of England or Wales to sell for Tithes:—E. J. Roberts, Wellington Chambers, Rhyl; Edward Vaughan, Bothis, Rhyl."

Yna gwnaed iddynt dynnu eu cotiau a'u gwisgo amdanynt y tu chwith allan i ddangos eu hedifeirwch. Yna trefnwyd gorymdaith i fyned â hwy i orsaf y trên i Gorwen, pum milltir o ffordd,—cynrychiolwyr yr Eglwys yn y canol a'u cotiau y tu chwith allan, baner goch o'u blaenau, a baner ddu o'r tu ôl yng nghanol bloeddiadau ac ysgrechiadau'r bobl.

Mehefin 15, derbyniodd nifer o amaethwyr lythyrau fod y Dirprwywyr Eglwysig yn cychwyn cyngaws yn eu herbyn am rwystro i'w gwartheg gael eu cymryd i ffordd, a chodi cynnwrf ar y ffordd fawr.

Mehefin 22, gwyswyd tua 15 o'r arweinwyr o flaen ynadon Rhuthyn, a pharhaodd y treial am ddyddiau. Y diwedd fu ei daflu i'r frawdlys chwarterol, a gollyngwyd hwy yn rhydd ar yr amod eu bod i ymddangos yn y frawdlys.

Pan gyfarfu'r Frawdlys, amlwg fod y Dirprwywyr Eglwysig wedi dod i ddeall eu bod wedi codi'r wlad yn eu herbyn. A chafwyd allan fod rhai o dystion y Dirprwywyr Eglwysig wedi tyngu anudon yn y prawf gerbron yr Ustusiaid Heddwch trwy ddywedyd bod rhai personau wedi cymryd rhan yn yr helynt nad oeddynt yn agos i'r lle, felly fod rhai o'r rhai a wyswyd i ymddangos yn berygl o droi arnynt.

Gwnaeth y Barnwr beth pur anghyffredin, sef galw'r diffynyddion a'r cyfreithwyr a'u cynrychiolai a'r rhai a gynrychiolai'r Dirprwywyr Eglwysig i gyfarfod â'i gilydd, i edrych a oedd bosibl iddynt ddod i gyd-ddealltwriaeth, ac felly fe dynnodd y Dirprwywyr Eglwysig yn ôl ar yr amod fod y diffynyddion yn addef iddynt dorri'r gyfraith. Dywedodd y Barnwr ei fod yn falch eu bod wedi dod i ddeall ei gilydd; mai pobl heddychol yr oedd ef wedi gweled y Cymry bob amser, a bod golwg mor *respectable* ar y diffynyddion fel na hoffai ef eu cosbi; ond y byddai raid iddo ef gario'r gyfraith allan, ac mai'r unig beth iddynt ei wneuthur, os nad oedd y gyfraith wrth fodd y wlad, oedd ceisio ei newid trwy ffordd gyfansoddiadol. A gollyngodd hwy yn rhydd ar ymrwymiad o £20 yr un i ymddangos ger ei fron os byddai galw. Enw'r Barnwr oedd Justice Wills.

Costiodd y cyngaws yn ddrud iawn i Ferthyron y Degwm o Gwm Eithin, ond iddynt hwy y perthyn rhan helaeth o'r clod am gael dadsefydlu'r eglwys.

Dymunaf ddiolch i Mr. Peate hefyd am anfon i mi'r ddau ddarlun a welir yn yr Atodiad,—y Fuddai Gŵn a'r Felin Falu Eithin,—ac am gael caniatâd Cyngor yr Amgueddfa Genedlaethol i'w rhoddi yn fy llyfr. Mae un y fuddai gŵn yn berffaith hyd y gwelaf fi,—un ci sydd arni tra byddai dau fel rheol yn y ffermydd mwyaf lle y ceid hwy; y chwiorydd a fyddai'n corddi yn y tyddynnod bychain. Gwêl dudalennau 131-140.

Am y darlun o'r Felin Falu Eithin, diau y gŵyr Mr. Peate yn dda nad hi yw'r un y cyfeirir ati ar dudalen 141, yn cael

ei throi ag olwyn ddŵr yn yr hen amser, ac y cyfeiria "Ap Cenin" ati wrth ysgrifennu hanes Llanfairfechan i'r *Brython Medi* a Hydref, 1925.

Nid wyf yn meddwl fod yr un y ceir ei llun yn hen iawn. Nid yw namyn injan dorri gwellt, ac nid yw'r hynaf o'r rhai hynny. Cyfeiriaf at un hŷn na hi ar dudalen 130. Yn ystod y tair blynedd poethion tua 1869-71 y cyfeiriaf atynt ar dudalen 141, pan nad oedd gwair na gwellt i'w gael i'r anifeiliaid—yr haul wedi ei losgi ar y maes, cafwyd i'm hen gartref injan dorri gwellt newydd yr un fath â'r un sydd yn y darlun i falu eithin yn fwyd i'r gwartheg rhag iddynt lwgu. Bŵm yn ei throi gannoedd o weithiau i falu eithin. Cofiaf yn dda un anlwc a gefais gyda hi. Er meddwl fy mod wedi cnocio ac ysigo'r eithin yn dda a gofalu na roddais ond brigau ieuainc i mewn yn y cafn heb fod yn ddigon gofalus, neu feallai feddwl y malai yr injan newydd unrhyw beth, gadewais i fonyn caled fyned i mewn a chraciodd un o'r cyllill ar ei thraws. Ni wyddwn pa fodd i wynebu fy mam a'm nain a chyfaddef fy helynt, ond ni chefais lawer o ddrwg am fy niffyg gofal, ac ni feddylasant hwythau y buasai cyllell haearn weddol dew yn cracio. Gwnaeth ei gwaith am lawer o flynyddoedd wedyn, ond ei bod yn fwy anhwylyd i'w thynnu i'w llifo a'i rhoi yn ei hôl.

Galwodd Mr. Thomas Thomas, Mr. Thomas Hughes, Fron Isa, a Mr. D. Jones, Pen y Bont, fy sylw at gamgymeriad a wneuthum wrth ysgrifennu oddi ar fy nghof ar dudalen 186, wrth sôn am frwydr addysg yn Llanfryniau. Dywedais fod yr Ysgol Frics wedi ei chodi o flaen yr Ysgol Gerrig, ac mai o'r Ysgol Frics yr arferai'r Person anfon plant adref fore Llun os na fyddent wedi bod yn yr Eglwys y Sul. Ond ymddengys mai pan gynhelid ysgol mewn llofft yn perthyn i'r Eglwys, a'i ddwy ferch ef yn gofalu amdani, y gwnâi hynny. Yna cychwynnodd yr Ymneilltuwyr ysgol yn Siop Pen Ucha, a bu Miss Catherine Ellis, merch y diweddar Barch. Humphrey Ellis, a Robert Jones, Tŷ Newydd, oedd wedi cael tipyn o addysg o'r tu allan i Lanfryniau, yn gofalu amdani. Yn 1867 yr adeiladodd yr Ymneilltuwyr yr Ysgol Gerrig. Ac yn 1869 y cododd y Person yr Ysgol Frics i geisio lladd y llall. Felly nid oeddwn yn hollol gywir wrth ddywedyd i'r Ymneilltuwyr gynorthwyo i adeiladu'r Ysgol Frics.

Bu farw'r hen Berson yn 1872, a daeth "Elis Wyn o Wyrfaï" yn ei le; gŵr llawer callach, er ei fod yn eglwyswr selog, a chan

cheid *grant* gan y Llywodraeth at ysgol yr Ymneilltuwyr, cytunwyd i gau'r Ysgol Gerrig ar y dealltwriaeth fod yr holl blant i gael yr un chwarae teg.

Edrydd Mr. Thomas hanes un arall o ystrywiau'r hen Berson i geisio atal plant i'r ysgol, sef ceisio cau llwybr oedd yn arwain o'r Gellioedd i'r Llan heibio Hendre Ddu i'w rhwystro i ddod y ffordd agosaf. Ond methodd yn ei ymgais.

Felly fe welir fod yr hen Berson wedi gwneuthur popeth yn ei allu i geisio atal un o'r symudiadau mwyaf damniol yn ei syniad ef a ddaeth i Gymru erioed, sef Ymneilltuaeth—y werin dlawd anwybodus yn hawlio rhyddid i addoli eu Creawdwr yn y ffordd a ddymument, ac nid fel y gorchmynnai ef iddynt wneuthur.

Ar dudalen 200, soniais am y Parch. John Williams, Llecheiddior, ond nad oeddwn yn sicr o enw'r lle. Dywed "Elldeyrn," Nantglyn, wrthyf mai Lledrod yn y Deheudir a ddylai fod, ac nid Llecheiddior. Amaethdy yn Eifionydd yw y diweddaf. Bu hen bregethwr o'r un enw yn trigianu yno, ond yn fwy diweddar na'r hen offeiriad duwiol o Ledrod.

MYNEGAI

- Aberach (*ffarm*), Llancilian, 137.
 Abergale, 127.
 Aberteifi, *sir*, 164, 187, 218.
 Aberystwyth, 28.
 "ACT OF UNION, 1535," 83.
 "Adfyfr," *gweler* Hughes, T. J.
 Adloniant, 35, 157 sqq.
 Addysg, 83, 186 sqq., 207, 221-2.
 Aer y Pyllau, 105.
 Aikin, Arthur, 127.
 Amaethdai, 64.
 Amaethyddiaeth, 12, 25, 97, 128, 217 sqq.
 AMERICA, 8, 103.
 Amgueddfa Genedlaethol Cymru (NATIONAL MUSEUM OF WALES), 122, 134, 213, 226.
 Amwythig, *sir*, 4, 13, 109, 110.
 Amwythig, *r*, 126.
 Anifeiliaid, *gweler o dan enwau amrywiol anifeiliaid*.
 Anifeiliaid (enwau), 128.
 Annibynwyr, 180 sqq., 197.
 Anwyl, J. Bodvan (*Bodfan*), 214.
 "Ap Cenin," 112, 141, 221.
 "Ap Madog," 46.
 "Ap Rhydwen," 112.
 "Ap Vychan," *gweler* Thomas, Robert.
 Aradr, 128, 129.
 Aran, 1.
Archaeologia Cambrensis (cylchgrawn), 83-85.
 Arennig, 1.
 Arferion, *gweler* Defodau.
 Arfon, *gweler* Caernarfon.
 Ashford, 127.
 Ashton, Charles, 6, 89, 160.
 Attree, Richard Wakeford, 73.
 Bach gwair, 106, 140-1, 214.
 Bala, 4, 75, 99, 125-6, 208, 212.
 Ballinger, *Syr* John, 164.
 Balscote, Nicholas de, 122.
Baner ac Amserau Cymru (newyddiadur) 157, 183, 205, 217, 218.
 Bara, 4, 14, 46-7, 119, 181, 186.
Bardd Cwsg [gan Ellis Wynn], 154.
 "Bardd y Drysau," 194.
 Barddoniaeth, 148, 150.
 Barnard, Owen (*ewythr yr awodur*), 162.
 Barnett, William, *Swob Tyn'r Allt* (*taid yr awodur*), 73.
 Bartle, Seth, 182.
 Beaumaris, 127, 137.
 Bedyddwyr, 197-9.
 Beddgelert, 156.
 Beibl, 214.
Beirdd y Berwyn, casgliad *Syr* O. M. Edwards, 1902, 138.
 Bennett, Richard, 121-2.
 Berfa freichiau, 6.
 Berwyn, 1, 6, 110.
 Betsen y Garwyd, 171.
 Bettws Gwerfil Goch, 167.
 BIDDING LETTER, 163-4.
 Blawd, 119, 217.
 Blawd y gloch, Hel, 165-6.
Blodau Arfon, gan "Dewi Wyn o Eifion," 1842, 34.
 "Bodfan," *gweler* Anwyl, J. Bodvan.
 Bonffust, *gweler* ffust.
 Bowen, *Mr.*, *Twrnai*, 59-60.
 Brad y Llyfrau Gleision, 189-190.
 Brethyn, 82, 90.
 Brethyn nerpun, 89, 90, 99.
 BRITISH MUSEUM, 122.
 "Bryt-dir," *gweler* Jones, Humphrey.
 Brymbo, 38.
 Bryn Bras (*caban unnos*), 69.
 Bryn Eglwys, 128.
 Brynsiencyn, *Môn*, 137.
 Bryn-y-Castell, (*melin*), 120.
Brytbon, Y (cylchgrawn), 148
Brytbon, Y (newyddiadur), 111, 136, 141, 202, 213, 217, 221.

- Buddai, 213, 220.
 Buddai dro, 131.
 Buddai gnoc, 131.
 Buddai siglo, 131.
 Bunyan, John, 157.
 BUTTY GANG, 110.
 BUTTY MESS, 110.
 Bwganod, 160.
 Bwlchrhisgog, 1.
 Bwlch Tocyn (*ger* Bl. Ffestiniog),
 213.
 Bwyd, *gweler* ymborth.
 Bwyd-cennad y meirw, 166-7.
 'Byddigions,' 3, 5, 52 sqq.
*Bywyd gwledig yng Nghymru ddech-
 reu y ganrif o'r blaen*, gan C.
 Ashton, 1892, 160.

 C.D. (awdur *Cerdd dodrefn ty*), 140.
 Caban unnos, 68, 69, 72, 76-7.
 Cadair Idris, 1.
 'Cadi,' 159.
 Cadwaladr, *Hybarch Ddafydd*, 154.
 Caer, 8, 89.
 Caer, *sir*, 121.
 Caerdydd, *Llyfrgell Rydd*, 83.
 Caerfyrddin, *sir*, 164.
 Caergybi [Holyhead], 4, 45, 105.
 Caernarfon, *sir*, 168.
 Caint, 124.
 Calan gaeaf, 159-60, 167.
 Calch, 1.
Caledwch yr hin, gan "Peter Llwyd
 o Wnodl," 1823, 18.
 Calennig, 165.
 "Callestrwr," 164.
Cân ben wr y cwm, gan "Gwer-
 yddon," 1849, 39.
 Canhwyllau, 156, 158-9.
 Canu pennillion, 151.
Cân y crys, gan Thomas Hood, wedi
 ei gyfieithu gan "Iorwerth Glan
 Aled," 1890, 177.
 Capel, Y, 181, 197 sqq., 204 sqq.
 Car cefn, 130.
 Car llusg, 130.
 Carchar, *gweler* Rhuthyn.
 Cardiau, Chwarae, 161.
Cardiff Weekly Mail (newyddiadur),
 135.
 Cardio, 83, 86 sqq.
 Cardota, 52 sqq., 168.
 Careful, *Mr.*, *Cil Haul Uchaf*, 25.
 'Carlo' (*ci*), 124.
 Carnedd Dafydd, 1.
 Carnedd Llewelyn, 1.
 Carrag Fawr Syrion (*ffrid*), 104.
 Carrington, Charles Robert Wynn,
Lord, 75.
Casgliad o lèn-gwerin Meirion, gan
 William Davies, 1900, 151, 161.
*Casgliad o lèn-gwerin Sir Gaerfyr-
 ddin*, gan D. G. Williams, 1898,
 170.
*Cattle trade between Wales and Eng-
 land from the 15th to the 16th
 centuries*, gan Caroline Skeel,
 1926, 126.
 Cefn [Ruabon], 38.
 Ceffylau, 2, 4, 6, 24, 100, 128, 130,
 141.
 Ceirch, 13, 14, 15, 72, 99, 103, 118.
Celtic Folklore: Welsh and Manx,
 gan Syr John Rhys, 1901, 146,
 156, 157.
 Cen cerrig, 92, 93.
 Cerdd, 45, 147, 148, 150, 151, 152-3,
 156.
Cerdd dodrefn ty (C.D. a'u cant), yn
Beirdd y Berwyn, 1902, 138.
 Cerdded y terfynau, 162.
 Cerddoriaeth, *gweler* cerdd.
 Cerrig, torri, 106-8.
 Cerrig-y-Drudion, 6, 125.
 CHANCERY, 216.
 CHARCOAL, *gweler* Marwor.
 Charles, Thomas, *Y Bala*, 191, 207-8
 Cilan, *Pont*, Llandrillo, 59.
 Cil Haul Uchaf (*ffarm*), 25.
 'Cipar,' *T*, 201.

- Clochydd, 165, 168.
 Clough, *Mr.* Llandrillo (*portbmon*), 124.
 Cludo, 2, 6, 123, 128, 130.
 Cneifio defaid, 171, 174.
 COACH, STAGE ['goits fawr'], 3, 7.
 Cocyn saethu, 168.
 Colio, 115.
 Cordeddu, 89.
 Corddi 43, 131 sqq, 213.
 "Corfanydd," *gweler* Williams, Robert Herbert.
 Corgi, 135.
 Corn bloneg, 141.
 Corn buwch, 141.
 Corn grut hir, 141.
 CORN LAWS, *gweler* Deddfau'r Yd.
Corpb y gaingc, gan "Dafydd Ddu Eryri," 1810, 18.
 Cors Pant Dedwydd, 105.
 Corwen, 120, 167, 219.
 Cotwm, 91.
 Cowarch (*cwm*), 151.
 Crasu ŷd, 118.
 Cribinio, 44, 128.
 Croesoswallt [Oswestry], 110.
Cronicl, T (cylchgrawn), 25.
 Crwth, 152, 164.
 Cryddion, 24, 96-7.
 Cryman, 109.
 Cwm Annibynia, 154, 172, 180 sqq.
 Cwm Dwydorth, 167, 181.
 Cwm Main, 167.
 Cwm y Mynach, 172.
 Cwm defaid, 142 sqq.
 Cwm hela, 52.
 Cwm yn corddi, 134-8, 213.
 Cwper, Y, 100.
 Cwrrw, 161.
Cwyn yr ben wr methiant, gan "Dafydd Ddu Eryri," 1810, 18.
Cwydymaith i ddyddiau gwylion, wedi ei droi i'r Gymraeg gan T. Williams, 1712, 146.
 Cwffogau, 23, 24, 37, 38, 39, 45, 79, 101, 109, 110, 127, 170, 175.
 Cyfreithiau, *gweler befyd* Yd, 121-2.
 Cyff, 91.
 Cyffion, 80.
 Cymraeg, [Yr Iaith], 97, 189.
Cymru Fu, gol. gan I. Foulkes (*Llyfrbryf*), 1862-64, 89, 151.
Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgrahyddol, gan Owen Jones (*Meudwy Môn*), 1875, 144.
 Cynhaeaf, 4, 8, 12-13, 109 sqq.
 Cynwyd, 89, 98, 167.
 Cynwyd (*Eglwys*), 205.
 Chwalwr, 86.
 Chwareuon, 113-4, 147, 148, 161, 162, 182, 194.
Chwech canig: Cymru fu, gan "Bryfdir" [1905], 161.
 D., C. *gweler* C.D.
 Dadwaddoliad yr Eglwys, 189.
 Dafad farus, 174 sqq.
 "Dafydd Ddu Eryri," *gweler* Thomas, David.
 'Dai Shon Goch' (Chwarae), 113-4.
 Darfodedigaeth, 185.
 Darllen, 35, 44, 79, 154, 156, 157, 159, 177, 183, 207.
 Darwin, Charles, 201.
 Datgysylltiad yr Eglwys, 189.
 Davies, John (*Einion Ddu*), 107.
 Davies, John, *Mallwyd*, 148.
 Davies, John, *Nerquis*, 204.
 Davies, John (*Taliesin Hiraetbog*), 194.
 Davies, Morris (*Meurig Ebrill*), 19.
 Davies, Walter (*Gwallter Mechain*), 8.
 Davies, William, *Talybont, Ceredigion*, 151, 161, 166, 167, 168.
 Dawnsio, 153, 164-5.
 Deddfau, *gweler* Cyfreithiau.
 Deddfau'r Yd, 8, 12, 16.
 Defaid, 3, 4, 97, 142 sqq., 171.
 Defodau ac arferion, 145 sqq.
 Degwm, 22, 31, 33, 187, 189, 218-20

- "Degwm Esgob Llanelwy," 218.
 "Derfel," *gweler* Hughes, Hugh Derfel.
 Derfel, Robert Jones (*Munullog*), 80.
 Derwyddon, 160.
 Deunawiaid, 126, 214.
 "Dewi o Ddyfed," *gweler* James, David, *Lerpwl*.
 "Dewi Ogwen," *gweler* Roberts, David.
 "Dewi Wyn o Eifion," *gweler* Owen, David.
 'Dic Siôn Dafydd,' 3, 105, 125, 144.
Diddanwch Teuluaidd, gan "Huw Llangwm," 1763, 32.
Diliau Meirion, gan "Meurig Ebrill," 1854, 19.
 Dillad, 24, 83 sqq., 170-1.
Diosg Farm, gan "S.R.," 1854, 18.
 Dirprwywyr Eglwysig, *gweler Ecclesiastical Commissioners*.
 Diwydiannau, 10, 82 sqq.
 Diwygiad 1859, 181, 191, 197, 200, 205.
 Dodrefn, 63, 138-9.
 DOG WHEEL, *gweler* Olwyn gŵn.
 Dolbenmaen, 146.
 Dolgellau, 125.
Drych y cribddeiliwr, gan "Eos Iâl," 1859, 19, 149.
Drych yr amseroedd, gan Robert Jones, Rhos Lan, 1898, 147-8.
 'Drynolenbren,' 142.
 Dulyn, 122.
 "Dyfed," *gweler* Rees, Evan.
 Dyffryn Clwyd, 13, 109, 110, 127, 164.
Dyn ar y swp cerig, gan "Einion Ddu," 1887, 107.
 Dynu, 214.
 Dyrnwr, Y, 115.
Ddau efell, Y, gan "Llyfrbryf," 165.
- ECCLESIASTICAL COMMISSIONERS,
 218 sqq.
 Edeirnon, *gweler belyd* Meirionydd, *sir*, 91, 110, 165.
 Edward I., 121, 123.
 Edward II., 122.
 Edwards, *Parcb.* Dafydd, *Glan'rafon*, 208.
 Edwards, *Athro* Edward, 214.
 Edwards, Ellis, D.D., *y Bala*, 180, 207, 208, 212.
 Edwards, Jack, *Aberystwyth*, 111.
 Edwards, John, *y crydd*, 96.
 Edwards, John (*nai yr awdur*), 167.
 Edwards, *Syr* Owen Morgan, 138.
 Edwards, *Parcb.* Robert, *Llandderfel*, 208.
 Edwards, William, *Colomendy*, 110.
 Eglwys Loegr, 186, 198-9, 205, 218 sqq.
 "Einion Ddu," *gweler* Davies, John.
 Eisteddfod Genedlaethol: cyfansoddiadau:—
 1890, Bangor, 6, 160;
 1894, Caernarfon, 13;
 1895, Llanelli, 113, 170;
 1898, Blaenau Ffestiniog, 68, 99, 151, 161, 165, 168;
 1905, Aberpennar, 162.
 Eithin, malu, 141, 213, 221.
 Elian (*ffynon*), 53.
 Elias, J. (*amaethwr*), 137.
 Elias, John, 4, 23.
 "Elis o'r Nant," *gweler* Pierce, Ellis.
 "Elis Wyn o Wyrfaï," *gweler* Roberts, Ellis.
 Elizabeth, *Brenbines*, 83.
 Ellesmere, 183.
 Ellis, *Miss* Catherine (*merch y Parcb.* Humphrey Ellis), 221.
 Ellis, *Parcb.* Griffith, 211.
 Ellis, *Parcb.* Humphrey, 181, 221.
 Ellis, Jenny (*gwraig* William Ellis).
 55.
 Ellis, John, *y cerddor*, 55, 173.

- Ellis, Robert, 115.
 Ellis, Thomas Edward, *A.S.*, 30,
 77-9.
 Ellis, William (*etwythr yr awdur*), 55,
 92.
 Elton, John, 122.
 Elusendai, 36-7.
 ENCLOSURES, 22, 71 sqq.
Encyclopaedia Britannica, 11eg arg.,
 1911, 67.
 Enwadau, *gweler* Ymneilltuwyr.
 "Eos Iâl," *gweler* Hughes, Dafydd
 Erledigaeth, 28, 31.
 Eryri, 4.
 Esgidiau, 96.
 ESSEX, 124.
 Evans, Christmas, 198.
 Evans, Eli, *Dolwyddelan*, 208.
 Evans, *Parcb.* Elis, 208.
 Evan, Evan (*Ieuan Brydydd Hir*),
 153.
 Evans, Hugh, *Ty'n y Gilfach*, 194.
 Evans, John (*Gveryddon*), 39.

 Fisher, *Cangbellor* John, 83.
 FLORA, *duwies Rufeinig*, 164.
Folk lore and folk stories of Wales,
 gan M. Trevelyan, 1909, 147.
 Foulkes, Isaac (*Llyfrbryf*), 56, 151,
 166.
 Fry, Elizabeth, 80.
 FULLING MILLS, 83 sqq.

 Ffatrioedd, 24, 85.
 Ffeiriau, 22.
 Ffeltiwr, Y, 99.
 Ffenestri, 65.
 Ffermwyr, *gweler befyd* Amaethydd-
 iaeth, 21 sqq.
 Ffestiniog, 38.
 Ffoulkes, Thomas, *Tŷ Gwyn*, 215.
 Ffowc, Peter, *Tŷ Gwyn*, 59 sqq., 215,
 216.

 Ffraid, I. D., 45.
 'Ffrâm' [*b.y.*, noswaith weu], 154.
 Ffridd Garreg Fawr Syrior, Llan-
 drillo, 72.
 Ffust, Y, 106, 115, 214.
 Ffyrdd, 7, 129.

 Gafra, 44.
 GAMEKEEPER, *gweler* 'Cipar,' Y.
 GANGES, *afon*, 39.
 Gee, Thomas, 18, 24, 33.
Geiniogwerth, Y (*cylchgrawn*), 4a
Geirlyfr Cymraeg a Saesneg, gan T.
 Lewis ac eraill, 1805, 151.
 Gellioedd, 222.
 [George, David Lloyd], 39.
 Gladstone, John (*tad* W. E. Glad-
 stone), 8.
 Gladstone, William Ewart, 8.
 Glan y Gors (*cors*), 105.
 "Glasynys," *gweler* Jones, Owen
 Wynne.
Gleanings from a printer's file, gan
 Syr John Ballinger, 1928, 164.
Glimpses of Welsh life and character,
 gan M. Trevelyan, 1893, 147.
 Glo, 1-2, 10, 38, 97, 181.
 Glwad, 91, 214.
 Glyn Dyfrdwy, 167.
 "Glyn Myfyr," *gweler* Williams, Evan
 Gof, Y, 24, 97.
 Golau, Treth, 64 sqq.
Gormes y tiffeddianwyr, gan Henry
 Richard, 1853, 18.
 GREAT WESTERN RAILWAY, 62.
 Griffith, *Parcb.* William, *Abergele*,
 112, 142.
 Gruffydd yr Odyn, 47.
*Guide to the collection of Welsh By-
 gones*, gan Iorwerth C. Peate,
 1929, 80, 86, 90, 106, 111, 129,
 132, 134, 158
 Gwair, 128, 130, 140.
 "Gwallter Mechain," *gweler* Davies
 Walter,

- Gwartheg, 3, 4, 24, 43, 124-6, 136.
141, 214.
Gwas, Y, 34 sqq.
Gwedd, 104.
Gweddi, Cyfarfod, 181.
Gwehydd, 24, 90, 91.
Gweithiwr, Y, 34 sqq.
Gwenith, 4, 8, 14, 47, 109.
"Gweryddon," gweler Evans, John.
Gweu, 10-11, 83, 90, 153 sqq., 170-1,
176, 177.
"Gwilym Hiraethog," gweler Rees,
William.
*Gwilym Morgan; neu gyfeithbydd
eyntaf yr Hen Destament i'r Gym-
raeg*, gan "Elis o'r Nant," 1890, 88.
Gwladgarwr, Y (cylchgrawn), 88,
119.
Gwlân 82, sqq, 214.
Gwlana, 170 sqq., 176.
Gwrecsam, 89.
Gwrteithio, 13.
Gwthio, 72, 102 sqq.
Gwŷdd, 90.
Gwyddau, 3-4, 123-4.
Gwyddelwern, 164.
Gwyliedydd, Y (cylchgrawn), 18, 164.
Gwylmabsant., 145 sqq.
Gwylnos, 161-2.
Gwylliaid Cochion Mawddwy, 58.
Gwyntyll, 117
Gŵyr, 214.
- Haearn torri mawn, 106, 214.
Hafod Elwy, 140.
Haidd, 8, 12, 19, 115.
*Hanes medelwyr, cân, o Lyfr Cyw-
rach, Llwyd*, 1823, 114.
Harris, J. W., *Pilrotb, Llanstephan*,
134.
Haverfordwest, gweler Hwlffordd
"Hedd Molwynog," gweler Jones,
Robert Wynne.
HEIDELBERG. 147
'Hel briff,' 168.
- Hel bwyd, 37, 168, 217.
Hela, 34, 52, 75, 79, 187.
Helyntion bywyd ben Deiliwr, gan
William Rees (*Gwilym Hiraethog*),
1877, 72.
'Hen ddyn y cŵn,' 58.
Hen furddunod Llansannan, gan
"Hedd Molwynog," 1910, 64.
Hendre Ddu, 222.
Hergest, Llyfr Coch, 214.
Herwhelwyr, gweler POACHERS.
"Hiraethog," gweler Rees, William,
Hiraethog (*mynydd*), 1, 193.
History of corn milling, gan R. Ben-
net a J. Elton, 1898-1904, 122.
Holyhead, gweler Caergybi.
Hood, Thomas, 177.
Hosanau, gweler Gweu.
Hughes, Dafydd (*Eos Iâl*), 19, 149,
169.
Hughes, *Parcb*. Dafydd, *Bryneglwoys*,
208.
Hughes, Hugh Derfel (*Derfel*), 18.
Hughes, James (*Iago Pencerdd*), 46.
Hughes, *Parcb*. John, *Gwyddelwern*,
208.
Hughes, John, *Lerpwl*, 191.
Hughes, John, *Llundain*, *gynt o
Fettws y Coed*, 168.
Hughes, John, *Tyddyn Cochyn*, 209.
Hughes, Joseph, *Bootle*, 137, 213.
Hughes, Robert, *Uwchlaw'r Ffyn-
non*, 157.
Hughes, T. J. (*Adfyfr*), 31.
Hughes, Thomas, *Fron Isa*, 218
221.
Hughes, William, *Cefn Briib*, 56.
Huw Dafydd, *Cwm Eithin*, 209.
Huw Huws; neu, llafurwr Cymreig,
gan "Llew Llwyfo," 1860, 46.
"Huw Llangwm," gweler Jones
Hugh, *o Langwm*.
"Huw Myfyr," gweler Jones, Hugh.
Huws, Evan, 208.
Huws John, *Cwm Eithin*, 209.

- "Hwfa Môn," gweler Williams, Rowland.
 Hwlffordd (Haverfordwest), 127, 135
 Hwsmon, 46.
Hynafiaethau Llandegai, gan Hugh Derfel Hughes, 1866, 18.
Hynafion Cymreig, gan Peter Roberts, 1823, 163.
- "Iago Pencerdd," gweler Hughes, James.
 Iâl, Tir 128.
 Iau, Yr, 128, 129.
 Ieir, 3, 123.
 "Ieuan Brydydd Hir," gweler Evans, Evan.
 "Ieuan Gwynedd," gweler Jones, Evan.
 "Ieuan Mai," o *Faldwyn*, 111.
 Interliwdiau, 150.
Iolo Manuscripts, ail arg., Lerpwl, 1888, 122.
 "Iolo Morganwg," gweler Williams, Edward.
 "Iorwerth Glan Aled," gweler Roberts, Edward.
 Iwerddon, 4, 13.
- "Jac Glan y Gors," gweler Jones, John.
 Jac Lanfor, 52 sqq.
 Jac y Pandy, 52 sqq.
 James, David (*Dewi o Ddyfed*), 186.
 Jenkins, Mr., *Y Parciau*, 60.
 Jenkins, Robert Thomas, 18.
 Jimmie [?] Jac Lanfor, 217.
 Joe yr Henblas, 3.
 Jones, Arthur, *D.D.*, *Bangor*, 100.
 Jones, Beti, *Ceunant*, 48 sqq.
 Jones, C. R., *Llanfyllin*, 197.
 Jones, D., *Penybont*, 215, 221.
 Jones, Dan R., *Coleg y Brifysgol, Aberystwyth*, 133.
 Jones, *Parch.* David, 194.
 Jones, Syr David Brynmor, 75.
 Jones, Edward, *Aeddren*, 143.
 Jones, Elias (*Llew Hiraethog*), 194.
 Jones, Evan, *Aeddren*, 143.
 Jones, Evan (*Ieuan Gwynedd*), 24, 68, 194.
 Jones, Evan Pan, 18, 30, 35.
 Jones, Hugh (*Huw Llangwm*), 32.
 Jones, Hugh (*Huw Myfyr*), 28, 194.
 Jones, Humphrey (*Bryfdir*), 162.
 Jones, Huw, *Hendre Ddu*, 194.
 Jones, Isaac, *Hendre Ddu*, 194.
 Jones, *Parch.* Isaac, *Nantglyn* (y tad a'r mab), 208.
 Jones, J. Clark, *Mochdre*, 215 sqq.
 Jones, John (*brawd C. R. Jones, Llanfyllin*), 197.
 Jones, *Parch.* John, *Caernarfon*, 97.
 Jones, John, *Castell Dinbych*, 110.
 Jones, John, *Cynlas*, 215.
 Jones, John (*Jac Glan y Gors*), 6, 11, 18, 19, 38, 105, 118, 128, 144, 193, 215.
 Jones, John, *Geulan (saergwyn)*, 100.
 Jones, John, *Y Groesfaen*, 215.
 Jones, John (*Myrddin Fardd*), 137.
 Jones, John, *Pennmachno*, 208.
 Jones, John, *Talsarn*, 205, 208.
 Jones, John, *Tŷ Cerrig*, 215 sqq.
 Jones, Lawrence (*tad "Jac Glan y Gors"*), 6, 128.
 Jones, Lewis Davies (*Llew Tegid*), 166, 217.
 Jones, Mrs. Lewis Davies (*gweddw Llew Tegid*) 217.
 Jones, Mari, *Y Groesfaen*, 215.
 Jones, Mary, *Pentre Ffynnon*, 216.
 Jones, *Parch.* Michael Daniel, 18, 24, 28, 30, 54, 181.
 Jones, Owen (*Meudwy Môn*), 144.
 Jones, Owen Wynne (*Glasyrys*), 150-1.
 Jones, Phoebe, 12, 215, 216.
 Jones, Richard, *Dolgellau*, 120.

- Jones, Richard, *Tŷ Cerrig*, (*cefnder* "Jac Glan y Gors"), 11, 209-10, 215.
- Jones, Robert (*brawd* "Jac Glan y Gors"), 38, 128.
- Jones, Robert, *Rhos Lan*, 147, 161.
- Jones, Robert, *Tŷ Newydd*, 28, 221.
- Jones, Robert Albert, *Bargyfreithwr*, 18.
- Jones, Robert Wynne (*Hedd Mollwynog*), 64.
- Jones, *Parch.* Samuel, *Ŷ Clawdd Newydd*, 100.
- Jones, Samuel, *Pentre Ffynnon*, 216.
- Jones, Sian, *Siop Cwm Eithin*, 48, 186.
- Jones, Thomas (*bardd*), 194.
- Jones, Thomas, *Llidiart y Gwartheg*, (*torr*), 101, 102.
- Jones, Thomas, *Pen y Gaer Bach*, 215.
- Jones, Mrs. Thomas (*Sioned Roberts*), 215.
- Jones, *Athro* Thomas Gwynn, 18.
- Jones, William, *Lerpwl*, 193.
- Jones, William, *Llangollen*, 146, 156.
- Jones, Zachariah, *Cynwyd*, 125.
- Journal of a tour through North Wales in 1797*, gan A. Aikin, 127.
- Kyffin, Wynne (*wŷr yr awdur*), 133.
- Land question and a land bill*, gan R. A. Jones, 1887, 18.
- Landlordiaeth yn Nghymru*, gan T. J. Hughes (*Adfyfr*), 1887, 31.
- Laws, Edward, 134-5.
- Leisure Hour* (cylchgrawn), 89.
- Lerpwl, 7, 52, 123, 177.
- Letters and essays on Wales*, gan Henry Richard (*ail arg.*), 1884, 32.
- Lewis, Lewis William (*Llew Llwyfo*), 45-6.
- Lewis, Titus, 191.
- Lias (*y siop*), 185.
- LINKMAN, 7.
- LORD OF THE MANOR, 121.
- Lladron, 2, 83.
- Llafnffust, *gweler* Ffust.
- Llanaled, 36, 52, 73, 80, 91, 97, 185, 191, 193, 200, 211, 212.
- Llandrillo, 72.
- Llanelwy, *Esgob*, 187.
- Llanfairfechan, 112, 141, 215.
- Llanfryniau, 186, 188, 190, 196, 221
- Llangar, 99.
- Llanllonydd, 190, 198, 212.
- Llansannan, 64.
- Llansantffraid-Glyn-Dyfrdwy, 167
- Llanuwchllyn, 2, 154, 166.
- Llanymawddwy, 161.
- Llechi, 97.
- Lledr, 82.
- Llemffust, *gweler* Ffust.
- Llên-gwerin, 151, 161.
- "Llew Hiraethog," *gweler* Jones, Elias.
- "Llew Llwyfo," *gweler* Lewis, Lewis William.
- "Llew Tegid," *gweler* Jones, Lewis Davies.
- "Llewelyn Ddu o Fôn," *gweler* Morris, Lewis.
- Llidiart y Gwartheg (*Rhes o dai*), 37.
- Llifwr, 98.
- Llifo, 89, 92.
- Llin, 89-90.
- Llindy, Y, 99.
- Lloegr, 3, 4, 7.
- Lloffa, 170.
- Llongau, 8.
- Llosglo, *gweler* Marwor.
- Lloyd, John, *Bootle*, 137.
- Lloyd, John, *Ty'n y Berth*, 99.
- Llundain, 59, 105, 123, 124.
- Llwyd, Morris (*hwsmor*), 44.
- Llwyd, Simon, *Ŷ Bala*, 19.
- Llwyd, William, *Lerpwl*, 176-7.
- Llydaw 138.
- Llyfr Coch Hergest*, 214
- Llyfr Cywrach Llwyd, Blodeugerdd Cymry*, 1823, 114.

- Llyfrau, *gweler* Darllen.
 "Llyfrbryf," *gweler* Foulkes, Isaac.
 Llyfrgell Genedlaethol Cymru
 (NATIONAL LIBRARY OF WALES),
 134.
- Mabolgampau, *gweler* Chwareuon.
 Maclierwr, 98-9.
 Malu, *gweler* Melin.
 MANOR, LORD OF THE, 121.
 Marblis, Chwarae, 194.
 Marchnadoedd Cymru, 83, 94 sqq.
 Mari Wiliam, *Pen y Criglyn*, 172.
 Marwolaeth: Arferion, 161, 165, 166.
 Marwor [lloglo], 118.
 Mathias, Henry, 135.
 Maurice, Catherine, *ailwraig* John
 Jones, *Tŷ Cerrig*, 215.
 Maurice, Richard, *Penucha, Sir*
Fflint, 215 sqq.
 Mawn, 10, 63, 84, 105, 118, 141, 175,
 214.
 Medel Wenith, 112 sqq.
 Medi, *gweler* Cynhaeaf.
 Meirionydd, *sir*, 123, 151, 161, 168.
 Melin, 91, 119 sqq., 141, 213, 220.
 Merlynod, 97.
 Merthyrion y degwm, 218 sqq.
Metropolitan Police Act, 213.
 Methodistiaid Calfniaidd, 176, 181,
 197, 204 sqq.
 "Meudwy Môn," *gweler* Jones, Owen.
 "Meurig Ebrill," *gweler* Davies,
 Morris.
 Moch, 3, 4, 43.
 Môn, *sir*, 4-6, 46, 66, 122, 126, 168.
 "Mo nyn," 4.
 IMorgan, *Mr.*, *Caeau Cochion*, 60.
 IMorgan Dafydd, *Llanllonydd*, 207.
 IMorgan, *Syr* George Osborne, *A.S.*,
 28.
 IMorgan, Huw, *Rebecciad*, 3.
 Morgan, John, *Ty'n Llidiart*, 143.
 Morgan, William, *Esgob*, 88.
 Morris, Edward, *Cynwyd*, 89.
 Morris, Edward, *Pertbi Llwydion*,
 124.
 Morris, John, *T.H.*, 64.
 Morris, Lewis (*Llewelyn Ddu o Fôn*),
 32
 Morus y craswr (*cefnder* "Jac Glan
 y Gors"), 118.
 Morus y crydd, 96.
 Morynion, 43 sqq.
 "Munullog," *gweler* Derfel, Robert
 Jones.
 Mwdwl Eithin (*mynydd*), 198.
 Mwrog, *y bailiff*, 187, 219.
 Mwsoglu, 63, 102.
 Mynydd Main, 102.
 Mynydd, Rhannu'r, *gweler* ENCLOS-
 URES.
 "Myrddin Fardd," *gweler* Jones,
 John.
 Nadolig, 123.
 Nannau (Plwyf Llan Fachraith),
 120.
 Nantglyn, 19.
 Napoleon, 8
 NATIONAL LIBRARY OF WALES,
gweler Llyfrgell Genedlaethol Cym-
 ru.
 NATIONAL MUSEUM OF WALES,
gweler Amgueddfa Genedlaethol
 Cymru.
 Neithior, 163.
 'Nelars, Y,' 97.
 Newyn, 8, 11, sqq.
 Nicholas of Balcote, 122.
 Nithio, 117.
 Nodau defaid, 143.
 Noswaith bilio, 157.
 Noswaith lawen. 150 sqq.
 Noswaith weu, 153 sqq.
 Nyddu, 83, 85, sqq.
 Odyn, 118.
 Ofergoelion, 159, 160, 162, 164 sqq.
 Offerynnau amaethyddol, *gweler*
 Peiriannau.

- Olwyn ddŵr, 94, 119, 221.
 Olwyn gŵn, 134-8, 213, 220.
 ORGAN, 45.
 Owen, *Parch.* Cadwalaar, *Dotwyddelan*, 199.
 Owen, Daniel, *y nofelydd*, 56, 176
 Owen, David (*Devi Wyn o Eifion*), 34.
 Owen, *Parch.* Owen Cadwaladr, 199.
 Owen, Richard, *y diwygiwr*, 209.
 Owen, Tomos, *Tai Mawr*, 30.
- Pabwyr, 158-9.
 Pabyddion, 198.
 Pannu, 82, 91-2.
 Parry, Gabriel, *Bryn Bras*, 69.
 Parry, Dr. John, *Y Bala*, 208.
 Parry, Mari (*gwraig* Gabriel Parry), 69.
 Pasg, 168.
 Peate, Iorwerth Cyfeiliog, 134, 213, 220. *Gweler hefyd* Amgueddfa Genedlaethol Cynru.
 Pedoli :
 Gwartheg, 3, 125-6.
 Gwyddau, 3, 123.
 Ieir, 123.
 "Pedr Hir," *gweler* Williams, Peter Peiriannau, 82 sqq., 128 sqq., 221.
 Pêl droed, 194.
 Pen y Gaer, 215.
 Penillion, Canu, 151.
 Penmorfa, 146.
 Pennant, 146.
 Pennant, George Sholto Gordon Douglas, *Arglwydd Penrhyn*, 75-8
 Penrhyn, *Arglwydd, gweler* Pennan G. S. G. Douglas
 Penrhyn (*chwarel*), 105.
 Pentre Gwernrwt, 154.
 Perllan, 121.
 "Peter Llwyd o Wnodl," 18.
 Philip, Gwen, 201.
 PIANO, 45.
 Picfforch, 140.
 Pierce, Ellis (*Elis o'r Nant*), 13, 88, 201.
 Pilnos, *gweler* Noswaith Bilio.
 Piroth, Llanstephan, 134.
 Pilyn pwn, 6, 129.
 'Pitsio,' 194.
 Pladur, 109.
 Plas yn Ddol (*ffarm*), 134.
 Plastrwr, 98.
 POACHERS, 198.
 Pobi, 43.
 Pont Menai, 126.
 Pont y Glyn, 187, 219.
 Poole, Twm, 52 sqq.
 POORHOUSE, 39.
 Porthmyn, 4, 124, 126-7.
 Pregethwyr, 5, 208-9.
 Priddgolch (FULLER'S EARTH), 91.
 Prifysgol Cymru, Bwrdd Gwasg, 18.
 Priodi, 48, 163.
 Prisiau, 8, 14, 20, 24, 97, 126-7, 171, 185, 218.
Pryddest y weddw Jessebel a Nabal, gan "Eos Iâl," 1859, 19.
 Pugh, *Parch.* William, *Llandrillo*, 203-4, 208.
 Pwysgwr, 88, 214.
- "R., S.," *gweler* Roberts, Samuel. Rebeccaïd, 3.
 Rees, Evan (*Dyfed*), 4.
 Rees, William (*Gwilym Hiraethog*), 18, 24, 72, 75, 96.
 Richard, Henry, *A.S.*, 18, 32.
 Richards, Ellen, 68.
 Robert Nelar, 97.
Robert Sion o'r Gilfach, gan "Elis o'r Nant," 1894, 13, 201.
 Roberts, —, *y Botegir*, 105.
 Roberts, Catherine, *Moelfre Fawr*, 216.
 Roberts, Dafydd, *Ty'n Rhyd*, 37.
 Roberts, David (*Devi Ogwen*), 18.

- Roberts, Dr. David, *Gwreccsam*, 194.
 Roberts, E. J., *Wellington Chambers, Rhyl*, 219.
 Roberts, Edward (*Iorwerth Glan Aled*), 176, 177.
 Roberts, Edward, *Rhyl*, 112.
 Roberts, Ellis (*Elis Wyn o Wyrfaï*), 161, 221.
 Roberts, Meredyth, *Moelfre Fawr*, 216.
 Roberts, Peter, *Llanarmon*, 163.
 Roberts, Robert, *Bootle a Nantglyn*, 18, 19.
 Roberts, Robert, *Cynwyd*, 98, 99.
 Roberts, Robert, *Gwernau (torrwr cerrig)*, 107.
 Roberts, Robert, *Parc*, 208.
 Roberts, Samuel, "S.R.," 18, 24, 27, 185.
 Roberts, Sioned (Mrs. Thomas Jones), *Pen Gaer Bach*, 225.
 Roberts, Thomas (*cwper*), 100.
 Roberts, Thomas (*Scorpion*), 18.
 Roberts, Thomas, *Y Pistyll, Wrexham*, 112.
 Roch, George, *Butterhill*, 135.
 Rolant, *Parch. Dafydd, Y Bala*, 208.
 Rowlandson, Thomas, 134.
 ROYAL COMMISSIONS:—
Ancient and Historical Monuments of Wales and Monmouthshire. Vol. vi., Merioneth, 1921, 123.
Inquiry into the State of Education in Wales. Reports, 1847, 189.
Land in Wales and Monmouthshire. Minutes of Evidence, Reports, 1894-6, 75, sqq.
Royal Historical Society. Transactions, 126.
 "Runcornfab," 136.
 Rrheilffyrdd, 1, 123.
 Rrhenti, 24, 25, 72, 74, 102, 103.
 Rrhibo, 113-4.
 Rrhodd Mam [gan John Parry], 191.
 Rhufeiniaid, 122.
 Rhuthyn, 220.
 Rhuthyn (*carchar*), 3, 33, 34, 187, 218.
 Rhuthyn (*castell*), 123.
 Rhyd Olwen, 172.
 Rhŷs, *Syr John*, 79, 146, 156, 157.
 "S.R.," *gweler* Roberts, Samuel
 Sadler, Y, 24, 96.
 Saethu, 168.
 Sali, *Ty Tan y Berllan*, 210.
 Sbaeno, 110 sqq.
 "Scorpion," *gweler* Roberts, Thos.
 Seiat, Y, 200, 210.
 Seiri cerrig, 98.
 Seiri coed, 98.
 Seiri gwellt, 99-100.
 Seiri gwyn (turnal), 100.
 Senedd, Y, 8, 28, 29.
 SEPARATOR, 138.
Seren tan gwmmwl, gan "Jac Glan y Gors," 1795 (1923), 18.
 'Sgotsio,' 112.
 Sgwrio (gwllân), 82.
 Sicl, 109, 111.
 Silio, 118.
 "Sion Gynwyd" (*bardd*), 91.
 Siôn Ifan, *y Pennant*, 61.
 Siôn y Fawnog (*ffarmwr*), 21.
 Siwgr, 24.
 Skeel, *Dr. Caroline*, 82, 86, 126-7.
 'Slatar,' 98.
 Soar, *Capel*, 30.
 SOCIETY FOR THE PREVENTION OF
 CRUELTY TO ANIMALS, 213.
 Stephenson, Robert, 80.
 Stephenson, William (*saer gwellt*), 100.
 Stric, 141.
 Syth, William (*crefftwr*), 61 sqq.
 Tai, 63 sqq.
Taith y pererin, gan John Bunyan, 157.

- "Taliesin Hiraethog," gweler Dav-
 ics, John.
 Taswr, 44.
 Tatws, 12, 47, 175.
 "Tawelfryn," gweler Thomas, Chas.
 Tawelfryn.
*Tecel, sef ychydig o ganiadau gan
 ben Wr Godrau'r Mynydd*, Gab-
 riel Parry, 1854, 69.
 Teiliwr, Y, 24, 96.
 Teilo, 6.
 Teithio, 3, 6, 7, 124, 127.
 Telyn, 45, 150, 152.
 Thomas, Charles Tawelfryn (*Tawel-
 fryn*), 194.
 Thomas, David (*Dafydd Ddu Er-
 yri*), 18.
 Thomas, Syr David Lleufer, 75.
 Thomas, David Vychan, 18.
 Thomas, John, *Pandy Mawr, Llan-
 uwchllyn*, 217.
 Thomas, Dr. John Owen, 28 sqq.
 Thomas, Robert (*Ap Vychan*), 18, 93.
 Thomas, Robert, y *Llidiardau*, 180,
 208.
 Thomas Thomas, Y.H., *Dinmael*,
 218, 221-2.
 Thomas, William, *Pentrefoelas*, 45.
 Thomas, William Jenkyn, 130.
 Tîrfeddianwyr, 8, 13, 20, 21, 23, 25,
 28, 29, 32, 34, 39, 64, 68, 71 sqq.,
 74 sqq., 103, 185, 217 sqq.
 Tlodi, 74 sqq., 168, 170 sqq.
 Toi, 101 sqq.
 Tollau, 2, 3, 127.
 Torri cerrig, 106-7.
 Torri clytiau a thalpiâu, 105.
Traethbodydd [Treffynnon], (cylch-
 grawn), 166.
Traethbodydd (cylchgrawn y Method-
 istiaid Calfinaidd), 31.
 Trap i ddal dynion, 79-80.
 TREADMILL, 135, 137.
 Trefaldwyn, *sir*, 112, 143.
 Trên, gweler Rheilffyrdd.
 Trethi, 24, 64 sqq., 183.
 Trevelyan, Marie, 147.
 'Tridiau, deryn du a dau lygad
 Ebrill,' 13.
 Troedffust, gweler Ffust.
 Troell lin, 89
 Troell, wlân, 86 sqq.
 Trol, 1, 6, 7, 130.
Trysorfa y Plant (cylchgrawn) 44
 53.
 Turnal, Y, gweler Seiri gwyn.
 Twm Poole, 52 sqq.
 Tŷ Cerrig, 215.
 Tŷ Dafydd Richard (*caban unnos*).
 69.
 Tŷ John y Cwmon (*caban unnos*),
 69.
 Tŷ Twyrch (*caban unnos*), 69,
 Tyddynod, 22.
 Tylwyth Teg, 150, 155, 157.
 Tŷ'r Cyffredin, gweler *befyd* Senedd,
 Y, 72.
 Tyrpeg, gweler Tollau.
Tyst, Y (newyddiadur), 7, 29.
 Vale Royal Abbey, *sir Gaer*, 121.
 Vaughan, Edward, *Botbis, Rbyl*,
 219.
Walk through Wales, 1797, gan
 Richard Warner, 23.
 Warner, Richard, 23.
 Warrington, 7.
 Watson, James, y *crydd*, 96.
 WELSH BYGONES, gweler *Amgueddfa*
Genedlaethol Cymru.
 WELSH NOT [neu NOTE], 193, 217.
*Welsh woollen industry in the 16th
 and 17th centuries*, gan Caroline
 Skeel, 1922, 82.
*Welsh woollen industry in the 18th
 and 19th centuries*, gan Caroline
 Skeel, 1924, 82.
 Wesleaid, 199.
 Wigstead, Henry, 134.
 'Wil Bryn Hir,' 187.
 Wil Lonydd, 52 sqq.

- Wil y Cwmon, 155.
 Williams, Dafydd, *Pant y Clai*, 110.
 Williams, David (*maelierwr*), 98.
 Williams, *Parcb.* David Gorllwyn, 113, 170.
 Williams, *Parcb.* Edward, *Cyntwyd*, 208.
 Williams, Edward (*Iolo Morganwg*), 122.
 Williams, Evan (*ffeltiwr*), 99.
 Williams, Evan (*Glyn Mysyr*), 194.
 Williams, H. A., *Rbyl*, 136.
 Williams, Syr John, 134.
 Williams, *Parcb.* John, *Llandrillo*, 208.
 Williams, *Parcb.* John, *Llecheiddior*, 200.
 Williams, Peter (*Pedr Hir*), 198.
 Williams, *Parcb.* Richard, *Llewyn-ithel*, 208.
 Williams, *Parcb.* Robert, *Llanuwchllyn*, 208.
 Williams, Robert Herbert (*Corfanydd*), 7.
 Williams, Roland (*Hwfa Môn*), 197.
 Williams, Thomas, *Dinbych* (cyfieithydd *Cydymaitb i ddyddiau gwylion*), 146.
 Williams, Thomas (*ewythr yr awdur*), 38.
 Williams, Thomas (*gwotbitor*), 104.
 Williams, William (*ffeltiwr*), 99.
 Williams, William, *Gwerclas*, 205.
 Williams, William, *Pantycelyn*, 45, 200.
 Williams, William, *T Pandy, Cynwyd*, 100.
 Wills, *Barnwr*, 220.
 Windas gaws, 131, 132.
 Witsio, 53, 58, 201.
 Wyau'r Pasg, 168.
 Wyddfa, Yr. 1.
Wyddfa, Yr, gan "Glasynys" [1877], 150.
 Wynn, Ellis, 154.
 Wynn, Syr Watcyn Williams, 28, 30, 31, 217.
 Yd, 8, 11, 14, 19, 44, 47, 72, 98, 109 sqq., 115, 130.
 Yd, Deddfau'r, 12.
 Yd y gloch, 165-6.
 Ymborth, 8, 12, 14-6, 19, 35, 46 sqq., 113, 119, 155, 159, 167, 168, 171, 175-6, 185, 192, 193.
 Ymenyn, 43, 131.
 Ymneilltuwyr, 154, 186 sqq., 196 sqq., 221-2.
 Yr Alban, 143.
 Yr Almaen, 97.
 Ysbrydion, 2, 150, 156, 157.
 Ysgol, *gweler* Addysg.
 Ysgol Sul, 45, 186, 208, 210-11.
 Ystumgwern, 123.
 Ysturmant, 152.
 Ystiwartiaid, 10, 21-2, 25, 185, 217.

